

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

08/07/2015

Cynnwys Contents

- [1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi](#)
[1. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty](#)
- [2. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth](#)
[2. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport](#)
- [3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21\(iv\): Fformiwla Barnett](#)
[3. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21\(iv\): the Barnett Formula](#)
- [4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Prynwyr Tro Cyntaf](#)
[4. Welsh Conservatives Debate: First-time Buyers](#)
- [5. Cyfnod Pleidleisio](#)
[5. Voting Time](#)
- [6. Dadl Fer: Y Rhwystrau i Gyflogaeth sy'n Wynebu Pobl sydd â Nam ar y Clyw yng Nghymru](#)
[6. Short Debate: The Employment Barriers that Face People with Hearing Loss in Wales](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:29 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:29 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.

- 13:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Order, order. The National Assembly is in session. Trefn, trefn. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eistedd.
- 13:29 **1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi** **1. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty** **Y** [Senedd.tv](#)
Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Fideo](#) [Video](#)
Item 1 is questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty. Question 1, Mohammad Asghar. Eitem 1 yw'r cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Cwestiwn 1, Mohammad Asghar.
- Effeithiolrwydd Mesurau i Fynd i'r Afael â Thlodi** **The Effectiveness of Measures to Tackle Poverty**
- 13:29 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
1. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i adolygu effeithiolrwydd mesurau i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru? OAQ(4)0352(CTP) *1. What plans does the Minister have to review the effectiveness of measures to tackle poverty in Wales? OAQ(4)0352(CTP)* [Fideo](#) [Video](#)
- 13:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty [Fideo](#) [Video](#)
Thank you. We are constantly reviewing the effectiveness of our policies and programmes to ensure they are having the impact they should, and all are subject to robust evaluation. Last week, I published the second tackling poverty action plan annual report, which sets out progress towards the targets we introduced in 2013. Diolch yn fawr. Rydym yn adolygu effeithiolrwydd ein polisiau a'n rhaglenni yn barhaus i sicrhau eu bod yn cael yr effaith y dylent, ac maent i gyd yn ddarostyngedig i werthusiad cadarn. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais yr ail adroddiad blynyddol ar y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi, sy'n nodi cynnydd tuag at y targedau a gyflwynwyd gennym yn 2013.

- 13:30 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
- Thank you for the reply, Minister. The proportion of people in Wales living in relative poverty is the highest in the United Kingdom, outside London. Poverty figures in Wales are static, despite numerous initiatives since 1999, whereas poverty is declining in Scotland and the north-west of England. Will the Minister agree to review the effectiveness of Welsh Government policies to ensure they address the causes of poverty and not just the symptoms?
- Diolch am yr ateb, Weinidog. Mae cyfran y bobl yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi cymharol yn uwch nag unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig y tu allan i Lundain. Nid yw ffigurau tlodi yng Nghymru wedi symud, er gwaethaf nifer o fentrau ers 1999, ac er bod lefelau tlodi yn gostwng yn yr Alban a gogledd-orllewin Lloegr. A wnaiff y Gweinidog gytuno i adolygu effeithiolrwydd polisiâu Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag achosion tlodi ac nid y symptomau'n unig?
- 13:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
- Yes, absolutely, and we are doing that. It's really important that we know our programmes are having the impact that they should be having. We have evaluated the programmes. For instance, you'll be aware that the Communities First programme was redesigned following evaluation, and we used the evaluation that we had in order to change the programme. Evaluating the impact of interventions is absolutely fundamental to be able to understand what works, and, as a Minister, I'm absolutely committed to that.
- Gwnaf, yn bendant, ac rydym yn gwneud hynny. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gwybod bod ein rhaglenni yn cael yr effaith y dylent ei chael. Rydym wedi gwerthuso'r rhaglenni. Er enghraifft, fe fyddwch yn ymwybodol fod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei hailgynllunio yn sgil ei gwerthuso, a defnyddiwyd y gwerthusiad gennym i newid y rhaglen. Mae gwerthuso effaith ymyriadau yn gwbl hanfodol i allu deall beth sy'n gweithio, ac fel Gweinidog, rwy'n gwbl ymrwymedig i hynny.
- 13:31 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
- Firstly, can I thank the Minister for visiting the new Flying Start at Plasmarl school last week? The most effective method of tackling poverty is a living wage, full employment and the end of casualisation of work. Does the Minister agree that Flying Start and Communities First are making a huge contribution to improving the lives and life chances of many people?
- Yn gyntaf, a gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ymweld â'r cynllun Dechrau'n Deg newydd yn ysgol Plas-marl yr wythnos diwethaf? Y dull mwyaf effeithiol o drechu tlodi yw cyflog byw, cyflogaeth lawn a rhoi diwedd ar natur achlysurol gwaith. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud cyfraniad enfawr at wella bywydau a chyfleoedd bywyd llawer o bobl?
- 13:31 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
- Yes, absolutely I do. I agree that both Flying Start and Communities First are making a huge difference, as are all our anti-poverty programmes. We are seeing results now from the significant investment we've put in. They are long term. I very much enjoyed my visit with you last Thursday to the new Flying Start setting in Plasmarl. I was very impressed with the building and the facilities and the commitment of the staff.
- Ydw, rwy'n cytuno'n llwyr. Rwy'n cytuno bod Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud gwahaniaeth enfawr, fel ein holl raglenni gwrthdlodi. Rydym bellach yn gweld canlyniadau ein buddsoddiad sylweddol. Maent yn ganlyniadau hirdymor. Mwynheais yn fawr fy ymweliad gyda chi ddydd lau diwethaf â'r cynllun Dechrau'n Deg newydd ym Mhlas-marl. Gwnaeth yr adeilad a'r cyfleusterau, ac ymroddiad y staff, argraff fawr arnaf.
- 13:32 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
- Minister, you will have heard from various Assembly Members with regard to the Flying Start provision at Croeserw and Glyncoed. It seems that we're getting different versions from the council, saying that they don't intend to put in new services in those direct areas, and then Action for Children being blamed, I think, by the council, for removing their services despite the fact that they said that they would. I wonder whether you could play a mediating role here, Minister, given that Flying Start is a national policy, and also look at the formula, because we are being told by Action for Children that it doesn't allow for staff sickness or training days. And if this is a national formula, can this be amended so that charities like Action for Children can afford to run these services sustainably in the future?
- Weinidog, fe fyddwch wedi clywed gan amryw o Aelodau'r Cynulliad am y ddarpariaeth Dechrau'n Deg yng Nghroeserw a Glyncoed. Mae'n ymddangos ein bod yn cael fersiynau gwahanol oddi wrth y cyngor, sy'n dweud nad ydynt yn bwriadu darparu gwasanaethau newydd yn yr union ardaloedd hynny, a Gweithredu dros Blant yn cael y bai gan y cyngor, rwy'n meddwl, am gael gwared ar eu gwasanaethau er eu bod wedi dweud y byddent yn gwneud hynny. Tybed a allwch weithredu fel cyfryngwr yma, Weinidog, o gofio bod Dechrau'n Deg yn bolisi cenedlaethol, ac edrych ar y fformiwla hefyd, gan ein bod yn cael gwybod gan Gweithredu dros Blant nad yw'n caniatáu ar gyfer absenoldeb salwch staff neu ddiwrnodau hyfforddiant staff. Ac os yw hon yn fformiwla genedlaethol, a ellir ei diwygio er mwyn i elusennau fel Gweithredu dros Blant allu fforddio rhedeg y gwasanaethau hyn yn gynaliadwy yn y dyfodol?

13:32

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that. I am, obviously, very aware of the issues between Neath Port Talbot County Borough Council and Action for Children. It has caused some concerns locally. I did ask my officials for an update and to work very closely with Neath Port Talbot council and the Flying Start team within it. I want to see a positive outcome. I understand possibilities are being explored and I'm very happy to keep Members updated.

Diolch i chi am hynny. Yn amlwg, rwy'n ymwybodol iawn o'r materion sy'n codi rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Gweithredu dros Blant. Maent wedi achosi pryderon yn lleol. Gofynnais i fy swyddogion am y wybodaeth ddiweddaraf ac i weithio'n agos iawn gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot a thîm Dechrau'n Deg o'i fewn. Rwyf am weld canlyniad cadarnhaol. Rwy'n deall eu bod yn edrych ar y posibilïadau ac rwy'n hapus iawn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, in 2009, research conducted at Cornell University demonstrated that where a family's income is inadequate to meet their basic needs, it is significantly likely that the children of the household will experience chronic physiological stress. This stress, in turn, reduces the working memory of children, with inevitable impacts on their ability to learn. Now, I believe we can talk till the cows come home about different ways of measuring child poverty—relative poverty, material poverty, absolute poverty—but what this and many other studies have shown is that what ultimately matters is how much money is coming into the family's home. Would you agree with me, Minister, that any measure of child poverty that does not focus primarily on parental income utterly misses the point and disregards what affects a child at a fundamental physiological level, and what that child really understands, which is the experience of living in poverty?

Weinidog, yn 2009, dangosodd ymchwil a wnaed ym Mhrifysgol Cornell os yw incwm teulu yn annigonol i ddiwallu ei anghenion sylfaenol, mae'n debygol iawn y bydd plant y teulu yn profi straen ffisiolegol cronig. Mae'r straen, yn ei dro, yn lleihau cof gweithio plant, gydag effeithiau anochel ar eu gallu i ddysgu. Nawr, rwy'n credu y gallwn siarad tan Ddydd Sul y Pys am y gwahanol ffyrdd o fesur tlodi plant—tlodi cymharol, tlodi materol, tlodi absoliwt—ond yr hyn y mae'r astudiaeth hon a llawer o astudiaethau eraill wedi'i ddangos yw mai'r hyn sy'n bwysig yn y pen draw yw faint o arian sy'n dod i mewn i gartref y teulu. A fydddech yn cytuno, Weinidog, y bydd unrhyw fesur o dlodi plant nad yw'n canolbwyntio'n bennaf ar incwm rhieni yn methu'r pwynt yn llwyr ac yn diystyru'r hyn sy'n effeithio ar blentyn ar lefel ffisiolegol sylfaenol, a beth y mae'r plentyn hwnnw yn ei ddeall mewn gwirionedd, sef y profiad o fyw mewn tlodi?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, absolutely. Children live in poverty because their parents live in poverty; that's absolutely a fact. And I do recognise that poverty is multi-faceted, and it is not solely about a household's income. You'll be aware that we published our revised child poverty strategy in March of this year. That provides a definition of poverty as a long-term state of not having sufficient resources to afford food, reasonable living conditions or amenities, or to participate in activities that are taken for granted by others in society, and I think that is absolutely the definition of poverty that we base our strategy on.

Byddwn, yn hollol. Mae plant yn byw mewn tlodi am fod eu rhieni'n byw mewn tlodi; mae honno'n ffaith bendant. Ac rwy'n cydnabod bod tlodi yn amlochrog, ac nad yw'n ymwneud yn unig ag incwm aelwyd. Fe fyddwch yn ymwybodol ein bod wedi cyhoeddi ein strategaeth tlodi plant ddiwygiedig ym mis Mawrth eleni. Mae'n darparu diffiniad o dlodi fel cyflwr hirdymor o fod heb ddigon o adnoddau i fforddio bwyd, amodau byw rhesymol neu amwynderau, neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau y mae eraill yn y gymdeithas yn eu cymryd yn ganiataol, a chredaf mai dyna'n bendant yw'r diffiniad o dlodi rydym yn seilio ein strategaeth arno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It's very important that we work to look at the number of children who live in workless households, and educational attainment is very important. I'm very pleased to see that we have hit our targets in relation to free school meals, with some of the groups, and the Minister for Education and Skills is now looking at renewing those targets. When I published the tackling poverty action plan last week, it was very good to see that we have reached some of those targets.

Mae'n bwysig iawn ein bod yn gweithio i edrych ar nifer y plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith, ac mae cyrhaeddiad addysgol yn bwysig iawn. Rwy'n falch iawn o weld ein bod wedi cyrraedd ein targedau mewn perthynas â phryddau ysgol am ddim, gyda rhai o'r grwpiau, ac mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau bellach yn ystyried adnewyddu'r targedau hynny. Pan gyhoeddais y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi yr wythnos diwethaf, roedd yn dda iawn gweld ein bod wedi cyrraedd rhai o'r targedau hynny.

13:35

Gwyn R. Price [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Does the Minister believe the £12 billion worth of cuts to benefits that the UK Government has set out will assist us in tackling poverty in Wales?

A yw'r Gweinidog yn credu y bydd y gwerth £12 biliwn o doriadau i fudd-daliadau y mae Llywodraeth y DU wedi eu cyhoeddi yn ein cynorthwyo i drechu tlodi yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think I can give a very definitive answer to that, and that's 'no'. We've seen the analysis by the Institute for Fiscal Studies on the impact of the UK Coalition Government's—the previous Government—tax, welfare and benefit reforms in Wales. That suggested that it's those around the poverty line who are expected to see the largest income losses. I think their research at a UK level showed that this would push 600,000 more children into poverty. So, I think the answer to your question is absolutely 'no'.

Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU (Torfaen)

Wel, rwy'n meddwl y gallaf roi ateb pendant iawn i hynny, sef 'nac ydw'. Rydym wedi gweld y dadansoddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar effaith diwygio treth, lles a budd-daliadau Llywodraeth glymblaid y DU—y Llywodraeth flaenorol—yng Nghymru. Roedd yn awgrymu mai ymhlith y bobl sy'n agos at y ffin tlodi y disgwylir gweld y colledion mwyaf mewn incwm. Rwy'n credu bod eu hymchwil ar lefel y DU wedi dangos y byddai hyn yn gwthio 600,000 yn fwy o blant i dlodi. Felly, rwy'n meddwl mai'r ateb i'ch cwestiwn yn bendant yw 'na'.

The UK Government's Welfare Reforms (Torfaen)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effaith y mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn ei chael ar bobl sy'n byw yn Nhorfaen? OAQ(4)0367(CTP)

2. Will the Minister make a statement on the impact of the UK Government's welfare reforms on people living in Torfaen? OAQ(4)0367(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We estimate the previous UK Coalition Government's welfare reforms will reduce annual working age entitlements in Torfaen by £30 million in 2015-16. Although losses vary depending on circumstances, average annual loss per working-age adult in Torfaen is estimated at £540. The welfare cuts announced in today's budget will, unfortunately, increase these losses.

Rydym yn amcangyfrif y bydd diwygiadau lles Llywodraeth glymblaid flaenorol y DU yn torri £30 miliwn oddi ar hawliadau oedran gweithio blynyddol yn Nhorfaen yn 2015-16. Er bod y colledion yn amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau, amcangyfrifir y bydd y golled flynyddol gyfartalog i bob oedolyn o oedran gweithio yn Nhorfaen yn £540. Yn anffodus, bydd y toriadau lles a gyhoeddir yn y gyllideb heddiw yn cynyddu'r colledion hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As we speak, George Osborne is delivering his post-election budget bombshell for the people of Britain. Cuts to tax credits for hard-working families struggling on low incomes, an arbitrary benefits cap, which would see thousands more children pushed into poverty, and a Tory plan that will deepen the divide between the haves and the have-nots. Minister, would you agree with me that this further round of cuts will have a devastating impact on the communities we represent, and will you once again commit the Welsh Government to doing everything it can to mitigate the worst impact of these cuts on the poorest in our communities?

Wrth i ni siarad, mae George Osborne yn cyflwyno taranfollt ei gyllideb ôl-etholiadol i bobl Prydain. Toriadau i greydau treth i deuluoedd gweithgar sy'n ei chael hi'n anodd ar incwm isel, cap mympwyol ar fudd-daliadau a fyddai'n arwain at filoedd yn fwy o blant yn cael eu gwthio i dlodi, a chynllun Toriaidd a fydd yn dyfnhau'r rhaniad rhwng y ffodus a'r tlodion. Weinidog, a fydddech yn cytuno y bydd y cylch arall hwn o doriadau'n cael effaith ddinistriol ar y cymunedau rydym yn eu cynrychioli, ac a wnewch chi ymrwymo Llywodraeth Cymru unwaith eto i wneud popeth yn ei gallu i liniaru effeithiau gwaethaf y toriadau hyn ar y tlotaf yn ein cymunedau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Conservatives can cheer, but I don't think many people in Wales will be cheering following George Osborne's statement today. I absolutely agree with the Member for Torfaen—we are yet to know the full impact, obviously, of the welfare benefit changes being announced this afternoon. But, as part of the Queen's Speech, we already know of welfare changes to be introduced as part of the full employment and welfare benefits Bill. This is in addition to the welfare benefit areas that the UK Chancellor of the Exchequer confirmed over the weekend, and they're already under consideration for change. I'm very happy to continue to do all we can to mitigate the impact. We can't plug all the gaps, but we can certainly use the levers we have to try and protect people as much as we can. But, we are only too aware of the disproportionate impact of the welfare reform on the people of Wales.

Gall y Ceidwadwyr Cymreig gymeradwyo, ond nid wyf yn credu y bydd llawer o bobl yng Nghymru yn gweiddi hwrê yn dilyn datganiad George Osborne heddiw. Cytunaf yn llwyr â'r Aelod dros Dorfaen—rydym eto i glywed, wrth gwrs, beth fydd effaith lawn y newidiadau i'r budd-daliadau lles sy'n cael eu cyhoeddi y prynhawn yma. Ond fel rhan o Araith y Frenhines, rydym eisoes yn gwybod am y newidiadau lles sydd i'w cyflwyno'n rhan o'r Bil cyflogaeth lawn a budd-daliadau lles. Mae hyn yn ychwanegol at y meysydd budd-daliadau lles a gadarnhaodd Canghellor y DU dros y penwythnos, ac maent eisoes dan ystyriaeth ar gyfer eu newid. Rwy'n hapus iawn i barhau i wneud popeth yn ein gallu i liniaru'r effaith. Ni allwn gau'r holl fylchau ond gallwn yn sicr ddefnyddio'r dulliau sydd gennym i geisio diogelu pobl cymaint ag y gallwn. Ond rydym yn ymwybodol iawn o effaith anghymesur y diwygiadau lles ar bobl Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The latest unemployment figures from the Office for National Statistics show that wages are rising and unemployment is falling. What assessment have you made, Minister, of the revival of the economy, rather than the figures you gave us recently—or, rather, just this afternoon—in terms of the benefit to working people in Wales? The budget today demonstrates the Conservatives are the party of work, not the party of welfare.

Mae'r ffigurau diweithdra diweddaraf o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod cyflogau'n codi a lefelau diweithdra'n gostwng. Weinidog, pa asesiad a wnaethoch o adfywiad yr economi, yn hytrach na'r ffigurau a roesoch i ni yn ddiweddar—neu'n hytrach, y prynhawn yma—o ran y budd i bobl sy'n gweithio yng Nghymru? Mae'r gyllideb heddiw yn dangos mai plaid gwaith yw'r Ceidwadwyr, nid plaid lles.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm sorry you weren't at a meeting I was at last week, which was the stakeholder group of welfare reform, where we saw presentations from three organisations. The first one was Hafal, the second one was Disability Wales, and the third one was from an officer from Flintshire County Council, who'd been working on the universal credit. I have to say what they were telling us about the barriers that people are facing due to the welfare reform coming from the UK Government was preventing them getting into employment in the first place. So, whilst the work is going on that you refer to, I think we have to realise the devastating impact welfare reform is having on the people of Wales.

Wel, mae'n ddrwg gennyf nad oeddech mewn cyfarfod a fynychais yr wythnos diwethaf, sef grŵp rhanddeiliaid y diwygiadau lles, lle y cawsom gyflwyniadau gan dri sefydliad. Y cyntaf oedd Hafal, yr ail oedd Anabledd Cymru, ac roedd y trydydd gan swyddog o Gyngor Sir y Fflint a oedd wedi bod yn gweithio ar y credyd cynhwysol. Rhaid i mi ddweud beth a glywsom ganddynt am y modd y mae'r rhwystrau sy'n wynebu pobl oherwydd diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn eu hatal rhag cael gwaith yn y lle cyntaf. Felly, er bod y gwaith y cyfeiriwch ato yn digwydd, rwy'n credu bod yn rhaid i ni sylweddoli pa mor ddinistriol yw effaith diwygio lles ar bobl Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, how do you plan to deal with the Conservatives' redefinition of child poverty in Wales as part of their welfare reform agenda, and, in particular, with the answer you gave to my colleague, Lynne Neagle, about the damage that it will do to many families in Torfaen? But, specifically—and this is important for the record—will you rule out changing your anti-poverty strategy and allocation of funds, and continue to measure child poverty based on the obvious and accepted measurement based on income?

Weinidog, sut y bwriadwch ddelio ag ailddiffiniad y Ceidwadwyr o dlodi plant yng Nghymru fel rhan o'u hagenda diwygio lles, ac yn arbennig, gyda'r ateb a roesoch i fy nghyd-Aelod, Lynne Neagle, am y niwed y bydd yn ei wneud i lawer o deuluoedd yn Nhorfaen? Ond yn benodol—ac mae hyn yn bwysig ar gyfer y cofnod—a fyddwch chi'n penderfynu peidio â newid eich strategaeth wrthdlodi a dyrannu cyllid, a pharhau i fesur tlodi plant yn ôl y dull amlwg a derbyniol o fesur ar sail incwm?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will be issuing a written statement later this week. I've been considering the UK Government's statement on child poverty last week. What I want to do is highlight our considerable history of investment in policy levers that address the root causes of poverty. You'll be aware that we published our revised child poverty strategy in March. I kept the ambition to eradicate child poverty by 2020, following consultation where stakeholders were telling me that they thought it was really important that we kept that target. A great deal of good work had been done and they felt that to remove that target would be a backward step.

I can reiterate that we've consistently said that we'll use every available lever that we have to tackle child poverty in Wales and, again, that's something that came through very strongly in the consultation around the revised child poverty strategy. We need to keep focusing on the early years and we need to keep focusing on education and skills and employment. But we also need to look for ways in which we can support households here and now.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn ddiweddarach yr wythnos hon. Rwyf wedi bod yn ystyried datganiad Llywodraeth y DU ar dlodi plant yr wythnos diwethaf. Yr hyn rwyf am ei wneud yw tynnu sylw at ein hanes sylweddol o fuddsoddi mewn ysgogiadau polisi sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi. Fe fyddwch yn ymwybodol ein bod wedi cyhoeddi ein strategaeth tlodi plant ddiwygiedig ym mis Mawrth. Cedwais yr uchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020, yn dilyn ymgynghoriad lle y dywedodd y rhanddeiliaid eu bod yn ei hystyried yn hollbwysig ein bod yn cadw'r targed hwnnw. Mae llawer iawn o waith da wedi cael ei wneud ac roeddent yn teimlo y byddai cael gwared ar y targed yn gam yn ôl.

Gallaf ailadrodd ein bod wedi dweud yn gyson y byddwn yn defnyddio pob dull sydd ar gael i drechu tlodi plant yng Nghymru ac unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth a ddaeth yn amlwg iawn yn yr ymgynghoriad ar y strategaeth tlodi plant ddiwygiedig. Mae angen i ni barhau i ganolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar ac mae angen i ni barhau i ganolbwyntio ar addysg a sgiliau a chyflogaeth. Ond mae angen i ni hefyd chwilio am ffyrdd y gallwn gynorthwyo aelwydydd ar hyn o bryd.

Questions Without Notice from Party Spokespeople

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll now call the party spokespeople, and the first this afternoon is the Welsh Conservatives' spokesperson, Mohammad Asghar.

Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau, a'r cyntaf y prynhawn yma yw llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Mohammad Asghar.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Will the Minister make a statement on how the ministerial programme board has co-ordinated Welsh Government action to tackle poverty in Wales?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â sut y mae'r bwrdd rhaglen gweinidogol wedi cydlynu gweithgaredd Llywodraeth Cymru i drechu tlodi yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What I've done with the tackling poverty implementation board, and you may have heard me say this before, is I've made it much smaller. We have just a small number of senior officials from right across Government because, whilst tackling poverty is in my title, tackling poverty is a priority for every one of my ministerial colleagues. For each meeting, we bring a different Minister to the board to tell us what is happening in his or her portfolio, and, by doing that, we are able to co-ordinate our actions much more strategically.

Yr hyn a wneuthum gyda'r bwrdd gweithredu trechu tlodi, ac efallai eich bod wedi fy nghlywed yn dweud hyn o'r blaen, yw fy mod wedi ei wneud yn llawer llai o faint. Nifer fach o uwch-swyddogion o bob rhan o'r Llywodraeth sydd gennym oherwydd, er bod trechu tlodi yn rheitl fy swydd, mae trechu tlodi yn flaenoriaeth i bob un o fy nghyd-Weinidogion. Ar gyfer pob cyfarfod, rydym yn dod â gwahanol Weinidog at y bwrdd i ddweud wrthym beth sy'n digwydd yn eu portffolio, a thrwy wneud hynny, gallwn gydlynu ein gweithgarwch yn llawer mwy strategol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

People on low incomes are more likely to find themselves in homes that do not meet the decent home standard and may feel reluctant to complain for fear of eviction. What action is the Welsh Government taking to make such private tenants aware of their rights and of where to turn to for advice?

Mae pobl ar incwm isel yn fwy tebygol o ddod o gartrefi nad ydynt yn cyrraedd y Safon Tai Gwedus ac efallai'n teimlo'n gyndyn i gwyno rhag cael eu troi allan. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wneud tenantiaid preifat o'r fath yn ymwybodol o'u hawliau a gwybod ble i droi am gyngor?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:42 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We put £6 million this year into our advice services, where people can go for advice, but you'll also be aware that we're taking the Renting Homes (Wales) Bill through the Assembly at the moment. We had the general principles debate yesterday. Within that Bill, there is a proposal regarding retaliatory eviction.
- Eleni, rydym wedi darparu £6 miliwn ar gyfer ein gwasanaethau cynghori, lle y gall pobl fynd i gael cyngor, ond fe fyddwch hefyd yn gwybod ein bod yn mynd â'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd. Cawsom y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol ddoe. Yn y Bil hwnnw, ceir cynnig yn ymwneud â throi allan er mwyn dial.
- 13:42 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Recent events have emphasised the need for the police to build relationships with the Muslim community in a sensitive way to tackle extremism. What recent discussions has the Minister had with colleagues and others to ensure that the challenge of urban policing does not alienate Muslim communities in Wales?
- Mae digwyddiadau diweddar wedi pwysleisio'r angen i'r heddlu feithrin perthynas gyda'r gymuned Fwslimaidd mewn ffordd sensitif i fynd i'r afael ag eithafiaeth. Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chydweithwyr ac eraill i sicrhau nad yw her plismona trefol yn dieithrio cymunedau Mwslimaidd yng Nghymru?
- 13:42 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Extremism falls within the portfolio of the Minister for Public Services. As you're aware, I'm responsible for community cohesion, and those are discussions that I'm having with community cohesion co-ordinators, for instance, that the Welsh Government funds right across Wales.
- Mae eithafiaeth yn perthyn i bortffolio'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Fel y gwyrddoch, rwy'n gyfrifol am gydlyniant cymunedol, ac mae'r rheini'n drafodaethau rwy'n eu cael, er enghraifft, gyda chydgyssylltwyr cydlyniant cymunedol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyllido ledled Cymru.
- 13:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- And the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.
- A llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.
- 13:43 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, can you tell us what work has been carried out by your officials with social housing providers around Wales to prepare for the full roll-out of universal credit?
- Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, a allwch ddweud wrthym pa waith a wnaed gan eich swyddogion gyda darparwyr tai cymdeithasol ledled Cymru i baratoi ar gyfer cyflwyno'r credyd cynhwysol yn llawn?
- 13:43 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- That is something that my officials are working on. I mentioned that, last week, I had a presentation at the welfare reform stakeholder group from the official who has been leading on this issue in Flintshire. Flintshire County Council has been given the task of ensuring that the roll-out right across Wales is supported by training guidance from there.
- Mae hynny'n rhywbeth y mae fy swyddogion yn gweithio arno. Soniais fy mod wedi cael cyflwyniad yr wythnos diwethaf yn y grŵp rhanddeiliaid diwygio lles gan y swyddog sydd wedi bod yn arwain ar y mater hwn yn Sir y Fflint. Cyngor Sir y Fflint sydd wedi cael y dasg o sicrhau bod cyflwyno'r credyd cynhwysol ledled Cymru yn cael ei gefnogi gan arweiniad hyfforddi oddi yno.
- 13:43 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. You'll know that the Chancellor has just announced a cut in the amount of support available for rents in social housing. But, also, the big concern, of ours, is that many tenants will now get their money monthly, as opposed to weekly, and it will be paid directly to them rather than to the housing provider. There is, of course, a good synergy in terms of your portfolio with the work carried out by credit unions and with social housing to make sure that they can assist tenants in doing this. Have you put together any form of work, working with both credit unions and social housing providers, to try to make sure that we have a product or a model that can be adopted around Wales to assist in making sure that tenants do not fall into arrears as a result of these changes?
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Fe wyddoch fod y Canghellor newydd gyhoeddi toriad yn y cymorth sydd ar gael tuag at renti tai cymdeithasol. Ond hefyd, pryder mawr i ni yw y bydd llawer o denantiaid yn awr yn cael eu harian yn fisol, yn hytrach na phob wythnos, a bydd yn cael ei dalu'n uniongyrchol iddynt hwy yn hytrach nag i'r darparwr tai. Wrth gwrs, ceir synergedd da rhwng eich portffolio a'r gwaith a wnaed gan undebau credyd a'r maes tai cymdeithasol i wneud yn siŵr eu bod yn gallu helpu tenantiaid i wneud hyn. A ydych wedi cynllunio unrhyw fath o waith gydag undebau credyd a darparwyr tai cymdeithasol, er mwyn ceisio sicrhau bod gennym gynnyrch neu fodel y gellir ei fabwysiadu ledled Cymru i helpu i wneud yn siŵr nad yw tenantiaid yn mynd i ddyled o ganlyniad i'r newidiadau hyn?

- 13:44 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, we've certainly been looking at that, and I mentioned the stakeholder event and also the way that advice services can feed into that as well. So, I was very pleased, at the recent credit union conference, to see housing associations represented there, because I think it's very important, and I've mentioned that it's really important to use all of the levers that we have, and I think that bringing all these groups together is the way forward.
- Do, rydym wedi bod yn edrych ar hynny, yn sicr, a soniais am y digwyddiad rhanddeiliaid a hefyd y ffordd y gall gwasanaethau cynghori fwydo i mewn i hynny hefyd. Felly, roeddwn yn falch iawn, yn y gynhadledd undebau credyd yn ddiweddar, i weld cymdeithasau tai yn cael eu cynrychioli yno, gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig iawn, ac rwyf wedi sôn ei bod yn bwysig iawn i ddefnyddio'r holl ddulliau sydd gennym, ac rwy'n meddwl mai dod â'r holl grwpiau hyn at ei gilydd yw'r ffordd ymlaen.
- 13:44 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that. Could you give us some details then as to what work you're looking to do with credit unions to ensure that that money is paid in the rent and that tenants are assisted with it, and that they do have a number of mechanisms available to them, including pre-payment and direct debit cards as well, which can't be overdrawn, and various other things that credit unions can bring to this table. Have you actually done any detailed work in terms of that?
- Diolch i chi am hynny. A allech roi manylion i ni felly ynglŷn â pha waith rydych yn bwriadu ei wneud gydag undebau credyd i sicrhau bod yr arian yn cael ei dalu at y rhent a bod tenantiaid yn cael cymorth gyda hynny, a bod ganddynt nifer o fecanweithiau ar gael iddynt, gan gynnwys talu ymlaen llaw a chardiau debyd uniongyrchol hefyd na ellir gorgodi arnynt, ac amryw o bethau eraill y gall undebau credyd eu cynnig? A ydych chi wedi gwneud unrhyw waith manwl ar hynny?
- 13:45 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I don't think we've had detailed work. What I've asked advice services and credit unions to look at is how—. You know, first of all, we need people to know about credit unions and what credit unions offer. I think they're a bit of a well-kept secret, unfortunately, in some groups around Wales. So, it's something that, certainly, we can look at taking forward when I've had the opportunity again to have a look at what's coming out of the budget statement today.
- Nid wyf yn credu ein bod wedi cael gwaith manwl. Yr hyn y gofynnais i wasanaethau cynghori ac undebau credyd edrych arno yw sut—. Wyddoch chi, yn gyntaf oll, mae angen i bobl wybod am undebau credyd a'r hyn y mae undebau credyd yn ei gynnig. Rwy'n credu eu bod yn dipyn bach o gyfrinach, yn anffodus, ymhlith rhai grwpiau o gwmpas Cymru. Felly, yn bendant mae'n rhywbeth y gallwn ystyried ei ddatblygu pan fyddaf wedi cael cyfle eto i edrych ar yr hyn a ddaw o ddatganiad y gyllideb heddiw.
- 13:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Now Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas. Yn awr, llefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.
- 13:45 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, rŷm ni wedi clywed cryn lawer y prynhawn yma am George Osborne a bwriadau'r Trysorlys i dorri nôl ar lwfansau, ac effaith ddifäol hynny ar y bobl mwyaf bregus yn ein cymunedau ni yng Nghymru. Y realiti ydy ei bod hi'n hawdd iawn gwneud sŵn am rywbeth nad oes gennym ni unrhyw reolaeth drosto fe, nac unrhyw ddylanwad uniongyrchol arno fe. Beth yn union y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi yn ein cymunedau ni? Rŷch chi wedi gwario, dros y pedair blynedd diwethaf, £140 miliwn ar glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Beth yn union maen nhw wedi'i gyflawni?
- Minister, we have heard quite a lot this afternoon about George Osborne and the intentions of the Treasury to cut back on allowances, and the devastating impact that will have on the most vulnerable people in our communities in Wales. The reality is that it's very easy to make a noise about something that we have no control over, nor any direct influence on. What exactly is the Welsh Government doing to tackle poverty in our communities? You've spent, over the past four years, £140 million on Communities First clusters. What exactly have they achieved?

13:46

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, one of the things Communities First are doing is helping people into employment. I think it's really important that we use the Communities First clusters infrastructure. For instance, the Lift programme has delivered nearly 2,000, now, training opportunities and helped over 300 people into employment. So, I think it's really important that we continue to use the Communities First clusters. They do a great deal of work on a one-to-one basis. It's very intense, the support that is given: helping people, for instance, to do their CV so that they're ready to go and try for jobs. So, I think employability is an area where Communities First has made a real difference.

Wel, un o'r pethau y mae Cymunedau yn Gyntaf yn ei wneud yw helpu pobl i gael gwaith. Rwy'n credu ei bod hi'n dra phwysig ein bod yn defnyddio seilwaith clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Er enghraifft, mae'r rhaglen Esgyn wedi darparu bron i 2,000 o gyfleoedd hyfforddi bellach ac wedi helpu dros 300 o bobl i gael gwaith. Felly, rwy'n credu ei bod hi'n bwysig ein bod yn parhau i ddefnyddio clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Maent yn gwneud llawer iawn o waith ar sail un i un. Mae'r gefnogaeth a roddir yn ddwys iawn: mae'n helpu pobl, er enghraifft, i lunio eu CV fel eu bod yn barod i ymgeisio am swyddi. Felly, rwy'n meddwl bod cyflogadwyedd yn faes lle mae Cymunedau yn Gyntaf wedi gwneud gwahaniaeth go iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, rŷch chi wedi cyfeirio at un peth y mae £140 miliwn wedi'i gyflawni dros bedair blynedd: 300 o swyddi a chyfleoedd ar gyfer prentisiaethau. A ydych chi'n credu bod hynny yn fuddsoddiad da o £140 miliwn?

Well, you have referred to one thing that £140 million has delivered over four years: 300 jobs and apprenticeship opportunities. Do you think that's a good return on an investment of £140 million?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, that's just one thing. I think what Communities First has done is it's been our flagship tackling-poverty programme for 16 years. It's built up trust and confidence with people. I know of people who go to Communities First for assistance who perhaps wouldn't go to any other organisation. They work very closely with schools, for instance, to ensure that work is done with parents pre-school. Healthy living is another. We know that there are far more people who are having a much healthier lifestyle because of the work that Communities First have done in those areas.

Wel, un peth yn unig yw hynny. Rwy'n credu bod Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn rhaglen drechu tloidi flaenllaw ers 16 mlynedd. Mae wedi meithrin ymddiriedaeth a hyder ymhlith pobl. Gwn am bobl sy'n mynd at Cymunedau yn Gyntaf am gymorth na fyddent yn mynd at unrhyw sefydliad arall o bosibl. Maent yn gweithio'n agos iawn gydag ysgolion, er enghraifft, i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud gyda rhieni plant cyn ysgol. Mae Byw'n Iach yn un arall. Rydym yn gwybod bod gan lawer mwy o bobl ffordd o fyw lawer iachach oherwydd y gwaith y mae Cymunedau yn Gyntaf wedi ei wneud yn y meysydd hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rwyf wedi bod yn gofyn am dystiolaeth o'r hyn y mae clystyrau Cymunedau yn Gyntaf wedi'i gyflawni. Rwyf wedi cael un set o ffigurau yn unig. Mae'r gweddill yn adroddiadau rŷch chi yn eu gwneud yn gyffredinol am y gwaith y mae clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn eu gwneud. Os ydych chi wedi buddsoddi yr arian hwn mewn pedair blynedd—ac rŷm ni wedi cael 15 mlynedd o Gymunedau yn Gyntaf ar ryw ffurf neu'i gilydd—does bosib bod gan y Llywodraeth ryw ffigurau sydd yn dangos beth yn union sydd wedi'i gyflawni gan y clystyrau hynny a'r buddsoddiad enfawr yma o arian.

Minister, I've been asking for evidence of what the Communities First clusters have delivered. I've had only one set of figures. The rest are general reports that you make about the work that Communities First clusters do. If you have invested this money in four years—and we've had 15 years of Communities First in one form or another—surely the Government has some figures that show exactly what has been achieved by these clusters, and this enormous investment of money.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, absolutely. We monitor and evaluate Communities First programmes, and I can write to the Member with specific figures. I gave you one about employment and the Lift programme. I know there are 11,000 children whose educational attainment has been improved. But I can write to the Member with specific figures.

Oes, yn bendant. Rydym yn monitro a gwerthuso rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, a gallaf ysgrifennu at yr Aelod gyda ffigurau penodol. Rhoddais un i chi ar gyflogaeth a'r rhaglen Esgyn. Rwy'n gwybod bod cyrhaeddiad addysgol 11,000 o blant wedi cael ei wella. Ond gallaf ysgrifennu at yr Aelod gyda ffigurau penodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mudiadau'r Trydydd Sector (ym Maes Iechyd a Gofal)

Third Sector Organisations (Health And Care Sectors)

13:48	<p>Elin Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>3. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu mudiadau trydydd sector sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal? OAQ(4)0357(CTP)</p>	<p>3. What is the Welsh Government doing to promote third sector organisations working in the health and care sectors? OAQ(4)0357(CTP)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:48	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch. The Welsh Government encourages partnership approaches between local authorities, NHS organisations and the third sector in meeting people's needs. For example, our Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 puts a duty on local authorities to promote the third sector in the planning, design and delivery of care and support.</p>	<p>Diolch. Mae Llywodraeth Cymru yn annog dulliau o weithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, sefydliadau'r GIG a'r trydydd sector i ddiwallu anghenion pobl. Er enghraifft, mae ein Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo'r trydydd sector wrth fynd ati i gynllunio, llunio a darparu gofal a chymorth.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:49	<p>Elin Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch am yr ateb. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r gofyniad nawr i hyrwyddo, cydweithio, a chyflwyno gwasanaethau gan y trydydd sector mewn model cydweithredol, ac mae yna fudiadau yn fy etholaeth i sydd yn awyddus iawn i ddatblygu modelau cydweithredol. Rwy'n gallu meddwl am y Gymdeithas Gofal yng Ngheredigion sydd â diddordeb yn hyn. Pa fesurau ych chi'n gallu eu rhoi ar waith i roi cefnogaeth ymarferol a chefnogaeth gyllidol i'r trydydd sector i fod yn cymryd y cyfleon yma nawr i ddatblygu'r modelau newydd yma o wasanaethu?</p>	<p>Thank you for that response. The legislation does now require the promotion, collaboration, and delivery of services by the third sector in a co-operative model, and there are organisations in my constituency that are very keen to develop co-operative models. I can think of the Care Society in Ceredigion, which has a particular interest in this. What measures can you put in place to provide practical support and financial support for the third sector so that it can take these opportunities to develop these new service models?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:49	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you. Yes, as you say, the Act did put a duty on local authorities to promote social enterprises, co-operatives, user-led services and the third sector in the design and delivery of social care and support. It's intended so that the range of not-for-private-profit models in the social care sector could grow. We are putting significant money into the third sector, and I think it's really important that that partnership working is continuing to deliver quality services.</p>	<p>Diolch yn fawr. Fel y dywedwch, roedd y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector wrth gynllunio a darparu gofal cymdeithasol a chymorth. Y bwriad oedd ei gwneud yn bosibl i ystod o fodelau dielw preifat yn y sector gofal cymdeithasol allu tyfu. Rydym yn rhoi arian sylweddol i'r trydydd sector, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig sicrhau bod gwaith mewn partneriaeth o'r fath yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:50	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p>Of course, Care Forum Wales represents many other sector bodies. What dialogue have you had with them since their statement earlier this year that</p> <p>'People in Wales are not working in partnership in the way that the Joseph Rowntree Foundation has shown in other parts of the UK makes a real difference'?</p> <p>And it's vital that we 'change the DNA' in Wales to fundamentally change the way we work collaboratively. A key statement by a key trade body representing huge numbers of third sector bodies, made only recently. What have you done to engage with them regarding that?</p>	<p>Wrth gwrs, mae Fforwm Gofal Cymru yn cynrychioli nifer o gyrrff eraill y sector. Pa ddeialog a gawsoch gyda hwy ers eu datganiad yn gynharach eleni:</p> <p>'People in Wales are not working in partnership in the way that the Joseph Rowntree Foundation has shown in other parts of the UK makes a real difference'?</p> <p>Ac mae'n hanfodol ein bod yn newid y DNA yng Nghymru i newid yn sylfaenol y ffordd yr awn ati i gydweithio. Yn ddiweddar iawn, gwnaed datganiad allweddol gan gorff masnach allweddol sy'n cynrychioli nifer fawr o gyrrff y trydydd sector. Beth a wnaethoch i ymgysylltu â hwy ynglŷn â hynny?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:51	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I haven't had formal discussions with Care Forum Wales, and, as far as I'm aware, they haven't contacted me to do so, but I'd be very happy to have those conversations if they wish to do so.</p>	<p>Nid wyf wedi cael trafodaethau ffurfiol gyda Fforwm Gofal Cymru, a hyd y gwn i, nid ydynt wedi cysylltu â mi ar gyfer gwneud hynny, ond byddwn yn hapus iawn i gael trafodaethau os ydynt yn dymuno gwneud hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:51

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you're probably aware of the valuable work that's undertaken by Crossroads Care Sir Gâr, which is a network partner of the Carers Trust, delivering vital support to carers and, indeed, their families locally. You've referenced the social care and wellbeing Act and the new duties that it puts on local authorities, but there are real concerns out there in organisations such as Crossroads that they will lack, potentially, the capacity to deliver the expectations that have been put upon them. In the context, Minister, of the current climate within local government, further exacerbated by announcements in recent days, what concrete steps can the Welsh Government do to support organisations such as Crossroads to ensure their sustainability for the future?

Weinidog, mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r gwaith gwerthfawr sy'n cael ei wneud gan Gofal Croesffyrdd Sir Gâr, sef un o'r partneriaid yn rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, sy'n darparu cymorth hanfodol i ofalwyr a'u teuluoedd yn lleol. Rydych wedi cyfeirio at y Ddeddf gofal cymdeithasol a llesiant a'r dyletswyddau newydd y mae'n eu gosod ar awdurdodau lleol, ond mae pryderon gwirioneddol ar lawr gwlad mewn sefydliadau megis Croesffyrdd y byddant yn brin o allu i gyflawni'r hyn y mae disgwyl iddynt ei wneud o bosibl. Weinidog, yng nghyd-destun yr hinsawdd bresennol mewn llywodraeth leol, wedi'i waethygu ymhellach gan gyhoeddiadau yn y dyddiau diwethaf, pa gamau pendant y gall Llywodraeth Cymru eu rhoi ar waith i gefnogi sefydliadau fel Croesffyrdd i sicrhau eu cynaliadwyedd yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we do support the third sector infrastructure right across Wales, of which Crossroads is obviously a part. If there is anything specifically that they would like to discuss with me, I'd be very happy to do so.

Wel, rydym yn cefnogi'r seilwaith trydydd sector y mae Croesffyrdd yn amlwg yn rhan ohono ledled Cymru. Os oes unrhyw beth yn benodol y byddent yn hoffi ei drafod gyda mi, byddwn yn hapus iawn i wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

The United Nations Convention on the Rights of the Child

13:52

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol nad ydynt wedi ymrwymo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dal i dalu sylw iddo? OAQ(4)0353(CTP)

4. What steps is the Welsh Government taking to ensure that local authorities that have not signed up to the United Nations Convention on the Rights of the Child still pay attention to it? OAQ(4)0353(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Local authorities have legal responsibilities under the Children Act 2004, the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 and the Children and Families (Wales) Measure 2010 regarding the wellbeing and participation of children. Welsh Government guidance to local authorities refers to the UNCRC, and Welsh Government officials monitor observance.

Diolch yn fawr. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau cyfreithiol o dan Ddeddf Plant 2004, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 mewn perthynas â lles a chyfranogiad plant. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn cyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro cydymffurfiaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that helpful answer. In last week's debate, of course, on children's rights, you did say that you expected local authorities to consider the impact of funding decisions on children and young people in their communities. I gave you some examples where I thought that they perhaps weren't doing that. You've mentioned the social services and wellbeing Act, and I'm wondering whether the due-regard requirement in that particular Act—which applies, of course, very narrowly to public sector bodies—might be extended to the exercise of all those bodies' functions, pretty much as the law applies to us here.

Diolch yn fawr iawn am eich ateb defnyddiol. Yn y ddatllyth y wythnos diwethaf ar hawliau plant, fe ddywedoch eich bod yn disgwyl i awdurdodau lleol ystyried effaith penderfyniadau cyllido ar blant a phobl ifanc yn eu cymunedau. Rhoddais rai enghreifftiau lle y credwn efallai nad oeddent yn gwneud hynny. Rydych wedi crybwyll y Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol a llesiant, ac rwy'n meddwl tybed a ellid ymestyn y gofyniad am sylw dyledus yn y Ddeddf benodol honno—sy'n gymwys mewn ystyr gyfyng iawn, wrth gwrs, i gyrrff yn y sector cyhoeddus—i gynnwys arfer swyddogaethau'r holl gyrrff hynny yn debyg iawn i'r modd y mae'r gyfraith yn gymwys i ni yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes, I did ask officials to look into the points you raised during the debate last week. You will remember that the duty to have due regard to the UNCRC was put on the face of social services and wellbeing Act—and that, I think, came about from a very late amendment, but I think that is something that will be closely monitored.</p>	<p>le, gofynnais i swyddogion edrych ar y pwyntiau a godwyd gennych yn ystod y ddadl yr wythnos diwethaf. Fe gofiwch fod y ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wedi ei roi ar wyneb y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant—a daeth hynny, rwy'n credu, yn sgil gwelliant hwyr iawn, ond credaf ei fod yn rhywbeth a fydd yn cael ei fonitro'n ofalus.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:53	<p>Julie Morgan Bywgraffiad Biography</p> <p>Article 31 of the UN Convention on the Rights of the Child states that children have the right to relax and play, and to join a wide range of cultural, artistic and other recreational activities. What estimate has the Minister made of the progress by local authorities in carrying out this duty?</p>	<p>Mae Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn datgan bod gan blant hawl i orffwys a chwarae ac ymroi i ystod eang o weithgareddau adloniadol eraill, a diwylliant a'r celfyddydau. Pa amcangyfrif y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r cynnydd y mae awdurdodau lleol yn ei wneud ar gyflawni'r ddyletswydd hon?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:54	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you. Well, within my portfolio covering play, I focus on the duty of local authorities under the Children and Families (Wales) Measure 2010 to assess for and secure 'sufficient play opportunities' for children in their areas. The requirements for monitoring and reporting on progress under this duty are set out in the 'Wales—A Play Friendly Country' statutory guidance. Again, this is monitored very closely by officials.</p>	<p>Diolch yn fawr. Wel, yn fy mhortffolio sy'n ymwneud â chwarae, rwy'n canolbwyntio ar ddyletswydd awdurdodau lleol o dan y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardaloedd. Mae'r gofynion ar gyfer monitro a chyflwyno adroddiadau ar gynnydd o dan y ddyletswydd hon wedi'u nodi yng nghanllawiau statudol 'Cymru—Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae'. Unwaith eto, mae hwn yn cael ei fonitro'n agos iawn gan swyddogion.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:54	<p>Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch, Deputy Llywydd. Minister, article 27 of the UN Convention on the Rights of the Child provides that</p> <p>'Every child has the right to a standard of living that is good enough to meet their physical, social and mental needs. Governments must help families who cannot afford to provide this.'</p> <p>Minister, how does the Welsh Government think that the Conservative UK Government's emerging benefits cuts, just announced to be £19 billion by 2020, will impact on children's rights under this very important article of the convention?</p>	<p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, mae erthygl 27 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn darparu bod gan bob plentyn</p> <p>'hawl i safon byw sy'n ddigon da i fodloni ei anghenion corfforol, cymdeithasol a meddyliol. Dylai'r llywodraeth helpu'r teuluoedd hynny nad ydynt yn gallu fforddio darparu hyn.'</p> <p>Weinidog, sut y mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd toriadau newydd Llywodraeth Geidwadol y DU i fudd-daliadau, y cyhoeddwyd y byddant yn £19 biliwn erbyn 2020, yn effeithio ar hawliau plant o dan yr erthygl hynod o bwysig hon o'r confensiwn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:55	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, I mentioned in a previous answer that research carried out by the Institute of Fiscal Studies shows that families living around the poverty line, and particularly those with children, have been affected disproportionately by the UK Government's welfare reforms here in Wales. We anticipate further emerging cuts will also have a very negative impact on low-income households with children.</p>	<p>Wel, soniais mewn ateb blaenorol fod ymchwil a gyflawnwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn dangos bod teuluoedd sy'n byw'n agos at y ffin tlodi, ac yn enwedig teuluoedd â phlant, wedi cael eu heffeithio'n anghymesur gan ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU yma yng Nghymru. Rhagwelwn y bydd toriadau pellach a gyhoeddwyd hefyd yn cael effaith negyddol iawn ar aelwydydd incwm isel sydd â phlant.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Within the revised child poverty strategy, which was published in March, we specifically highlight article 27 and how this underpins one of our new strategic objectives for tackling child poverty, which is to support families living in poverty to increase household income through debt and financial advice; action to address the poverty premium, where we know households pay disproportionately more for goods and services; and also action to mitigate the impact of welfare reform. That really is about using the levers that we do have at our disposal here in Wales.

O fewn y strategaeth tlodi plant ddiwygiedig, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, rydym yn tynnu sylw at erthygl 27 yn benodol a sut y mae hyn yn sail i un o'n hamcanion strategol newydd ar gyfer trechu tlodi plant, sef cynorthwyo teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm aelwydydd drwy gyngor ar ddyledion a materion ariannol; camau i fynd i'r afael â'r premiwm tlodi, lle y gwyddom fod aelwydydd yn talu mwy ar gyfartaledd am nwyddau a gwasanaethau; a chamau hefyd i liniaru effaith diwygio lles. Mae hynny'n ymwneud â defnyddio'r dulliau sydd gennym ar gael i ni yma yng Nghymru mewn gwirionedd.

Lesddeiliaid (Torfaen)

Leaseholders (Torfaen)

13:56 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
5. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd a wnaed mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar lesddeiliaid yn Nhorfaen?
OAQ(4)0366(CTP)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

5. Will the Minister provide an update on any progress made regarding issues affecting leaseholders in Torfaen?
OAQ(4)0366(CTP)

13:56 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you. We have made good progress on this matter. A meeting was held with the main landlords affected on 1 July to discuss work programmes and payment options. The meeting was most productive, and I will be considering options over the summer recess.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch yn fawr. Rydym wedi gwneud cynnydd da ar y mater hwn. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r prif landlordiaid yr effeithir arnynt ar 1 Gorffennaf i drafod rhaglenni gwaith ac opsiynau talu. Roedd y cyfarfod yn eithriadol o gynhyrchiol, a byddaf yn ystyried yr opsiynau dros doriad yr haf.

13:56 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Minister, and can I again place on record how grateful I am that you've committed to trying to solve some of the issues facing leaseholders in Torfaen and across Wales? When I last raised this matter with you, you indicated that you'd established a small group within your department to explore various options in relation to leasehold reform, including the possibility of capping charges as they've done in England. I do appreciate the scale of the complexities involved, but there are many, many people across the country who are desperate for some kind of certainty on leasehold policy in Wales, so I would be grateful for an update on the work that you've done on that particular area.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch i chi, Weinidog, ac a gaf fi eto gofnodi fy niolch i chi am ymrwymo i geisio datrys rhai o'r materion sy'n wynebu lesddeiliaid yn Nhorfaen a ledled Cymru? Pan dynnais eich sylw at y mater ddiwethaf, fe ddywedoch eich bod wedi sefydlu grŵp bach yn eich adran i edrych ar opsiynau amrywiol mewn perthynas â diwygio cyfraith lesddaliad, gan gynnwys y posibilrwydd o gapio taliadau fel y maent wedi ei wneud yn Lloegr. Rwy'n sylweddoli cymaint o gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â hyn, ond mae llawer iawn o bobl ar draws y wlad sy'n daer am gael rhyw fath o sicrwydd ynghylch y polisi lesddaliad yng Nghymru, felly fe fyddwn yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaethoch yn y maes dan sylw.

13:57 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
You are correct: it is a very complex area, but I have now got this very small dedicated team, and they're currently working on the issues you and other Members have raised with me. I think one of the first things to do is establish the size and the nature of the problem in Wales, and that includes taking legal advice on applying the cap in Wales. We've needed to talk to social landlords about practices and the options that they offer to leaseholders. What I want to ensure is that we have the right solution here in Wales, and we don't just blindly copy what's being done in England. As I said, we've made excellent progress, particularly with social landlords, looking at how best we can respond to defend leaseholder interests. Capping charges is one possibility. So, I've asked for advice before next week, before the summer recess, and I'll be having a look at that over the summer recess.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rydych yn gywir: mae'n faes cymhleth iawn, ond bellach mae gen i'r tîm bach ymroddedig hwn, ac ar hyn o bryd maent yn gweithio ar y materion rydych chi ac Aelodau eraill wedi'u dwyn i fy sylw. Rwy'n credu mai un o'r pethau cyntaf i'w wneud yw sefydlu maint a natur y broblem yng Nghymru, ac mae hynny'n cynnwys cymryd cyngor cyfreithiol ar ddefnyddio'r cap yng Nghymru. Rydym wedi bod angen siarad â landlordiaid cymdeithasol am arferion a'r opsiynau y maent yn eu cynnig i lesddeiliaid. Yr hyn rwyf am ei sicrhau yw bod gennym yr ateb cywir yma yng Nghymru, ac nad ydym yn mynd ati'n ddall i gopio'r hyn sy'n cael ei wneud yn Lloegr. Fel y dywedais, rydym wedi gwneud cynnydd ardderchog, yn enwedig gyda landlordiaid cymdeithasol, gan edrych ar y ffordd orau o ymateb er mwyn amddiffyn buddiannau lesddeiliaid. Mae capio taliadau yn un posibilrwydd. Felly, rwyf wedi gofyn am gyngor cyn yr wythnos nesaf, cyn toriad yr haf, a byddaf yn edrych ar hynny dros doriad yr haf.

13:58 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Those are fine words, Minister, but if it weren't for the good work of the previous speaker, I don't think it would have even got this far. You know full well that, in England, these charges are capped. They are not capped in Wales, and you are prevaricating from doing so. The bill in London is over £14 million; in Wales, it's not likely to be anything like that. I appreciate it is more money for your Government to find, but leaseholders deserve exactly the same treatment as people in England.

Mae'r rheini'n eiriau teg, Weinidog, ond oni bai am waith da y siaradwr blaenorol, nid wyf yn credu y byddai wedi mynd mor bell â hyn hyd yn oed. Rydych yn gwybod yn iawn fod y taliadau hyn yn cael eu capio yn Lloegr. Nid ydynt yn cael eu capio yng Nghymru, ac rydych yn osgoi gwneud hynny. Mae'r bil yn Llundain dros £14 miliwn; yng Nghymru, nid yw'n debygol o fod yn agos at hynny. Rwy'n sylweddoli ei fod yn fwy o arian i'ch Llywodraeth ddod o hyd iddo, ond mae lesddeiliaid yn haeddu'r un driniaeth yn union â phobl yn Lloegr.

13:58 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think the Member is slightly disingenuous. The cap in England, which is known as 'Florry's law', applies only to local authorities receiving UK Government Decent Homes grant funding. It doesn't apply to housing associations. But you're quite right: Lynne Neagle has done some excellent work in relation to this. I'm very happy to look at what is coming forward from my officials, and I will consider advice over the summer.

Rwy'n credu bod yr Aelod ychydig yn anniffuant. Nid yw'r cap yn Lloegr, sy'n cael ei alw'n 'Florry's law', ond yn berthnasol i awdurdodau lleol sy'n derbyn cyllid grant Tai Gweddus Llywodraeth y DU. Nid yw'n berthnasol i gymdeithasau tai. Ond rydych yn hollol iawn: mae Lynne Neagle wedi gwneud gwaith rhagorol mewn perthynas â hyn. Rwy'n hapus iawn i edrych ar yr hyn sy'n cael ei gyflwyno gan fy swyddogion, a byddaf yn ystyried cyngor dros yr haf.

Tai Cymdeithasol Addasadwy

Adaptable Social Housing

13:58 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adeiladu tai cymdeithasol addasadwy yng Nghymru? OAQ(4)0358(CTP)

6. Will the Minister make a statement on the construction of adaptable social housing in Wales? OAQ(4)0358(CTP)

13:59 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you. The Welsh Government provides grant funding for the construction of social housing through the social housing grant and housing finance grant programmes, which include the provisions for adapted housing. Local authorities are responsible for deciding which schemes are strategic priorities for development and management by their housing association partners.

Diolch yn fawr. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ar gyfer y gwaith o adeiladu tai cymdeithasol drwy'r rhaglenni grant tai cymdeithasol a'r grant cyllid tai, sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer tai a addaswyd. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am benderfynu pa gynlluniau sy'n flaenoriaethau strategol ar gyfer eu datblygu a'u rheoli gan eu partneriaid, y cymdeithasau tai.

13:59 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. You may be aware that only 55 per cent of local authorities in Wales have an accessible housing register or similar system, and this suggests that almost half of our local authorities would struggle to answer a basic question about where disabled-friendly housing is in their authority. Even worse, some of those local authorities will be paying to install adaptations as and when they're needed and then paying to rip them out again when other families are put into the home. I wonder if the Welsh Government has given any thought to making an adaptable housing register mandatory for our local authorities, to make sure that they are meeting the obligations that they have.

Diolch yn fawr, Weinidog. Efallai y gwyddoch mai 55 y cant yn unig o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â chofrestr tai hygyrch neu system debyg, ac mae hyn yn awgrymu y byddai bron i hanner ein hawdurdodau lleol yn cael trafferth ateb cwestiwn sylfaenol ynglŷn ag argaeledd tai sy'n addas ar gyfer pobl anabl yn eu hawdurdod. Hyd yn oed yn waeth, bydd rhai o'r awdurdodau lleol hynny'n talu i wneud addasiadau lle y bo'u hangen ac yna'n talu i'w rhwygo allan wedyn pan fydd teuluoedd eraill yn cael eu rhoi yn y cartref. Tybed a yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i'w gwneud yn orfodol i'n hawdurdodau lleol gadw cofrestr o dai addasadwy er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn bodloni'r rhwymedigaethau sydd ganddynt.

- 13:59 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, it's certainly something we can look at. I'm certainly encouraging local authorities at the moment to ensure that they do have that register. I think it's really important that, when those adaptations are done, they can be further adapted, if you like, if somebody else then comes into the house. But I think an accessible register so that local authorities know what's available is really important, so, certainly, that's something we can look at.
- le, mae'n sicr yn rhywbeth y gallwn edrych arno. Rwy'n sicr yn annog awdurdodau lleol ar hyn o bryd i sicrhau bod ganddynt gofrestr o'r fath. Pan fydd addasiadau o'r fath yn cael eu gwneud, rwy'n credu ei bod yn bwysig sicrhau y gellir eu haddasu ymhellach, os mynnwch chi, os daw rhywun arall i'r tŷ wedyn. Ond rwy'n credu bod cofrestr hygyrch er mwyn i awdurdodau lleol wybod beth sydd ar gael yn bwysig iawn, felly, yn sicr, mae hynny'n rhywbeth y gallwn ei ystyried.
- 14:00 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*
- Minister, obviously, the service for adaptable social housing varies from authority to authority. You in your position, obviously, as Government can take an overview of this, and I'd be interested to know what your department is doing to make sure that there is consistency in the delivery of adaptable social housing and, in particular, I fully endorse and support the need for a register so that this can be taken forward, and I hope very much you will take that idea forward.
- Weinidog, yn amlwg, mae'r gwasanaeth ar gyfer tai cymdeithasol addasadwy yn amrywio o awdurdod i awdurdod. Yn amlwg, o ran eich safle chi fel Llywodraeth, gallwch edrych arno'n gyffredinol, a byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod beth y mae eich adran yn ei wneud i sicrhau cysondeb o ran darparu tai cymdeithasol addasadwy ac yn benodol, rwy'n llwyr gymeradwyo ac yn cefnogi'r angen am gofrestr fel bod modd symud hyn yn ei flaen, ac rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch yn datblygu'r syniad.
- 14:00 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, you will have heard my answer to Eluned Parrott. I've also, following a question that Eluned Parrott asked me in my last question session, asked all local authorities to provide me with details of their waiting lists for accessible homes and what sites they have in the pipeline to develop adaptable housing. So, when we've got all that information together, I think we'll have a much better overview of what can be provided across Wales.
- Wel, fe fyddwch wedi clywed fy ateb i Eluned Parrott. Yn dilyn cwestiwn a ofynnodd Eluned Parrott i mi yn fy sesiwn gwestiynau ddiwethaf, rwyf hefyd wedi gofyn i bob awdurdod lleol ddarparu manylion am eu rhestri aros am gartrefi hygyrch a pha safleoedd sydd ganddynt ar y gweill ar gyfer datblygu tai addasadwy. Felly, pan fydd gennym yr holl wybodaeth honno, rwy'n meddwl y gallwn gael trosolwg gwell o lawer o'r hyn y gellir ei ddarparu ar draws Cymru.
- 14:01 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, as you pointed out, adaptable social housing is critical to many of our disabled and vulnerable people. Do you agree with me that actually stopping the right to buy will ensure that adaptable housing stays within the social sector and is able to be there and not ripped out, as Eluned Parrott pointed out, but be available to people who have that need?
- Weinidog, fel y nodwyd gennych, mae tai cymdeithasol addasadwy yn hanfodol i lawer o'n pobl anabl ac agored i niwed. A ydych yn cytuno â mi y bydd atal yr hawl i brynu mewn gwirionedd yn sicrhau bod tai addasadwy yn aros o fewn y sector tai cymdeithasol ac yn gallu bod yno a pheidio â chael eu rhwygo allan, fel y nododd Eluned Parrott, a bod ar gael, yn lle hynny, ar gyfer pobl sydd eu hangen?
- 14:01 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, absolutely. Our proposals for new legislation to end the right to buy and the right to acquire will keep all social housing available for those who need it for generations to come, and that includes houses that have been adapted to suit a person's specific needs. Then, as I mentioned before, I think it's really important there's that flexibility for future adaptation also.
- Ydw, yn llwyr. Bydd ein hargymhellion ar gyfer deddfwriaeth newydd i roi terfyn ar yr hawl i brynu a'r hawl i gaffael yn cadw'r holl dai cymdeithasol ar gael i'r rhai sydd eu hangen am genedlaethau i ddod, ac mae hynny'n cynnwys tai a addaswyd ar gyfer anghenion penodol yr unigolyn. Yna, fel y crybwyllais o'r blaen, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn y ceir hyblygrwydd o'r fath ar gyfer addasu yn y dyfodol hefyd.
- 14:01 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, two years ago, the Communities, Equality and Local Government Committee recommended that you should,
- Weinidog, ddwy flynedd yn ôl, awgrymodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y dylech,

'introduce performance monitoring arrangements for all adaptation services across all tenures...and should ensure that they are accurate and transparent.'

Could you tell us, therefore, what performance monitoring you've introduced since then and when you'll be publishing the statistics on performance on StatsWales?

'introduce performance monitoring arrangements for all adaptation services across all tenures...and should ensure that they are accurate and transparent.'

A allwch ddweud wrthym, felly, pa waith monitro perfformiad a gyflwynwyd gennych ers hynny a pha bryd y byddwch yn cyhoeddi'r ystadegau perfformiad ar StatsCymru?

14:02 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are looking currently at an enhanced system for the provision of adaptations. We are engaging with stakeholders on implementing the recommendations of the recent review that was undertaken of independent living adaptations. I mentioned that we're continuing to encourage the use of registers. I think it's really also important that we look at cross-boundary work, but, if that's allowed, I'm very happy to publish statistics at any time.

Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar system well ar gyfer darparu addasiadau. Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar weithredu argymhellion yr adolygiad diweddar a gynhaliwyd o addasiadau byw'n annibynnol. Soniais ein bod yn parhau i annog y defnydd o gofrestri. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig hefyd ein bod yn edrych ar waith trawsffiniol, ond os caniateir hynny, rwy'n hapus iawn i gyhoeddi ystadegau ar unrhyw adeg.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Brwydro yn erbyn Tlodi

Combating Poverty

14:02 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn brwydro yn erbyn tlodi yng Nghymru? OAQ(4)0355(CTP)

7. How is the Welsh Government combating poverty in Wales? OAQ(4)0355(CTP)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:02 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. We are investing significantly through specific programmes and mainstream budgets to combat poverty. Our approach is based on investing where we have the levers available to make a difference with a focus on the early years of life, improving educational attainment and increasing employability.

Diolch yn fawr. Rydym yn buddsoddi'n sylweddol drwy raglenni penodol a chyllidebau prif ffrwd i ymladd tlodi. Mae ein dull yn seiliedig ar fuddsoddi lle mae gennym ddulliau ar gael i wneud gwahaniaeth, gan ganolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar mewn bywyd, gwella cyrhaeddiad addysgol a chynyddu cyflogadwyedd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:03 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. As you are, I'm sure, aware, the recent Communities, Equality and Local Government Committee report on its inquiry into poverty in Wales expressed deep concern about the Welsh Government's lack of progress in reducing poverty due, it said, at least in part, to the approach taken by the Welsh Government to date, which focuses on treating the symptoms of poverty rather than tackling the root causes. It went on to express the need for more external involvement in scrutiny and public, third, private and academic sectors. What further actions have you taken after your positive response to evidence from the Joseph Rowntree and Bevan foundations that we do need to redefine the measure of poverty in Wales, away from relative income terms to need and resources?

Diolch yn fawr. Fel y gwyddoch, rwy'n siŵr, roedd adroddiad diweddar y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei ymchwiliad i dlodi yng Nghymru yn mynegi pryder mawr ynglŷn â diffyg cynnydd Llywodraeth Cymru ar leihau tlodi, a ddeilliai, meddai, yn rhannol o leiaf, o ddull o weithredu Llywodraeth Cymru hyd yn hyn, sy'n canolbwyntio ar drin symptomau tlodi yn hytrach na mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Aeth rhagddo i fynegi'r angen am fwy o ymwneud allanol o ran craffu a'r sectorau cyhoeddus, y trydydd sector, y sector preifat a'r sector academaidd. Pa gamau pellach a roddwyd ar y gweill gennych ar ôl eich ymateb cadarnhaol i'r dystiolaeth gan sefydliad Joseph Rowntree a sefydliad Bevan fod angen i ni ailddiffinio'r dull o fesur tlodi yng Nghymru, gan gyfeirio at angen ac adnoddau yn hytrach nag incwm cymharol?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:03 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. I have, obviously, seen the committee's report. I don't agree with everything in it, but I'm certainly considering it very carefully and will be responding to the recommendations. You'll be aware that, since I came into portfolio nine months ago, we started to refresh the approach we have to ensure we are focusing relentlessly on the root causes of poverty. I think that's very important. We are building on the good work that's being delivered. I mentioned in a previous answer about the way that we're doing much more strategic work across Government to ensure that all departments and each Minister's portfolio are working towards tackling poverty.

Diolch yn fawr. Yn amlwg, rwyf wedi gweld adroddiad y pwyllgor. Nid wyf yn cytuno â phopeth sydd ynddo, ond rwy'n sicr yn ei ystyried yn ofalus iawn a byddaf yn ymateb i'r argymhellion. Ers i mi fabwysiadu'r portffolio naw mis yn ôl, fe wyddoch ein bod wedi dechrau adfywio'r dull sydd gennym o sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n ddiflino ar achosion sylfaenol tldi. Rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn. Rydym yn adeiladu ar y gwaith da sy'n cael ei gyflawni. Soniais mewn ateb blaenorol ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn gwneud gwaith llawer mwy strategol ar draws y Llywodraeth i sicrhau bod pob adran a phortffolio pob Gweinidog yn gweithio tuag at drechu tldi.

14:04 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Mewn astudiaeth ddiweddar ar ran Cyngres yr Undebau Llafur, fe nodwyd bod y cyflogau isaf yng Nghymru yn cael eu talu yng Ngwynedd. Pa effaith mae hyn wedi'i chael ar strategaeth wrthdodi'r Llywodraeth?

In a recent study on behalf of the Trades Union Congress, it was noted that the lower salaries in Wales are being paid in Gwynedd. What impact has this had on the Government's tackling poverty strategy?

14:04 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Well, clearly, household income is a matter of great importance when we're tackling poverty. In an answer to Gwenda Thomas, I was saying children live in poverty because their parents live in poverty. You'll be aware that as a Government we've done all we can to encourage public sector bodies to pay the living wage and I think we need to continue to push in that direction. It's very important that we have the jobs available for people to gain employment and I mentioned the work that Communities First has been doing in relation to employability.

Wel, yn amlwg, mae incwm y cartref yn fater o bwys mawr wrth i ni fynd ati i drechu tldi. Mewn ateb i Gwenda Thomas, roeddwn yn dweud bod plant yn byw mewn tldi am fod eu rhieni'n byw mewn tldi. Fe fyddwch yn ymwybodol ein bod ni fel Llywodraeth wedi gwneud popeth yn ein gallu i annog cyrff sector cyhoeddus i dalu'r cyflog byw ac rwy'n credu bod angen parhau i wthio i'r cyfeiriad hwnnw. Mae'n bwysig iawn fod swyddi ar gael gennym i bobl gael gwaith a soniais am y gwaith y mae Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn ei wneud o ran cyflogaeth.

Y Cynllun Gweithredu Ar Gyfer Trechu Tldi

The Tackling Poverty Action Plan

14:05 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tldi mewn perthynas â chanolbarth Cymru? OAQ(4)0360(CTP)

8. Will the Minister make a statement on the tackling poverty action plan in relation to mid Wales? OAQ(4)0360(CTP)

14:05 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. Our tackling poverty action plan covers the whole of Wales. The 2015 annual report sets new actions and commitments to better support families in rural areas. Reviewing what works in addressing rural poverty and utilising the rural development programme are examples of these commitments.

Diolch yn fawr. Mae ein cynllun gweithredu ar gyfer trechu tldi yn cwmpasu Cymru gyfan. Mae adroddiad blynyddol 2015 yn gosod camau gweithredu ac ymrwymadau newydd i gefnogi teuluoedd yn well mewn ardaloedd gwledig. Mae adolygu'r hyn sy'n gweithio o ran trechu tldi gwledig a defnyddio'r rhaglen datblygu gwledig yn enghreifftiau o'r ymrwymadau hyn.

14:05 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for your answer, Minister. The tackling poverty action plan places the provision of accessible and affordable childcare as a key priority for the Welsh Government. Therefore, would you join me in welcoming the Chancellor's announcement earlier today that he will fund 30 hours of childcare per week, doubling the existing provision in England, and will you commit the Welsh Government to following the UK Government's lead here in Wales?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tldi yn gosod darparu gofal plant hygyrch a fforddiadwy fel blaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Felly, a fydddech yn ategu fy nghroeso i gyhoeddiad y Canghellor yn gynharach heddiw y bydd yn ariannu 30 awr o ofal plant yr wythnos, gan ddyblu'r ddarpariaeth bresennol yn Lloegr, ac a wnewch chi ymrwymo fel Llywodraeth Cymru i ddilyn arweiniad Llywodraeth y DU yma yng Nghymru?

14:06	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Well, I will look at the detail and I'll look at what consequentials we have.	Wel, fe edrychaf ar y manylion a gweld pa symiau canlyniadol a gawn.	Senedd.tv Fideo Video
14:06	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Wrth edrych ar rai o'r cynlluniau gwrthdodi yn y canolbarth, mae'n amlwg bod Cymunedau'n Gyntaf yn bwysig ac yn ganolog i waith y Llywodraeth—bues i'n ymweld ag un cynllun yn ddiweddar yn Noc Penfro, er enghraifft. Ond, mae hefyd yn amlwg nad oes, bob tro, cydlyniant da rhwng yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud ym maes gwrthdodi ac ym maes addysg, sef un o'r llwybrau neu ysgolion mas o dodi. A ydych chi'n credu bod angen mwy o waith a chydlyniant rhyngoch chi a'r Gweinidogion eraill i sicrhau ein bod yn cael y gwerth ariannol gorau o'r buddsoddiad gwrthdodi yn ein cymunedau?	In looking at some of the anti-poverty schemes in mid Wales, it's clear that Communities First is very important and central to the Government's work—I visited one programme recently in Pembroke Dock, for example. But it's also clear that there isn't always good co-ordination between what the Government is doing in tackling poverty and what it's doing in education, which is one of the pathways out of poverty. Do you think there's a need for greater co-ordination between yourself and other Ministers to ensure that we do get the best value for money from the anti-poverty investment in our communities?	Senedd.tv Fideo Video
14:06	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Yes, I do. That's the reason why we changed the tackling poverty implementation board. Actually, it was the Minister for Education and Skills who was the first Minister to come along. I think we need to see more join-up, for instance, between the foundation phase and Flying Start. So, that work is currently being undertaken right across Government.	Ydw. Dyna'r rheswm pam ein bod wedi newid y bwrdd gweithredu ar gyfer trechu tlodi. A dweud y gwir, y Gweinidog Addysg a Sgiliau oedd y Gweinidog cyntaf i ddod atom. Rwy'n credu bod angen i ni weld mwy o gydgyssylltiad, er enghraifft, rhwng y cyfnod sylfaen a Dechrau'n Deg. Felly, mae'r gwaith hwnnw'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar draws y Llywodraeth.	Senedd.tv Fideo Video
14:07	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Question 9, OAQ(4)0363(CTP), has been withdrawn.	Tynnwyd cwestiwn 9, OAQ (4) 0363 (CTP), yn ôl.	Senedd.tv Fideo Video
		Question 10 is from Russell George	Daw cwestiwn 10 gan Russell George	
14:07	Russell George Bywgraffiad Biography	Question 9, is it, Chair? [Interruption.] Ten. What is the question? I'm sorry, Chair—	Onid cwestiwn 9 ydyw, Gadeirydd? [Torri ar draws.] Deg. Beth yw'r cwestiwn? Mae'n ddrwg gennyf, Gadeirydd—	Senedd.tv Fideo Video
14:07	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	We have to move on, then.	Rhaid i ni symud ymlaen, felly.	Senedd.tv Fideo Video
		<i>Ni ofynnwyd cwestiwn 10, OAQ(4)0359(CTP).</i>	<i>Question 10, OAQ(4)0359(CTP), not asked.</i>	
14:07	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Question 11, Bethan Jenkins.	Cwestiwn 11, Bethan Jenkins.	Senedd.tv Fideo Video
14:07	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	I don't know where it is.	Nid wyf yn gwybod lle mae.	Senedd.tv Fideo Video
	Dyfodol Dechrau'n Deg		The Future of Flying Start	
	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	<i>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Dechrau'n Deg? OAQ(4)0350(CTP)</i>	<i>11. Will the Minister make a statement on the future of Flying Start? OAQ(4)0350(CTP)</i>	

- 14:07 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. Flying Start remains a top priority for this Government. We are well on target to double the number of children receiving Flying Start services, which include enhanced health visiting, parenting support, speech, language and communication support, as well as free part-time childcare from 18,000 to 36,000 by the end of this Assembly term.
- Diolch yn fawr. Mae Dechrau'n Deg yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Rydym ar y trywydd iawn i ddyblu nifer y plant sy'n derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg, sy'n cynnwys gwasanaeth ymwelwyr iechyd ychwanegol, cymorth rhianta, cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu, yn ogystal â chynyddu'r nifer sy'n cael gofal plant rhan-amser am ddim o 18,000 i 36,000 erbyn diwedd cyfnod y Cynulliad hwn.
- 14:08 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I apologise. You're very efficient in getting through your questions, Minister.
- Previously, I've raised the issue with regard to Glyncoed and Croeserw Flying Start and I did mention the formula by which you determine the support that is given to Flying Start. I also mentioned the fact that Action for Children in that area could not afford the sickness and training, due to the budget. I wonder whether you would seriously consider reviewing that formula, given that it's within your remit to do so, as Minister, given that many organisations may face the same problems as Action for Children.
- Rwy'n ymddiheuro. Rydych chi'n mynd drwy eich cwestiynau'n effeithlon iawn, Weinidog.
- Yn flaenorol, crybwyllais y mater mewn perthynas â Dechrau'n Deg Glyncoed a Croeserw a soniais am y fformiwla a ddefnyddiwyd i benderfynu faint o gymorth a roddir i Dechrau'n Deg. Soniais hefyd na allai Gweithredu dros Blant yn yr ardal honno fforddio'r taliadau salwch a hyfforddiant, oherwydd y gyllideb. Tybed a fydddech yn ystyried o ddifrif adolygu'r fformiwla, o gofio ei fod o fewn eich cylch gwaith i wneud hynny, fel Gweinidog, ac o gofio efallai y gallai llawer o sefydliadau wynebu'r un problemau â Gweithredu dros Blant.
- 14:08 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Certainly, this is the first time this issue has been raised with me and I mentioned that I'd asked my officials to monitor very closely what has gone on here, because, clearly, it's been an issue between Neath Port Talbot council and the providers, Action for Children. So, certainly, depending on what advice I'm given and what the reasons behind it are, it's something that I can certainly look to do.
- Yn sicr, dyma'r tro cyntaf i'r mater hwn gael ei ddwyn i fy sylw a soniais fy mod wedi gofyn i fy swyddogion fonitro'n fanwl iawn beth sydd wedi digwydd yma, oherwydd yn amlwg, mae wedi bod yn fater rhwng Cyngor Castell-nedd Port Talbot a'r darparwyr, Gweithredu dros Blant. Felly, yn sicr, yn dibynnu ar ba gyngor a gaf a beth yw'r rhesymau sy'n sail iddo, mae'n sicr yn rhywbeth y gallaf ystyried ei wneud.
- 14:09 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Referring to the same part of the country there, it seems that the provision won't be replaced by other providers, including Action for Children, and it will be down to the council to replace providers by doing the work themselves. They themselves have said that their plans are not ideal. I also can't see any evidence that they've met your expectation to consider the impact of funding decisions on children. If Flying Start is supposed to support children and their families in their own communities, not somebody else's, would you say that, in the absence of convenient and cheap transport links in the top end of the Afan there, that a Flying Start provision in the wrong place is just an expensive version of no Flying Start at all?
- Gan gyfeirio at yr un rhan o'r wlad, mae'n ymddangos na fydd y ddarpariaeth yn cael ei chynnig gan ddarparwyr eraill, gan gynnwys Gweithredu dros Blant, a mater i'r cyngor fydd sicrhau darparwyr newydd drwy wneud y gwaith eu hunain. Maent hwy eu hunain wedi dweud nad yw eu cynlluniau yn ddelfrydol. Ni allaf weld unrhyw dystiolaeth ychwaith eu bod wedi gwneud fel y disgwyliech iddynt ei wneud ac ystyried effaith penderfyniadau cyllido ar blant. Os yw Dechrau'n Deg i fod i gefnogi plant a'u teuluoedd yn eu cymunedau eu hunain, nid cymunedau rhywun arall, yn absenoldeb cysylltiadau trafniadaeth cyfleus a rhad yn mhen uchaf Cwm Afan, oni fydddech yn dweud bod darparu Dechrau'n Deg yn y lle anghywir yn fersiwn ddud o beidio â chael Dechrau'n Deg o gwbl?
- 14:09 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think it's really important that the council looks at every possibility to replace the provider. I was initially told there were no current plans in place to provide an immediate replacement service; then I was told that there was. Now, I am reassured; my officials have given me an update just today. It's really important that my officials now work very closely with the Flying Start team at Neath Port Talbot because it's really important that I get that assurance that those services are being provided in the local community.
- Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i'r cyngor edrych ar bob posibilrwydd o ran cael darparwr newydd. Cefais wybod ar y cychwyn nad oedd unrhyw gynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaeth newydd ar unwaith; yna dywedwyd wrthyf fod cynlluniau ar y gweill. Yn awr, rwyf wedi cael sicrwydd; mae fy swyddogion wedi rhoi'r newyddion diweddaraf i mi heddiw ddiwethaf. Mae'n bwysig iawn fod fy swyddogion yn awr yn gweithio'n agos iawn gyda thîm Dechrau'n Deg yng Nghastell-nedd Port Talbot, oherwydd mae'n bwysig fy mod yn cael sicrwydd fod y gwasanaethau'n cael eu darparu yn y gymuned leol.

14:10

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I'm glad to hear that statement because, clearly, Glyncoed and Croeserw are in my constituency, and those people are being poorly affected. It's important that we get those communities and the services in those communities. But I think Bethan Jenkins highlighted a formula issue, but it's more than the formula; it's the way in which the formula is shared amongst the various strands within the local authorities. That seems to be inconsistent across Wales, because Action for Children have actually indicated that they were funded one way in Port Talbot but in a different way in Bridgend. Will you actually look at the whole consistency across Wales to ensure that, as the strands are shared out amongst Flying Start, it's actually consistent and therefore Action for Children and other organisations can actually deliver the service in all areas without the fear of trying to manage it and jiggle its staff around?

Weinidog, rwy'n falch o glywed y datganiad hwnnw, oherwydd, yn amlwg, mae Glyncoed a Chroeserw yn fy etholaeth, ac mae'r bobl hynny'n cael eu heffeithio yn wael. Mae'n bwysig ein bod yn cael y cymunedau hynny a'r gwasanaethau yn y cymunedau hynny. Ond rwy'n credu bod Bethan Jenkins wedi tynnu sylw at broblem gyda'r fformiwla, ond mae'n fwy na'r fformiwla; mae'n ymwneud â'r ffordd y mae'r fformiwla yn cael ei rhannu rhwng y gwahanol elfennau o fewn yr awdurdodau lleol. Mae hynny i'w weld yn anghyson ar draws Cymru, gan fod Gweithredu dros Blant wedi nodi mewn gwirionedd eu bod yn cael eu hariannu mewn un ffordd ym Mhort Talbot, ac mewn ffordd wahanol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. A wnech chi edrych ar gysondeb ar draws Cymru er mwyn sicrhau, wrth i'r elfennau gael eu rhannu ymysg Dechrau'n Deg, eu bod yn gyson a bod modd felly i Gweithredu dros Blant a sefydliadau eraill ddarparu'r gwasanaeth ym mhob ardal heb ofni ceisio'i reoli a symud eu staff o gwmpas?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:11

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I'm very happy to look at that, and I will update all the Members who've raised it with me.

Ydw, rwy'n hapus iawn i edrych ar hynny, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl Aelodau sydd wedi dwyn y mater i fy sylw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:11

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, with the formula, it's very important that we get that right, obviously, but there is the issue, as articulated in the letter to David Rees from the chief executive, that the council at that time were adamant that they were not able to replace Flying Start in Croeserw and Glyncoed, but were looking to put it in Cymmer instead and have parents bussed to that, which would have been massively inconvenient. You've just said that your officials have now had a different version of that. Can you give us a categorical assurance now that, as the conversation between your officials and Neath Port Talbot council, the parents in Glyncoed and Croeserw will have a Flying Start from September in their own community?

Weinidog, gyda'r fformiwla, mae'n bwysig iawn ein bod yn cael yr hawl honno, yn amlwg, ond fel y mynegwyd yn y llythyr at David Rees gan y prif weithredwr, roedd y cyngor ar y pryd yn bendant na allent gynnig Dechrau'n Deg yng Nghroeserw a Glyncoed, ond eu bod yn bwriadu ei leoli yn y Cymer yn lle hynny a chludo rhieni yno mewn bysiau, a fyddai wedi bod yn hynod o anghyfleus. Rydych newydd ddweud bod eich swyddogion bellach wedi cael fersiwn wahanol o hynny. A allwch roi sicrwydd pendant i ni yn awr, fel yr hyn a drafodwyd rhwng eich swyddogion a chyngor Castell-nedd Port Talbot, y bydd y rhieni yng Nglyncoed a Chroeserw yn cael Dechrau'n Deg yn eu cymuned eu hunain o fis Medi?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:12

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What I can give you a commitment on is that the local authority have committed to me that they will explore all possibilities. I've asked my officials to work very closely. That is the outcome I want. I can't give you that concrete assurance because it's not up to me. It's up to Neath Port Talbot, but my officials will be monitoring it very closely.

Yr hyn y gallaf roi ymrwymiad i chi yn ei gylch yw bod yr awdurdod lleol wedi ymrwymo i mi y byddant yn archwilio pob posibilrwydd. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion weithio'n agos iawn. Dyna'r canlyniad rwyf ei eisiau. Ni allaf roi'r sicrwydd pendant hwnnw i chi am nad fy lle i yw penderfynu. Mater i Gastell-nedd Port Talbot ei benderfynu ydyw, ond bydd fy swyddogion yn ei fonitro'n agos iawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mynd i'r Afael â Digartrefedd

Tackling Homelessness

14:12

Janet Haworth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

12. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0361(CTP)

12. Will the Minister outline her priorities for tackling homelessness in North Wales? OAQ(4)0361(CTP)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:12	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you. The homelessness provisions in the Housing (Wales) Act 2014 came into effect in April across Wales. My priority is effective transition to the new legislation, which will ensure anyone who is either homeless or at risk of homelessness receives the help they need. I'm supporting local authorities, including those in north Wales, with additional funding, guidance and training.</p>	<p>Diolch yn fawr. Daeth y darpariaethau digartrefedd yn Neddf Tai (Cymru) 2014 yn weithredol ar draws Cymru ym mis Ebrill. Fy mlaenoriaeth yw pontio'n effeithiol i'r ddeddfwriaeth newydd, a fydd yn sicrhau y bydd unrhyw un sydd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Rwy'n darparu cyllid, arweiniad a hyfforddiant ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol, gan gynnwys y rhai yng ngogledd Cymru.</p>
14:12	Janet Haworth Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for that, Minister. With the latest figures for homelessness showing that there has been a 5 per cent increase in people presenting as homeless being accommodated in bed and breakfast accommodation between March 2014 and 2015, what provision is there for more suitable emergency accommodation for these vulnerable adults?</p>	<p>Diolch i chi am hynny, Weinidog. Gyda'r ffigurau digartrefedd diweddaraf yn dangos cynnydd o 5 y cant yn nifer y bobl ddigartref a gafodd eu rhoi mewn llety gwely a brecwast rhwng Mawrth 2014 a 2015, pa ddarpariaeth a geir ar gyfer llety argyfwng mwy addas ar gyfer oedolion o'r fath sy'n agored i niwed?</p>
14:13	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Unfortunately, I don't think your UK Government colleagues are doing very much to help us in our battle with this. What we are doing is embedding a real culture of prevention and early intervention in our approach to homelessness. I don't want to see people inappropriately housed in bed and breakfasts, and a great deal of work has gone on with our local authorities and within our Supporting People programme to make sure that suitable provision is available.</p>	<p>Yn anffodus, nid wyf yn meddwl bod eich cydweithwyr yn Llywodraeth y DU yn gwneud fawr iawn i'n helpu yn y frwydr hon. Yr hyn rydym yn ei wneud yw ymgorffori diwylliant go iawn o atal ac ymyrryd yn gynnar yn ein dull o weithredu ar ddigartrefedd. Nid wyf am weld pobl yn cael eu cartrefu'n amhriodol mewn llety gwely a brecwast, ac mae llawer iawn o waith wedi ei gyflawni gyda'n hawdurdodau lleol ac yn ein rhaglen Cefnogi Pobl i sicrhau bod darpariaeth addas ar gael.</p>
	Gwella Ymgysylltiad â Chymunedau Sipsiwn a Theithwyr	Improving Engagement with Gypsy and Traveller Communities
14:13	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>13. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella ymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr?</i> OAQ(4)0351(CTP)</p>	<p><i>13. What plans does the Minister have to improve engagement with Gypsy and Traveller communities?</i> OAQ(4)0351(CTP)</p>
14:13	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you. 'Travelling to a Better Future', a Gypsy and Traveller framework for action, outlines the Welsh Government's approach to improving engagement with Gypsy and Traveller communities. Currently, dedicated efforts are being made to ensure that as many Gypsy and Traveller households as possible participate in the forthcoming accommodation assessments.</p>	<p>Diolch yn fawr. Mae 'Teithio at Ddyfodol Gwell', fframwaith gweithredu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, yn amlinellu dull Llywodraeth Cymru o wella ymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Ar hyn o bryd, gwneir ymdrechion ymroddgar i sicrhau bod cynifer o gartrefi Sipsiwn a Theithwyr â phosibl yn cymryd rhan yn yr asesiadau llety sydd ar ddod.</p>
14:14	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Minister. The national community cohesion delivery plan has focused on the need for Gypsy and Traveller communities to be fully engaged with local authorities in the development of any proposed new sites. Does the Minister agree with me that illegal sites, such as one in the car park at Christchurch Hill in Newport, has a detrimental effect on this process and merely increases community tensions?</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog. Mae'r cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer cydlyniant cymunedol wedi canolbwyntio ar yr angen i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr gael eu cynnwys yn llawn gan awdurdodau lleol yn y gwaith o ddatblygu unrhyw safleoedd newydd arfaethedig. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod safleoedd anghyfreithlon, megis yr un yn y maes parcio yn Christchurch Hill yng Nghasnewydd, yn cael effaith niweidiol ar y broses hon ac nad yw'n gwneud dim heblaw cynyddu tensiynau cymunedol?</p>

14:14 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes. On the incident to which you refer, I've had my officials speak with Newport City Council. They confirmed that the recent encampment has moved off the site on the evening of last Monday, 6 July. I do think it's very important that the Gypsy and Traveller community are very involved. I mentioned in my initial answer that I think it's really important that they participate as fully as possible in those accommodation assessments.

Ydw. Ynglŷn â'r digwyddiad y cyfeirwch ato, trefnais i fy swyddogion siarad â Chyngor Dinas Casnewydd. Cadarnhawyd bod y gwerysll diweddar wedi symud oddi ar y safle nos Lun diwethaf, 6 Gorffennaf. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr gael ei chynnwys yn rhan fawr o hyn. Soniais yn fy ateb gwreiddiol fy mod yn credu ei bod hi'n eithriadol o bwysig iddynt gymryd rhan mor llawn â phosibl yn yr asesiadau llety.

14:15 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I was very pleased to attend the launch of Show Racism the Red Card—the educational toolkit that they launched—on 22 June, which has been produced for youths, with Gypsy and Traveller children, in schools. The Minister herself may have been present. Does the Minister believe that this will be an effective way to engage with Gypsy and Traveller children in the schools, particularly at secondary school level?

Roeddwn yn falch iawn o fynychu lansiad Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth—y pecyn cymorth addysgol a gynhyrchwyd ganddynt—ar 22 Mehefin, ar gyfer pobl ifanc, gyda phlant Sipsiwn a Theithwyr, mewn ysgolion. Mae'n bosibl fod y Gweinidog ei hun yn bresennol. A yw'r Gweinidog yn credu y bydd hon yn ffordd effeithiol o ymgysylltu â phlant Sipsiwn a Theithwyr yn yr ysgolion, yn enwedig ar lefel ysgol uwchradd?

14:15 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, I was at the event, and I think that Show Racism the Red Card do excellent work in this area. I'm really grateful for their expertise in helping me and the Welsh Government deliver this excellent programme of work. We're also going to support Show Racism the Red Card to deliver a programme of work next year to ensure the toolkit that they launched is implemented effectively by schools.

Oeddwn, roeddwn yn y digwyddiad, a chredaf fod Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn gwneud gwaith rhagorol yn y maes. Rwy'n ddiolchgar iawn am eu harbenigedd yn fy helpu i a Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r rhaglen waith ardderchog hon. Hefyd, rydym yn mynd i gynorthwyo Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth i gyflwyno rhaglen waith y flwyddyn nesaf i sicrhau bod y pecyn adnoddau a lansiwyd ganddynt yn cael ei weithredu'n effeithiol gan ysgolion.

2. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

2. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

Trydaneiddio Prif Linell Great Western

The Electrification of the Great Western Main Line

14:16 **Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

1. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu manteisio ar drydaneiddio'r brif linell Great Western i Abertawe? OAQ(4)0583(EST)

1. How does the Welsh Government plan to capitalise on the electrification of the Great Western main line to Swansea? OAQ(4)0583(EST)

14:16 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

The Prime Minister and Secretary of State for Transport recently restated their commitment to the delivery of this project. Electrification will be a massive step forward in creating a modern railway service, supporting economic growth and linking communities to key services and employment.

Yn ddiweddar, cadarnhaodd y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth eu hymrwymiad i ddarparu'r prosiect hwn. Bydd trydaneiddio yn gam enfawr ymlaen o ran creu gwasanaeth rheilffordd modern, cefnogi twf economaidd a chysylltu cymunedau â gwasanaethau allweddol a chyflogaeth.

14:16	Altaf Hussain Bywgraffiad Biography	<p>Thank you, Minister. While the metro will bring huge benefits to Cardiff and the Valleys, it does little to improve transport links in Swansea and further west. What's your Government doing to ensure that Swansea benefits not only from improvements to the main line, but wider transport improvements?</p>	<p>Diolch yn fawr, Weinidog. Er y bydd y metro yn sicrhau manteision enfawr i Gaerdydd a'r Cymoedd, nid yw'n gwneud llawer i wella cysylltiadau trafnidiaeth yn Abertawe ac ymhellach i'r gorllewin. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod Abertawe yn cael budd, nid yn unig o welliannau i'r brif reilffordd, ond o welliannau ehangach i drafnidiaeth?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:16	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	<p>Our draft national transport plan interventions include improvements to strategic road infrastructure and a commitment to work with the UK Government and the rail industry to modernise the rail network, including electrification. When we move to deal with the franchise in terms of the new franchise that's coming, we will hope to see improvements to west Wales.</p>	<p>Mae ymyriadau ein cynllun trafnidiaeth cenedlaethol drafft yn cynnwys gwelliannau i'r seilwaith ffyrdd strategol ac ymrwymiad i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r diwydiant rheilffyrdd i foderneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd, gan gynnwys trydaneiddio. Pan fyddwn yn ymdrin â'r fasnachfrait o ran y fasnachfrait newydd sy'n dod, byddwn yn gobeithio gweld gwelliannau i orllewin Cymru.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:17	Mike Hedges Bywgraffiad Biography	<p>Does the Minister agree that electrification of the rail line to Swansea, and the resulting high-speed rail link, is just part of a package that includes good road links, fast broadband and a highly educated and skilled workforce, which will bring employers to Swansea?</p>	<p>A yw'r Gweinidog yn cytuno mai rhan yn unig fydd trydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe, a'r cyswllt rheilffordd cyflym yn ei sgil, o becyn sy'n cynnwys cysylltiadau ffordd da, band eang cyflym a gweithlu addysgedig a medrus iawn, a fydd yn dod â chyflogwyr i Abertawe ?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:17	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	<p>I can give three yeses to your question, to all of them. I think that it's important to note that the Deputy Minister yesterday outlined the benefits of the Superfast Cymru programme. Skills are fundamental to improving what we can do in Wales. In terms of what we are doing in terms of infrastructure with roads, that's also particularly important, because it will help connectivity across Wales.</p>	<p>Gallaf roi tri ateb cadarnhaol i'ch cwestiwn, i bob un ohonynt. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig nodi bod y Dirprwy Weinidog wedi amlinellu manteision rhaglen Cyflymu Cymru ddoe. Mae sgiliau'n hanfodol i wella'r hyn y gallwn ei wneud yng Nghymru. O ran yr hyn rydym yn ei wneud ar y seilwaith ffyrdd, mae hynny'n arbennig o bwysig hefyd, gan y bydd yn hybu cysylltedd ar draws Cymru.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:17	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography	<p>Minister, you will be aware that Great Western electrification has caused disruption on bridge works in south Wales, and the Windsor bridge closure was an absolute debacle in the centre of Cardiff. Clearly, as we look forward to electrification moving through Wales, we will see further disruptions, and I'm particularly thinking of the Beresford Road bridge between Splott and Adamsdown in Cardiff. What can you do to make sure that disruption is minimised to ensure that the residents of Cardiff can get on with their daily lives while we're waiting for these fantastic improvements?</p>	<p>Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol fod trydaneiddio Great Western wedi achosi tarfu ar waith ar bontydd yn ne Cymru, ac roedd cau pont Windsor yn llanast llwyr yng nghanol Caerdydd. Yn amlwg, wrth i ni edrych ymlaen at weld trydaneiddio yn symud drwy Gymru, byddwn yn gweld tarfu pellach, ac rwy'n meddwl yn benodol am bont Beresford Road rhwng Sblot ac Adamsdown yng Nghaerdydd. Beth y gallwch ei wneud i sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu er mwyn gwneud yn siŵr y gall trigolion Caerdydd barhau â'u bywydau bob dydd tra byddwn yn aros am y gwelliannau gwych hyn?</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:18	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	<p>I can assure you that ourselves as a Government, and the UK Government, understand the frustration about issues around the way things have been delivered by Network Rail, and I can give you my absolute assurance that these issues will be continually raised. We can't afford the type of delays and chaos that we have seen with some of these projects.</p>	<p>Gallaf eich sicrhau ein bod ni fel Llywodraeth, a Llywodraeth y DU, yn deall y rhwystredigaeth ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r ffordd y mae pethau wedi cael eu cyflawni gan Network Rail, a gallaf roi fy sicrwydd llwyr y byddant yn cael eu trafod yn gyson. Ni allwn fforddio'r math o oedi ac anhrefn a welwyd gyda rhai o'r prosiectau hyn.</p>	Senedd.tv Fideo Video
14:18	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>Question 2, Bethan Jenkins.</p>	<p>Cwestiwn 2, Bethan Jenkins.</p>	Senedd.tv Fideo Video

14:18	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography I've got it this time.	Mae'r cwestiwn gennyf y tro hwn. Senedd.tv Fideo Video
	Tata Steel	Tata Steel
	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography <i>2. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am unrhyw drafodaethau diweddar a gynhaliwyd gyda Tata Steel? OAQ(4)0582(EST)</i>	<i>2. Will the Minister update the Assembly on any recent talks held with Tata Steel? OAQ(4)0582(EST)</i>
14:18	Edwina Hart Bywgraffiad Biography I hold regular meetings with Tata Steel. The subjects of these discussions are commercial in confidence.	Rwy'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Tata Steel. Mae pynciau'r trafodaethau hyn yn fasnachol gyfrinachol. Senedd.tv Fideo Video
14:18	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography Okay. Having spoken with some steelworkers recently, it's clear they're still divided over whether to accept the new proposals. Their principal concern is that the workforce would be expected to work to the age of 25—sorry, 65; 25 would be quite different—in a dangerous environment, citing a comparison to the recent argument over raising the retirement age for firefighters. They're also worried that, if they agree to these proposals, Tata could come back in a couple of years and close the final salary scheme anyway, forcing everybody to work until they're 65 years old. I hear what you say in terms of confidentiality, but have you heard of those concerns, and are you raising them with Tata?	Iawn. Ar ôl siarad gyda gweithwyr dur yn ddiweddar, mae'n amlwg eu bod yn parhau'n rhanedig ynglŷn â derbyn y cynigion newydd. Eu prif bryder yw y byddai disgwyl i'r gweithlu weithio nes eu bod yn 25 oed—mae'n ddrwg gennyf, 65 oed; byddai 25 yn wahanol iawn—mewn amgylchedd peryglus, a chyfeiriwyd at y gymhariaeth â'r ddadl ddiweddar dros godi'r oedran ymddeol ar gyfer diffoddwyr tân. Maent hefyd yn poeni, os cytunant i'r cynigion hyn, y gallai Tata gau'r cynllun cyflog terfynol beth bynnag mewn blwyddyn neu ddwy, gan orfodi pawb i weithio nes eu bod yn 65 oed. Rwy'n clywed yr hyn a ddywedwch o ran cyfrinachedd, ond a ydych wedi clywed y pryderon hynny, ac a ydych yn eu dwyn i sylw Tata? Senedd.tv Fideo Video
14:19	Edwina Hart Bywgraffiad Biography I'm obviously aware of the concerns of the Tata workforce, as, of course, I am actively engaged on a regular basis with the trade unions in discussions.	Rwy'n amlwg yn ymwybodol o bryderon gweithlu Tata, ac wrth gwrs, rwy'n ymgysylltu'n rheolaidd â'r undebau llafur mewn trafodaethau. Senedd.tv Fideo Video
14:19	David Rees Bywgraffiad Biography Minister, obviously the issues in Tata and the current situation with the pensions dispute have raised some concerns about the viability and the long-term sustainability of the plant, and the investment from Tata into the plant. When the First Minister visited India, he came back with the comment that there was £800 million to be invested in the steel industry by Tata. We've seen some of that investment: blast furnace No. 4 four is a clear example of that. Have you had discussions as to when that further investment will take place in Tata, and particularly to ensure that the steel industry remains an anchor industry here in south Wales?	Weinidog, yn amlwg mae'r problemau yn Tata a'r sefyllfa bresennol gyda'r anghydfod pensiynau wedi creu rhai pryderon ynghylch hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor y safle, a buddsoddiad Tata yn y safle. Pan ymwelodd y Prif Weinidog ag India, dychwelodd gyda'r sylw fod gan Tata £800 miliwn i'w fuddsoddi yn y diwydiant dur. Rydym wedi gweld peth o'r buddsoddiad hwnnw: mae ffwrnais chwyth rhif 4 yn enghraifft amlwg ohono. A ydych wedi cael trafodaethau ynglŷn â pha bryd y bydd buddsoddiad pellach yn digwydd yn Tata, ac yn arbennig i sicrhau bod y diwydiant dur yn parhau i fod yn ddiwydiant angori yma yn ne Cymru? Senedd.tv Fideo Video
14:20	Edwina Hart Bywgraffiad Biography Yes, we want to help Tata maintain and grow its business in Wales and we'll continue to investigate ways that we can assist them with any proposed investments by the company and we have an open dialogue on a commercial-in-confidence basis.	Do, rydym eisiau helpu Tata i gynnal a thyfu ei fusnes yng Nghymru, a byddwn yn parhau i archwilio ffyrdd o'u cynorthwyo gydag unrhyw fuddsoddiadau arfaethedig gan y cwmni ac mae gennym ddeialog agored ar sail fasnachol gyfrinachol. Senedd.tv Fideo Video

- 14:20 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Tidal Lagoon Swansea Bay, of course, has recently been granted permissions from the UK Government, and, if other licences and requirements are forthcoming, then work on the lagoon in Swansea bay will start as early as this autumn, finishing by 2018. That coincides with Tata Steel's plans to build their new power station. Both projects have indicated that the transportation of materials will take place via local roads and ports. What discussions have you had on the potential impact of the two projects running side by side and how disruption to the local transport infrastructure could be kept to a minimum?
- Mae Tidal Lagoon Swansea Bay, wrth gwrs, wedi cael caniatadau gan Lywodraeth y DU yn ddiweddar, ac os daw trwyddedau a gofynion eraill i'w rhan, yna bydd gwaith ar y morlyn ym mae Abertawe yn dechrau mor gynnar â'r hydref hwn, gan orffen erbyn 2018. Mae hynny'n cyd-fynd â chynlluniau Tata Steel i adeiladu eu gorsaf bŵer newydd. Mae'r ddau brosiect wedi nodi y bydd cludo deunyddiau'n digwydd ar hyd ffyrdd a thrwy borthladdoedd lleol. Pa drafodaethau a gawsoch ynghylch effaith bosibl y ddau brosiect yn rhedeg ochr yn ochr a sut y gellid sicrhau cyn lleied ag y bo modd o darfu ar y seilwaith trafniadaeth lleol?
- 14:21 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Obviously, there are issues about having a new energy plant there. It will require planning permission and the Welsh Government is a statutory consultee, of course, in that process. The first stage is to undertake a comprehensive design and engineering study, and the Welsh Government has been prepared to help towards that, which we are doing. With regard to the tidal lagoon, I'll be having further discussions with the UK Government about the tidal lagoon and how we'll be able to assist in what ways we can.
- Yn amlwg, mae materion yn codi ynglŷn â chael safle ynni newydd yno. Bydd yn galw am ganiatâd cynllunio ac mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori statudol yn y broses honno wrth gwrs. Y cam cyntaf yw cynnal astudiaeth gynllunio a pheirianeg gynhwysfawr, ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn barod i helpu tuag at hynny, ac rydym yn gwneud hynny. O ran y morlyn llanw, byddaf yn cael trafodaethau pellach gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'r morlyn llanw a sut y gallwn helpu ym mha ffyrdd bynnag y gallwn.
- 14:21 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you'll have heard the regrettable news regarding the closure of Mabey Bridge, a quality steel supplier, which is a customer of Tata Steel, following their failure to sell the business as a going concern. The chairman of Mabey Bridge, Juliette Stacey, has cited the current uncertainty of market conditions for the UK onshore renewable sector, following the recent announcements by the Conservative Government in that regard. Minister, what positive messages can the Welsh Government set out, and what positive action can be undertaken, to reassure such companies that the renewable sector is still something that enjoys the support and confidence of the Welsh Government to secure the sector?
- Weinidog, fe fyddwch wedi clywed y newyddion anffodus ynglŷn â chau Mabey Bridge, cyflenwr dur o ansawdd, sy'n gwsmer i Tata Steel, yn dilyn eu methiant i werthu'r cwmni fel busnes gweithredol. Mae cadeirydd Mabey Bridge, Juliette Stacey, wedi nodi ansicrwydd presennol ynghylch cyflwr y farchnad yn y sector ynni adnewyddadwy ar y tir yn y DU yn dilyn y cyhoeddiadau diweddar gan y Llywodraeth Geidwadol ar hynny. Weinidog, pa negeseuon cadarnhaol y gall Llywodraeth Cymru eu nodi, a pha gamau cadarnhaol y gellir eu cyflawni, i roi sicrwydd i gwmnïau o'r fath fod y sector ynni adnewyddadwy yn dal i fanteisio ar gefnogaeth a hyder Llywodraeth Cymru i ddiogelu'r sector?
- 14:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You've ranged far and wide, Members. If you can relate to Tata Steel again, Minister, we'd be grateful.
- Rydych wedi cyffwrdd â sawl mater, Aelodau. Os gallwch ymgysylltu â Tata Steel eto, Weinidog, byddem yn ddiolchgar.
- 14:22 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I think that in terms of Mabey Bridge I can relate to Tata Steel. Obviously, it's very disappointing news for both the company and staff. I had actually arranged for a letter to go out to Members on this, but apparently there's a computer issue today and you should have had the letter before my questions. So, if Members have any further queries on that matter, I'd be delighted to deal with them in writing, because I know a lot of Members have already particularly raised this issue—I'm looking at William Graham—with me on these particular matters.
- Wel, rwy'n meddwl y gallaf ymgysylltu â Tata Steel mewn perthynas â Mabey Bridge. Yn amlwg, mae'n newyddion siomedig iawn i'r cwmni a'r staff. Roeddwn wedi trefnu i anfon llythyr at yr Aelodau ar hyn, ond mae'n debyg fod yna broblem gyfrifiadurol heddiw a dylech fod wedi cael y llythyr cyn fy nghwestiynau. Felly, os oes gan yr Aelodau unrhyw ymholiadau pellach ar y mater hwnnw, byddwn yn barod iawn i ymdrin â hwy'n ysgrifenedig, gan fy mod yn gwybod bod llawer o'r Aelodau eisoes wedi crybwyll y materion penodol hyn wrthyf yn benodol—rwy'n edrych ar William Graham.
- Obviously, we take very seriously issues around the decisions by the UK Government and my energy policy group has looked at that and we're issuing a communiqué on their views shortly.
- Yn amlwg, rydym yn rhoi sylw difrifol iawn i faterion yn ymwneud â'r penderfyniadau gan Lywodraeth y DU ac mae fy ngrŵp polisi ynni wedi edrych ar hynny a byddwn yn cyhoeddi hysbysiad ar eu safbwyntiau cyn bo hir.

- 14:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I now call the party spokespeople, and first this afternoon is the Welsh Conservative spokesperson, William Graham.
- Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, William Graham.
- 14:23 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Will the Minister clarify the position with regard to local councils with regard to the planning of new railway line stations, particularly, of course, for the metro, and are you minded to issue guidelines to local authorities to allow them to incorporate their plans for rail stations within the line electrification programme?
- A wnaiff y Gweinidog egluro'r sefyllfa mewn perthynas â chynghorau lleol o ran cynllunio gorsafoedd rheilffordd newydd, yn enwedig ar gyfer y metro wrth gwrs, ac a ydych yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol i'w galluogi i ymgorffori eu cynlluniau ar gyfer gorsafoedd yn rhaglen drydaneiddio'r rheilffyrdd?
- 14:23 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Can I say I've just written out to local authorities about their involvement in the metro proposals? I've asked them in the first instance to look at the strategic bus routes they require so that we can add those to the metro proposals. In addition to that, I've spoken to Monmouthshire in detail about proposals they want to make in respect of the metro because they have concerns about a station in Magor and what other things they need to do. In the main, of course, rail is not the responsibility of local government, it remains ours, but I'm always open to dialogue and suggestions. But I think they will have to look at this when they look at their local development plans, where they're going to build houses, and where there's going to be larger villages and conurbations et cetera, and about what they might want to put in.
- A gaf fi ddweud fy mod newydd ysgrifennu at yr awdurdodau lleol ynglŷn â'u rhan yn y cynigion metro? Rwyf wedi gofyn iddynt yn y lle cyntaf i edrych ar y llwybrau bus strategol sydd eu hangen arnynt fel y gallwn ychwanegu hynny at y cynigion metro. Yn ogystal â hynny, rwyf wedi siarad â Sir Fynwy yn fanwl am y cynigion y maent am eu gwneud o ran y metro am fod ganddynt bryderon ynghylch gorsaf ym Magwyr a phethau eraill sydd angen iddynt eu gwneud. Ar y cyfan, wrth gwrs, nid cyfrifoldeb llywodraeth leol yw'r rheilffyrdd, mae'n parhau'n gyfrifoldeb i ni, ond rwy'n agored i ddiialog ac awgrymiadau bob amser. Ond rwy'n credu y bydd yn rhaid iddynt edrych ar hyn pan fyddant yn edrych ar eu cynlluniau datblygu lleol, lle maent yn mynd i adeiladu tai, a lle y bydd pentrefi a chytrefi mwy o faint ac yn y blaen, a beth y gallent fod eisiau ei gynnwys.
- 14:24 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm most grateful to the Minister for her previous answer. Minister, you'll be aware that the Welsh chambers of commerce launched their all-Wales quarterly economic survey yesterday, and you will note, I'm sure, that it's worrying that 72.5 per cent of businesses experienced difficulty recruiting during the last quarter, an increase from 54 per cent in the similar quarter of last year. Clearly, this figure is worrying. You'll have seen the recommendations already made by the Enterprise and Business Committee. How do you think you can co-ordinate the bridging of the skills gap in Wales?
- Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hateb blaenorol. Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol fod siambrau masnach Cymru wedi lansio eu harolwg economaidd chwarterol ar gyfer Cymru ddoe, ac fe sylwch, rwy'n siŵr, ei fod yn destun pryder fod 72.5 y cant o fusnesau wedi profi anhawster i recriwtio yn ystod y chwarter diwethaf, sef cynnydd o 54 y cant yn y chwarter cyfatebol y llynedd. Yn amlwg, mae'r ffigur hwn yn peri pryder. Fe fyddwch wedi gweld yr argymhellion a wnaed eisoes gan y Pwyllgor Menter a Busnes. Sut y credwch y gallwch gydlynur broses o bontio'r bwlch sgiliau yng Nghymru?
- 14:24 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It's very interesting that I had a very good discussion this morning on skills with the building sector about bridging skills across all industries—like what are the basic skills that are required, whether it be nuclear, whether it be tidal lagoon, whether it be them, and what more work needs to be done. I know my colleague, Julie James, has been having discussions with industry about what we can do on this particular issue. With regard to the chambers of commerce, it was a very high figure, actually, and I have asked officials whether they can get further information on it.
- Mae'n ddiddorol iawn fy mod wedi cael trafodaeth dda iawn y bore yma ar sgiliau gyda'r sector adeiladu, ynglŷn â sgiliau pontio ar draws pob diwydiant—er enghraifft, pa sgiliau sylfaenol sydd eu hangen, boed yn niwclear, yn forlyn llanw, y rheini, a pha waith pellach sydd angen ei wneud. Rwy'n gwybod bod fy nghyd-Aelod, Julie James, wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda'r diwydiant ynglŷn â'r hyn y gallwn ei wneud ar y mater penodol hwn. O ran y siambrau masnach, roedd yn ffigur uchel iawn, mewn gwirionedd, ac rwyf wedi gofyn i swyddogion a allant gael rhagor o wybodaeth yn ei gylch.

14:25	William Graham Bywgraffiad Biography <p>Excellent. Once again, may I thank the Minister for her reply? My last question is regarding the Ashes test match, being held here in the SWALEC Stadium, and September and October will see the Millennium Stadium holding eight Rugby World Cup matches, including two quarter-finals. Really, that's a great thing for Wales internationally. So, could the Minister outline how she hopes to use these sporting achievements for the opportunity to create economic investment in Wales?</p>	<p>Ardderchog. Unwaith eto, a gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei hateb? Mae fy nghwestiwn olaf yn ymwneud â gêm brawf y Llundw, sy'n cael ei chynnal yma yn Stadiwm SWALEC, ac ym mis Medi a mis Hydref cynhelir wyth o gemau Cwpan Rygbi'r Byd yn Stadiwm y Mileniwm, gan gynnwys dwy gêm gogynderfynol. Yn wir, mae hynny'n beth gwych i Gymru yn rhyngwladol. Felly, a all y Gweinidog amlinellu sut y mae'n gobeithio defnyddio'r cyflawniadau chwaraeon hyn fel cyfle i greu buddsoddiad economaidd yng Nghymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:25	Edwina Hart Bywgraffiad Biography <p>Well, I think when we look at some of the figures about when we have looked at major events—for instance, we've had an analysis done of the impact of musical events in Wales, and how that's increased tourism—I think it's the same pattern here. But I think it would be useful for us to assess, after the test match, and after the Rugby World Cup, what we have generated, and how we can look at ensuring long-term generation. I'd be delighted to report on those aspects of our policy, perhaps to committee later in the year.</p>	<p>Wel, pan ystyriwn rai o'r ffigurau ar ôl edrych ar ddiwyddiadau mawr—er enghraifft, rydym wedi cael dadansoddiad wedi'i wneud o effaith digwyddiadau cerddorol yng Nghymru, a sut y mae hynny wedi creu mwy o dwristiaeth—credaf fod yr un patrwm i'w weld yma. Ond rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol i ni asesu, ar ôl y gêm brawf, ac ar ôl Cwpan Rygbi'r Byd, beth a gynhyrwyd gennym, a sut y gallwn ystyried sicrhau cynhyrchiant hirdymor. Byddwn yn falch iawn o adrodd ar yr agweddau hynny ar ein polisi, efallai i bwyllgor yn ddiweddarach yn y flwyddyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:25	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography <p>We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth.</p>	<p>Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:26	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography <p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. A wnaiff y Gweinidog ein diweddarau ni am gynlluniau Llywodraeth Prydain i dynnu rhannau o freindal presennol Cymru a'r Gororau allan o'r freindal nesaf?</p>	<p>Thank you, Deputy Minister. Will the Minister update on the UK Government's plans to take part of the Wales and borders franchise out of the next franchise?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:26	Edwina Hart Bywgraffiad Biography <p>Yes, that has been—you're talking about that bit there; it's quite of interest, I think, to us, what's going on with some of the franchise discussions. Because I can assure you, the other side of the border, they would actually like us to be directly involved in sorting out the franchise.</p>	<p>Gwnaf, mae hynny wedi bod—rydych yn siarad am y rhan honno; mae'n eithaf diddorol i ni, rwy'n meddwl, yr hyn sy'n digwydd gyda rhai o'r trafodaethau ar y fasnachfaint. Oherwydd gallaf eich sicrhau, ar yr ochr arall i'r ffin, byddent yn hoffi i ni fod yn rhan uniongyrchol o'r broses o ddatrys y fasnachfaint.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:26	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography <p>Y pryder, wrth gwrs, ydy y gallai rhai o'r rhannau mwyaf proffidiol o'r breindal presennol gael eu tynnu allan o'r breindal. A ydy'r Gweinidog yn cytuno â safbwynt Plaid Cymru bod penderfynu a ydy gwasanaeth yn gwasanaethu marchnad yn Lloegr yn bennaf yn gofyn cwestiwn 'loaded', mewn ffordd, a bod y ffaith bod yna ganolfannau mor boblog dros y ffin yn Lloegr yn golygu bod yna wir berig y gallai Cymru, a theithwyr yng Nghymru, gael eu cosbi?</p>	<p>The concern, of course, is that some of the most profitable parts of the current franchise could be taken out. Does the Minister agree with the Plaid Cymru view that deciding whether a service serves a market in England mainly is asking a loaded question in a way, and that the fact that there are so heavily-populated centres across the border in England means there's a real risk that travellers in Wales could be penalised?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:26	Edwina Hart Bywgraffiad Biography <p>I wouldn't disagree with the proposition that you make, because I share some of your concerns on this matter, as do my officials, and they are issues we will be raising with the Department for Transport.</p>	<p>Ni fyddwn yn anghytuno â'ch gosodiad, oherwydd rwy'n rhannu rhai o'ch pryderon ar y mater, fel fy swyddogion, ac maent yn faterion y byddwn yn eu codi gyda'r Adran Drafnidiaeth.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:27 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y perig, wrth gwrs, ydy y bydd rheilffyrdd sy'n rhedeg rhwng gorsafoedd yn Lloegr, ond sy'n cael eu gwasanaethu gan Drenau Arriva Cymru o dan y breindal, yn cael eu tynnu allan o'r breindal nesaf. Ond y gwir ydy bod llawer o'r rheilffyrdd hynny yn rhan o rwydwaith sy'n allweddol i deithwyr yng ngogledd Cymru. Ac mae yna gynsail, wrth gwrs, o freindaliadau sy'n croesi ffiniau, ac mae First Great Western, yn rhedeg o Lundain ar draws de Cymru, yn un o'r rheini. Felly, a wnaiff y Gweinidog roi ymrwymiad cadarn iawn i frwydro dros gadw unrhyw lwybrau sy'n rhedeg i, ac o, Gymru o fewn y breindal?
- The danger, of course, is that the railways running between stations in England, but which are serviced by Arriva Train Wales under the franchise, would be withdrawn from the next franchise. But the truth is that many of those railways are part of a network that is crucial to travellers in north Wales. And there is a precedent, of course, of franchises that cross borders, and First Great Western, running from London across South Wales, is one of those. So, will the Minister give a very firm commitment to fight for the retention of any routes that run to and from Wales within the franchise?
- 14:27 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, this is actually quite a big issue for us. We are very reliant on routes and stations across our border to maintain our network. And if the UK Government is sincere in its belief that we're all part of the United Kingdom, I would hope that they would listen to what I have said about the interests of people within Wales.
- Wel, mae hwn yn fater go bwysig i ni mewn gwirionedd. Rydym yn ddibynol iawn ar lwybrau a gorsafoedd ar draws ein ffin i gynnal ein rhydwraith. Ac os yw Llywodraeth y DU yn ddiffuant yn ei chred ein bod oll yn rhan o'r Deyrnas Unedig, fe fyddwn yn gobeithio y byddent yn gwrandao ar yr hyn rwyf wedi'i ddweud am fuddiannau pobl yng Nghymru.
- 14:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- And the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Eluned Parrott.
- A llyfarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.
- 14:28 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Ddirprwy Lywydd. Minister, the metro was first supported by the Welsh Government back in 2012, and, in November 2012, the First Minister agreed with me that we desperately need a railway station serving the eastern part of Cardiff, as it's one of the most disconnected communities in the South Wales East region. When can we expect that station to open?
- Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, cefnogodd Llywodraeth Cymru y metro yn gyntaf yn ôl yn 2012, ac ym mis Tachwedd 2012, cytunodd y Prif Weinidog fod angen dybryd am orsaf reilffordd i wasanaethu rhan ddwyreiniol Caerdydd gan ei bod yn un o'r cymunedau mwyaf datgysylltiedig yn rhanbarth Dwyrain De Cymru. Pryd y gallwn ddisgwyl gweld yr orsaf honno'n agor?
- 14:28 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Once we've completed the detailed plans on the metro, we'll be looking at the provision of all stations across Wales. As I've indicated previously, I'll be making further statements on the metro map and focus, with regard to the second stage of the metro, in the autumn.
- Wedi i ni gwblhau'r cynlluniau manwl ar y metro, byddwn yn edrych ar y ddarpariaeth gyfan o orsafoedd ledled Cymru. Fel y nodais o'r blaen, byddaf yn gwneud datganiadau pellach ar fap y metro ac yn canolbwyntio ar ail gam y metro yn yr hydref.
- 14:28 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Last week, you told this Chamber that it will be up for local authorities to decide where they need stations. Yet I am informed that, six months ago, councils finalising their five-year local transport plans were told by your officials not to include any rail schemes. What is your response to rail industry experts, and campaign groups such as Railfuture, who've warned that, if stations are planned after electrification, as opposed to before electrification, the cost for moving electrified infrastructure could spiral out of control?
- Yr wythnos diwethaf, fe ddywedoch wrth y Siambr hon mai mater i'r awdurdodau lleol ei benderfynu yw lle maent angen gorsafoedd. Eto, chwe mis yn ôl, deallaf fod eich swyddogion wedi dweud wrth gynghorau a oedd yn cwblhau eu cynlluniau pum mlynedd ar gyfer trafniadaeth leol am beidio â chynnwys unrhyw gynlluniau rheilffyrdd. Beth yw eich ymateb i arbenigwyr y diwydiant rheilffyrdd, a grwpiau ymgyrchu megis Railfuture, sydd wedi rhybuddio, os caiff gorsafoedd eu cynllunio ar ôl trydaneiddio, yn hytrach na chyn trydaneiddio, gallai'r gost o symud seilwaith trydan godi y tu hwnt i reolaeth?

14:29	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>This is a jigsaw, and we have to put all the pieces of the jigsaw together. There's no point in local authorities indicating to me where they may, or may not, want railway stations until they've completed their local development plans, had them agreed, and we know where everything's going to be built, because we're going to have to prioritise. We're already aware of some of the transport issues, and, in real terms, local authorities are not responsible for rail. All the issues that you raise will be taken into account as we proceed on the development of the metro system.</p>	<p>Jig-so yw hwn, ac mae'n rhaid i ni roi holl ddarnau'r jig-so at ei gilydd. Nid oes pwynt i awdurdodau lleol ddangos i mi lle maent eisiau, neu lle nad ydynt eisiau gorsafoedd rheilffordd nes eu bod wedi cwblhau eu cynlluniau datblygu lleol, wedi eu cytuno, a nes ein bod yn gwybod lle mae popeth yn mynd i gael ei adeiladu, gan ein bod yn mynd i orfod blaenoriaethu. Rydym eisoes yn ymwybodol o rai o'r problemau trafnidiaeth, ac mewn termau real, nid yw'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am y rheilffyrdd. Bydd yr holl faterion a grybwyllwch yn cael eu hystyried wrth i ni symud ymlaen i ddatblygu'r system metro.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:29	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, Minister, there are several pieces of this jigsaw that need to be set down really quite quickly. Planning for future stations now, as opposed to after electrification, could save us money. Electrifying to light rail standards, as opposed to heavy rail, if that is what the Valleys lines are going to end up as, could save us money. Choosing hybrid rolling stock to avoid having to electrify tunnels and other difficult infrastructure could also save us money on this project, which we can invest in other ways. And, yet, you have not, to my knowledge, taken any of these decisions yet. This piecemeal approach, when it was applied to the Ebbw Vale line—having to come back to it time and again—has cost us tens of millions of pounds above the original estimate for implementing that piece of infrastructure. Why not plan a timetable for future stations early so that they can be incorporated into the electrification plans, and incorporated into bus route plans, so that we have a truly integrated system that isn't going to cost us four times as much as the original estimate, like the Ebbw Vale line has?</p>	<p>Wel, Weinidog, mae yna nifer o ddarnau o'r jig-so hwn sydd angen eu gosod i lawr yn eithaf cyflym mewn gwirionedd. Gallai cynllunio ar gyfer gorsafoedd sydd i ddod yn awr yn hytrach nag ar ôl trydaneiddio arbed arian i ni. Gallai trydaneiddio i safon rheilffyrdd ysgafn, yn hytrach na rheilffyrdd trwm, os mai dyna fydd rheilffyrdd y Cymoedd yn y pen draw, arbed arian i ni. Gallai dewis cerbydau hybrid i osgoi gorfod trydaneiddio twneli a seilwaith anodd arall arbed arian i ni ar y prosiect hwn hefyd, a gallwn ei fuddsoddi mewn ffyrdd eraill. Ac eto, hyd y gwn i, nid ydych wedi gwneud unrhyw un o'r penderfyniadau hyn eto. Mae'r dull tameidiog hwn, yn achos rheilffordd Glynebwy—gorfod dod yn ôl ato dro ar ôl tro—wedi costio degau o filiynau o bunnoedd yn fwy na'r amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer gweithredu'r darn hwnnw o seilwaith. Beth am gynllunio amserlen ar gyfer gorsafoedd yn y dyfodol yn gynnar fel y gellir eu cynnwys yn y cynlluniau trydaneiddio, a'u hymgorffori mewn cynlluniau ar gyfer llwybrau bws, fel bod gennym system wirioneddol integredig nad yw'n mynd i gostio pedair gwaith cymaint â'r amcangyfrif gwreiddiol, fel a ddigwyddodd yn achos rheilffordd Glynebwy?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:30	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I think that we can go into historic costs, but I think we've got a firm grip on where costs will be on this. They are going to the market with our proposals and how much money we have at the second stage, and I think I covered all of those points in my statement last week.</p>	<p>Credaf y gallwn drafod costau hanesyddol, ond rwy'n meddwl bod gennym syniad cadarn o ble fydd y costau ar hyn. Maent yn mynd â'n cynigion i'r farchnad a faint o arian sydd gennym ar yr ail gam, ac rwy'n meddwl fy mod wedi ymdrin â phob un o'r pwyntiau hynny yn fy natganiad yr wythnos diwethaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Prosiect Ailddatblygu Pont Briwet</p>		<p>The Pont Briwet Redevelopment Project</p>	
14:30	<p>Joyce Watson Bywgraffiad Biography</p> <p>3. A wnaiffy Gweinidog ddatganiad am brosiect ailddatblygu Pont Briwet? OAQ(4)0592(EST)</p>	<p>3. Will the Minister make a statement on the Pont Briwet redevelopment project? OAQ(4)0592(EST)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:31	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>The project is a partnership between Gwynedd Council and Network Rail.</p>	<p>Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Network Rail.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:31

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank you for that, Minister. The project has been somewhat delayed, but, as from Monday, residents and visitors to the area will benefit from the new state-of-the-art free transport link. It will come as a relief to the beleaguered communities that have endured congestion, detours and delays. But, there's a new cycle path and footpath, plus a two-way carriage and faster rail line that will mean better access to the area, to the national park and to the Wales Coast Path and national cycle route 8. But, when I looked online, Minister, there doesn't seem to be much mention of it on Visit Wales or Sustrans or the Snowdonia National Park websites. Minister, would you encourage all agencies responsible for promoting this stunning part of Wales to publicise the benefits of this new bridge?

Diolch i chi am hynny, Weinidog. Mae'r prosiect wedi cael ei ohirio rywfaint, ond o ddydd Llun, bydd trigolion ac ymwelwyr â'r ardal yn elwa ar y cswllt trafnidiaeth arloesol newydd di-dâl. Bydd yn rhyddhad i'r cymunedau y tarfwyd arnynt gan dagfeydd, dargyfeiriadau ac oedi. Ond mae yna llwybr beicio a llwybr troed newydd, yn ogystal â dwy lôn gerbydau a rheilffordd gyflymach a fydd yn golygu gwell mynediad i'r ardal, i'r parc cenedlaethol ac i Lwybr Arfordir Cymru a llwybr 8 y llwybr beicio cenedlaethol. Ond pan edrychais ar-lein, Weinidog, nid oes fawr o sôn amdano ar wefannau Croeso Cymru na Sustrans na Pharc Cenedlaethol Eryri. Weinidog, a wnech chi annog pob asiantaeth sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r rhan fendigedig hon o Gymru i roi cyhoeddusrwydd i fanteision y bont newydd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm naturally pleased that the investment in this project will deliver so many benefits, which you've outlined. The project, of course, is the responsibility of Network Rail and Gwynedd Council, but, I, of course, will ask my officials to liaise with the local authority to discuss the issues that you raised.

Yn naturiol, rwy'n falch y bydd y buddsoddiad yn y prosiect hwn yn sicrhau cymaint o fanteision, fel rydych wedi amlinellu. Cyfrifoldeb Network Rail a Chyngor Gwynedd yw'r prosiect, ond wrth gwrs, fe ofynnaf i fy swyddogion gysylltu â'r awdurdod lleol i drafod y materion a grybwyllwyd gennych.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel sydd newydd gael ei ddisgrifio, mae hwn yn mynd i fod, ar ôl hir oedi, yn atyniad mawr i'r ardal, yn gwella trafnidiaeth leol ac yn fwy cynaliadwy i drigolion lleol hefyd. Ond, er bod hwn yn gynllun ar y cyd rhwng yr awdurdod lleol a Network Rail, pa wersi sydd i'w cael o'r profiad anffodus, o dro i dro, a gafwyd ar gyfer buddsoddiad arall, yn enwedig mewn rheilffyrdd a gwella rheilffyrdd yng nghanolbarth Cymru? Rwy'n edrych ymlaen, er enghraifft, at yr orsaf newydd yng Ngharno a'r gwella ychwanegol yn digwydd o ran metro de Cymru hefyd. A oes yna wersi i'r Llywodraeth yn y ffordd yr aed ati i wneud prosiect ar y cyd fel hyn?

As has just been described, this is going to be, after a long delay, a major attraction for the area, and it will improve local transport and be more sustainable for local residents. But, even though this is a joint scheme between the local authority and Network Rail, what lessons can be learned from the, at times, unfortunate experience in terms of future investments, particularly in rail and rail improvements in mid Wales? I'm looking ahead, for example, to the new station in Carno and the further improvements in terms of the south Wales metro. Are there any lessons for the Government in the way in which this joint project was undertaken?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I think there are some lessons for the Government. There are certainly lessons in terms of the delays and dealings around this. I will be asking my officials to look at what lessons can be learnt so that we can ensure that the same mistakes are not made by us when doing other projects.

Oes, rwy'n meddwl bod rhai gwersi i'r Llywodraeth eu dysgu. Yn sicr mae yna wersi o ran yr oedi a'r modd yr ymdrinwyd â hyn. Byddaf yn gofyn i fy swyddogion edrych ar ba wersi y gellir eu dysgu fel y gallwn sicrhau na fyddwn yn gwneud yr un camgymeriadau wrth i ni gyflawni prosiectau eraill.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei chefnogaeth a chefnogaeth o ochr ei hadran hi i'r prosiect yma? Fel y person a gafodd y fraint o agor y bont rheilffordd, rwy'n croesawu'n fawr fod gweddill y prosiect yn cael ei gwblhau. A yw'r Gweinidog yn rhagweld y bydd modd cael rhagor o brosiectau fel hyn, ble y mae awdurdodau lleol ac awdurdodau trafnidiaeth yng Nghymru, gan gynnwys ei hadran hi, yn gallu cydweithio â Network Rail a buddsoddwyr eraill bob tro y mae yna broblem seilwaith ddifrifol, oherwydd mae gennym ni bellach yr adeiladwyr i allu gwneud y gwaith?

May I thank the Minister for her support, and her department's support, for this project? As the individual who had the privilege of opening the railway bridge, I warmly welcome the fact that the rest of the project is being completed. Does the Minister anticipate that it will be possible to have further projects such as this, where local authorities and transport authorities in Wales, including her departments, can collaborate with Network Rail and other investors whenever a serious infrastructure problem occurs, because we now have the construction sector that can carry out this work?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, I think it's important for us to develop a partnership approach, but, in that partnership, it's important to establish who takes the lead and who understands the best way to run the contracts. So, it might not necessarily be a partnership of equals, but a partnership of the willing.

Ydw, rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni ddatblygu dull partneriaeth, ond yn y bartneriaeth honno, mae'n bwysig sefydlu pwy sy'n arwain a phwy sy'n deall y ffordd orau o drefnu'r contractau. Felly, efallai na fydd yn bartneriaeth gyfartal o reidrwydd, ond fe fydd yn bartneriaeth o ran ewyllys.

14:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Question 4, William Graham. Cwestiwn 4, William Graham.

Ni ofynnwyd cwestiwn 4, OAQ(4)0586(EST). *Question 4, OAQ(4)0586(EST), not asked.*

14:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Question 5, Rhun ap Iorwerth. Cwestiwn 5, Rhun ap Iorwerth.

Effaith Codi Peilonau Newydd ar Dwristiaeth

The Impact on Tourism of New Pylons

14:34 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

5. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda'r Grid Cenedlaethol am effaith codi peilonau newydd ar dwristiaeth? OAQ(4)0597(EST)

5. What discussions has the Welsh Government had with the National Grid on the impact that erecting new pylons will have on tourism? OAQ(4)0597(EST)

14:34 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In 2013, we commissioned a report into the tourism impact of onshore wind and associated grid infrastructure. The report found no evidence that the existing national grid infrastructure discourages visitors.

Yn 2013, comisiynwyd adroddiad ar effaith seilwaith gwynt ar y tir a'r seilwaith grid cysylltiedig ar dwristiaeth. Ni chanfu'r adroddiad unrhyw dystiolaeth fod y seilwaith grid cenedlaethol presennol yn achosi i bobl beidio ag ymweld.

14:34 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae pobl Ynys Môn, wrth gwrs, wedi ei gwneud hi'n glir iawn ar y cwestiwn o gysylltedd trydan newydd drwy, ac o, Ynys Môn, sef na ddylid codi peilonau newydd. Mae pobl Môn am weld buddsoddiad yn cael ei wneud, er enghraifft, mewn gosod ceblau ar wely'r môr, neu, fel arall, mae cost y buddsoddiad yn mynd i fod yn syrthio ar ysgwyddau pobl Ynys Môn. Un rheswm yw'r pryder am yr amgylchedd gweledol a'r effaith y gallai hynny ei gael ar dwristiaeth. Rwy'n gwybod nad yw hyn yn fater datganoledig, ond mae hwn yn fater y mae pobl Ynys Môn yn chwilio am gefnogaeth Llywodraeth Cymru arno. Felly, a wnaiff y Gweinidog wneud datganiad ei bod hithau'n gwrthwynebu'r peilonau newydd ac y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r ymgyrch yma, sy'n unfrydol, i bob pwrpas, ar draws Ynys Môn?

The people of Anglesey, of course, have made their views eminently clear on the question of electricity connections through and from Anglesey, namely that new pylons should not be erected. The people of Anglesey want to see investment, for example, in the placing of cables on the sea bed, because, otherwise, the cost of the investment will fall to the people of Anglesey. One reason for this is concern about the visual environment and the impact that that could have on tourism. I know that this is a non-devolved issue, but it is an issue on which the people of Anglesey are seeking the support of the Welsh Government. So, will the Minister state that she opposes the erection of these new pylons and that the Welsh Government will support this campaign, which is virtually unanimous across Anglesey?

14:35 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Any new proposed national grid connection in Wales is regarded as a nationally significant infrastructure project, and therefore would be decided, of course, as you are aware, by the UK Government. The Welsh Government is a statutory consultee on nationally significant energy infrastructure projects such as grid infrastructure. We believe that a modern, efficient and reliable energy infrastructure is important for our businesses and communities, especially now when we see the development on Ynys Môn. We are committed to supporting the development of new renewable energy generation as well. With regard to the issue of new grid infrastructure, our preferred position is one of undergrounding.

Ystyrir bod unrhyw gysylltiad grid cenedlaethol arfaethedig newydd yng Nghymru yn brosiect seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd, ac felly byddai'n cael ei benderfynu, fel y gwyddoch wrth gwrs, gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghorai statudol ar brosiectau seilwaith ynni cenedlaethol eu harwyddocâd, megis seilwaith y grid. Rydym yn credu bod seilwaith ynni modern, effeithlon a dibynadwy yn bwysig i'n busnesau a'n cymunedau, yn enwedig yn awr pan welwn y datblygiad ar Ynys Môn. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy newydd hefyd. O ran seilwaith grid newydd, ein safbwynt yw ein bod yn ffafrio tanddaearu.

14:36 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, last year a survey was conducted, which outlined the concerns that visitors to mid Wales had about the introduction of pylons and overhead lines on the mid Wales landscape and the potential impact of construction traffic on the tourism industry. Would you agree with me that the welcome policy position adopted by the newly elected Conservative Government to abolish subsidies for onshore wind will serve to safeguard the tourism industry and jobs in mid Wales?

Weinidog, y llynedd cynhaliwyd arolwg a amlinellai'r pryderon a oedd gan ymwelwyr â chanolbarth Cymru ynghylch cyflwyno peilonau a llinellau uwchben ar dirwedd canolbarth Cymru ac effaith bosibl traffig adeiladu ar y diwydiant twristiaeth. A fydddech yn cytuno bod y safbwynt polisi derbynol iawn a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth Geidwadol sydd newydd ei hethol, i ddiddymu cymorthdaliadau ar gyfer gwynt ar y tir yn diogelu'r diwydiant twristiaeth a swyddi yng nghanolbarth Cymru?

14:36 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I think we've got to look more widely at some of the UK's energy policies before being absolutely welcoming about any announcements.

Wel, rwy'n meddwl bod rhaid i ni edrych yn ehangach ar rai o bolisiau ynni'r DU cyn rhoi croeso llwyr i unrhyw gyhoeddiadau.

14:36 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae yna wrthwynebiad yn Ynys Môn, wrth gwrs, ond mae yna hefyd wrthwynebiad i gynlluniau Scottish Power yn sir Ddinbych a Chonwy. Felly, gan ystyried eich bod chi'n dweud eich bod chi'n ffafrio mynd o dan y tir, a fyddwch chi'n gwneud unrhyw sylwadau i Scottish Power ynglŷn â'r prosiectau sydd ganddynt yn sir Ddinbych a Chonwy?

There is opposition in Anglesey, of course, but there is also opposition to the Scottish Power plans in Denbighshire and Conwy. So, given that you have stated that you are in favour of undergrounding, will you be making any representations to Scottish Power regarding their projects in Denbighshire and Conwy?

14:37 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Now that the Member has raised this with me, National Grid do have regular meetings with me, and I'm more than happy to take up the issues on behalf of the constituents.

Gan fod yr Aelod wedi dwyn hyn i fy sylw yn awr, mae'r Grid Cenedlaethol yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda mi, ac rwy'n fwy na hapus i grybwyll y materion ar ran yr etholwyr.

Datblygu Trafnidiaeth Gyhoeddus yng Ngheredigion

Developing Public Transport in Ceredigion

14:37 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

6. Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu trafndiaeth gyhoeddus yng Ngheredigion?
OAQ(4)0589(EST)

6. What are the Welsh Government's priorities for developing public transport in Ceredigion?
OAQ(4)0589(EST)

14:37	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I think we've made good progress in delivering our priorities for public transport in Ceredigion, such as the introduction of additional trains on the Aberystwyth-to-Shrewsbury line and the new TrawsCymru T5 bus service linking Aberystwyth and Haverfordwest. Future plans will be outlined in the new national transport plan.</p>	<p>Rwy'n meddwl ein bod wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus yng Ngheredigion, megis cyflwyno trenau ychwanegol ar lein Aberystwyth i Amwythig a'r gwasanaeth bws TrawsCymru T5 newydd sy'n cysylltu Aberystwyth a Hwlfordd. Bydd cynlluniau yn y dyfodol yn cael eu hamlinellu yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol newydd.</p>
14:37	Elin Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Weinidog, fel rydych wedi sôn, nawr bod y gwasanaeth amlach wedi cael ei gyflwyno ar y rheilffordd rhwng Aberystwyth ac Amwythig, mae'n cryfhau'r achos busnes dros agor gorsaf newydd yn Bow Street fel rhan o gynllun trafndiaeth gynaliadwy o gwmpas Aberystwyth. A allwch chi gadarnhau y byddwch chi fel Llywodraeth yn gweithio gyda'r cyngor sir i hyrwyddo agor yr orsaf yma yn y dyfodol?</p>	<p>Minister, as you've mentioned, now that the more regular service has been introduced on the rail line between Aberystwyth and Shrewsbury, this strengthens the business case for opening a new station in Bow St as part of a sustainable transport plan around Aberystwyth. Can you confirm that you as a Government will work with the county council to promote the opening of this station in the future?</p>
14:38	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Can I say that we are also looking at the additional services on the Cambrian line and what demand there will be for new stations and future service enhancements? I'll be receiving a report on that in September. However, I have asked my officials now to initiate work on a feasibility study about Bow Street.</p>	<p>A gaf fi ddweud ein bod hefyd yn edrych ar y gwasanaethau ychwanegol ar reilffordd y Cambrian a'r galw a fydd am orsafoedd newydd a gwelliannau i'r gwasanaeth yn y dyfodol? Byddaf yn derbyn adroddiad ar hynny ym mis Medi. Fodd bynnag, rwyf wedi gofyn i fy swyddogion yn awr i ddechrau gweithio ar astudiaeth ddichonoldeb ynglŷn â Bow Street.</p>
14:38	Russell George Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, you'll be aware of an opportunity for a new bus and rail interchange in Machynlleth, which will serve Ceredigion, Gwynedd and west Montgomeryshire. I understand that major works are under way to ensure that the station is compliant with the Disability Discrimination Act 2005, but that additional funding is required to develop this interchange to make use of additional land. Will you agree to examine this in more detail, with a view to committing any additional funding for this project? Clearly, there is an opportunity here to take pressure off the trunk road and for an ambitious project to take place that links a number of strands together.</p>	<p>Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol o'r cyfle i gael cyfnewidfa bws a rheilffordd newydd ym Machynlleth, i wasanaethu Ceredigion, Gwynedd a gorllewin Sir Drefaldwyn. Deallaf fod gwaith mawr ar y gweill i sicrhau bod yr orsaf yn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, ond bod angen cyllid ychwanegol i ddatblygu'r gyfnewidfa er mwyn gwneud defnydd o dir ychwanegol. A wnewch chi gytuno i edrych ar hyn yn fwy manwl, gyda golwg ar ryddhau unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer y prosiect hwn? Yn amlwg, mae cyfle yma i leihau pwysau ar y gefnffordd ac i sicrhau prosiect uchelgeisiol i gysylltu nifer o elfennau.</p>
14:39	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We are always delighted to look at proposals for transport hubs that help the flow of traffic within areas. I am not aware that I've had a formal report from any local authority or anything in this regard. Obviously, if I have one, I will look at it.</p>	<p>Rydym bob amser yn falch iawn o edrych ar gynigion ar gyfer canolfannau trafndiaeth sy'n helpu llif y traffig mewn ardaloedd. Nid wyf yn ymwybodol fy mod wedi cael adroddiad ffurfiol gan unrhyw awdurdod lleol neu unrhyw beth yn y cyswllt hwn. Yn amlwg, os caf un, byddaf yn edrych arno.</p>
	Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013	Implementing the Active Travel (Wales) Act 2013
14:39	Julie Morgan Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>7. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? OAQ(4)0595(EST)</i></p>	<p><i>7. Will the Minister provide an update on progress in implementing the Active Travel (Wales) Act 2013? OAQ(4)0595(EST)</i></p>

14:39	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Yes. Since the active travel Act came into force last September, we've published statutory guidance, provided baseline mapping of active travel infrastructure across Wales and taken forward a range of measures to increase levels of active travel in Wales.	Gwnaf. Ers i'r Ddeddf teithio llesol ddod i rym fis Medi diwethaf, rydym wedi cyhoeddi canllawiau statudol, wedi darparu mapiau sylfaenol o'r seilwaith teithio llesol ledled Cymru ac wedi bwrw ymlaen ag ystod o fesurau i gynyddu lefelau teithio llesol yng Nghymru.	Senedd.tv Fideo Video
14:39	Julie Morgan Bywgraffiad Biography	I thank the Minister for that response. Will the Minister ensure that any development of the metro transport network in south-east Wales will include pedestrian and cycling access and facilities at each of the named stations, as these are vital in persuading people to keep fit and active while getting to public transport hubs in line with the active travel Act?	Diolch i'r Gweinidog am ei hymateb. A wnaiff y Gweinidog sicrhau y bydd unrhyw ddatblygiad i'r rhwydwaith trafndiaeth metro yn ne-ddwyrain Cymru yn cynnwys mynediad i gerddwyr a beicwyr a chyfleusterau ym mhob un o'r gorsafoedd a enwyd, gan fod y rhain yn hanfodol ar gyfer perswadio pobl i gadw'n heini ac yn egniol wrth deithio i ganolfannau trafndiaeth gyhoeddus yn unol â'r Ddeddf teithio llesol?	Senedd.tv Fideo Video
14:40	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Can I assure you that active travel will be intrinsic to the plans for metro phase 2? I intend to make a statement early in the autumn about how I'm dealing with active travel across Wales, including the development of national cycle routes.	A gaf fi eich sicrhau y bydd teithio llesol yn gynhenid i gynlluniau cam 2 y metro? Rwy'n bwriadu gwneud datganiad yn gynnar yn yr hydref ynglŷn â sut rwy'n mynd i'r afael â theithio llesol ar draws Cymru, gan gynnwys datblygu'r llwybrau beicio cenedlaethol.	Senedd.tv Fideo Video
14:40	Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Various Ministers during scrutiny, before and during the passage of the Bill, remarked on safety being a necessary feature of all active travel routes. Local authorities in my region are at last consulting on the implications of the Act, but I am disappointed that one safety issue seems to have been overlooked in the wider context of shared spaces and identifying new routes. In Swansea, adult cyclists seem to be under the impression that they are entitled to cycle on ordinary pavements. How can Welsh Government ensure that both local authorities and the police use existing powers to stop this increasing and inherently dangerous practice?	Soniodd amryw o Weinidogion yn ystod y broses graffu, cyn ac yn ystod taith y Bil, am ddiogelwch fel nodwedd angenrheidiol o bob llwybr teithio llesol. Mae awdurdodau lleol yn fy rhanbarth o'r diwedd yn ymgynghori ar oblygiadau'r Ddeddf, ond rwy'n siomedig fod un mater diogelwch i'w weld heb gael sylw yng nghyd-destun ehangach manau a rennir a nodi llwybrau newydd. Yn Abertawe, mae'n ymddangos bod beicwyr sy'n oedolion o dan yr argraff fod ganddynt hawl i feicio ar balmentydd cyffredin. Sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol a'r heddlu yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt i atal yr arfer cynyddol a sylfaenol beryglus hwn?	Senedd.tv Fideo Video
14:40	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	I have to say that a lot of issues are always raised about this issue, and it's not just within your region—it's elsewhere. I've got a committee that looks at active travel and I'm more than happy to take that to them to see if they can help in terms of how we deal with these particular issues. I think, if there's a particularly frail elderly person walking, there could be a lot of accidents that could, in the long run, prove to be absolutely difficult for them. So, I will take that matter on.	Mae'n rhaid i mi ddweud bod llawer o broblemau'n codi bob amser gyda'r mater hwn, ac nid yn eich rhanbarth yn unig—mae mewn manau eraill hefyd. Mae gennyf bwyllgor sy'n edrych ar deithio llesol ac rwy'n fwy na pharod i ddwyn hynny i'w sylw i weld a allant helpu o ran sut y dylem ymdrin â'r materion penodol hyn. Os oes person oedrannus sy'n fregus iawn yn cerdded, rwy'n credu y gallai beri llawer o ddamweiniau a gallai, yn y pen draw, fod yn anodd tu hwnt iddynt. Felly, byddaf yn ystyried y mater.	Senedd.tv Fideo Video
14:41	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography	Weinidog, fe ddywedir yn aml fod arfer dda yn teithio yn wael iawn yng Nghymru, er y dylai hi deithio yn llawer iawn gwell mewn gwlad fechan—rwy'n falch o weld eich bod chi'n gweld perthnasedd y sylw. Ond, beth allwch chi fel Gweinidog ei wneud i sicrhau bod yr arfer dda sydd i'w gweld, er enghraifft, yn sir Gaerfyrddin, i alluogi pobl i seiclo ar lwybrau seiclo drwy'r sir i gyd, hefyd yn digwydd mewn siroedd eraill yng Nghymru?	Minister, it is often said that good practice does not travel well in Wales, even though it should travel far more easily in a small country—I'm pleased to see that you understood the relevance of the comment. However, what can you as a Minister do to ensure that the good practice that is seen, for example, in Carmarthenshire, to enable people to cycle on cycle paths throughout the whole of the county, also happens in other counties in Wales?	Senedd.tv Fideo Video

14:41 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We've started a dialogue now with Sustrans to look at what we can do in terms of projects across Wales to finish some of the national cycle work, and to be more proactive when they're looking at local schemes themselves. I think we will have to put more pressure on in terms of regulation, in terms of what we've done on active travel, and keep close liaison with the officials within local government to make sure that any good work in one authority is replicated in another.

Rydym wedi dechrau trafod gyda Sustrans i edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud mewn perthynas â phrosiectau ar draws Cymru i offren peth o'r gwaith beicio cenedlaethol, ac i fod yn fwy rhagweithiol pan fyddant yn edrych ar gynlluniau lleol. Rwy'n credu y bydd yn rhaid i ni bwysio mwy o ran rheoleiddio, o ran yr hyn rydym wedi ei wneud ar deithio llesol, a chadw cysylltiad agos â swyddogion llywodraeth leol i sicrhau bod gwaith da mewn un awdurdod yn cael ei ailadrodd mewn un arall.

14:42 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, Rhodri Glyn Thomas's comment about good practice travelling is quite pertinent to my question. In relation to the way the Welsh Government itself utilises the Active Travel (Wales) Act, the Government does not actually have a cycle-to-work scheme, instead you offer interest-free loans, which doesn't have the same tax benefits and does not encourage the same take-up as the cycle-to-work scheme. Can I ask you to look at that and answer why the Welsh Government is not following other good practice run by local councils and, indeed, by the Assembly Commission, in offering a cycle-to-work scheme for their employees to encourage the take-up of cycling to work?

Weinidog, mae sylwadau Rhodri Glyn Thomas am arferion teithio da yn eithaf perthnasol i fy nghwestiwn. Mewn perthynas â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru ei hun yn defnyddio Deddf Teithio Llesol (Cymru), nid oes gan y Llywodraeth gynllun beicio i'r gwaith mewn gwirionedd, ac yn lle hynny, rydych yn cynnig benthyciadau di-log, nad ydynt yn darparu'r un manteision treth, ac nid ydynt yn annog cymaint o bobl i fanteisio arnynt â'r cynllun beicio i'r gwaith. A gaf fi ofyn i chi edrych ar hynny ac ateb pam nad yw Llywodraeth Cymru yn dilyn arferion da eraill gan gynghorau lleol ac yn wir, gan Gomisiwn y Cynulliad, sy'n cynnig y cynllun beicio i'r gwaith i'w gweithwyr er mwyn annog pobl i feicio i'r gwaith?

14:42 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'd be delighted to raise that matter with the Permanent Secretary, who, of course, is responsible for the terms and conditions of staff.

Fe fyddai'n bleser gennyf ddwyn y mater i sylw'r Ysgrifennydd Parhaol, sydd, wrth gwrs, yn gyfrifol am delerau ac amodau staff.

Cefnogaeth ar gyfer Busnesau Bach

Support for Small Businesses

14:42 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gefnogaeth ar gyfer busnesau bach ledled Cymru? OAQ(4)0596(EST)

8. Will the Minister make a statement on support for small businesses across Wales? OAQ(4)0596(EST)

14:43 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes. Wide-ranging support is available to small businesses across Wales through our Business Wales service and via a range of business rates initiatives. Our absolute focus remains on supporting jobs and the economy.

Gwnaf. Mae cefnogaeth eang ar gael i fusnesau bach ledled Cymru drwy ein gwasanaeth Busnes Cymru a thrwy amrywiaeth o fentrau drethi busnes. Ein ffocws llwyr bob amser yw cefnogi swyddi a'r economi.

14:43

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, and indeed for your kind attendance at the small shops cross-party group last week. The group certainly valued your input and your overall interest in the issues raised, and also for the letter that I've had since—no doubt in your response you will mention that. Local authorities maximising the use of parking charges for additional income on high streets was one of the matters raised, and questions around why this is always imposed on high streets, yet out-of-town developments have the luxury of having two-hour car parking free. All this does impact. There's a feeling that planning authorities, when writing up applications for this—when it comes before a planning authority—should be considering this as a material factor. Do you support those aims, and how are you working with the local government Minister on the parking charges, and the planning Minister, in respect of those concerns?

Diolch i chi, Weinidog, ac yn wir am eich presenoldeb caredig yn y grŵp trawsbleidiol ar siopau bach yr wythnos diwethaf. Mae'r grŵp yn sicr yn gwerthfawrogi eich mewnbwn a'ch diddordeb cyffredinol yn y materion a godwyd, a hefyd am y llythyr a gefais wedyn—mae'n siŵr y byddwch yn cyfeirio ato yn eich ymateb. Roedd y modd y mae awdurdodau lleol yn gwneud y defnydd gorau o daliadau parcio i gael incwm ychwanegol ar y stryd fawr yn un o'r materion a godwyd, a chwestiynau ynglŷn â pham y caiff taliadau eu codi bob amser ar y stryd fawr, ac eto mae datblygiadau ar gyrion y dref yn gallu cynnig y moethusrwydd o barcio ceir am ddwy awr yn rhad ac am ddim. Mae hyn i gyd yn cael effaith. Ceir teimlad y dylai awdurdodau cynllunio, wrth baratoi ceisiadau ar gyfer hyn—pan ddaw gerbron yr awdurdodau cynllunio—ystyried hyn fel ffactor perthnasol. A ydych yn cefnogi'r amcanion hynny, a sut rydych yn gweithio gyda'r Gweinidog llywodraeth leol ar y taliadau parcio, a'r Gweinidog cynllunio, mewn perthynas â'r pryderon hyn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:44

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I indicated that, after I attended your meeting, I had the opportunity to speak to some ministerial colleagues, who were more than happy to provide officials with the small working group we want to form to look at, perhaps, some clearer understanding of what we could advise local government would be best practice. I'm sure those issues will be taken up.

Wel, ar ôl i mi fynychu eich cyfarfod, dynodais fy mod wedi cael cyfle i siarad â chyd-Weinidogion a oedd yn fwy na pharod i ddarparu'r gweithgor bychan rydym eisiau ei ffurfio i swyddogion, er mwyn edrych ar sicrhau dealltwriaeth gliriach o'r hyn y gallm ei gynghori fel arfer gorau i lywodraeth leol. Rwy'n siŵr y bydd y materion hynny'n cael sylw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:44

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae ffermydd, wrth gwrs, yn fusnesau bach, ac un ffordd o gael ffynhonnell incwm ychwanegol i ffermydd ac i grwpiau cymunedol, wrth gwrs, ydy tyrbinau dŵr i gynhyrchu trydan. Mae yna ddwy broblem benodol ynglŷn â'r rheini: un ydy'r trwyddedu, sydd yn broses hir a maith; a'r ail ydy'r rhwydwaith trydan lleol nad yw'n gallu cymryd y llwyth trydan yn aml iawn. Rydym ni wedi gweld enghraifft ddiweddar ym Mannau Brycheiniog, lle na fydd mwy o ddatblygiadau fel hyn. Beth allwch chi ei wneud, neu beth y mae'r adran yn ei wneud, i geisio goresgyn y broblem sylfaenol yma mewn llawer iawn o rannau o Gymru wledig?

Farms, of course, are small businesses, and one way of securing additional income for farmers and community groups, of course, are small-scale hydro developments to generate electricity. There are two specific problems in this regard: one is the licencing, which is a long, drawn-out process; and the second is the local electricity network, which very often cannot take the electricity load. We have seen a recent example in the Brecon Beacons, where there'll be no further developments of this kind. What can you do, or what's your department doing, to try and overcome this basic problem in many parts of rural Wales?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:45

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I concur absolutely with your comments about the benefits of small hydro, and other things like this. My energy group, which advises me on energy policy, is taking strands of work in this area, and I'd be more than happy for them to take a strand of work on hydro, to look at the issues, particularly how long it takes in terms of licensing and other matters, and report back. We're going through all aspects of energy policy now to see if we can get a bit of grip, and fast track some of these issues.

Cytunaf yn llwyr â'ch sylwadau am fanteision cynlluniau ynni dŵr bach, a phethau eraill tebyg. Mae fy ngrŵp ynni, sy'n rhoi cyngor i mi ar bolisi ynni, yn gwneud gwahanol fathau o waith yn y maes, a byddwn yn fwy na pharod iddynt gynnwys ynni dŵr yn un elfen o'r gwaith, er mwyn edrych ar y materion hyn, yn enwedig pa mor hir y mae'n ei gymryd o ran trwyddedu a materion eraill, ac adrodd yn ôl. Rydym yn mynd drwy bob agwedd ar bolisi ynni yn awr i weld a allwn gamu ymlaen, a chyflymu'r broses o fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Anghydfod Diwydiannol (Amgueddfa Cymru a PCS)

Industrial Dispute (National Museum Wales and PCS)

- 14:45 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
9. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd mewn perthynas â'r anghydfod diwydiannol cyfredol rhwng rheolwyr Amgueddfa Cymru ac undeb PCS? OAQ(4)0599(EST)
9. What action is the Minister taking in relation to the current industrial dispute between National Museum Wales management and the PCS union? OAQ(4)0599(EST)
- 14:45 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*
- I continue to take a close interest in the situation at National Museum Wales regarding staffing and pay, and I have recently written to the museum detailing my expectation that the interests of lower-paid staff are protected in current pay discussions. I have asked both management and unions to work together towards the settlement of these issues.
- Rwy'n parhau i gadw llygad manwl ar y sefyllfa yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru ynghylch staffio a chyflogau, ac yn ddiweddar ysgrifennais at yr amgueddfa yn manylu ar fy nisgwylad y bydd buddiannau staff ar gyflogau is yn cael eu diogelu yn y trafodaethau cyfredol ar gyflogau. Rwyf wedi gofyn i'r rheolwyr a'r undebau weithio gyda'i gilydd er mwyn datrys y materion hyn.
- 14:46 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Can I thank you, Minister, for meeting with me and PCS to try and find a way forward in relation to this ongoing dispute? I particularly welcome the fact that, following your intervention and continuing lobbying from PCS, a meeting with trustees has been scheduled for 15 July. That said, you'll be aware that this is still a live situation and that PCS are in the process of balloting their members on potential industrial action. Will you therefore continue to monitor this situation very closely in the period that lies ahead, with a view to ensuring that an agreement is reached that does not see the lowest paid bearing the brunt of the very difficult financial decisions that the museum are being forced to take?
- Hoffwn ddiolch i chi, Weinidog, am gyfarfod â mi a PCS er mwyn ceisio dod o hyd i ffordd ymlaen mewn perthynas â'r anghydfod sy'n parhau. Yn dilyn eich ymyrraeth a'r lobïo parhaus gan PCS, croesawaf yn arbennig y ffaith fod cyfarfod wedi'i drefnu gydag ymddiriedolwyr ar gyfer 15 Gorffennaf. Wedi dweud hynny, fe fyddwch yn ymwybodol fod hon yn dal i fod yn sefyllfa sy'n datblygu a bod PCS yn y broses o gynnal pleidlais ymhlith eu haelodau ar weithredu diwydiannol posibl. A wnewch chi, felly, barhau i fonitro'r sefyllfa hon yn fanwl iawn yn y cyfnod sydd i ddod, gyda golwg ar sicrhau cytundeb nad yw'n arwain at wneud i'r rhai ar y cyflogau isaf ysgwyddo baich y penderfyniad ariannol anodd iawn y mae'r amgueddfa'n cael ei gorfodi i'w wneud?
- 14:46 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Can I thank the Member for the very keen interest that she has taken in this very important matter as well? I can confirm that I will be continuing to take a very close interest in the ongoing situation at the museum. It's important that we strive to reach a consensus that treats lower-paid staff fairly, whilst also ensuring the future sustainability of the museum. As I've mentioned, I have written to the museum recently, emphasising the importance of this matter, and I'll be meeting with the president and the director of the museum shortly, where we will discuss this further. As part of this process, I will be asking my officials for ongoing updates.
- A gaf fi ddiolch i'r Aelod hefyd am ei diddordeb brwd iawn yn y mater pwysig hwn? Gallaf gadarnhau y byddaf yn parhau i fod â diddordeb mawr yn y sefyllfa gyda'r amgueddfa. Mae'n bwysig ein bod yn ymdrechu i ddod i gonsensws sy'n trin staff ar gyflogau is yn deg, gan sicrhau cynaliadwyedd yr amgueddfa yn y dyfodol hefyd. Fel y crybwyllais, rwyf wedi ysgrifennu at yr amgueddfa yn ddiweddar, i ategu pwysigrwydd y mater hwn, a byddaf yn cyfarfod â llywydd a chyfarwyddwr yr amgueddfa yn fuan, pan fyddwn yn trafod hyn ymhellach. Fel rhan o'r broses hon, byddaf yn gofyn i fy swyddogion am ddiweddariadau cyson.
- 14:47 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I understand that the Welsh Government has recently issued a document that actually talks about the wage levels for sponsored bodies anyway, and I'm sure that will be material to the discussions you're having. Would you agree with me, Deputy Minister, that, while it's appropriate for you to engage in the positive way that you have, as has just been described, it is not appropriate to interfere with the operational decisions of arm's-length bodies?
- Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen yn ddiweddar sy'n sôn mewn gwirionedd am lefelau cyflog ar gyfer cyrff a noddir, ac rwy'n siŵr y bydd yn berthnasol i'r trafodaethau rydych yn eu cael. Er ei bod yn briodol i chi gymryd rhan yn eich ffordd gadarnhaol, fel a ddisgrifiwyd yn awr, a fydddech yn cytuno, Ddirprwy Weinidog, nad yw'n briodol ymyrryd ym mhenderfyniadau gweithredol cyrff hyd braich?
- 14:47 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I would agree with that.
- Byddwn, fe fyddwn yn cytuno â hynny.

14:48

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, as you will be aware, I've raised these concerns not only with you as Minister but with the previous Minister, John Griffiths, having had numerous meetings with trade unions and those in the sector. While I have the gravest reservations about the way the national museum have managed this whole process, particularly the way the lowest-paid staff have borne the brunt of the cuts, I have to tell you, Deputy Minister, nonetheless, that it was started by in-year cuts that your Government made to their budget. So, how are they going to be able to come to conclusions in terms of how staff are treated if they cannot manage their budgets effectively—especially given that you've announced exhibitions via the Year of Adventure, which will mean that there will be more work for the national museum in the forthcoming year? What additional talks will you have in relation to those particular cuts, Minister?

Ddirprwy Weinidog, fel y gwyddoch, rwyf wedi mynegi'r pryderon hyn, nid yn unig wrthy ch chi fel Gweinidog, ond wrth y Gweinidog blaenorol, John Griffiths, ar ôl cael nifer o gyfarfodydd gydag undebau llafur a phobl yn y sector. Er bod gennyf amheuan difrifol iawn ynghylch y ffordd y mae'r amgueddfa genedlaethol wedi rheoli'r holl broses hon, yn enwedig y ffordd y mae'r staff ar y cyflogau isaf wedi ysgwyddo baich y toriadau, rhaid i mi ddweud wrthy ch, Ddirprwy Weinidog, iddo ddechrau serch hynny gyda thoriadau canol blwyddyn a wnaeth eich Llywodraeth i'w cyllideb. Felly, sut y maent yn mynd i allu dod i gasgliadau o ran sut y caiff staff eu trin os na allant reoli eu cyllidebau yn effeithiol—yn enwedig o gofio eich bod wedi cyhoeddi arddangosfeydd Blwyddyn Antur, sy'n golygu y bydd mwy o waith i'r amgueddfa genedlaethol ei wneud yn ystod y flwyddyn sydd i ddod? Pa drafodaethau ychwanegol fyddwch chi'n eu cael mewn perthynas â'r toriadau penodol hynny, Weinidog?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:48

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, that groundbreaking exhibition, of course, is being supported by us with finance. It's quite incredible that the biggest cheerleader for cuts is the leader of the opposition, when you raised the issue of in-year cuts. This is a direct result—. The reason that institutions such as the national museum are struggling is because of the UK Government cuts—a £1.4 billion cut for Wales thus far, with probably more this week. That's the reason why institutions such as the national museum are struggling.

Wel, mae'r arddangosfa arloesol honno, wrth gwrs, yn cael ei chefnogi gan gyllid oddi wrthym ni. Mae'n eithaf anhygoel mai'r sawl sydd uchaf ei glod i'r toriadau yw arweinydd yr wrthblaid, pan sonioch am doriadau canol blwyddyn. Dyma ganlyniad uniongyrchol—. Y rheswm y mae sefydliadau megis yr amgueddfa genedlaethol yn cael trafferth yw oherwydd toriadau Llywodraeth y DU—toriad o £1.4 biliwn i Gymru hyd yma, a mwy yr wythnos hon yn ôl pob tebyg. Dyna'r rheswm pam y mae sefydliadau megis yr amgueddfa genedlaethol yn cael trafferth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Contractau Cadwyni Cyflenwi (Morlyn Llanw Bae Abertawe)

Supply Chain Contracts (Swansea Bay Tidal Lagoon)

14:49

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod contractau cadwyni cyflenwi yn dod i fusnesau yng Nghymru fel rhan o'r datblygiad morlyn llanw ym mae Abertawe? OAQ(4)0587(EST)

10. What is the Welsh Government doing to ensure that supply chain contracts come to businesses in Wales as part of the Swansea bay tidal lagoon development? OAQ(4)0587(EST)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have to maximise the supply chain opportunities for this project. It's intended all tier 1 contractors will advertise contracts over £5,000 on Sell2Wales. My officials are setting up a cross-Government group to co-ordinate all the supply chain and other support required for the project.

Mae'n rhaid i ni wneud y gorau o gyfleoedd y gadwyn gyflenwi ar gyfer y prosiect hwn. Bwriedir i bob contractwr haen 1 hysbysebu contractau dros £5,000 ar GwerthwchiGymru. Mae fy swyddogion yn sefydlu grŵp ar draws y Llywodraeth i gydlynu'r holl gymorth o ran y gadwyn gyflenwi a chymorth arall sydd ei angen ar gyfer y prosiect.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for her reply, and I hope she is taking these opportunities seriously. I declare an interest as a community shareholder in this project. I hope shortly to be meeting companies in my region, such as 3Ks in Llanelli and Ledbury in Pembroke Dock, all of which could be competing for the contracts within this, and I'm sure other companies are available as well. What further steps can we take to ensure that two things now happen? One, that the UK Government and the company come and agree a strike price, because we want to see this project happen for the future of Wales and the future of green energy in Wales. Secondly, though you've set up the work that you've already described, Minister, is there any further work you can do with the company behind the scheme in ensuring that a preference, if I can put it that way, is given to local supply chain companies looking at, of course, the overall environmental impact of a scheme such as this?

Diolch i'r Gweinidog am ei hateb, ac rwy'n gobeithio ei bod o ddifrif ynghylch y cyfleoedd hyn. Rwy'n datgan buddiant fel cyfranddaliwr cymunedol yn y prosiect. Yn fuan, rwy'n gobeithio cyfarfod â chwmnïau yn fy rhanbarth, megis 3Ks yn Llanelli a Ledbury yn Noc Penfro, y gallai pob un ohonynt fod yn cystadlu am y contractau, ac rwy'n siŵr bod cwmnïau eraill ar gael hefyd. Pa gamau pellach y gallwn eu rhoi ar waith i sicrhau bod dau beth yn digwydd yn awr? Un, bod Llywodraeth y DU a'r cwmni yn dod i gytundeb ynghylch pris streic, oherwydd rydym am weld y prosiect hwn yn digwydd er budd dyfodol Cymru a dyfodol ynni gwyrdd yng Nghymru. Yn ail, er eich bod wedi sefydlu'r gwaith a ddisgrifiwyd gennych eisoes, Weinidog, a oes unrhyw waith pellach y gallwch ei wneud gyda'r cwmni sydd wrth wraidd y cynllun o ran sicrhau bod ffafriaeth, os caf ei roi felly, yn cael ei roi i gwmnïau lleol yn y gadwyn gyflenwi gan ystyried effaith amgylcheddol gyffredinol cynllun o'r fath wrth gwrs?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:50

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, on the first point, I will be discussing further with the UK Government the issues around the strike price, because it's very difficult for SMEs to involve themselves in further investment into their companies if there is no strike price—there's no reality in terms of the project. So, these are quite serious issues for SMEs. So, we will be raising that issue, but I know the UK Government is very keen on the project, so we hope that that will be resolved shortly. We are actually working—my officials—closely with the tidal lagoon company to understand what further things are required. That is ongoing work and, obviously, if they've got any issues that they want us to help and assist with, we're more than happy to do so. But, once a strike price is agreed, you can really move on with an element of speed and certainty then, to actually say to SMEs, 'Get involved, get your staff trained, and do the business'.

Ie, ar y pwynt cyntaf, byddaf yn trafod y materion sy'n ymwneud â'r pris streic ymhellach gyda Llywodraeth y DU, gan ei bod yn anodd iawn i fusnesau bach a chanolig gynnwys eu hunain yn y broses o sicrhau buddsoddiad pellach yn eu cwmnïau os nad oes pris streic—nid oes unrhyw realiti mewn perthynas â'r prosiect. Felly, mae'r rhain yn faterion eithaf difrifol i fusnesau bach a chanolig. Felly, byddwn yn codi'r mater hwnnw, ond rwy'n gwybod bod Llywodraeth y DU yn frwd iawn ynghylch y prosiect, felly rydym yn gobeithio y caiff ei ddatrys yn fuan. Mewn gwirionedd, rydym yn gweithio'n agos—fy swyddogion—gyda chwmni'r morlyn llanw er mwyn deall beth arall sydd ei angen. Mae hwnnw'n waith parhaus ac yn amlwg, os oes ganddynt unrhyw faterion y maent am i ni eu helpu a'u cynorthwyo gyda hwy, rydym yn fwy na hapus i wneud hynny. Ond ar ôl cytuno ar y pris streic, gallwch symud ymlaen go iawn gydag elfen o gyflymder a sicrwydd wedyn i ddweud wrth fusnesau bach a chanolig, 'Cymerwch ran, sicrhewch hyfforddiant i'ch staff ac ewch amdani'.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:51

Altaf Hussain [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, we must ensure that south Wales reaps the benefits from the tidal lagoon and the fact that it will be the first such scheme. In relation to the steps taken to ensure that local businesses benefit from the supply chain, what is your Government doing to ensure that the workforce have the necessary skills to meet the future demands of that supply chain?

Weinidog, rhaid i ni sicrhau bod de Cymru yn manteisio ar y budd o'r morlyn llanw a'r ffaith mai dyma fydd y cynllun cyntaf o'i fath. Mewn perthynas â'r camau a gymerir i sicrhau bod busnesau lleol yn elwa ar y gadwyn gyflenwi, beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau angenrheidiol i ateb gofynion y gadwyn gyflenwi yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:52

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, my colleague, Julie James, is actively engaged with the industry in looking at what their skills requirements are. Their skills requirements aren't necessarily that different to some of the skills that are already within the workforce in Wales, which we can actually enhance. The important thing for us is that there could be 1,900 jobs created just in terms of the construction alone. There will be full-time jobs after, but the tourism potential of this lagoon—we could be talking about up to 70,000 to 100,000 visitors a year. Now, that has enormous potential in itself for generating cash into the economy.

Wel, mae fy nghyd-Aelod, Julie James, yn ymwneud â'r diwydiant er mwyn ystyried beth yw eu gofynion sgiliau. Nid yw eu gofynion o ran sgiliau o reidrydd mor wahanol â hynny i rai o'r sgiliau sydd eisoes gan y gweithlu yng Nghymru, a gallwn eu gwella mewn gwirionedd. Y peth pwysig i ni yw y gallai 1,900 o swyddi gael eu creu o ran y gwaith adeiladu yn unig. Ceir swyddi amser llawn ar ôl hynny, ond mae potensial twristiaeth y morlyn—gallem fod yn siarad am hyd at 70,000 i 100,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Nawr, mae potensial enfawr i hynny ynddo'i hun i ddod ag arian i mewn i'r economi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gwella Gwasanaethau Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cwm Cynon)

Improving Public Transport Services (Cynon Valley)

14:52 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
11. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0588(EST)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

11. Will the Minister outline her priorities for improving public transport services in the Cynon Valley? OAQ(4)0588(EST)

14:52 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes. My plans for improving public transport across all of Wales will be outlined in the new national transport plan.

Gwnaf. Bydd fy nghynlluniau ar gyfer gwella trafndiaeth gyhoeddus ar draws Cymru gyfan yn cael eu hamlinellu yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol newydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:53 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Minister. As you know, I've raised Hirwaun rail services many times and, whilst welcoming reference to this in the draft national transport plan, would the Welsh Government consider extending passenger rail services on this line as part of the metro project? Bus services are also vital to many of my constituents. How can we make sure these properly connect to metro services? Has the Minister given any thought to holders of concessionary bus travel cards and perhaps extending the policy to the metro system? It already gives the holders of these free travel on some rail services.

Diolch yn fawr, Weiniidog. Fel y gwyddoch, rwyf wedi sôn am wasanaethau rheilffordd Hirwaun lawer gwaith, ac er fy mod yn croesawu'r cyfeiriad at hyn yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol drafft, a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried ymestyn gwasanaethau rheilffordd i deithwyr ar y rheilffordd hon fel rhan o'r prosiect metro? Mae gwasanaethau bws hefyd yn hanfodol i lawer o fy etholwyr. Sut y gallwn sicrhau bod y rhain yn cysylltu'n briodol â'r gwasanaethau metro? A yw'r Gweinidog wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i ddeiliaid cardiau teithio rhatach ar fysiau ac ymestyn y polisi i'r system metro, o bosibl? Mae eisoes yn cynnig teithio am ddim i ddeiliaid y cardiau hyn ar rai gwasanaethau trên.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We have no immediate plans to extend the geographical area for concessionary travel on rail services. Its primary purpose has been to provide a concessionary travel pass for holders in areas where there is limited bus provision. I think that will still stand. In terms of your other points, connectivity between Aberdare and Hirwaun is a long-term vision for the metro, and my officials have started to develop options to provide the necessary infrastructure for potential additional services on the Aberdare line at a future date. This will give consideration to the potential for future services in Hirwaun.

Nid oes gennym unrhyw gynlluniau uniongyrchol i ymestyn yr ardal ddaearyddol ar gyfer teithio rhatach ar wasanaethau trên. Ei brif bwrpas oedd darparu tocyn teithio rhad i rai mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth fysiau'n gyfyngedig. Rwy'n credu y bydd yn parhau. O ran eich pwyntiau eraill, mae cysylltedd rhwng Aberdâr a Hirwaun yn weledigaeth hirdymor ar gyfer y metro, ac mae fy swyddogion wedi dechrau datblygu opsiynau i ddarparu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau ychwanegol posibl ar reilffordd Aberdâr yn y dyfodol. Bydd hyn yn ystyried y potensial ar gyfer gwasanaethau yn Hirwaun yn y dyfodol.

14:54 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, it was about 18 months ago that the reforms to the bus service operators grant were made in supporting bus services. Various communities in Cynon Valley and in particular across South Wales Central obviously had a removal of bus services. What assessment has the Minister and her officials made of the current support package that is in place to make sure that there are viable options for public transport in the bus sector?

Weiniidog, tua 18 mis yn ôl y gwnaed y diwygiadau i'r grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau i gefnogi gwasanaethau bysiau. Yn amlwg, diddymwyd gwasanaethau bysiau mewn amryw o gymunedau yng Nghwm Cynon ac yn arbennig ar draws Canol De Cymru. Pa asesiad y mae'r Gweinidog a'i swyddogion wedi'i wneud o'r pecyn cymorth presennol sydd ar waith i wneud yn siŵr bod dewisiadau ymarferol ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus yn y sector bysiau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As the leader of the opposition knows, I don't have control of the regulation of buses, though I do have control of the money. Obviously, one of the things I've done as a result of the metro discussion is ask local authorities to look at the routes that are actually essential in terms of having integrated public transport, and those will be coming back to me in September and will then be put on the metro map. We constantly review our relationship with bus operators to ensure we're getting the best value for money.

Lleihau Allyriadau Carbon (Gweithredwyr Bysiau)

14:55 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
12. Pa gefnogaeth sy'n cael ei darparu i weithredwyr bysiau yng Nghymru i leihau eu hallryadau carbon? OAQ(4)0584(EST)

14:55 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Bus operators in Wales will be able to apply for funding to help with the purchase of low-emission buses through the low emissions bus fund between April 2016 and March 2019.

14:55 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I had a meeting with bus operators on the Travel to Work by Bus Day a couple of weeks ago. They were indicating that the size of the amount of money provided by the UK Government to English bus operators was considerable, and that had enabled them to purchase hundreds of low-carbon-emission buses. It's interesting that you also feel that you have allocated considerable sums to Welsh buses, but I'm not aware of any low-carbon-emission buses actually operating in Wales. I wondered how you can improve that situation.

14:55 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I think I indicated that it'd be available through the low emissions bus fund. The low emissions bus fund will be made available to applicants in Wales actually via the UK Government. It's the former green bus fund, which was an England-only scheme, and it's now been extended. I've asked my officials, obviously, to support this, and I've made money available to help the bus policy advisory group to help and assist with those particular actions. We're delighted that this scheme's been extended to Wales.

Gohirio Gwelliannau i'r Rhwydwaith Rheilffyrdd

14:56 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
13. Pa effaith bydd penderfyniad Llywodraeth y DU i ohirio gwelliannau i'r rhwydwaith rheilffyrdd yn ei chael ar gynlluniau rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0594(EST)

Fel y mae arweinydd yr wrthblaid yn gwybod, nid oes gennyf reolaeth dros reoleiddio bysiau, er bod gennyf reolaeth dros yr arian. Yn amlwg, un o'r pethau rwyf wedi ei wneud o ganlyniad i'r drafodaeth ar y metro yw gofyn i awdurdodau lleol edrych ar y llwybrau sy'n hanfodol mewn gwirionedd o ran integreiddio trafniadaeth gyhoeddus, a byddant yn dychwelyd ataf ym mis Medi ac yna'n cael eu rhoi ar y map metro. Rydym yn adolygu ein perthynas gyda chwmnïau bysiau yn gyson i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian.

Reducing Carbon Emissions (Bus Operators)

12. What support is being provided to Welsh bus operators to reduce their carbon emissions? OAQ(4)0584(EST)

Bydd gweithredwyr gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn gallu gwneud cais am gyllid i helpu gyda phrynu bysiau allyriadau isel drwy'r gronfa bysiau allyriadau isel rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2019.

Cefais gyfarfod â gweithredwyr bysiau ar y Diwrnod Teithio i'r Gwaith ar y Bws wythnos neu ddwy yn ôl. Roeddent yn nodi bod y swm o arian a ddarperir gan Lywodraeth y DU i weithredwyr bysiau yn Lloegr yn sylweddol, a'i fod wedi eu galluogi i brynu cannoedd o fysiau allyriadau carbon isel. Mae'n ddiddorol eich bod hefyd yn teimlo eich bod wedi dyrannu symiau sylweddol i fysiau yng Nghymru, ond nid wyf yn ymwybodol o unrhyw fysiau allyriadau carbon isel sy'n gweithredu yng Nghymru. Roeddwn i'n meddwl tybed sut y gallwch wella'r sefyllfa honno.

Rwy'n credu fy mod wedi dweud y byddai ar gael drwy'r gronfa bysiau allyriadau isel. Bydd y gronfa bysiau allyriadau isel ar gael i ymgeiswyr yng Nghymru mewn gwirionedd, drwy Lywodraeth y DU. Yr hen gronfa bysiau gwyrdd yw hi, a oedd yn gynllun ar gyfer Lloegr yn unig, ac mae bellach wedi cael ei hymestyn. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion gefnogi hyn, wrth gwrs, ac rwyf wedi sicrhau bod arian ar gael i helpu'r grŵp cynghori ar y polisi bysiau i helpu a chynorthwyo gyda'r camau gweithredu penodol hynny. Rydym wrth ein bodd fod y cynllun hwn wedi cael ei ymestyn i gynnwys Cymru.

Delaying Improvements to the Rail Network

13. What impact will the UK Government's decision to delay improvements to the rail network have on railway plans for North Wales? OAQ(4)0594(EST)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:56 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I can say I'm really disappointed about this and what possible implications there could be for north Wales. I'm going to continue to press them for the devolution of rail infrastructure to ensure we're able to invest in infrastructure and deliver the electrification of the north Wales coast main line and improve cross-border services. I think it's important we remain united across the Chamber and local authorities in Wales continue to press this case.

Gallaf ddweud fy mod yn siomedig iawn am hyn a'r goblygiadau posibl i ogledd Cymru. Rwy'n mynd i barhau i bwysio arnynt i ddatganoli'r seilwaith rheilffyrdd er mwyn sicrhau ein bod yn gallu buddsoddi mewn seilwaith a thrydaneiddio prif reilffordd arfordir gogledd Cymru a gwella gwasanaethau trawsffiniol. Rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni barhau i fod yn unedig ar draws y Siambr a bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i bwysio am hyn.

14:57 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I can assure you of my support for those steps. Can I ask, however, that perhaps representations be made to Merseyrail, which commissioned a report recently on extension of their services to Chester via the Halton curve? They ruled out extension to Wrexham on the basis of the timeline. Can we perhaps ask that they revisit that, now, considering the delay to the overall project by the UK Government?

Gallaf sicrhau fy nghefnogaeth i'r camau hynny. A gaf fi ofyn, fodd bynnag, i'r sylwadau gael eu gwneud i Merseyrail, a gomisiynodd adroddiad yn ddiweddar ar ymestyn eu gwasanaethau i Gaer drwy droad Halton? Maent wedi diystyru ymestyn i Wrecsam ar sail yr amserlen. A gawn ni ofyn iddynt ailedrych ar hynny yn awr efallai, o ystyried yr oedi i'r prosiect cyffredinol gan Lywodraeth y DU?

14:57 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As you're aware, because we have detailed discussions with rail, we do have a good relationship with Merseyrail, and I would be very pleased for my officials to liaise on the points that you've raised with me today.

Fel y gwyddoch, am ein bod yn cael trafodaethau manwl ar y rheilffyrdd, mae gennym berthynas dda gyda Merseyrail, a byddwn yn barod iawn i fy swyddogion ymgysylltu ynglŷn â'r pwyntiau rydych wedi eu dwyn i fy sylw heddiw.

Hyrwyddo Twristiaeth (Arwyddion Brown)

Tourism Promotion (Brown Signage)

14:57 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gyfraniad arwyddion brown i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)0585(EST)

14. What assessment has the Minister made of the contribution of brown signage to tourism promotion in Wales? OAQ(4)0585(EST)

14:57 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, tourism signs are provided primarily for traffic management purposes and to support visitors' journeys to sites of interest.

Wel, caiff arwyddion twristiaeth eu darparu yn bennaf at ddibenion rheoli traffig ac i gefnogi teithiau ymwelwyr i safleoedd o ddiddordeb.

14:57 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister, for that response. I certainly agree with you on the importance of brown signage in signposting visitors to places of particular interest.

Diolch i chi am eich ymateb, Weinidog. Rwy'n sicr yn cytuno â chi ynghylch pwysigrwydd arwyddion brown i gyfeirio ymwelwyr i leoedd o ddiddordeb arbennig.

As you'll be aware, the Petitions Committee is currently considering a petition from Cilmeri Community Council in Powys regarding the interpretation at the Prince Llywelyn monument. The community council is very appreciative of the efforts that have already gone in from your department in that regard. However, it's approaching a year now since the petition was originally received, and I've had requests from the community council as to an update with regard to the possibility of brown signage being incorporated on the A483 to actually bring greater focus to that monument, which is of national significance. I'd appreciate any update that you're able to provide in that regard.

Fel y byddwch yn ymwybodol, ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Deisebau yn ystyried deiseb gan Gyngor Cymuned Cilmeri ym Mhowys ynghylch y dehongliad wrth gofeb y Tywysog Llywelyn. Mae'r cyngor cymuned yn werthfawrogol iawn o'r ymdrechion sydd eisoes wedi'u gwneud gan eich adran yn hynny o beth. Fodd bynnag, mae'n agosáu at flwyddyn bellach ers i'r ddeiseb gael ei chyflwyno'n wreiddiol, ac mae'r cyngor cymuned wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r posibilrwydd o osod arwyddion brown ar yr A483 i roi mwy o ffocws i'r gofeb, sydd o arwyddocâd cenedlaethol. Byddwn yn gwerthfawrogi'r wybodaeth ddiweddaraf y gallwch ei rhoi am hynny.

14:58	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Some of the issue, of course, is that tourist attractions need to meet specific visitor numbers, which is always a particular issue. Can I say, my officials have been told to investigate whether it is possible to provide tourist signs at the monument? I can assure you, as Chair of the committee, and Members that you will have a response from me in writing next week about what progress they may or may not have made on this particularly interesting issue.</p>	<p>Rhan o'r broblem, wrth gwrs, yw bod angen i atyniadau twristiaeth gyrraedd niferoedd penodol o ymwelwyr, sydd bob amser yn broblem. A gaf fi ddweud, gofynnwyd i fy swyddogion archwilio a yw'n bosibl darparu arwyddion twristiaeth wrth y gofeb? Gallaf eich sicrhau, fel Cadeirydd y pwyllgor, a'r Aelodau, y byddwch yn cael ymateb oddi wrthyf yn ysgrifenedig yr wythnos nesaf ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau neu fel arall ar y mater arbennig o ddiddorol hwn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Y Cynllun Taleb Gwibgyswllt		The Ultrafast Connectivity Voucher Scheme	
14:59	<p>Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography</p> <p>15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun taleb gwibgyswllt? OAQ(4)0590(EST)</p>	<p>15. Will the Minister make a statement on the ultrafast connectivity voucher scheme? OAQ(4)0590(EST)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:59	<p>Julie James Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology</i></p> <p>The pilot voucher scheme continues to financially support businesses based within enterprise and local growth zones to obtain ultrafast broadband connection. We are currently supporting three Deeside-based businesses, and we'll continue to monitor take-up and business appetite for the offer until the pilot period ends in June 2016.</p>	<p>Mae cynllun peilot y talebau yn parhau i gynorthwyo busnesau'n ariannol yn yr ardaloedd menter a'r ardaloedd twf lleol i gael cysylltiad band eang cyflym iawn. Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi tri busnes ar Lannau Dyfrdwy, a byddwn yn parhau i fonitro'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun ac archwaeth busnesau am y cynnig tan i'r cyfnod peilot ddod i ben ym mis Mehefin 2016.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:59	<p>Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch i chi am eich ateb. Rwy'n deall y natur wedi'i dargedu o safbwynt y cynllun, ond yn amlwg, mae yna fusnesau y tu allan i rai o'r ardaloedd hynny a fyddai'n awyddus nid yn unig i fanteisio ar gysylltiad gwibgyswllt ond yn sicr i fanteisio ar y daleb hefyd. Mae nifer o fusnesau, er enghraifft yn Nyffryn Clwyd, wedi dod ataf i yn holi am y posibilrwydd o estyn y cynllun i ardaloedd sydd ddim yn cael eu cyfro ar hyn o bryd. A gaf i ofyn, felly, ba fwrriad sydd gan y Llywodraeth i ystyried gwneud hynny?</p>	<p>Thank you for your answer. I understand the targeted nature of the scheme, but clearly there are businesses outside some of those areas that would be keen to take advantage not only of ultrafast connectivity but of the voucher also. Many businesses, for example in the Vale of Clwyd, have approached me asking about the possibility of extending the scheme to areas that are not currently covered. May I ask you, therefore, what intention the Welsh Government has to consider doing so?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:00	<p>Julie James Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, we're going to evaluate the pilot scheme at the end of the period and, actually, in the period running up to the end of the trial period; so, that's June 2016. But we will be doing preparatory works, assuming that the evaluations are looking good, to extend it. Although this is ultrafast, in addition, of course, we've just announced the Airband contract for superfast to support business premises throughout Wales. So, there are two schemes running simultaneously. We are sort of assuming that it's going to work because it's been very welcomed, but we will be evaluating the pilot, both interim and final, before we do roll it out. If you do have a specific business in mind, we're very happy to speak to them about specific help to that business if they have a real need for ultrafast in a shorter term than that.</p>	<p>Wel, rydym yn mynd i werthuso'r cynllun peilot ar ddiwedd y cyfnod ac mewn gwirionedd, dros y cyfnod hyd at ddiwedd y cyfnod prawf, sef mis Mehefin 2016. Ond byddwn yn gwneud gwaith paratoi ar gyfer ei ymestyn, gan dybio bod y gwerthusiadau'n ffafriol. Er mai gwasanaeth gwibgyswllt yw hwn, rydym hefyd wrth gwrs newydd gyhoeddi contract Airband er mwyn i'r cynllun cyflym iawn gefnogi safleoedd busnes ledled Cymru. Felly, mae dau gynllun yn rhedeg ar yr un pryd. Rydym yn rhyw dybio ei fod yn mynd i weithio am ei fod wedi cael croeso mawr, ond byddwn yn gwerthuso'r cynllun peilot, ar sail interim a therfynol, cyn i ni ei gyflwyno. Os oes gennych fusnes penodol mewn golwg, rydym yn hapus iawn i siarad â hwy ynglŷn â chymorth penodol i'r busnes hwnnw os oes arnynt angen gwirioneddol am wasanaeth gwibgyswllt yn gynt na hynny, yn y tymor byr.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:00	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Deputy Minister.</p>	<p>Diolch yn fawr, Ddirprwy Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Fformiwla Barnett

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 3, which is a debate by individual Members under Standing Order 11.21: the Barnett Formula. I call on Mike Hedges to move the motion.

Cynnig NNDM5799 Mike Hedges, Jocelyn Davies, Alun Ffred Jones, Peter Black

Cefnogwyd gan Simon Thomas, Julie Morgan.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu cyhyd â bod fformiwla Barnett yn parhau y dylai datblygiadau sydd o fudd i Loegr yn unig, fel HS2, arwain at gyllid canlyniadol Barnett llawn i Gymru; a

2. Yn credu ymhellach, pan fo Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn anghydfod ynghylch a ddylai gwariant arwain at gyllid canlyniadol Barnett i Gymru bod angen corff annibynnol i farnu ar hyn.

Cynigiwyd y cynnig.

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I start off by thanking those who signed to support this motion? Jocelyn Davies will be replying.

The motion is a very simple one, and one I hope all Members will find themselves able to support. It believes that as long as the Barnett formula continues, the expenditure on developments that only benefit England, such as HS2, should produce the full Barnett consequential for Wales, and further believes that, when the UK Government and the Welsh Government are in dispute over whether expenditure should produce a Barnett consequential for Wales, there is a need for an independent body to arbitrate. I'm not trying to make any party political points here—just to get Wales's fair share of resources under the current system.

3. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): the Barnett Formula

Symudwn yn awr at eitem 3, sef dadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21: Fformiwla Barnett. Galwaf ar Mike Hedges i gynig y cynnig.

Motion NNDM5799 Mike Hedges, Jocelyn Davies, Alun Ffred Jones, Peter Black

Supported by Simon Thomas, Julie Morgan.

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Believes that as long as the Barnett formula continues then expenditure on developments that only benefit England, such as HS2, should produce the full Barnett consequential for Wales; and

2. Further believes that, when the UK Government and Welsh Government are in dispute over whether expenditure should produce a Barnett consequential for Wales, there is a need for an independent body to arbitrate.

Motion moved.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i'r rhai a lofnododd i gefnogi'r cynnig hwn? Bydd Jocelyn Davies yn ymateb.

Mae'r cynnig yn un syml iawn, ac yn un rwy'n gobeithio y bydd pob Aelod yn gallu ei gefnogi. Cyhyd â bod fformiwla Barnett yn parhau, mae'r cynllun yn credu y dylai'r gwariant ar ddatblygiadau sydd o fudd i Loegr yn unig, megis HS2, gynhyrchu'r cyllid canlyniadol Barnett llawn i Gymru, ac ymhellach, mae'n credu, pan fo Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn anghydfod ynghylch a ddylai gwariant arwain at gyllid canlyniadol Barnett i Gymru, fod angen corff annibynnol i farnu ar y mater. Nid wyf yn ceisio gwneud gwneud unrhyw bwyntiau gwleidyddiaeth plaid yma—dim ond cael cyfran deg o adnoddau i Gymru o dan y system bresennol.

The Barnett formula has been used since the 1970s. A formula for allocating funds between the countries of the union goes back to the Goshen formula, introduced in the 1880s. The Barnett formula has great strengths as far as the Treasury is concerned. It is simple to calculate, and the Treasury decides if expenditure is inside or outside the formula. The Barnett formula generates the change by multiplying the increase or decrease of spending by Government departments, times the percentage devolved, times the relative population. The Treasury decides what percentage is devolved. There is also a relative population change but that is beyond the scope of this debate today. More importantly, the Treasury decides what is excluded or included. Crossrail was included, so I'm told. High-speed rail was not. Purely a Treasury decision. The London Olympics was partly excluded, then partly included on appeal. There is no independent appeal method. There is no independent arbitration.

I'm going to look at the London Olympics. The Olympics, we know, are given to a city not a country. It was given to London. Expenditure on the Olympics was almost all spent in London, although some team sports, like football, were played all over Britain and shooting, for historical reasons, was held at Bisley. The big stadium development and the regeneration took place in London. One of the selling points of the London Olympics was they would regenerate a part of east London. Both regeneration and sport are substantially devolved—with our current devolution settlement, I'm afraid to describe anything as wholly devolved. Whilst, on the face of it, there should be a simple process that should have taken up very little time. This became a prolonged and lengthy matter, starting under one Government and ending under another, leading to a number of discussions and finishing a dispute brought by the three devolved nations against the Treasury ruling of a Government of another colour.

Essentially, at the outset, the Treasury had some four or five different budget lines for the Olympics. Some were recognised as UK orientated and some as falling into the Barnett remit; i.e., those relating to infrastructure and regeneration spending on which there should be a consequential generated. However, before anything happened, the Treasury collapsed the spending into a couple of lines and ruled—and they were Treasury rules—that they were both UK orientated and hence no consequential would be provided.

Mae fformiwla Barnett wedi cael ei defnyddio ers y 1970au. Mae fformiwla ar gyfer dyrannu cyllid rhwng gwledydd yr undeb yn mynd yn ôl i fformiwla Goschen a gyflwynwyd yn y 1880au. Mae gan fformiwla Barnett gryfderau mawr o â'n y Trysorlys. Mae'n syml i'w chyfrifo, a'r Trysorlys sy'n penderfynu a yw'r gwariant o fewn y fformiwla neu oddi allan iddi. Mae fformiwla Barnett yn cynhyrchu'r newid drwy luosi cynnydd neu ostyngiad y gwariant yn ôl adran o'r Llywodraeth, â'r ganran a ddatganolwyd a'r boblogaeth gymharol. Y Trysorlys sy'n penderfynu pa ganran sydd wedi'i datganoli. Ceir newid poblogaeth gymharol hefyd ond mae hynny y tu hwnt i gwmpas y ddad hon heddiw. Yn bwysicach, y Trysorlys sy'n penderfynu beth sydd wedi'i gynnwys a beth sy'n cael ei eithrio. Cafodd Crossrail ei gynnwys, yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall. Nid yw'r rheilffordd gyflym wedi'i chynnwys. Penderfyniad i'r Trysorlys yn llwyr. Cafodd Gemau Olympaidd Llundain eu heithrio'n rhannol, yna eu cynnwys yn rhannol ar apel. Ni cheir dull o apelio'n annibynnol. Nid cheir cyflafareddu annibynnol.

Rwy'n mynd i edrych ar y Gemau Olympaidd yn Llundain. Gwyddom fod y Gemau Olympaidd yn cael eu rhoi i ddinas nid i wlad. Cawsant eu rhoi i Lundain. Gwariwyd y gwariant ar y Gemau Olympaidd bron i gyd yn Llundain, er bod rhai chwaraeon tîm, fel pêl-droed, yn cael eu chwarae ar draws Prydain a chynhaliwyd y saethu, am resymau hanesyddol, yn Bisley. Digwyddodd y datblygiadau stadiwm mawr a'r adfywio yn Llundain. Un o bwyntiau gwerthu Gemau Olympaidd Llundain oedd y byddent yn adfywio rhan o ddwyrain Llundain. Mae adfywio a chwaraeon wedi'u datganoli i raddau helaeth—gyda'n setliad datganoli presennol, rwy'n petruso rhag dweud bod dim wedi'i ddatganoli'n gyfan gwbl. Ar yr olwg gyntaf, dylai fod yn broses syml na ddylai gymryd fawr iawn o amser. Tyfodd hwn yn fater hir a maith, gan ddechrau o dan un Llywodraeth a dod i ben o dan un arall, gan arwain at nifer o drafodaethau a gorffen anghydfod a gyflwynwyd gan y tair gwlad ddatganoledig yn erbyn dyfarniad Trysorlys a berthynai i Lywodraeth o liw arall.

Yn y bôn, ar y cychwyn, roedd gan y Trysorlys oddeutu pedair neu bum llinell wahanol yn y gyllideb ar gyfer y Gemau Olympaidd. Câi rhai eu cydnabod fel rhai sy'n gysylltiedig â'r DU a rhai a berthynai i gylch gorchwyl Barnett; h.y. y rhai sy'n ymwneud â gwariant seilwaith ac adfywio y dylid cynhyrchu swm canlyniadol ar eu cyfer. Fodd bynnag, cyn i ddim ddigwydd, gwasgodd y Trysorlys y gwariant i un neu ddwy linell a barnu—a rheolau'r Trysorlys oeddent—eu bod yn gysylltiedig â'r DU ac felly ni fyddai cyllid canlyniadol yn cael ei ddarparu.

Wales and the other devolved Governments challenged this ruling, initially at official level, and then at ministerial level. However, the Treasury—judge and jury on these matters—would not budge, but the Ministers argued strongly, persevered and then entered the joint ministerial committee dispute mechanism. After several rounds, the matter was eventually referred to a meeting chaired by the UK Cabinet Office Minister. He determined there should be a settlement which, after considerable deliberation, was accepted. The process took over four years, and as far as I know, it's the only matter that has gone to the end, and the first time that Treasury instructed to make a payment. What Wales would receive was £8.8 million in 2011-12 as a one-off settlement? It was allocated to reserves that supported the allocation that year. It was £8.622 million in revenue, £0.241 million in capital, which seems a very small sum in capital when you look at the cost of the stadiums, including some of those that have been partly removed. The Olympic cost has been declared as £9 billion. Wales's share of 5.4 per cent of £9 billion is about £480 million; £8.62 million is less than Swansea East should have had. Decision made and no appeal. We have budget decisions made, and then the negative or positive Barnett consequential is announced. If the system worked correctly, the positive or negative amounts would be calculated and, more importantly, checked. In today's budget, there will inevitably be positive and negative Barnett consequentials. Can somebody tell me now what they're going to be? It doesn't seem to be possible to sit down and calculate it and be certain of its accuracy even within 5 per cent. The Treasury still seems to treat the devolved administrations in Wales, Scotland and Northern Ireland as if they were just any other Government department. I would like to see the calculations indicating how much more or less the Welsh Government gets following each spending review. If it is possible for the Welsh Government to publish the local government formula, then it should be possible, if there is the political will, to produce the same for funding in Wales, Northern Ireland and Scotland.

It's the big schemes that cause me the most concern. I've talked about the London Olympics; let's turn to Crossrail and HS2. Wales is alleged to have had the full Barnett consequential of the Crossrail 1 development. Why? Because CrossRail is classed as a local transport project, and hence generates a Barnett consequential. Of course, we'll need to watch carefully that future Crossrail projects are similarly classified, because all they've got to do is change the classification and we don't get any money. Currently, there are Barnett consequentials for Scotland and Northern Ireland for spending on Network Rail and capital rail projects, but not for Wales. However, there was a consequential for Wales from spending on Crossrail in England, and Wales would hope to benefit from £1 billion extra from the proposed Crossrail 2 scheme—unless they change the rules.

Heriodd Cymru a'r Llywodraethau datganoledig eraill y dyfarniad hwn, ar lefel swyddogol i ddechrau, ac yna ar lefel weinidogol. Fodd bynnag, nid oedd y Trysorlys—y barnwr a'r rheithgor ar y materion hyn—yn fodlon ildio dim, ond dadleuodd y Gweinidogion yn gryf, a dal ati, a chychwyn ar fecanwaith anghydfod y cydbwyllgor gweinidogol. Ar ôl sawl rownd, cafodd y mater ei gyfeirio yn y pen draw at gyfarfod a gadeiriwyd gan y Gweinidog dros Swyddfa Cabinet y DU. Penderfynodd y dylid cael setliad, ac ar ôl cryn drafod, cafodd ei dderbyn. Cymerodd y broses dros bedair blynedd, a chyn belled ag y gwn, dyma'r unig fater sydd wedi parhau at y diwedd, a'r tro cyntaf i'r Trysorlys gael ei gyfarwyddo i wneud taliad. Yr hyn y byddai Cymru yn ei dderbyn oedd £8.8 miliwn yn 2011-12 fel setliad untro. Cafodd ei ddyrannu i gronfeydd wrth gefn i gefnogi dyraniad y flwyddyn honno. Roedd yn cynnwys £8.622 miliwn mewn refeniw, £0.241 miliwn mewn cyfalaf, sy'n ymddangos yn swm bach iawn o gyfalaf pan edrychwch ar gost y stadia, gan gynnwys rhai a gafodd eu tynnu i lawr yn rhannol. Cyhoeddwyd bod cost y Gemau Olympaidd yn £9 biliwn. Cyfran Cymru o 5.4 y cant o £9 biliwn yw oddeutu £480 miliwn; mae £8.62 miliwn yn llai nag y dylai Dwyrain Abertawe fod wedi ei gael. Penderfyniad wedi ei wneud, a dim apêl. Gwneir penderfyniadau cyllidebol, ac yna cyhoeddir y cyllid canlyniadol Barnett negyddol neu gadarnhaol. Pe bai'r system yn gweithio'n iawn, byddai'r symiau cadarnhaol neu negyddol yn cael eu cyfrifo ac yn bwysicach, eu gwirio. Yn y gyllideb heddiw, mae'n anochel y bydd symiau canlyniadol Barnett cadarnhaol a negyddol. A all rhywun ddweud wrthyf yn awr beth fyddant? Mae'n ymddangos nad yw'n bosibl ei gyfrifo a bod yn sicr ei fod yn gywir, hyd yn oed o fewn 5 y cant. Mae'n ymddangos bod y Trysorlys yn dal i drin y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel pe na baent yn ddim mwy nag adran arall o'r Llywodraeth. Hoffwn weld y cyfrifiadau sy'n dangos faint yn fwy neu'n llai y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael yn dilyn pob adolygiad o wariant. Os yw'n bosibl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r fformiwla ar gyfer llywodraeth leol, yna, os oes ewyllys wleidyddol i wneud hynny, dylai fod yn bosibl cynhyrchu'r un peth ar gyfer cyllid yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Y cynlluniau mawr sy'n achosi'r pryder mwyaf i mi. Rwyf wedi siarad am y Gemau Olympaidd yn Llundain; gadewch i ni droi at Crossrail a HS2. Honnir bod Cymru wedi cael cyllid canlyniadol Barnett llawn ar gyfer datblygiad Crossrail 1. Pam? Am fod Crossrail yn cael ei ystyried yn brosiect trafniadaeth lleol, ac felly'n creu cyllid canlyniadol Barnett. Wrth gwrs, bydd angen i ni wylio'n ofalus fod prosiectau Crossrail yn y dyfodol yn cael eu dosbarthu yn yr un modd, gan mai'r cyfan sydd ganddynt i'w wneud yw newid y dosbarthiad ac ni chawn unrhyw arian. Ar hyn o bryd, mae yna symiau canlyniadol Barnett ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer gwariant ar Network Rail a phrosiectau cyfalaf ar gyfer y rheilffyrdd, ond nid ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, roedd yna swm canlyniadol i Gymru o wariant ar Crossrail yn Lloegr, a byddai Cymru yn gobeithio elwa ar £1 biliwn yn ychwanegol o gynllun arfaethedig Crossrail 2—oni bai eu bod yn newid y rheolau.

There are two ways that Wales can be excluded from any Barnett consequential on HS2. The first is if HS2 is an investment that would benefit all of the UK. The current plans would benefit England far more than any other country, but if an investment is deemed to benefit all of the UK then it does not provide a Barnett consequential. Also, rail is not devolved, but transport is partly devolved, so if a rail scheme is defined as a rail scheme, there is no consequential; but under a local transport heading, there is.

What I hope I've argued successfully—well, I expect I'll discover that later this afternoon—is the need for transparency and an independent appeal mechanism. If we're going to continue with the Barnett formula, then we should have an openness and fairness to its distribution. For that reason, I urge Members to support this motion today.

Mae dwy ffordd y gall Cymru gael ei heithrio rhag cael cyllid canlyniadol Barnett ar HS2. Y cyntaf yw os yw HS2 yn fuddsoddiad a fyddai o fudd i'r Deyrnas Unedig gyfan. Byddai'r cynlluniau presennol o fudd i Loegr yn llawer mwy nag i unrhyw wlad arall, ond os ystyrir bod buddsoddiad o fudd i'r DU gyfan, yna nid yw'n darparu swm canlyniadol Barnett. Hefyd, nid yw'r rheilffyrdd wedi'u datganoli, ond mae trafniadaeth wedi'i datganoli'n rhannol, felly os yw cynllun rheilffordd yn cael ei ddiffinio fel cynllun rheilffordd, ni cheir swm canlyniadol; ond dan bennawd trafniadaeth leol, fe geir swm canlyniadol.

Rwy'n gobeithio fy mod wedi llwyddo i ddadlau—rwy'n siŵr y caf wybod yn nes ymlaen y prynhawn yma—dros yr angen am dryloywder a mecanwaith apelio annibynnol. Os ydym yn mynd i barhau gyda fformiwla Barnett, yna dylid ei dosbarthu'n agored ac yn deg. Am y rheswm hwnnw, rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig hwn heddiw.

15:07

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n falch iawn bod hon yn ddadl drawsbleidiol, ac ein bod ni'n gytŵn, gobeithio, y dylai pob cyllid canlyniadol ddod i Gymru ac y dylai fod yna ffordd deg o farnu hynny. Nid yw'r llawr Barnett ym Mil Cymru, fel y mae wedi cael ei gynnig, yn ddigon da. Yn sicr, mae'n well na dim, ond ni ddylid ei ddrysau na'u gymysgu gyda'r egwyddor o ariannu teg.

Roeddwn i'n falch iawn o fod yn rhan o Lywodraeth Cymru'n Un a sefydlodd gomisiwn Holtham, ond rwy'n hynod o siomedig nad oes unrhyw Lywodraeth yn Llundain wedi llwyddo ers hynny i wireddu argymhellion yr adroddiad ardderchog ac awdurdodol hwnnw. Nid wyf eisiau pechu'r cynigydd a'r siaradwyr agoriadol, ond mi roedd hi'n drawiadol iawn bod Andy Burnham, a oedd yn Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, wedi dweud mewn cyfweiliad ar y BBC diwedd mis Mehefin ei fod yn gwybod yn iawn fod Cymru yn cael ei thanariannu gan ei Lywodraeth ef, er ei fod o wedi dweud y peth hollol wahanol ar y pryd yn gyhoeddus. Yn ei gyfweiliad efo BBC Cymru, mi ddywedodd o ei fod wedi cadw at lein y Lywodraeth yn gyhoeddus a chadw ei geg ar gau. Mi roedd hi'n nodweddiadol—ac nid wyf yn ymosod ar Andy Burnham fel ymgeisydd am arweinyddiaeth y Blaid Lafur—pan ddywedodd,

'I'm always somebody who puts the interests of the Labour Party first, and in the end that is what matters',

Ond mae arnaf ofn bod hynny'n wir am bob gwleidydd sydd wedi cynrychioli pleidiau Prydeinig ar y mater yma yn y degawdau diwethaf. [Torri ar draws.] Iawn.

I'm wondering whether, Alun Ffred, you heard Andy Burnham's interview on 'Sunday Supplement' on Sunday regarding this issue? He claimed that, in 2007, he'd actually got an additional £2 billion for Wales over and above the Barnett allocation. Would you agree with me that, if that's the case, we wouldn't have the problem we have today?

I am very pleased that this is a cross-party debate, and that we are agreed, I hope, that all consequentials should come to Wales and that there should be a fair means of deciding on that. The Barnett floor in the Wales Bill, as it's been proposed, isn't good enough. Certainly, it's better than nothing, but it shouldn't be confused with the principle of fair funding.

I was very pleased to be a part of the One Wales Government that established the Holtham commission, but I'm extremely disappointed that not one Government in London has succeeded since then to implement the recommendations of the commission's excellent and authoritative report. I do not want to offend the motion's proposer and opening speaker, but it was very striking that Andy Burnham, who was Chief Secretary to the Treasury, said in a BBC interview at the end of June that he knew full well that Wales was being underfunded by his Government, even though, at the time, he had said something completely different in public. In his interview with BBC Wales, he said that he had kept to the Government line publicly and kept his mouth shut. It was characteristic of him—and I'm not attacking Andy Burnham as a Labour leadership candidate—when he said

'I'm always somebody who puts the interests of the Labour Party first, and in the end that is what matters',

But I'm afraid that that is true of every politician that has represented British parties on this matter in the last few decades. [Interruption.] Fine

Rwy'n meddwl tybed, Alun Ffred, a glywsoch chi gyfweiliad Andy Burnham ar 'Sunday Supplement' ddydd Sul ar y mater hwn? Honnodd ei fod, yn 2007, wedi cael £2 biliwn ychwanegol i Gymru ar ben y dyraniad Barnett. A fydddech yn cytuno, pe bai hynny'n wir, na fyddai gennym y problem sy'n ein hwynebu heddiw?

15:09

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, ni wnes i glywed y cyfweiliad hwnnw, ac nid wyf yn siŵr iawn sut mae hynny yn clymu fewn efo'r hyn a ddywedodd yn gynt, ond bydd rhaid imi dderbyn eich gair chi ar hynny.

Well, I didn't hear that interview, and I'm not quite sure how that ties in with what he'd said earlier, but I will have to take your word on that.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Beth bynnag am hynny, y ffaith ydy nad oes newid wedi bod, ac, i gyfeirio at araith agoriadol Mike Hedges, diddorol iawn oedd clywed Tessa Jowell yn dweud yr wythnos yma, rwy'n credu, ynglŷn â'r 'Olympics', ei fod wedi bod yn llywyddiant ysgubol o safbwynt adfywio rhan arbennig o Lundain. Ac, wrth gwrs, mae o. Rwy'n siŵr bod hynny yn berffaith wir, ond os ydy hynny'n ffaith, mai cynllun adfywio oedd o'n bennaf, yna'n sicr mi ddylem ni fod wedi cael y 'consequential' o hynny. Nid mater o ryw ddatl 'theoretical' ydy Barnett a galw am ariannu teg i ni. Rydym yn galw am ariannu teg er mwyn gallu tyfu'r economi, er mwyn gallu achub bywydau drwy fuddsoddi yn ein gwasanaethau iechyd, ac er mwyn lles dyfodol ein pobl ifanc. Hynny ydy sail ein dadleuon ni.

However, the fact is that no change has occurred, and, in reference to Mike Hedges's opening speech, it was interesting to hear Tessa Jowell say this week, I think, that the Olympics had been an enormous success in terms of the regeneration of one specific part of London. And, of course, it was. I'm sure that that's perfectly true, but if it is the case that it was mainly a regeneration programme, then surely we must have had a consequential as a result. Barnett and the call for fair funding for Wales is not some theoretical debate. We are calling for fair funding in order to grow the economy, in order to save lives by investing in our health service and for the wellbeing of our young people in future. That is the basis of our arguments.

Mae Mike hefyd wedi cyfeirio at HS2, wrth gwrs, ac mae'n ddi-ddorol iawn bod dadansoddiad KPMG, a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, wedi dod i'r casgliad bod economi Cymru, ar y cyfan, yn debyg o golli cannoedd o filiynau o bunnau yn sgil y datblygiad yma bob blwyddyn. Er mai ffigurau 'theoretical' ydy'r rheini, mae'n swm eithaf sylweddol, ac unwaith eto mae'n tanlinellu mai cynllun ar gyfer Lloegr ydy HS2, ac mai bwriad HS2 ydy rhoi budd i economi canolbarth a de-ddwyrain Lloegr. Sut gall cynllun sy'n bodoli'n llawn yn Lloegr ac sy'n niweidiol i economi Cymru gael ei ystyried yn fuddsoddiad Lloegr a Chymru? Mae'n gofyn am dipyn o ystywythder meddwl i geisio cyfiawnhau hynny.

Mike also referred to HS2, of course, and it's very interesting that the KPMG analysis, commissioned by the United Kingdom Government, came to the conclusion that the Welsh economy, on the whole, is likely to lose hundreds of millions of pounds annually as a result of this development. Even though these are theoretical figures, it is quite a significant sum, and this once again emphasises the fact that HS2 is a scheme for England and that its aim is to bring benefit to the economy of the midlands and the south-east of England. How can a scheme that exists solely in England and harms the Welsh economy be considered as an investment for England and Wales? Trying to justify that calls for a significant amount of mental dexterity.

Felly, mater o degwch i Gymru ydy hyn yn y pen draw, ac mae unrhyw un sy'n dadlau yn erbyn hyn heddiw yn tansellio lles ein hetholwyr ni yma yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd yna unfrydedd ynglŷn â'r cynnig hwn ar draws y Siambr heddiw er mwyn danfon neges glir i'r Llywodraeth yn Llundain.

So, this is a matter of fairness for Wales ultimately, and anyone who argues against this today is undermining the wellbeing of our constituents in Wales. I hope that there will be unanimity on this proposal across the Chamber today in order to send a clear message to the Government in London.

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also hope there will be unanimity. I'm very pleased to speak in this important debate and congratulate the movers on getting it accepted, because how Wales gets its funding is obviously crucial for the delivery of services to the people in Wales. So, it's not an abstract discussion; it's how we actually deliver the services that are so important to the people of Wales.

Rwyf innau hefyd yn gobeithio y bydd yna unfrydedd. Rwy'n falch iawn i siarad yn y ddatl bwysig hon ac yn llongyfarch y rhai a'i cyflwynodd ar sicrhau ei bod yn cael ei derbyn, oherwydd mae'r modd y mae Cymru yn cael ei chyllid yn amlwg yn allweddol i allu darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru. Felly, nid yw'n drafodaeth haniaethol; mae'n ymwneud â sut yn union yr awn ati i ddarparu'r gwasanaethau sydd mor bwysig i bobl Cymru.

I think it's very regrettable that there's never been a statutory framework for the Barnett formula. If the need for a statutory framework had been accepted during the passage of the Bills setting up the UK's devolved Assemblies and Parliament, we would certainly know where we were because I'm sure any statutory legislation would have specified that there would be a disputes resolution mechanism and a resource allocation formula.

Rwy'n credu ei bod anffodus iawn na fu fframwaith statudol erioed ar gyfer fformiwlâ Barnett. Pe bai'r angen am fframwaith statudol wedi cael ei dderbyn yn ystod taith y Biliau a sefydlodd Senedd a Chynulladau datganoledig y DU, byddem yn sicr yn gwybod lle roeddem, oherwydd rwy'n siŵr y byddai unrhyw ddeddfwriaeth statudol wedi nodi mecanwaith datrys anghydfod a fformiwlâ dyrannu adnoddau.

I want to comment on the need for a disputes resolution mechanism in particular. At present—and I think Mike Hedges has already referred to this—we know that, in the event of a dispute, the Treasury will win and the Prime Minister will ultimately decide and that the advice he makes his decision on will be Treasury advice. I think the Treasury has a bit of a mythical air about it and is able to do things almost in a non-political sense. But I think the problems that have arisen have been with Governments in the UK that are of both or all political complexions.

The chances of a devolved administration winning a dispute are very low. We've already referred to the case of the Olympics and the Olympics were presented as a regeneration and transport project, and still, the consequentials weren't acknowledged. I know that the Welsh Government, from the very outset, disputed this decision, and it was recorded formally as an inter-governmental dispute. But, again, in an inter-governmental dispute, you knew that the Treasury would put its best civil servants to argue the case and the Prime Minister and the Chancellor's views on it would prevail, which did happen.

Subsequent to 2010-11, Barnett did apply to the Olympics, but, again, the amount was minimal, as Mike Hedges has said, to what would have been received in different circumstances. To have just £8.9 million of the £7 billion of public spending allocated to deliver the 2012 games is very, very small indeed.

Another example, I think, where Wales has probably lost out, was in relation to the borrowings of Finance Wales, where the decision was made by the Treasury that the borrowings would all become part of the Welsh block grant, which, obviously, diminished the money that Wales receives, although this was something that did not originally happen.

So, that's why it is so important we need an independent arbitration body, similar to the Australian Commonwealth Grants Commission, which plays a role in determining funding between Australia's federal state Government and individual provincial states. The Australian Commonwealth Grants Commission recommends how the revenue that is raised from the goods and service tax should be distributed to the states and the territories. But the important thing about it is it is an independent statutory body. And, in the discussions we've had on the Finance Committee, where we've been debating some of these issues, we've been told that, in fact, there has never been a challenge to their recommendations, because it is so highly regarded, and is regarded as being so independent.

Rwyf am wneud sylw ar yr angen am fecanwaith datrys anghydfod yn benodol. Ar hyn o bryd—ac rwy'n meddwl bod Mike Hedges eisoes wedi cyfeirio at hyn—mewn anghydfod, gwyddom y bydd y Trysorlys yn ennill ac y bydd y Prif Weinidog yn y pen draw yn penderfynu a bydd y cyngor a gaiff ar gyfer gwneud ei benderfyniad yn gyngor gan y Trysorlys. Rwy'n meddwl bod naws braidd yn chwedlonol yn perthyn i'r Trysorlys a'i fod yn cael gwneud pethau mewn modd sydd bron yn anwleidyddol. Ond rwy'n meddwl bod y problemau wedi codi gyda Llywodraethau yn y DU o'r ddau liw, neu o bob un o'r lliwiau gwleidyddol.

Mae'r gobaith y gall gweinyddiaeth ddatganoledig ennill anghydfod yn fychan iawn. Rydym eisoes wedi cyfeirio at achos y Gemau Olympaidd a chafodd y Gemau Olympaidd eu cyflwyno fel prosiect adfywio a thrafnidiaeth, ac er hynny, ni chafodd y symiau canlyniadol eu cydnabod. Gwn fod Llywodraeth Cymru, o'r cychwyn cyntaf, wedi herio'r penderfyniad, a chafodd ei gofnodi'n fffurfiol fel anghydfod rhynglywodraethol. Ond unwaith eto, mewn anghydfod rhynglywodraethol, roeddech yn gwybod y byddai'r Trysorlys yn defnyddio ei weision sifil gorau i ddatlau'r achos ac y byddai barn y Prif Weinidog a safbwyntiau'r Canghellor ar y mater yn ennill y dydd, a dyna a ddigwyddodd.

Ar ôl 2010-11, roedd Barnett yn gymwys i'r Gemau Olympaidd, ond unwaith eto, roedd y swm yn fach iawn, fel y dywedodd Mike Hedges, o gymharu â'r hyn a fyddai wedi dod i law o dan amgylchiadau gwahanol. Mae cael £8.9 miliwn o'r £7 biliwn o wariant cyhoeddus a ddyrannwyd ar gyfer darparu gemau 2012 yn fach iawn yn wir.

Cafwyd enghraifft arall, rwy'n meddwl, o Gymru yn colli allan yn ôl pob tebyg, mewn perthynas â benthyciadau Cyllid Cymru, lle y penderfynodd y Trysorlys y byddai'r benthyciadau i gyd yn dod yn rhan o grant bloc Cymru, a oedd yn amlwg yn lleihau'r arian y mae Cymru yn ei gael, er bod hyn yn rhywbeth nad oedd yn digwydd yn wreiddiol.

Felly, dyna pam ei bod mor bwysig i ni gael corff cyflafareddu annibynnol, yn debyg i Gomisiwn Grantiau'r Gymanwlad yn Awstralia, sy'n chwarae rhan yn y broses o benderfynu ar gyllid rhwng Llywodraeth gwladwriaeth ffederal Awstralia a gwladwriaethau taleithiol unigol. Mae Comisiwn Grantiau'r Gymanwlad yn argymhell sut y dylid dosbarthu'r refeniw a godir o'r dreth ar nwyddau a gwasanaethau i'r gwladwriaethau a'r tiriogaethau. Ond y peth pwysig amdano yw ei fod yn gorff statudol annibynnol. Ac yn y trafodaethau a gawsom yn y Pwyllgor Cyllid, lle buom yn trafod rhai o'r materion hyn, cawsom wybod, mewn gwirionedd, na chyflwynwyd unrhyw her erioed i argymhellion y Comisiwn, am fod cymaint o barch iddo, ac am ei fod yn cael ei ystyried yn gorff mor annibynnol.

So, I really feel that we need to move towards this independent body to look at dispute resolution as a really crucial part of how we move forward with the devolution settlement. And I would have hoped that, if we were able to have a constitutional convention, which seems to me an essential thing that we should have, in terms of trying to draw together all these confused strands, that this should be an essential part of it—that there should be an independent body, and an independent body should either decide what the funding allocation should be, or that there should be an independent appeals system to decide against what the Treasury determines.

So, I think that this is an important debate, and I hope that we will be able to help influence things to go forward to a better and fairer funding system for Wales.

Daeth y Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) i'r Gadair am 15:17.

Felly, rwy'n teimlo'n gryf fod angen i ni symud tuag at gorff annibynnol fel hwn i edrych ar ddatrys anghydfodau fel rhan wirioneddol hanfodol o'r ffordd i symud ymlaen gyda'r setliad datganoli. A byddwn wedi gobeithio, pe baem yn gallu cael confensiwn cyfansoddiadol, sy'n ymddangos i mi yn beth hanfodol a ddylai fod gennym i geisio tynnu'r holl elfennau dryslyd hyn ynghyd, y dylai hyn fod yn rhan hanfodol ohono—y dylid cael corff annibynnol, a dylai corff annibynnol naill ai benderfynu beth y dylai'r dyraniad cyllid fod, neu dylai fod system apeladau annibynnol i benderfynu yn erbyn yr hyn y mae'r Trysorlys yn ei benderfynu.

Felly, rwy'n meddwl bod hon yn ddadl bwysig, ac rwy'n gobeithio y gallwn helpu i ddylanwadu ar bethau er mwyn camu ymlaen at system gyllido well a thecach i Gymru.

The Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) took the Chair at 15:17.

15:17

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I start by thanking Mike Hedges for arranging this debate, and organising and making sure we got it on the agenda? I've long been an admirer of Mike's ability to simplify matters in the way that he has done in opening the speech. If you'd been a chess player, Mike, you would have specialised in endgames, I think.

I think that, certainly, what we have here today is a motion that deals with one aspect of the Barnett formula. Of course, the motion itself doesn't deal with the issue of whether the Barnett formula should be replaced; it deals with particular issues that we as a Welsh Assembly—and the Welsh Government—have with how the Barnett formula is currently being implemented. Because, if there is one thing the Barnett formula is not, it is not simple—it is actually quite a complex formula.

It sounds simple to say you get a certain proportion of your income as a percentage of Government expenditure, but, in fact, the proportions vary from department to department. And I think, as Mike Hedges has pointed out, it does take somebody with far more mathematical ability than myself to actually work out what the Barnett consequential are of any particular announcement. Certainly, I suspect we won't know for a few days what the Barnett consequential will be of today's emergency budget in the House of Commons.

Of course, the Barnett formula also is peculiar in the sense that, when it allocates money to you, it doesn't allocate a straightforward percentage, it allocates you a percentage of additional expenditure. In other words, it's topping up a basic expenditure going back, I think, to the 1970s, when it was first introduced. And, in that sense, it distorts the whole process even further, because of the way that that operates.

A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i Mike Hedges am drefnu'r ddadl hon, a threfnu a sicrhau ein bod yn ei rhoi ar yr agenda? Ers amser maith, rwyf wedi edmygu gallu Mike i symleiddio pethau yn y ffordd a wnaeth wrth agor yr araith. Pe baech wedi bod yn chwaraewr gwyddbwyll, Mike, byddech wedi arbenigo ar glirio'r bwrdd rwy'n meddwl.

Yn sicr, credaf mai'r hyn sydd gennym yma heddiw yw cynnig sy'n ymdrin ag un agwedd ar fformiwla Barnett. Wrth gwrs, nid yw'r cynnig ei hun yn delio â'r cwestiwn a ddylid disodli fformiwla Barnett; mae'n delio â materion penodol sydd gennym fel Cynulliad Cymru—a Llywodraeth Cymru—o ran sut y mae fformiwla Barnett yn cael ei gweithredu ar hyn o bryd. Oherwydd, os oes un peth sy'n wir am fformiwla Barnett, nid yw'n hawdd—mae'n fformiwla eithaf cymhleth mewn gwirionedd.

Mae'n swnio'n syml i ddweud eich bod yn cael cyfran benodol o'ch incwm fel canran o wariant y Llywodraeth, ond mewn gwirionedd, mae'r cyfrannau'n amrywio o adran i adran. Ac rwy'n meddwl, fel y nododd Mike Hedges, fod angen rhywun â gallu mathemategol llawer gwell na fy un i gyfrifo beth yw symiau canlyniadol Barnett unrhyw gyhoeddiad penodol. Yn sicr, rwy'n amau na fyddwn yn gwybod am rai dyddiau beth fydd symiau canlyniadol Barnett y gyllideb frys heddiw yn Nhŷ'r Cyffredin.

Wrth gwrs, mae fformiwla Barnett hefyd yn rhyfedd yn yr ystyr hon; pan fo'n dyrannu arian i chi, nid yw'n neilltuo canran syml, mae'n dyrannu canran o wariant ychwanegol i chi. Mewn geiriau eraill, mae'n ychwanegu at wariant sylfaenol sy'n mynd yn ôl, rwy'n credu, i'r 1970au, pan gafodd ei chyflwyno gyntaf. Ac yn hynny o beth, mae'n ystumio'r broses gyfan hyd yn oed ymhellach, oherwydd y ffordd y mae'n gweithredu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, Mike has identified a couple of things that I think need to be introduced if we are to improve the way that this formula works. I think the appeal process is absolutely right at the moment; if there is a dispute, as there has been in the past, then the ultimate decision in arbitrating that dispute, I think, essentially, ends up with the Chancellor of the Exchequer. It doesn't end up with anybody independent, or, for example, the Office for Budget Responsibility, which is where you might think it might logically end up, but the Chancellor of the Exchequer or the Chief Secretary to the Treasury would come in, look at the various representations from officials, and say, 'I'm going to determine in that particular way'.

And it also seems to me that, when it comes down to making that decision, the chief consideration is how much it's going to cost the Treasury, and that is absolutely evident in terms of HS2. Because, if we had a Barnett consequential from HS2, we would have quite a significant sum of money, and the Treasury would have a great deal less money than they have at the moment, and would most probably have to find further cuts to pay for it. So, I think that that, in itself, is unfair to Wales, and it is also, of course, arbitrary in the way that it operates. I think it's absolutely right that we should have an arbitration process that is independent and put in place to deal with that. But that process should be seen to be independent of Government and should be actually independent of Government, and there should be a clear hierarchy in terms of how you work your way through that arbitration process so that decision is taken separately to the Treasury. I know that the Treasury won't like that—I think that the Treasury will be absolutely horrified at the thought of such a process being put in place, but I think it's absolutely clear that, if the Barnett formula is to continue, then it needs to be on that basis.

I think, also, that when it comes to classifying expenditure that is subject to a Barnett consequential, that also needs to be subject to that independent process, because, again, this isn't just about the Treasury saying, 'Well, we don't think you should have that money.' What they do, as Mike Hedges and others have quite clearly pointed out, is to say that this is UK Government expenditure affecting the whole of the UK when, in fact, it is quite clearly English-only, as is demonstrated by both the Olympics and, of course, by HS2, which I think that any right-minded person would judge was an English-only matter, benefitting only England, and not Wales.

But, at the end of the day, what we actually really need, of course, which is not covered by this motion, is to replace the Barnett formula altogether by a formula that is based on need, which is overseen by a commission—maybe similar to what we have in Australia, but certainly overseen by somebody that is independent of Government and able to determine that formula and then to amend it accordingly, much in the same way perhaps as we do with the local government formula here, but obviously on a much larger scale and with much higher stakes.

Nawr, mae Mike wedi nodi un neu ddau o bethau sydd angen eu cyflwyno, yn fy marn i, os ydym am wella'r ffordd y mae'r fformiwlâ hon yn gweithio. Rwy'n meddwl bod y broses apelio yn gwbl briodol ar hyn o bryd; os oes anghydfod, fel y cafwyd yn y gorffennol, yna yn y pen draw, Canghellor y Trysorlys yn ei hanfod sy'n penderfynu ar ganlyniad yr anghydfod. Nid yw'n gorffen ei daith gydag unrhyw gorff annibynnol, neu'r Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau, er enghraifft, lle y byddech yn meddwl yn rhesymegol y gallai ddod i ben ei daith, ond byddai Canghellor y Trysorlys neu Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn dod i mewn, yn edrych ar y gwahanol sylwadau gan swyddogion, ac yn dweud, 'Rwy'n mynd i benderfynu yn y ffordd hon'.

Ac mae hefyd yn ymddangos i mi, o ran gwneud y penderfyniad hwnnw, mai'r brif ystyriaeth yw faint y mae'n mynd i gostio i'r Trysorlys, ac mae hynny'n gwbl amlwg mewn perthynas â HS2. Oherwydd, pe bai gennym swm canlyniadol Barnett o HS2, byddai gennym swm sylweddol o arian, a byddai'r Trysorlys â llawer iawn llai o arian nag sydd ganddynt ar hyn o bryd, ac mae'n fwy na thebyg y byddai'n rhaid iddo ddod o hyd i doriadau pellach i dalu amdano. Felly, credaf fod hynny, ynddo'i hun, yn annheg i Gymru, ac mae hefyd, wrth gwrs, yn fympwyol yn y ffordd y mae'n gweithredu. Rwy'n credu ei bod yn hollol briodol y dylem gael proses gyflafareddu sy'n annibynnol a'i rhoi ar waith i ddelio â hynny. Ond dylai'r broses honno gael ei gweld i fod yn annibynnol ar y Llywodraeth a dylai fod yn annibynnol ar y Llywodraeth mewn gwirionedd, a dylid cael hierarchaeth glir o ran sut rydych yn gweithio eich ffordd drwy'r broses gyflafareddu fel bod penderfyniad yn cael ei gymryd yn annibynnol ar y Trysorlys. Gwn na fydd y Trysorlys yn hoffi hynny—rwy'n meddwl y bydd y Trysorlys yn arswydo wrth feddwl am broses o'r fath yn cael ei rhoi ar waith, ond rwy'n credu ei bod yn gwbl glir, os yw fformiwlâ Barnett yn parhau, yna mae angen i hynny ddiwydd ar y sail honno.

Rwy'n meddwl hefyd, pan ddaw'n fater o ddosbarthu gwariant sy'n ddarostyngedig i swm canlyniadol Barnett, mae angen iddo fod yn ddarostyngedig i'r broses annibynnol honno hefyd, oherwydd, unwaith eto, nid yw'n fater syml o'r Trysorlys yn dweud, 'Wel, nid ydym yn meddwl y dylech gael yr arian hwnnw.' Yr hyn y maent yn ei wneud, fel y mae Mike Hedges ac eraill wedi nodi yn eithaf clir, yw dweud mai gwariant Llywodraeth y DU yw hwn, sy'n effeithio ar y DU gyfan er ei bod yn eithaf amlwg, mewn gwirionedd, mai ar gyfer Lloegr yn unig y mae, fel y dangosodd y Gemau Olympaidd, a HS2 wrth gwrs, ac rwy'n meddwl y byddai unrhyw berson call yn barnu mai mater i Loegr yn unig yw hwnnw, o fudd i Loegr yn unig, ac nid i Gymru.

Ond yn y pen draw, yr hyn rydym ei angen mewn gwirionedd, wrth gwrs, ac nad yw'n cael ei gynnwys yn y cynnig hwn, yw fformiwlâ gwbl newydd yn lle fformiwlâ Barnett, yn seiliedig ar angen, ac yn cael ei goruchwyllo gan gomisiwn—efallai'n debyg i'r hyn sydd gan Awstralia, ond yn sicr yn cael ei goruchwyllo gan rywun sy'n annibynnol ar y Llywodraeth ac yn gallu penderfynu ar y fformiwlâ a'i diwygio yn unol â hynny, yn debyg iawn efallai i'r hyn rydym yn ei wneud gyda'r fformiwlâ llywodraeth leol yma, ond yn amlwg ar raddfa lawer mwy o faint a gyda llawer mwy yn y fantol.

It seems to me, Presiding Officer, that, until we have that change, we're going to spend a great deal of our time here in the Assembly, and Westminster and the Treasury are going to spend a great deal of time, dealing with disputes such as the one outlined in this motion and dealing with the issues that are being raised here today of where Wales and Scotland and Northern Ireland feel hard done by because the Treasury has decided that it cannot afford to pay the consequential that is our due.

15:22

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You always know when Mike Hedges starts his contribution to a debate by reference to the Goshen formula that you're in for a long afternoon. As Peter Black said in his contribution, Mike, you have a way of making some complicated, more abstract concepts appear interesting and closer to understanding than people would otherwise find. I think the truth is, of course, as we all know here, that this is not the subject that is the bread and butter of discussions out there in pubs up and down the country, but that doesn't lessen its importance. We know here, because we deal with these issues on a day-to-day basis, that the funding of this place has been a problem for a long time, is still a problem, and will no doubt be a problem for a certain amount of time to come, although we do now, at least, have a recognition from the UK Government that the Barnett formula is nearing the end of its life. But there's no doubt at all that all parties have, at different points, been in Government and would have been able to change the system had they wanted to do so. That was a point recognised by both Julie Morgan and Mike Hedges actually.

If you look at the data that are available at the moment, and data are often in short supply in Wales and in short supply to us here—a fact that we often find on the Finance Committee—it does appear at the moment that the funding of Wales, or the Assembly at least, is at around 115 per cent per head of population. Back when Gerry Holtham did his assessment of where Wales should be in terms of funding, he identified a range—I think it was between 114 per cent and 116 per cent per head of the English population, as being what would, at that point, be seen as fair funding. So, we are at that level at the moment. That is not to say that we will stay at that level and, as funding starts to increase across the border, the danger is that we will fall behind, which is why all of us in this Chamber accept that, in the first instance, a Barnett floor is highly important to stop convergence. Beyond that, in the longer term, yes, an alternative to the Barnett formula and the way that that operates, which was described very eloquently by Peter Black earlier, would be desirable.

Nes y cawn y newid hwnnw, Lywydd, mae'n ymddangos i mi ein bod yn mynd i dreulio llawer iawn o'n hamser yma yn y Cynulliad, a San Steffan a'r Trysorlys yn delio ag anghydfodau fel yr un a amlinellwyd yn y cynnig hwn, ac yn delio â'r materion sy'n cael sylw yma heddiw ynglŷn â Chymru a'r Alban a Gogledd Iwerddon yn teimlo eu bod yn colli allan am fod y Trysorlys wedi penderfynu na all fforddio talu'r swm canlyniadol sy'n ddyledus i ni.

Rydych bob amser yn gwybod pan fydd Mike Hedges yn dechrau ei gyfraniad yn y ddadl drwy gyfeirio at fformiwla Goschen eich bod yn wynebu prynhawn hir. Fel y dywedodd Peter Black yn ei gyfraniad, Mike, mae gennych ffordd o wneud i rai cysyniadau cymhleth a mwy haniaethol ymddangos yn ddiddorol ac yn nes at ddealltwriaeth nag y byddai pobl yn ei feddwl fel arall. Rwy'n meddwl mai'r gwir, wrth gwrs, fel y gwyr pawb yma, yw nad dyma'r pwnc sy'n destun trafodaethau ar lawr gwlad yn y tafarndai ar hyd a lled y wlad, ond nid yw hynny'n lleihau ei bwysigrwydd. Rydym yn gwybod yma, oherwydd ein bod yn delio â'r materion hyn o ddydd i ddydd, fod cyllid o'r lle hwn wedi bod yn broblem ers amser hir, yn dal i fod yn broblem, a heb unrhyw amheuaeth yn mynd i fod yn broblem am gryn dipyn o amser i ddod, er bod gennym bellach, o leiaf, gydnabyddiaeth gan Lywodraeth y DU fod fformiwla Barnett yn agosáu at ddiwedd ei hoes. Ond nid oes amheuaeth o gwbl fod yr holl bleidiau, ar wahanol adegau, wedi bod yn y Llywodraeth a byddent wedi gallu newid y system pe baent yn dymuno gwneud hynny. Roedd hwnnw'n bwynt a gydnabuwyd gan Julie Morgan a Mike Hedges mewn gwirionedd.

Os edrychwch ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd, ac mae data yn aml yn brin yng Nghymru ac yn brin i ni yma—ffraith y down ar ei thraws yn aml yn y Pwyllgor Cyllid—mae'n ymddangos ar hyn o bryd fod cyllid i Gymru, neu i'r Cynulliad o leiaf, ar oddeutu 115 y cant y pen o'r boblogaeth. Yn ôl pan wnaeth Gerry Holtham ei asesiad o ble y dylai Cymru fod o ran cyllid, nododd ystod—rwy'n meddwl ei bod rhwng 114 y cant a 116 y cant y pen o'r boblogaeth yn Lloegr, fel un y byddai'n cael ei hystyried, ar y pwynt hwnnw, yn ariannu teg. Felly, rydym ar y lefel honno ar hyn o bryd. Nid yw hynny'n golygu y byddwn yn aros ar y lefel honno ac wrth i gyllid ddechrau cynyddu ar draws y ffin, y perygl yw y byddwn yn disgyn ar ôl, a dyna pam y mae pob un ohonom yn y Siambr hon yn derbyn, yn y lle cyntaf, fod cyllid gwaelodol Barnett yn bwysig iawn er mwyn osgoi cydgyfeirio. Y tu hwnt i hynny, yn y tymor hwy, mae'n wir, fe fyddai dewis amgen yn lle fformiwla Barnett a'r ffordd y mae honno'n gweithio, a ddisgrifiwyd yn huawdl iawn gan Peter Black yn gynharach, yn ddymunol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

So, I have to say that, whilst I don't disagree with the sentiments of this debate, I do find it a little bit strange today that we are having this this afternoon, given that we are currently pursuing these issues on the Finance Committee and the issues that have been raised in the motion have been raised by a number of the witnesses that we've called to the Finance Committee. I know, however, that individual Member debates are different from your usual party debates, so if you were going to have a vehicle to discuss this on the floor of the Chamber at this point in time, then this vehicle that's been chosen is probably the best one to do it.

That said, I must be honest, I want to wait until the findings of the Finance Committee report, and the subsequent debate that we will have in this Chamber, before I really do fully commit to the sentiments of this. I think that a mechanism to arbitrate between the UK Government and the other parts of the United Kingdom—the other devolved Assemblies and Parliaments—is probably a good thing to have. I'm not entirely sure what form that mechanism should take or whether it should actually be a body. But, as I say, I am here now, veering into issues that we are currently discussing on the Finance Committee and I think it would be ill-advised to try and pre-empt the findings of that. I would urge the chairman of the Finance Committee—chairperson of the Finance Committee, I should say—to make sure that, in summing up, we do not in any way prejudice our outcomes and actually send a message to those people who we are asking to be witnesses to that inquiry that we are going into this with a closed mind, because I don't think that is how this institution should ultimately operate.

Felly, rhaid i mi ddweud, er nad wyf yn anghytuno â'r teimladau yn y ddadl hon, rwy'n ei chael ychydig yn rhyfedd heddiw ein bod yn cael hyn y prynhawn yma, o gofio ein bod ar hyn o bryd yn trafod y materion hyn yn y Pwyllgor Cyllid ac mae'r materion a grybwyllwyd yn y cynnig wedi cael eu crybwyll gan nifer o'r tystion a alwyd gennym i'r Pwyllgor Cyllid. Fodd bynnag, rwy'n gwybod bod dadleuon Aelodau unigol yn wahanol i ddadleuon arferol y pleidiau, felly os ydych yn mynd i gael modd o drafod hyn ar lawr y Siambr ar hyn o bryd, yna mae'n debyg mai'r modd a ddewiswyd sydd orau ar gyfer gwneud hynny.

Wedi dweud hynny, mae'n rhaid i mi fod yn onest, rwyf am aros nes y daw canfyddiadau adroddiad y Pwyllgor Cyllid, a'r ddadl ddilynol a gawn yn y Siambr hon, cyn i mi ymrwymo'n llawn i'r teimladau sydd wrth wraidd hyn. Credaf fod mecanwaith i gyflafareddu rhwng Llywodraeth y DU a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig—y Cynulladau a'r Seneddau datganoledig eraill—yn beth da i'w gael yn ôl pob tebyg. Nid wyf yn hollol siŵr pa ffurf fydd i'r mecanwaith hwnnw neu a ddylai fod yn gorff mewn gwirionedd. Ond fel y dywedais, rwyf yma yn awr, yn gogwyddo at faterion rydym ar hyn o bryd yn eu trafod yn y Pwyllgor Cyllid ac rwy'n credu y byddai'n annoeth ceisio achub y blaen ar ei ganfyddiadau. Byddwn yn annog cadeirydd y Pwyllgor Cyllid i wneud yn siŵr, wrth grynhoi, nad ydym yn peryglu ein canlyniadau mewn unrhyw fodd ac mewn gwirionedd yn anfon neges at y bobl rydym yn gofyn iddynt fod yn dystion i'r ymchwiliad rydym yn ei gynnal i hyn ein bod yn ei wneud gyda meddwl caeedig, oherwydd nid wyf yn credu mai dyna sut y dylai'r sefydliad hwn weithredu yn y pen draw.

15:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I call the Minister for Finance and Government Businesses to speak on behalf of the Government—Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i siarad ar ran y Llywodraeth—Jane Hutt.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:26 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Thank you, Llywydd. I want to start by welcoming the opportunity to respond to this debate, which covers two very important issues for Wales: capital investment and the operation of the Barnett formula. In the various studies that have looked at the operation of the Barnett formula, in fact, one of the frequently-cited advantages is that the formula is simple to operate and easy to understand. Well, whilst that may be the case in theory, in practice, as both Mike Hedges and Peter Black have said, the operation of the formula has, on many occasions, been far from simple.

Diolch i chi, Lywydd. Rwyf am ddechrau drwy groesawu'r cyfle i ymateb i'r ddadl hon, sy'n ymdrin â dau fater pwysig iawn i Gymru: buddsoddiad cyfalaf a gweithrediad fformiwla Barnett. Yn y gwahanol astudiaethau sydd wedi edrych ar weithrediad fformiwla Barnett, mewn gwirionedd, un o'r manteision a ddyfynnir yn aml yw bod y fformiwla'n syml i'w gweithredu ac yn hawdd i'w deall. Wel, er y gallai hynny fod yn wir mewn theori, yn ymarferol, fel y mae Mike Hedges a Peter Black wedi'i ddweud, mae gweithrediad y fformiwla, ar sawl achlysur, wedi bod ymhell o fod yn syml.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

So, even if we look at the case in point today, HS2 and the Barnett formula, even the Treasury, the custodians of the Barnett formula, were unclear for some time whether the Welsh Government received Barnett consequentials from spending relating to HS2. Eventually they did confirm that, over the last spending review period, the Welsh Government received £84 million in Barnett consequentials. Those consequentials came through the overall increase in the Department for Transport's capital budget, which included additional funding for HS2. But I will continue to call on the UK Government to ensure that, over the next spending review period, the Welsh Government receives its appropriate consequential funding in full, and this should include any increases to the Department for Transport's capital budget resulting from additional funding for HS2.

Next month, I'll be meeting my counterparts from Northern Ireland and Scotland to agree a joint position on key financial issues to put to the UK Government ahead of the spending review. I've already discussed with the Northern Ireland finance Minister our shared interest in securing consequential funding for HS2 and I expect our agreement, trilaterally, with Northern Ireland and Scotland, to include the need for the UK Government to prioritise capital investment and to ensure the fair working of the Barnett formula. While securing funding from individual projects like HS2 is important, it's the overall level of UK capital investment that, through the operation of the Barnett formula, will determine our ability to invest in the infrastructure that Wales needs. Of course, Alun Ffred Jones pointed to that.

I think this debate is timely. Earlier this afternoon, we heard from the Chancellor of the Exchequer about the budget plans of the UK Government. As Members are aware, prior to the budget I wrote to the Chancellor to outline the priorities for Wales, including the need for the UK Government to invest in infrastructure. This resonates with the call from the business community in Wales to the Chancellor to invest in infrastructure. But, as a result of the Chancellor's statement today, our capital budget this year is still 30 per cent lower in real terms than at its peak in 2009-10. But we don't allow others' cuts to define our capital ambitions. You will know, of course, that three weeks ago I published the annual report of the Wales infrastructure investment plan. Through further allocations to departments, and by developing innovative sources of funding, our plans are on track to provide additional investment of £3.6 billion across Wales. This is vital extra support to increase and sustain growth and jobs and to deliver modernised public services across Wales. But our ability to keep delivering the level of public services that the citizens of Wales need will be constrained unless we secure fair funding in Wales.

I am glad commitment to the funding floor formed part of the Chancellor's statement today. The case for funding reform is indisputable, and I'm engaged in constructive discussions to secure this—in terms of the funding floor—in the lead-up to the spending review. The UK Government must now deliver a funding floor that is fair and halts future convergence.

Felly, hyd yn oed os edrychwn ar yr achos dan sylw heddiw, HS2 a fformiwla Barnett, roedd hyd yn oed y Trysorlys, ceidwaid fformiwla Barnett, yn aneglur am beth amser ynglŷn ag a dderbyniodd Llywodraeth Cymru symiau canlyniadol Barnett o wariant yn ymwneud â HS2. Yn y pen draw cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru, dros gyfnod yr adolygiad o wariant diwethaf, wedi derbyn £84 miliwn mewn symiau canlyniadol Barnett. Daeth y symiau canlyniadol hynny drwy'r cynnydd cyffredinol yng nghyllideb gyfalaf yr Adran Drafnidiaeth, a oedd yn cynnwys arian ychwanegol ar gyfer HS2. Ond byddaf yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i sicrhau, dros gyfnod yr adolygiad o wariant nesaf, fod Llywodraeth Cymru yn derbyn ei chyllid canlyniadol priodol yn llawn, a dylai hyn gynnwys unrhyw gynnydd i gyllideb gyfalaf yr Adran Drafnidiaeth o ganlyniad i gyllid ychwanegol ar gyfer HS2.

Y mis nesaf, byddaf yn cyfarfod â'm cymheiriaid o Ogledd Iwerddon a'r Alban i gytuno ar safbwynt ar y cyd ar faterion ariannol allweddol i'w rhoi i Lywodraeth y DU cyn yr adolygiad o wariant. Rwyf eisoes wedi trafod gyda Gweinidog cyllid Gogledd Iwerddon y diddordeb a rannwn mewn sicrhau arian canlyniadol ar gyfer HS2, ac rwy'n disgwyl i'n cytundeb teirochrol gyda Gogledd Iwerddon a'r Alban gynnwys yr angen i Lywodraeth y DU flaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf a sicrhau bod fformiwla Barnett yn gweithio'n deg. Er bod sicrhau cyllid o brosiectau unigol fel HS2 yn bwysig, lefel gyffredinol buddsoddiad cyfalaf y DU a fydd, drwy weithredu fformiwla Barnett, yn pennu ein gallu i fuddsoddi yn y seilwaith sydd ei angen ar Gymru. Wrth gwrs, nododd Alun Ffred Jones hynny.

Rwy'n credu bod y ddatl hon yn amserol. Yn gynharach y prynhawn yma, clywsom gan Ganghellor y Trysorlys am gynlluniau cyllidebol Llywodraeth y DU. Fel y gŵyr yr Aelodau, cyn y gyllideb ysgrifennais at y Canghellor i amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer Cymru, gan gynnwys yr angen i Lywodraeth y DU fuddsoddi mewn seilwaith. Mae hyn yn cyd-fynd â galw'r gymuned fusnes yng Nghymru ar y Canghellor i fuddsoddi mewn seilwaith. Ond o ganlyniad i ddatganiad y Canghellor heddiw, mae ein cyllideb gyfalaf eleni yn dal i fod 30 y cant yn is mewn termau real nag ar ei anterth yn 2009-10. Ond nid ydym yn caniatáu i doriadau pobl eraill ddiffinio ein huchelgeisiau cyfalaf. Fe fyddwch yn gwybod, wrth gwrs, fy mod, dair wythnos yn ôl, wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Drwy ddyraniadau pellach i adrannau, a thrwy ddatblygu ffynonellau arloesol o gyllid, mae ein cynlluniau ar y trywydd iawn i ddarparu buddsoddiad ychwanegol o £3.6 biliwn ar draws Cymru. Mae hyn yn gymorth ychwanegol hanfodol i gynyddu a chynnal twf a swyddi ac i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus wedi'u moderneiddio ar draws Cymru. Ond bydd ein gallu i barhau i ddarparu'r lefel o wasanaethau cyhoeddus y mae dinasyddion Cymru eu hangen yn cael ei gyfyngu oni bai ein bod yn sicrhau ariannu teg yng Nghymru.

Rwy'n falch fod ymrwymiad i gyllid gwaelodol yn rhan o ddatganiad y Canghellor heddiw. Mae'r achos dros ddiwygio'r drefn gyllido yn ddiameduol, ac rwy'n cymryd rhan mewn trafodaethau adeiladol er mwyn sicrhau hyn—o ran y cyllid gwaelodol—yn y cyfnod yn arwain at yr adolygiad o wariant. Rhaid i Lywodraeth y DU yn awr ddarparu cyllid gwaelodol sy'n deg ac yn atal cydgyfeirio yn dyfodol.

We have discussed the failings of the Barnett formula at great lengths, and I continue to welcome the unity this Chamber has shown, with our unanimous call for Wales to be fairly funded. However, I think this debate has highlighted another important element of the funding system that does need reforming. Mike Hedges reminded Members of the wholly unfair way the Treasury allocated funding for the Olympics, and while the Joint Ministerial Committee provides an opportunity for Ministers from the devolved administrations to discuss matters of dispute, the UK Treasury ultimately, as Mike Hedges said, remains judge and jury in the operation of the Barnett formula.

The recent report from the Bingham Centre for the Rule of Law concluded that the present arrangements fall short of the principles of consent and for the rule of law. The Bingham centre recommended that the machinery of devolved finance can no longer be left to the discretion of HM Treasury.

Practically everyone who has looked at the funding arrangements in the UK has come to the same conclusion. The Holtham commission argued that an independent advisory body should administer the technical aspects of the Barnett formula, including the calculation of budgetary consequential. I think, in terms of Nick Ramsay's contribution today, it may be helpful again to look at the recommendations of the Silk commission, in the spirit of cross-party engagement and unity in responding to Silk. The Silk commission itself made the case for the Office for Budget Responsibility or another body to validate information on public finances, and audit technical aspects of the devolved funding system. I believe that this debate helps us move forward in terms of responding to that recommendation.

So, I do welcome this useful debate. The Welsh Government fully supports the motion, and I also urge all parties to accept the motion as well.

Rydym wedi trafod diffygion fformiwla Barnett yn helaeth, ac rwy'n parhau i groesawu'r undod y mae'r Siambr hon wedi ei ddangos, gyda'n galwad unfrydol i Gymru gael ei hariannu'n deg. Fodd bynnag, credaf fod y ddadl hon wedi tynnu sylw at elfen bwysig arall o'r system gyllido sydd angen ei diwygio. Atgoffodd Mike Hedges yr Aelodau am y ffordd hollol annheg y dyrannodd y Trysorlys gyllid ar gyfer y Gemau Olympaidd, ac er bod y Cydbwyllgor Gweinidogion yn rhoi cyfle i Weinidogion o'r gweinyddiaethau datganoledig i drafod materion sy'n peri anghydfod, Trysorlys y DU yn y pen draw, fel y dywedodd Mike Hedges, sy'n parhau i fod yn farnwr a rheithgor yng ngeithrediad fformiwla Barnett.

Daeth adroddiad diweddar Canolfan Bingham ar Reolaeth y Gyfraith i'r casgliad fod y trefniadau presennol yn ddiffygiol o ran egwyddorion cydsyniad a rheolaeth y gyfraith. Argymhellodd Canolfan Bingham na ellir gadael y peirianwaith cyllid datganoledig i ddisgresiwn Trysorlys EM mwyach.

Mae bron bawb sydd wedi edrych ar y trefniadau ariannu yn y DU wedi dod i'r un casgliad. Dadleuodd comisiwn Holtham y dylai corff cynghori annibynnol weinyddu'r agweddau technegol ar fformiwla Barnett, gan gynnwys cyfrifo symiau canlyniadol cyllidebol. O ran cyfraniad Nick Ramsay heddiw, rwy'n meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol unwaith eto i ni edrych ar argymhellion comisiwn Silk, yn ysbryd ymgysylltiad trawsbleidiol ac undod wrth ymateb i Silk. Mae comisiwn Silk ei hun yn gwneud yr achos dros gael y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol neu gorff arall i ddilysu gwybodaeth am gyllid cyhoeddus, ac i archwilio agweddau technegol ar y system ariannu ddatganoledig. Credaf fod y ddadl hon yn ein helpu i symud ymlaen o ran ymateb i'r argymhelliad hwnnw.

Felly, rwy'n croesawu'r ddadl ddefnyddiol hon. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig yn llwyr, ac rwy'n annog pob plaid i dderbyn y cynnig hefyd.

15:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Jocelyn Davies to reply to the debate. Jocelyn Davies.

Galwaf ar Jocelyn Davies i ymateb i'r ddadl. Jocelyn Davies.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:32 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Well, I'd like to thank all of those who've contributed to today's debate. A consensus, I think, is emerging that the Barnett formula is unsustainable. Now, it's not necessarily practically unsustainable. After all, it has functioned for many decades—over 40 years now—so it does have a proven track record of being able to last. But, it is becoming, I think, increasingly politically unsustainable as dissatisfaction with the current funding settlement grows.

Diolch i chi, Lywydd. Wel, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl heddiw. Rwy'n credu bod consensws yn dod i'r amlwg fod fformiwla Barnett yn anghynladwy. Yn awr, nid yw o reidrwydd yn anghynladwy yn ymarferol. Wedi'r cyfan, mae wedi bod yn weithredol ers sawl degawd—dros 40 mlynedd erbyn hyn—felly mae wedi profi y gall bara. Ond rwy'n meddwl ei bod yn dod yn gynyddol anghynladwy yn wleidyddol wrth i anffodlonrwydd gyda'r setliad cyllido cyfredol gynyddu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Alan Trench has pointed out that there is an implicit assumption built into the Barnett formula that devolved Governments will have a similar policy on public service provision as the UK Government has in England. The money devolved nations receive varies in proportion with spending decisions made in England. So, if the UK Government chooses to cut spending in England, Wales receives less money overall. Now, this causes a problem when the political platform of the UK Government and the devolved Governments diverge.

The Conservatives won a mandate to continue to cut public spending in England at the last general election, but in the devolved nations, the Governments have stood on different political platforms. So, it is at odds with the purpose of devolution if the block grant given to each nation assumes the English model of public services. This isn't a political point; it's just a fact.

Additionally, of course, high-profile expenditure in England has not been accompanied by full Barnett-consequential funding for Wales. We've heard examples laid out for us today—HS2, London Olympics—and nearly every single Member has mentioned that.

There seems to be a lack of transparency and very little opportunity for scrutiny when these funding decisions are made. At the moment, the Treasury is supreme, able to hand down funding decisions to the devolved nations, while their Governments have little right to challenge that—and that has been the case regardless of who is in Government in Westminster. So, the statement of funding policy that's published by the Treasury, without the need for agreement from the devolved administrations, is just handed down. The Secretaries of State for the devolved nations must agree, and the Welsh Government is consulted, but their agreement is not required. Therefore, if there's a disagreement about a funding decision made by the Treasury, the Welsh Government can ask them to reconsider and respond, but beyond that, there is very little that can be done.

Now, the motion today calls for an independent body to arbitrate when the UK Government and the Welsh Government are in dispute about whether England-based expenditure should produce a consequential for Wales. This would improve transparency and offer a greater opportunity to scrutinise those funding decisions, and we need to take decision making out from behind closed doors and bring it into the open. This is in everybody's interests. Increased transparency and objectivity would reduce tensions. It is public money, it belongs to the public, and they should be able to see how decisions are made.

Mae Alan Trench wedi nodi bod yna ragdybiaeth ymhyly yn fformiwla Barnett y bydd gan y Llywodraethau datganoledig bolisi tebyg ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i'r un sydd gan Lywodraeth y DU yn Lloegr. Mae'r arian y mae'r gwledydd datganoledig yn ei dderbyn yn amrywio yn ôl maint y penderfyniadau gwariant a wneir yn Lloegr. Felly, os yw Llywodraeth y DU yn dewis torri gwariant yn Lloegr, bydd Cymru yn cael llai o arian yn gyffredinol. Nawr, mae hyn yn achosi problem pan fydd plattfformau gwleidyddol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Llywodraethau datganoledig yn wahanol.

Enillodd y Ceidwadwyr ffordd i barhau i dorri gwariant cyhoeddus yn Lloegr yn yr etholiad cyffredinol diwethaf, ond yn y gwledydd datganoledig, mae'r Llywodraethau wedi sefyll ar blattfformau gwleidyddol gwahanol. Felly, mae'n groes i ddiben datganol os yw'r grant bloc a roddir i bob gwlad yn mabwysiadu model Lloegr ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Nid pwynt gwleidyddol yw hwn; dim ond ffaith.

Yn ogystal, wrth gwrs, ni chafwyd cyllid canlyniadol Barnett llawn i Gymru i ganlyn gwariant proffil uchel yn Lloegr. Rydym wedi clywed enghreifftiau wedi'u gosod allan i ni heddiw—HS2, Gemau Olympaidd Llundain—ac mae bron bob Aelod wedi crybwyll hynny.

Mae'n ymddangos bod diffyg tryloywder a fawr iawn o gyfle i graffu pan wneir y penderfyniadau cyllido hyn. Ar hyn o bryd, mae'r Trysorlys yn teyrnasu, ac yn gallu trosglwyddo penderfyniadau cyllido i lawr i'r gwledydd datganoledig, ac ychydig iawn o hawl sydd gan eu Llywodraethau i herio hynny—mae hynny wedi bod yn wir waeth pwy sydd yn y Llywodraeth yn San Steffan. Felly'n syml, caiff y datganiad polisi cyllido a gyhoeddir gan y Trysorlys, heb fod angen cytundeb y gweinyddiaethau datganoledig, ei drosglwyddo i lawr. Mae'n rhaid i'r Ysgrifenyddion Gwladol ar gyfer y gwledydd datganoledig gytuno, ac ymgynghorir â Llywodraeth Cymru, ond nid yw eu cytundeb yn ofynnol. Felly, os oes anghytundeb ynghylch penderfyniad cyllido a wnaed gan y Trysorlys, gall Llywodraeth Cymru ofyn iddynt ailystyried ac ymateb, ond y tu hwnt i hynny, ychydig iawn y gellir ei wneud.

Nawr, mae'r cynnig heddiw yn galw am gorff annibynnol i gyflafareddu pan fydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn dadlau a ddylai gwariant yn Lloegr gynhyrchu swm canlyniadol i Gymru. Byddai hyn yn gwella tryloywder ac yn cynnig mwy o gyfle i graffu ar y penderfyniadau cyllido hynny, ac mae angen i ni symud y broses o wneud penderfyniadau allan o'r tu ôl i ddrysau caeedig a'i gwneud yn agored, a hynny er lles pawb. Byddai mwy o dryloywder a gwrthrychedd yn lleihau tensiynau. Mae'n arian cyhoeddus, mae'n perthyn i'r cyhoedd, a dylent allu gweld sut y gwneir penderfyniadau.

Alun Ffred Jones reminded us of the Holtham report and his contribution to this ongoing debate. He also illustrated that Wales has lost out on the operation of the funding formula for many years, and its unfairness is nothing new for us. Julie Morgan proposed a statutory framework that contained dispute resolution, and she also painted, I thought, an interesting picture of this mythical creature, the Treasury, that's set slightly apart from the rest of the UK Government. She also set out, of course, the excellent reasons for the importance of getting this right and the dangers for us of not finding a solution.

Peter Black is quite right that the formula is complex, it's not easily understood, and it is not the whole story. It is difficult for the Treasury to be objective about the way funding is calculated and operates. Being the final arbiter in your own decision always results in suspicion, even if that decision is right. He also proposed a complete overhaul of the formula over time to put a stop to the constant disputes.

Nick Ramsay is right that the formula is not often raised in conversations on the streets and in the pubs, the clubs, the bingo halls, and so on, across Wales. Nevertheless, it is important, and he acknowledged that. He mentioned the data, which show that, currently, we're at the level assumed to be fair, and he's awaiting the outcome of the Finance Committee's report before committing fully to the proposal that's in front of us today, and I think that's fair enough. I think, historically, the Welsh Government has always abstained on motions on individual Members' debates for that very reason, to keep their powder dry. I can assure you that this debate will not prejudge the committee's view. This is not the writing of the committee report here. That'll be done fairly, as always.

You mentioned the Finance Committee's inquiry into future funding, and what that does give us is an opportunity to thoroughly explore the options available to deliver a fair funding settlement. Any new arrangement must both be an improvement and, of course, must be able—

Cawsom ein hatgoffa gan Alun Ffred Jones am adroddiad Holtham a'i gyfraniad i'r ddadl sy'n mynd rhagddi. Dangosodd hefyd fod Cymru wedi colli allan ar weithrediad y fformiwla ariannu ers blynyddoedd lawer, ac nid yw ei hannhegwch yn newydd i ni. Cynigiodd Julie Morgan fframwaith statudol sy'n cynnwys datrys anghydfod, ac roeddwn yn meddwl ei bod hi hefyd wedi creu darlun diddorol o'r creadur mytholegol, y Trysorlys, sy'n sefyll ychydig ar wahân i weddill Llywodraeth y DU. Hefyd, wrth gwrs, nododd y rhesymau ardderchog pam y mae mor bwysig cael hyn yn iawn a pheryglon peidio â dod o hyd i ateb.

Roedd Peter Black yn hollol iawn fod y fformiwla'n gymhleth, nad yw'n hawdd ei deall, ac nad dyma'r stori gyfan. Mae'n anodd i'r Trysorlys fod yn wrthrychol am y ffordd y caiff cyllid ei gyfrifo a'i roi ar waith. Mae bod yn ganolwr terfynol yn eich penderfyniad eich hun bob amser yn arwain at amheuaeth, hyd yn oed os yw'r penderfyniad hwnnw yn iawn. Roedd hefyd yn cynnig y dylid ailwampio'r fformiwla'n llwyr dros amser i roi diwedd ar yr anghydfod cyson.

Mae Nick Ramsay yn iawn nad yw'r fformiwla'n codi'n aml mewn sgysiau ar y strydoedd ac yn y tafarnau, y clybiau, y neuaddau bingo, ac yn y blaen, ar draws Cymru. Serch hynny, mae'n bwysig, ac roedd yn cydnabod hynny. Soniodd am y data, sy'n dangos, ar hyn o bryd, ein bod ar y lefel tybir ei bod yn deg, ac mae'n disgwyl canlyniad adroddiad y Pwyllgor Cyllid cyn ymrwymo'n llawn i'r cynnig sydd ger ein bron heddiw, ac rwy'n credu bod hynny'n ddigon teg. Yn hanesyddol, rwy'n credu bod Llywodraeth Cymru bob amser wedi ymatal ar gynigion ar ddadleuon gan Aelodau unigol am yr union reswm hwnnw, i gadw eu powdwr yn sych. Gallaf eich sicrhau na fydd y ddadl hon yn rhagfarnu safbwynt y pwyllgor. Nid ydym yn ysgrifennu adroddiad y pwyllgor yma. Bydd hynny'n cael ei wneud yn deg, fel bob amser.

Fe sonioch am ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i gyllid yn y dyfodol, ac mae hynny'n rhoi cyfle i ni edrych yn drwyadl ar y dewisiadau sydd ar gael i gyflwyno setliad ariannu teg. Mae'n rhaid i unrhyw drefniant newydd fod yn welliant ac wrth gwrs, rhaid iddo allu—

15:38 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:38 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:38 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to Jocelyn Davies for giving way. I'm pleased to hear her say that this will not pre-judge the findings of the committee report, but you do take on board my technical pointing out that, when many members of the Finance Committee give their views here, it would be very strange for them to go against those views in the Finance Committee. I don't think that would be accepted by the public either.

Diolch i Jocelyn Davies am ildio. Rwy'n falch o'i chlywed yn dweud na fydd hyn yn rhagfarnu canfyddiadau adroddiad y pwyllgor, ond rydych yn ystyried fy mhwynt technegol o ran pan fydd llawer o aelodau o'r Pwyllgor Cyllid yn rhoi eu barn yma, byddai'n rhyfedd iawn iddynt fynd yn erbyn y safbwyntiau hynny yn y Pwyllgor Cyllid. Nid wyf yn meddwl y byddai hynny'n cael ei dderbyn gan y cyhoedd chwaith.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think many of us come to many of the committee inquiries with a certain perspective, and I think it's hardly a surprise. We haven't written the report yet and, as I said, this may be a recommendation or it may not, but that report will be based on evidence, and it may have a whole plethora of recommendations to be explored in the future. I can assure you this is not the writing of the report. I know you've quite recently joined the committee, but I think you'll find that that has never been the case, and your view —. We may be able to persuade you over, and I hope that we would, but if we don't, the committee report will certainly reflect a fair view, I can assure you of that.

Wel, rwy'n meddwl y bydd llawer ohonom yn dod at lawer o ymchwiliadau'r pwyllgor gyda phersbectif penodol, a phrin fod hynny'n syndod yn fy marn i. Nid ydym wedi ysgrifennu'r adroddiad eto, ac fel y dywedais, gallai hyn fod yn argymhelliad neu efallai na fydd, ond bydd yr adroddiad hwnnw'n seiliedig ar dystiolaeth, a gallai fod llw o argymhellion i'w harchwilio yn y dyfodol. Gallaf sicrhau nad ydym yn ysgrifennu'r adroddiad yma. Rwy'n gwybod eich bod wedi ymuno â'r pwyllgor yn ddiweddar, ond rwy'n meddwl y gwelwch nad yw hynny erioed wedi digwydd, a bod eich safbwynt—. Efallai y gallwn eich perswadio, ac rwy'n gobeithio y gwnawn, ond os na wnawn, bydd adroddiad y pwyllgor yn sicr yn adlewyrchu barn deg, gallaf eich sicrhau o hynny.

During the evidence that the committee has heard so far, we heard from the Scottish Government officials that the Barnett formula only operates at the margins of the existing funding baseline. I think this is an important point: reforming Barnett will not affect that baseline. So, dissatisfaction with Wales's funding could be addressed by arguing for a change in that baseline, and I think that that's a very interesting prospect.

Yn ystod y dystiolaeth a glywodd y pwyllgor hyd yn hyn, clywsom gan swyddogion Llywodraeth yr Alban fod fformiwla Barnett ond yn gweithredu ar ymylon y llinell sylfaen bresennol ar gyfer cyllido. Rwy'n credu bod hwn yn bwynt pwysig: ni fydd diwygio Barnett yn effeithio ar y llinell sylfaen honno. Felly, gellid mynd i'r afael ag anfonlonrwydd ynghylch cyllid Cymru drwy ddadlau dros newid y llinell sylfaen honno, a chredaf fod hynny'n rhagolwg diddorol iawn.

Finding a settlement, I think, that delivers fair funding for Wales may be more complicated than a straightforward reform of the Barnett formula, and the debate this afternoon has demonstrated that there is an appetite to grapple with these issues and to find a settlement that works for us here in Wales. Thank you, Presiding Officer.

Rwy'n credu bod dod o hyd i setliad sy'n darparu trefniadau ariannu teg i Gymru yn fwy cymhleth na diwygio fformiwla Barnett yn unig, ac mae'r ddadl y prynhawn yma wedi dangos bod yna awydd i fynd i'r afael â'r materion hyn ac i ddod o hyd i setliad sy'n gweithio i ni yma yng Nghymru. Diolch i chi, Lywydd.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] Object. I'll defer all voting on this item until voting time.

Diolch yn fawr. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebiad. Gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Prynwyr Tro Cyntaf

Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliant 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 3 yn enw Elin Jones.

4. Welsh Conservatives Debate: First-time Buyers

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendment 2 in the name of Aled Roberts, and amendment 3 in the name of Elin Jones.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the next item, which is the Welsh Conservatives' debate on first-time buyers, and I call on Mark Isherwood to move the motion.

Symudwn yn awr at yr eitem nesaf, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar brynwyr tro cyntaf, a galwaf ar Mark Isherwood i gynig y cynnig.

Cynnig NDM5812 Paul Davies

Motion NDM5812 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi cynigion y Ceidwadwyr Cymreig i roi hwb i'r cymorth a roddir i brynwyr tro cyntaf; a

1. Notes Welsh Conservative proposals to boost support for first-time buyers; and

2. Yn cydnabod yr angen i helpu prynwyr tro cyntaf ar yr ysgol dai drwy weithio gyda'r farchnad gyfan i ddatblygu amrywiaeth o fentrau.

Cynigiwyd y cynnig.

2. Recognises the need to help first-time buyers onto the property ladder by working with the whole market to develop a range of initiatives.

Motion moved.

15:40

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch. Welsh Conservative proposals to boost support for first-time buyers recognise that the benefits of a home-owning democracy coincide with the aspirations of the people of Wales. Wales has traditionally been a nation with high levels of home ownership, and we want to remove the obstacles that have developed, work with the whole market to develop a range of initiatives and provide first-time buyers with the help they need to access the property ladder. As the Council of Mortgage Lenders stated last month,

'The economy is recovering, with employment up, earnings growing, and competitive mortgage rates, so we expect activity to continue building as the year progresses.'

This dismisses Labour's self-excusing amendment 1. Adults in Wales have a higher aspiration to own their own homes than anywhere else in the UK. A YouGov poll for the Council of Mortgage Lenders in 2013 found that 84 per cent of adults in Wales wanted to own their first property within 10 years, as opposed to 79 per cent across Great Britain.

There are currently only three Welsh Government schemes supporting home purchase in Wales. The homebuy equity loan scheme is the current manifestation of the low-cost homeownership scheme launched in 1995 by Tai Cymru in partnership with the Principality in south Wales and me in north Wales. It is the responsibility of local authorities to decide whether or not homebuy is a priority for the use of their social housing grant allocation from a Welsh Government social housing grant shrunken since 1999. This has supported the purchase of only 23 homebuy properties across Wales last year.

Under the Welsh Government's Rent First scheme, local authorities are able to allocate funding through their social housing grant allocation, providing housing at an intermediate rent and giving tenants the opportunity to buy their home outright. Whenever we've requested information on the number of properties delivered by Rent First, the Welsh Government has told us that they don't hold information on the take-up of this scheme, although we now understand that they're expected to release an evaluation of Rent First tomorrow. Unfortunately, our debate precedes that. In contrast, under the Rent to Buy scheme in England, funding is ring-fenced. Housing associations and other providers can bid for a share of £400 million in low-cost loans to build up to 10,000 new homes in England between 2015 and 2018.

Diolch. Mae cynigion y Ceidwadwyr Cymreig i hybu cymorth i brynwyr tro cyntaf yn cydnabod bod manteision democratiaeth berchentyol yn cyd-fynd â dyheadau pobl Cymru. Yn draddodiadol mae Cymru wedi bod yn genedl gyda lefelau uchel o berchentyaeth, ac rydym am gael gwared ar y rhwystrau sydd wedi datblygu, gweithio gyda'r farchnad gyfan i ddatblygu ystod o fentrau a darparu cymorth sydd ei angen arnynt i brynwyr tro cyntaf fynd ar yr ysgol dai. Fel y nododd y Cyngor Benthycwyr Morgeisi y mis diwethaf,

'The economy is recovering, with employment up, earnings growing, and competitive mortgage rates, so we expect activity to continue building as the year progresses.'

Mae hyn yn diystyru gwelliant 1 hunanesgusodol Llafur. Mae gan oedolion yng Nghymru fwy o ddyhead i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain nag unrhyw le arall yn y DU. Gwelodd arolwg YouGov ar ran y Cyngor Benthycwyr Morgeisi yn 2013 fod 84 y cant o oedolion yng Nghymru yn awyddus i fod yn berchen ar eu heiddo cyntaf o fewn 10 mlynedd, yn hytrach na 79 y cant ar draws Prydain.

Tri chynllun yn unig gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi prynu cartrefi yng Nghymru ar hyn o bryd. Y cynllun benthyciadau ecwiti cymorth prynu yw'r ffurf bresennol ar y cynllun perchentyaeth cost isel a lansiwyd yn 1995 gan Tai Cymru mewn partneriaeth â'r Principality yn ne Cymru a minnau yng ngogledd Cymru. Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw penderfynu a yw cymorth prynu yn flaenoriaeth ar gyfer defnyddio eu dyraniad grant tai cymdeithasol o grant tai cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru sydd wedi crebachu ers 1999. Dim ond 23 eiddo cymorth prynu y bu hwn o gymorth i'w prynu ledled Cymru y llynedd.

O dan gynllun Rhent yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, mae awdurdodau lleol yn gallu dyrannu cyllid drwy eu dyraniad grant tai cymdeithasol, darparu tai ar rent canolig a rhoi cyfle i denantiaid brynu eu cartref yn llwyr. Bob tro y gofynnwyd am wybodaeth ar nifer yr eiddo a ddarparwyd gan Rhent yn Gyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym nad ydynt yn cadw gwybodaeth am y nifer sydd wedi manteisio ar y cynllun hwn, er ein bod yn awr yn deall eu bod yn disgwyl rhyddhau gwerthusiad o Rhent yn Gyntaf yfory. Yn anffodus, mae ein dadl yn digwydd cyn hynny. Ar y llaw arall, o dan y cynllun Rhentu i Brynu yn Lloegr, mae'r cyllid wedi'i glustnodi. Gall cymdeithasau tai a darparwyr eraill wneud cais am gyfran o £400 miliwn mewn benthyciadau cost isel i adeiladu hyd at 10,000 o gartrefi newydd yn Lloegr rhwng 2015 a 2018.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Welsh Government were extremely slow to launch Help to Buy Cymru, modelled on the Help to Buy scheme in England, combining shared equity loan and mortgage guarantee options, enabling people to purchase their home with a minimum deposit of just 5 per cent. The UK Government's decision to introduce a new type of capital funding that enabled policy lending for the Help to Buy scheme forced Labour Ministers to act in the interests of Wales after they'd failed to use funding in consequence of the previous FirstBuy shared equity scheme in England to help first-time buyers in Wales. In November 2012, the Welsh Government announced it would launch a NewBuy mortgage guarantee scheme, modelled on the scheme operated successfully in England, underwriting mortgages up to 95 per cent of mortgage value, but they had to shelve this three months later.

In England, Help to Buy has helped 88,000 households to buy their own home, compared to just 1,612 in Wales over the same period, barely one third of the level, although, thankfully, developers report to us that growth in that area is now picking up. Eighty per cent of the purchases in England and 74 per cent in Wales have been by first-time buyers. Help to Buy Cymru stimulates the construction industry and provides a key helping hand for those wanting to get on the property ladder. The UK Government has extended Help to Buy in England to 2020, and Welsh Conservatives would work with them to seek a similar extension in Wales, where this Welsh Government has so far only committed to an unspecified period beyond 2016. We'd welcome an announcement today that they will now match a UK pledge to 2020.

We would also look to extend Help to Buy to properties in need of renovation, helping to rejuvenate communities and stimulate local construction companies. It is over a decade since the sector collectively warned of a housing supply crisis in Wales. And the Homes for All Cymru manifesto, published last October, began by stating there is a housing crisis.

By 2009-10, the Welsh Government had by far the lowest proportional level of housing expenditure of any of the four UK countries and the 2012 UK housing review stated it was the Welsh Government itself that gave housing lower priority in its overall budgets. National House Building Council—NHBC—figures show that the total number of new homes built in Wales in 2012 was more than 50 per cent down on 2007 and that Wales was still lagging behind UK growth rates. NHBC figures also show that although new UK home registrations rose 28 per cent in 2013, Wales was the only part of the UK to see a fall, and although new homes registered in Wales did increase during 2014 to 4,740, fuelled, yes, by Welsh Government adoption of the UK Government's Help to Buy scheme, this contrasts with the lowest figure of the nine English regions—5,296 in north-east England, with a smaller population, and with 11,003 in Scotland.

Roedd Llywodraeth Cymru yn eithriadol o araf i lansio Cymorth i Brynu Cymru, sydd wedi'i seilio ar y cynllun Cymorth i Brynu yn Lloegr, gan gyfuno benthyciadau rhannu ecwiti ac opsiynau gwarant morgais, gan alluogi pobl i brynu eu cartref gyda lleiafswm o flaendal o 5 y cant yn unig. Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i gyflwyno math newydd o gyllid cyfalaf a oedd yn ei gwneud hi'n bosibl benthycia polisi ar gyfer y cynllun Cymorth i Brynu wedi gorfodi Gweinidogion Llafur i weithredu er lles Cymru ar ôl iddynt fethu â defnyddio cyllid o ganlyniad i gynllun rhannu ecwiti blaenorol FirstBuy yn Lloegr er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf yng Nghymru. Ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n lansio cynllun gwarant morgais NewBuy, wedi'i fodelu ar y cynllun a roddwyd ar waith yn llwyddiannus yn Lloegr, gan danysgrifennu morgais hyd at 95 y cant o werth y morgais, ond bu'n rhaid iddynt roi'r gorau i hyn dri mis yn ddiweddarach.

Yn Lloegr, mae Cymorth i Brynu wedi helpu 88,000 o aelwydydd i brynu eu cartref eu hunain, o'i gymharu â dim ond 1,612 yng Nghymru dros yr un cyfnod, prin draean o'r lefel, er bod datblygwyr, yn ffodus, yn dweud wrthym fod twf yn y maes yn gwella. Mae 80 y cant o'r pryniadau yn Lloegr a 74 y cant yng Nghymru wedi bod gan brynwyr tro cyntaf. Mae Cymorth i Brynu Cymru yn ysgogi'r diwydiant adeiladu ac mae'n darparu help llaw allweddol i'r rhai sydd am fynd ar yr ysgol dai. Mae Llywodraeth y DU wedi ymestyn Cymorth i Brynu yn Lloegr hyd at 2020, a byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn gweithio gyda hwy i geisio estyniad tebyg yng Nghymru, lle nad yw Llywodraeth Cymru hyd yma ond wedi ymrwymo i gyfnod amhenodol y tu hwnt i 2016. Byddem yn croesawu cyhoeddiad heddiw y byddant yn awr yn ategu addewid y DU i'w ymestyn hyd nes 2020.

Byddem hefyd yn ystyried ymestyn Cymorth i Brynu i gynnwys eiddo sydd angen ei adnewyddu, gan helpu i adfywio cymunedau ac ysgogi cwmnïau adeiladu lleol. Mae dros ddegawd ers i'r sector gyda'i gilydd rybuddio ynghylch argyfwng o ran y cyflenwad tai yng Nghymru. Ac roedd manifesto Cartrefi i Bawb Cymru, a gyhoeddwyd fis Hydref y llynedd, yn dechrau drwy ddatgan bod yna argyfwng tai.

Erbyn 2009-10, gan Lywodraeth Cymru oedd y lefel gyfrannol isaf o bell ffordd o wariant ar dai o bob un o bedair gwlad y DU, a dywedai adolygiad tai 2012 y DU mai Llywodraeth Cymru ei hun a roddai flaenoriaeth is i dai yn ei chyllidebau cyffredinol. Mae ffigurau'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai—NHBC—yn dangos bod cyfanswm nifer y cartrefi newydd a adeiladwyd yng Nghymru yn 2012 dros 50 y cant yn is na 2007 a bod Cymru yn dal i lusgo ar ôl cyfraddau twf y DU. Mae ffigurau NHBC hefyd yn dangos, er bod cofrestrïadau cartrefi newydd y DU wedi codi 28 y cant yn 2013, Cymru oedd yr unig ran o'r DU i weld cwmp, ac er bod nifer y cartrefi newydd a gofrestrwyd yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod 2014 i 4,740, wedi'i ysgogi, ie, gan y ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu cynllun Cymorth i Brynu Llywodraeth y DU, mae'n cyferbynnu â'r ffigur isaf o naw rhanbarth Lloegr—5,296 yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, gyda phoblogaeth lai, a 11,003 yn yr Alban.

In 2010, a Welsh Government-commissioned review of house building stated that Wales needed 14,000 homes to be built every year between 2006 and 2026. However, the number of homes built between 2006 and 2012 totalled just 40,320—a shortfall of 43,680, the lowest level since the second world war. The total number of new dwellings in Wales in 2014-15 was just 6,170.

Last month, the Chartered Institute of Housing Cymru stated,

‘Wales needs to build 15,000 homes per year if we’re to stand a chance of ending the housing crisis within a generation. We’re calling on Welsh Government to continue to demonstrate their understanding that housing is critical infrastructure.’

Two new reports completed by NLP for the house building industry in Wales confirmed the link between market supply and housing market affordability, but state that their updated household projections for new dwellings between 2011 and 2031 indicate that the current level of housing delivery is only just over half of the identified housing need across Wales. As the HomeOwners Alliance has said, the decline of home ownership is having and will increasingly have profound long-lasting and adverse economic and social consequences. It increases poverty among pensioners, increases social problems for children, reduces living standards among lower and middle-income earners, pushes up the housing benefit bill and increases inequality. Reversing the decline in home ownership should be one of the Government’s highest priorities, they said.

The UK Government’s Help to Buy ISA will provide a bonus of up to £3,000 towards a deposit, helping home buyers across the UK. In Wales, council tax rates have rocketed 121 per cent since 1999, and people are paying more of their incomes on council tax than people in England or Scotland.

The Welsh Conservatives would give first-time buyers a six-month council tax holiday, saving the average band D household £663.50 and up to £817 in the highest council tax charging area of Blaenau Gwent. The Welsh Conservatives would scrap stamp duty for first-time buyers of properties worth up to £250,000, saving them an additional £140 on the average £132,000 first-home purchase in Wales and enabling savings of up to £2,500. These commitments are fully costed and would be funded with the sale of property owned by Welsh Government; sweating the assets to meet aspiration and drive growth.

Yn 2010, nododd adolygiad adeiladu tai a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fod angen adeiladu 14,000 o gartrefi yng Nghymru bob blwyddyn rhwng 2006 a 2026. Fodd bynnag, 40,320 yn unig oedd cyfanswm y cartrefi a adeiladwyd rhwng 2006 a 2012—diffyg o 43,680, y lefel isaf ers yr ail ryfel byd. Cyfanswm nifer yr anheddau newydd yng Nghymru yn 2014-15 oedd 6,170 yn unig.

Y mis diwethaf, dywedodd Sefydliad Tai Siartredig Cymru,

‘Wales needs to build 15,000 homes per year if we’re to stand a chance of ending the housing crisis within a generation. We’re calling on Welsh Government to continue to demonstrate their understanding that housing is critical infrastructure.’

Roedd dau adroddiad newydd a gwblhawyd gan NLP ar gyfer y diwydiant adeiladu tai yng Nghymru yn cadarnhau’r cysylltiad rhwng cyflenwad y farchnad a fforddiadwyedd y farchnad dai, ond roeddent yn dweud bod eu diweddariad o’r rhagolygon o nifer yr anheddau newydd rhwng 2011 a 2031 yn dangos bod lefel bresennol y ddarpariaeth dai ychydig dros hanner yn unig o’r angen am dai a nodwyd ar draws Cymru. Fel y dywedodd HomeOwners Alliance, mae’r gostyngiad yn nifer y bobl sy’n berchen ar dai yn arwain at ganlyniadau niweidiol hirdymor a dwys yn economaidd ac yn gymdeithasol, a bydd hynny’n cynyddu. Mae’n cynyddu lefelau tlodi ymhlith pensïynwyr, yn cynyddu’r problemau cymdeithasol i blant, yn gostwng safonau byw ymhlith gweithwyr ar incwm is a chanolig, yn gwthio biliau budd-daliadau tai i fyny ac yn cynyddu anghydraddoldeb. Maent yn dweud y dylai gwrthdroi’r dirywiad yn lefelau perchentyaeth fod yn un o brif flaenoriaethau’r Llywodraeth.

Bydd ISA Cymorth i Brynu Llywodraeth y DU yn darparu bonws o hyd at £3,000 tuag at flaendal, gan helpu prynwyr cartrefi ar draws y DU. Yng Nghymru, mae cyfraddau’r dreth gyngor wedi cynyddu’n aruthrol, o 121 y cant ers 1999, ac mae pobl yn talu mwy o’u hincwm ar y dreth gyngor na phobl yn Lloegr neu’r Alban.

Byddai’r Ceidwadwyr Cymreig yn eithrio prynwyr tro cyntaf am chwe mis rhag y dreth gyngor gan arbed £663.50 i aelwyd gyfartalog band D a hyd at £817 yn yr ardal sydd â’r dreth gyngor uchaf, sef Blaenau Gwent. Byddai’r Ceidwadwyr Cymreig yn cael gwared ar dreth stamp i brynwyr tro cyntaf eiddo sy’n werth hyd at £250,000, gan arbed £140 yn ychwanegol iddynt ar bris cyfartalog cartref cyntaf yng Nghymru, sef £132,000, ac yn sicrhau arbedion o hyd at £2,500. Mae’r ymrwymïadau hyn wedi cael eu costio’n llawn a byddent yn cael eu hariannu drwy werthu eiddo sy’n eiddo i Lywodraeth Cymru; gan wneud i asedau weithio i fodloni dyheadau ac ysgogi twf.

The Welsh Conservatives would explore the development of a starter home Cymru initiative, following the lead set by the UK Government in England to deliver below market value properties specifically for first-time buyers under the age of 40. The Welsh Conservatives will also drive low-cost home ownership Cymru, enabling people in Wales to own their home. Working with the whole housing sector, we will seek to develop schemes such as rent to buy, referred to earlier, shared ownership, and mortgage guarantee, providing wider options that make home ownership more affordable and accessible. Mortgage guarantee schemes, after all, were the norm for decades before the end to boom and bust madness preceding credit crunch, and their absence helped drive the crash.

In order to maximise housing supply and meet wider needs, Community Housing Cymru are also keen to explore the further development of shared ownership schemes, popular in the 1990s, enabling people to purchase from as little as 25 per cent of their home's value. Through building well-designed, affordable housing, more people in Wales will be able to access the property ladder in a way that best suits them, building on Welsh Conservative proposals outlined in our November 2013 'A Vision for Welsh Housing' document. We need a whole-market solution to the Welsh housing supply crisis in social rent, low-cost home ownership and open market purchase. We must back first-time buyers and give housing a home in Wales once again, recognising, as the European Commission has recommended, the need to implement a comprehensive housing reform programme to increase supply and therefore make housing more affordable.

Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn archwilio datblygiad menter cartrefi cyntaf Cymru, yn dilyn yr arweiniad a roddwyd gan Lywodraeth y DU yn Lloegr i ddarparu eiddo is na gwerth y farchnad yn benodol ar gyfer prynwyr tro cyntaf o dan 40 oed. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig hefyd yn ysgogi perchentyaeth cost isel yng Nghymru, gan alluogi pobl yng Nghymru i fod yn berchen ar eu cartref. Gan weithio gyda'r sector tai cyfan, byddwn yn ceisio datblygu cynlluniau fel rhentu i brynu, y cyfeiriwyd ato'n gynharach, cydberchnogaeth, a gwarant morgais, gan ddarparu dewisiadau ehangach sy'n gwneud perchentyaeth yn fwy fforddiadwy a hygyrch. Cynlluniau gwarant morgais, wedi'r cyfan, oedd y norm am ddegawdau cyn diwedd gwallgofrwydd ffyniant a methiant, cyn y wasgfa gredyd, a bu eu habsenoldeb yn help i ysgogi'r cwmp.

Er mwyn hybu'r cyflenwad tai a diwallu anghenion ehangach, mae Cartrefi Cymunedol Cymru hefyd yn awyddus i archwilio datblygiad pellach cynlluniau cydberchnogaeth, a oedd yn boblogaidd yn y 1990au, ac yn galluogi pobl i brynu cyn lleied â 25 y cant o werth eu cartref. Drwy adeiladu tai fforddiadwy a gynlluniwyd yn dda, bydd mwy o bobl yng Nghymru yn gallu mynd ar yr ysgol dai yn y ffordd sy'n gweddu orau iddynt, gan adeiladu ar gynigion y Ceidwadwyr Cymreig a amlinellir yn ein dogfen 'Ein Gweledigaeth ar gyfer Tai yng Nghymru' a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013. Mae arnom angen ateb drwy'r farchnad gyfan i'r argyfwng cyflenwad tai yng Nghymru o ran tai cymdeithasol, perchentyaeth cartrefi cost isel a phrynu ar y farchnad agored. Mae'n rhaid i ni gefnogi prynwyr tro cyntaf a rhoi cartref i dai yng Nghymru unwaith eto, gan gydnabod, fel yr argymhellodd y Comisiwn Ewropeaidd, yr angen i weithredu rhaglen gynhwysfawr ar gyfer diwygio maes tai er mwyn cynyddu'r cyflenwad, a gwneud tai'n fwy fforddiadwy.

15:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I have selected the three amendments to the motion, and I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move formally amendment 1, which was tabled in the name of Jane Hutt.

Gwelliant 1—Jane Hutt

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r anawsterau sy'n wynebu prynwyr tro cyntaf o dan yr amgylchiadau economaidd cyfredol.

Cynigiwyd gwelliant 1.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt, yn ffurfiol.

Amendment 1—Jane Hutt

Delete point 1 and replace with:

Notes the difficulties facing first time buyers in current economic circumstances.

Amendment 1 moved.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:51 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#)
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Formally.

Yn ffurfiol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Formally moved. I now call on Peter Black to move amendment 2, which was tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Cynigiwyd yn ffurfiol. Galwaf yn awr ar Peter Black i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Amendment 2—Aled Roberts

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am fodel tai rhentu i brynu newydd ac arloesol i alluogi tenantiaid i adeiladu cyfran ym mherchnogaeth eu cartrefi drwy eu rhent.

Cynigiwyd gwelliant 2.

Add as new point at end of motion:

Calls for an innovative new rent-to-own model of housing to enable tenants to build up a stake in the ownership of their home through their rent.

Amendment 2 moved.

15:51

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I move amendment 2 and welcome this debate? I'm very pleased to have the opportunity to discuss the difficulties facing first-time buyers in Wales and to highlight one possible solution.

Home ownership has plummeted for the under-35s. Just 36 per cent of 25 to 34-year-olds now own their own home, down from 59 per cent 10 years ago. Some people in Wales are waiting up to 15 years to be able to afford to get onto the housing ladder. Prices have simply got too far out of reach for too many young families. According to the Office of National Statistics, the average price for first-time buyers in Wales has increased from £108,000 in 1984 to £130,000 10 years later. Can you believe that when the Assembly began it was only £54,000?

I'm pleased to say that the Welsh Government finally adopted the Help to Buy equity loan scheme, which had been initiated by the last UK Government. I think that has actually been making quite an impact in terms of helping people get onto the housing ladder. I have to say that the £7.5 million, which I understand is the Conservatives' council tax scheme for first-time buyers costing, would extend that scheme a great deal, and I think it would be far more effective in helping people get onto the housing ladder because, at the end of the day, it isn't about helping the people who are already on the housing ladder by reducing their costs, but actually getting them on the ladder in the first place. I think also that the scheme, as outlined by Mark Isherwood, does appear to me to be financially illiterate because what he's effectively saying is that he's going to fund a revenue commitment from capital receipts. In other words, Mark, you can spend the money once but you can't spend it in successive years. So, if you're going to fund it in that way, I think you'll find that you have one year and then that's it and the scheme will fold. If you can find that money as a revenue income, I think it should be spent on helping people get on the housing ladder in the first place.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

A gaf fi gynnis gwelliant 2 a chroesawu'r ddatl hon? Rwy'n falch iawn o gael y cyfle i drafod yr anawsterau sy'n wynebu prynwyr tro cyntaf yng Nghymru, ac i dynnu sylw at un ateb posibl.

Mae perchentyaeth wedi plymio ymhlith rhai dan 35 oed. Nid oes ond 36 y cant o bobl rhwng 25 a 34 oed yn berchen ar eu cartref eu hunain bellach, i lawr o 59 y cant 10 mlynedd yn ôl. Mae rhai pobl yng Nghymru yn aros hyd at 15 mlynedd i allu fforddio cael troed ar yr ysgol dai. Mae'r prisiau wedi mynd yn rhy bell allan o gyrraedd i ormod o deuluoedd ifanc. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae'r pris cyfartalog ar gyfer prynwyr tro cyntaf yng Nghymru wedi cynyddu o £108,000 yn 1994 i £130,000 10 mlynedd yn ddiweddarach. A allwch chi gredu mai £54,000 yn unig ydoedd pan ddechreuodd y Cynulliad?

Rwy'n falch o ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu cynllun benthyriad ecwiti Cymorth i Brynu, a gychwynwyd gan Lywodraeth ddiwethaf y DU. Credaf fod hwnnw mewn gwirionedd wedi cael effaith sylweddol o ran helpu pobl i gael troed ar yr ysgol dai. Mae'n rhaid i mi ddweud y byddai'r £7.5 miliwn, sef cost cynllun treth gyngor y Ceidwadwyr ar gyfer prynwyr tro cyntaf yn ôl yr hyn a ddeallaf, yn ymestyn y cynllun hwnnw gryn dipyn, ac rwy'n credu y byddai'n llawer mwy effeithiol o ran helpu pobl i fynd ar yr ysgol dai oherwydd, yn y pen draw, nid yw'n ymwneud â helpu'r bobl sydd eisoes ar yr ysgol dai drwy leihau eu costau, ond â'u rhoi ar yr ysgol yn y lle cyntaf. Rwy'n meddwl hefyd fod y cynllun, fel y'i hamlinellwyd gan Mark Isherwood, i'w weld yn anlythrennog yn ariannol oherwydd yr hyn y mae'n ei ddweud i bob pwrpas yw ei fod yn mynd i ariannu ymrwymiad refeniw o dderbyniadau cyfalaf. Mewn geiriau eraill, Mark, gallwch wario'r arian unwaith ond ni allwch ei wario dros y blynyddoedd sy'n dilyn. Felly, os ydych chi'n mynd i ariannu yn y ffordd honno, rwy'n credu y gwelwch fod gennych un flwyddyn ac yna dyna ni, a bydd y cynllun yn dod i ben. Os gallwch ddod o hyd i'r arian fel incwm refeniw, rwy'n meddwl y dylid ei wario ar helpu pobl i gael troed ar yr ysgol dai yn y lle cyntaf.

As the Welsh Liberal Democrat amendment says, Wales needs new rent-to-own homes where your rent payments steadily help you buy a stake in the property. Rent-to-own homes make home owning a viable option for young families. Prices are so high that there are a lot of people who can't afford the deposit to buy even though they could afford to meet the monthly payments. I think it's right to support people's aspirations to own their own home. Eighty-two per cent of people want to do so. If home ownership rates fall as low as they are among the under-35s for everybody else, the Government will face a fiscal time bomb paying many more pensioners' rents through housing benefits. This may be a UK Government fiscal time bomb, but it will impact on our budget as well.

Delivering rent-to-own alongside affordable rented properties means we can afford to get the scale of house building we need while still balancing the budget. The policy is an accessibility policy to make home ownership available to a large group of people rather than an affordability policy, as it does not offer lower monthly payments than market rent. Rent-to-own homes enable people to take ownership of a home for the equivalent of market rent. It is based on an existing scheme already operational in north-east England and shortly to be introduced in London, assisted by a Greater London Authority grant. Importantly, people do not need an upfront deposit to access it. Over 30 years their payments would steadily accrue a share in the property up to full ownership, but as with a conventional mortgage, this is backloaded: you earn a higher share the longer you've been in the home. Tenants and home owners will have the right to sell their property on the open market at any time, cashing out their share of the home. The policy's for people who can afford to pay market rent without the help of housing benefit; it is not a replacement for affordable rented properties or social housing, which I also think needs to be expanded. Rent-to-own works for housing associations, although after 30 years they transfer ownership of the property. The monthly revenue is equivalent to market rent—in other words, at least 20 per cent higher than affordable rent, and approximately 40 per cent higher than social rent. Tenant home owners will also be responsible for the care and maintenance of their property in the same way as other home owners, reducing housing associations' costs. So, I hope that we can consider that as a possible additional tool in the armoury of the Welsh Government in terms of helping people get on the housing ladder.

Fel y mae gwelliant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn dweud, mae Cymru angen cartrefi rhentu i brynu newydd lle mae eich taliadau rhent yn eich helpu'n raddol i brynu cyfran yn yr eiddo. Mae cartrefi rhentu i brynu yn gwneud perchentyaeth yn opsiwn ymarferol i deuluoedd ifanc. Mae prisiau mor uchel fel bod llawer o bobl yn methu fforddio'r blaendal i brynu er y gallent fforddio'r taliadau misol. Rwy'n credu ei bod yn iawn cefnogi dyheadau pobl i fod yn berchen ar eu cartref eu hunain. Mae 82 y cant o bobl am wneud hynny. Os bydd cyfraddau perchentyaeth yn disgyn mor isel ag y maent yn ei wneud ymhlith rhai o dan 35 oed i bawb arall, bydd y Llywodraeth yn wynebu bom amser ariannol o ran gorfod talu rhenti llawer mwy o bensiynwyr drwy fudd-daliadau tai. Efallai mai bom amser ariannol Llywodraeth y DU fydd hwn, ond bydd yn effeithio ar ein cyllideb ninnau hefyd.

Mae darparu rhentu i brynu ochr yn ochr ag eiddo rhent fforddiadwy yn golygu y gallwn fforddio'r raddfa o weithgarwch adeiladu tai sydd ei hangen gan barhau i gydbwysu'r gyllideb. Mae'r polisi yn bolisi hygyrchedd er mwyn gwneud perchentyaeth yn hygyrch i grŵp mawr o bobl yn hytrach na pholisi fforddiadwyedd, gan nad yw'n cynnig taliadau misol is na rhent y farchnad. Mae cartrefi rhentu i brynu yn galluogi pobl i fod yn berchen ar gartref am yr hyn sy'n cyfateb i rent y farchnad. Mae'n seiliedig ar gynllun sy'n bodoli eisoes ac sy'n weithredol yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, ac mae'n mynd i gael ei gyflwyno yn Llundain yn fuan, gyda chymorth grant gan Awdurdod Llundain Fwyaf. Yn bwysig, nid oes angen blaendal ymlaen llaw ar bobl i'w gael. Dros 30 mlynedd byddai eu taliadau'n cronni cyfran yn yr eiddo'n raddol hyd at berchnogaeth lawn, ond fel gyda morgais confensiynol, caiff hyn ei ôl-lwytho: byddwch yn ennill cyfran uwch po hiraf y byddwch wedi bod yn y cartref. Bydd gan denantiaid a pherchnogion tai yr hawl i werthu eu heiddo ar y farchnad agored ar unrhyw adeg, gan gyfnwied eu cyfran o'r cartref. Mae'n bolisi ar gyfer pobl sy'n gallu fforddio talu rhent y farchnad heb gymorth budd-dal tai; nid yw'n cymryd lle eiddo rhent fforddiadwy na thai cymdeithasol, sydd angen ei ehangu hefyd yn fy marn i. Mae rhentu i brynu yn gweithio i gymdeithasau tai, er eu bod yn trosglwyddo perchnogaeth ar yr eiddo ar ôl 30 mlynedd. Mae'r refereniw misol yn cyfateb i rent y farchnad—sef o leiaf 20 y cant yn uwch na rhent fforddiadwy mewn geiriau eraill, ac oddeutu 40 y cant yn uwch na rhent cymdeithasol. Bydd perchnogion cartrefi sy'n denantiaid hefyd yn gyfrifol am ofal a chynnal a chadw eu heiddo yn yr un ffordd â pherchnogion cartrefi eraill, gan leihau costau i gymdeithasau tai. Felly, rwy'n gobeithio y gallwn ystyried hynny fel arf ychwanegol posibl yn arfogaeth Llywodraeth Cymru o ran helpu pobl i fynd ar yr ysgol dai.

In terms of the Plaid and Labour amendments, we support both of these amendments. The Labour amendment states the obvious in terms of encouraging more homes to be built in Wales. We do need to boost supply as well as helping support for first-time buyers. As Plaid Cymru note, provision of affordable rented properties and social housing stock is essential for young families who cannot afford to pay market rent and need the help of housing benefit. We also believe it is unfair for a private tenant to get little or no support to buy a home while some social tenants are entitled to buy their home with a discount, so depleting their social housing stock. I think, Presiding Officer, that the scheme that we're offering is a possible alternative to what we're doing, but I think that what the Conservatives are offering is not just financially illiterate, but also will not help anybody get onto the housing ladder in the first place.

O ran gwelliannau Plaid Cymru a Llafur, rydym yn cefnogi'r ddau welliant. Mae gwelliant Llafur yn datgan yr amlwg o ran annog mwy o gartrefi i gael eu hadeiladu yng Nghymru. Mae angen i ni roi hwb i'r cyflenwad yn ogystal â helpu cymorth i brynwyr tro cyntaf. Fel y mae Plaid Cymru yn ei nodi, mae darparu stoc o eiddo rhent fforddiadwy a thai cymdeithasol yn hanfodol ar gyfer teuluoedd ifanc na allant fforddio talu rhent y farchnad ac angen cymorth budd-dal tai. Rydym hefyd yn credu ei bod yn annheg nad yw tenantiaid preifat yn cael fawr ddim cymorth i brynu cartref er bod rhai tenantiaid cymdeithasol â hawl i brynu eu cartref gyda gostyngiad, gan leihau eu stoc tai cymdeithasol. Rwy'n meddwl, Lywydd, fod y cynllun rydym yn ei gynnig yn ddewis posibl yn lle'r hyn rydym yn ei wneud, ond rwy'n meddwl bod yr hyn y mae'r Ceidwadwyr yn ei gynnig nid yn unig yn anllythrennog yn ariannol, ond ni fydd ychwaith yn helpu unrhyw un i fynd ar yr ysgol dai yn y lle cyntaf.

15:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on Jocelyn Davies to move amendment 3, which is tabled in the name of Elin Jones. Jocelyn Davies.

Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 3, sy'n cael ei gyflwyno yn enw Elin Jones. Jocelyn Davies.

Gwelliant 3—Elin Jones

Amendment 3—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn cydnabod rôl tai cymdeithasol o ran darparu tai fforddiadwy cost isel, ac nad yw'n briodol i weithredu polisiau prynu cartref a fyddai'n lleihau'r stoc tai cymdeithasol.

Recognises the role of social housing in providing low cost affordable housing, and that it is inappropriate to enact home-buying policies that would deplete the social housing stock.

Cynigiwyd gwelliant 3 (Elin Jones).

Amendment 3 (Elin Jones) moved.

15:56 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move the amendment in Elin Jones's name.

Cynigiau y gwelliant yn enw Elin Jones.

First-time buyers face significant barriers in securing that first home, and this is almost certainly contributing to the decrease in ownership in the UK. As Peter Black mentioned earlier, the average age of the first-time buyer now is creeping up, and is something like 37 years of age. So, initiatives to help first-time buyers must be one of a range of measures put in place to improve the whole housing sector, and it is an issue mainly of supply, and that is affecting all tenures.

Mae prynwyr tro cyntaf yn wynebu rhwystrau sylweddol i sicrhau cartref cyntaf, ac mae hyn bron yn sicr yn cyfrannu at y gostyngiad mewn perchnogaeth yn y DU. Fel y crybwyllodd Peter Black yn gynharach, mae cyfartaledd oedran prynwr tro cyntaf bellach yn codi'n raddol, ac yn rhywbeth tebyg i 37 oed. Felly, rhaid i fentrau i helpu prynwyr tro cyntaf fod yn un o ystod o fesurau a roddir ar waith i wella'r sector tai yn ei gyfanrwydd, ac mae'n fater o gyflenwad yn bennaf, ac mae hynny'n effeithio ar bob math o ddeiliadaeth.

There's nothing to disagree with in the Tory motion, but we'll abstain on it—only because we want to vote on the other amendments. I think that the proposals that you outline to boost supply are interesting, and deserve consideration because there needs to be a suite of solutions for a very, very complex problem. However, because house prices remain comparatively low in many parts of Wales, very few buyers here in Wales pay stamp duty land tax, and those who do often pay quite a small amount, so the stamp duty relief for first-time buyers would only have a significant impact on those, of course, who are buying unusually expensive houses.

Nid oes dim i anghytuno ag ef yng nghynnig y Toriaid, ond byddwn yn ymatal arno—a hynny'n unig oherwydd ein bod eisiau pleidleisio ar y gwelliannau eraill. Rwy'n meddwl bod y cynigion a amlinellwch i roi hwb i'r cyflenwad yn ddiddorol, ac yn haeddu cael eu hystyried oherwydd bod angen cyfres o atebion i broblem eithriadol o gymhleth. Fodd bynnag, gan fod prisiau tai yn parhau i fod yn gymharol isel mewn sawl rhan o Gymru, ychydig iawn o brynwyr yma sy'n talu treth dir y dreth stamp yng Nghymru, ac mae'r rhai sy'n gwneud hynny yn aml yn talu swm eithaf bach, felly byddai'r rhyddhad treth stamp ar gyfer prynwyr tro cyntaf ond yn cael effaith sylweddol ar rai sy'n prynu tai anarferol o ddrud wrth gwrs.

There is a school of thought also that argues that the changes to stamp duty are very quickly reflected in the price of the property, and so it doesn't really benefit the buyer. So, it's something you shouldn't change without very serious consideration.

Similarly, the idea of first-time buyers having a six-month holiday from paying council tax certainly would be welcomed by many, I think. I'm not sure if it's the intention here that the Welsh Government would make up that charge or if the local authority would simply forego it. If it is the council that foots the bill I would certainly advocate that you let them decide if this is what they want to do. Perhaps local authorities need to have more room to decide these things for themselves at a local level. But of course, that six-month holiday, I suppose, might help to offset solicitor's fees, mortgage application fees and the costs of deposits, because they all add up to a lot of money. This is particularly true, of course, as the cost of living continues to rise and secure work is not always easy to find. If you are spending a significant proportion of your monthly income on rent, then saving up to buy can almost seem impossible.

Now, the Help to Buy scheme has proved to be popular. It's an equity loan scheme, so that the buyer only needs a 5 per cent deposit. Just a few years ago, people were having to find a 17, 18 or 19 per cent deposit, so 5 per cent can be affordable for some. The Government then gives a 20 per cent loan and the mortgage needed then is only 75 per cent of the asking price. The Government loan has no fees for the first five years. But of course, it's only available on new build. I'd like to see it available on older properties, but currently it isn't. The Help to Buy mortgage guarantee scheme is a UK scheme and is available here in Wales, as you know. And it is very popular in Wales. In the last figures I saw, I think it had bought twice as many houses as the Welsh scheme, because it is popular and because it's available on those older properties. So, I think that that's something that we need to consider about where people want to live. Of course, you've got the schemes like homebuy—which I know has been popular, certainly in the past—Rent First and Homes within Reach. In ways, they are kind of similar; they're attractive and they do help the first-time buyer. But we need to be more creative, and there are better schemes, I think, around; Peter's mentioned one. It shouldn't be dismissed. Unfortunately, his amendment calls for us to adopt it, rather than to consider it.

So, I think, on the whole, we need to have—. Nobody's right, I don't think, and nobody's wrong. There are good schemes; they can be improved. But we do need to have a plethora available to us, and I think we need to involve local authorities a great deal more in this decision making.

Ceir ysgol o feddwl hefyd sy'n dadlau bod y newidiadau i'r dreth stamp yn cael eu hadlewyrchu'n gyflym iawn ym mhris yr eiddo, ac felly nid yw o fudd gwirioneddol i'r prynwr. Felly, mae'n rhywbeth na ddylech ei newid heb ystyried yn ddwys iawn.

Yn yr un modd, byddai'r syniad o brynwyr tro cyntaf yn cael eu heithrio am chwe mis rhag talu'r dreth gyngor yn sicr yn cael ei groesawu gan lawer, rwy'n meddwl. Nid wyf yn siŵr ai'r bwriad yma yw y byddai Llywodraeth Cymru yn talu am y gwahaniaeth, neu a fyddai'r awdurdod lleol yn ei dalu. Os mai'r cyngor sy'n talu'r bil, byddwn yn sicr yn argymhell eich bod yn gadael iddynt hwy benderfynu ai dyma y maent am ei wneud. Efallai fod angen i awdurdodau lleol gael mwy o le i benderfynu ar y pethau hyn drostynt eu hunain ar lefel leol. Ond wrth gwrs, am wn i y gallai'r eithriad rhag talu'r dreth am chwe mis helpu i wrthbwysu ffioedd cyfreithwyr, ffioedd cais am forgais a chostau blaendal, gan eu bod i gyd gyda'i gilydd yn llawer o arian. Mae hyn yn arbennig o wir, wrth gwrs, wrth i gostau byw barhau i godi ac ar adeg pan nad yw bob amser yn hawdd dod o hyd i waith sicr. Os ydych yn gwario cyfran sylweddol o'ch incwm misol ar rent, yna gall cynilo i brynu ymddangos bron yn amhosibl.

Nawr, mae Cymorth i Brynu wedi profi'n boblogaidd. Mae'n gynllun benthyciad ecwiti, fel nad oes angen i'r prynwr ddod o hyd i fwy na 5 y cant o flaendal. Ychydig flynyddoedd yn ôl yn unig, roedd pobl yn gorfod dod o hyd i flaendal o 17 y cant, 18 y cant neu 19 y cant, felly gall 5 y cant fod yn fforddiadwy i rai. Mae'r Llywodraeth yn rhoi benthyciad o 20 y cant wedyn ac ni fydd angen mwy na 75 y cant o'r pris gofyn o forgais. Nid oes unrhyw ffioedd ar fenthyciad y Llywodraeth am y pum mlynedd gyntaf. Ond wrth gwrs, nid yw ond ar gael ar gyfer adeiladau newydd. Hoffwn ei weld ar gael ar gyfer eiddo hŷn, ond ar hyn o bryd nid yw hynny'n wir. Cynllun y DU yw cynllun gwarant morgais Cymorth i Brynu ac mae ar gael yma yng Nghymru, fel y gwyddoch. Ac mae'n boblogaidd iawn yng Nghymru. Yn y ffigurau diwethaf a welais, rwy'n credu ei fod wedi prynu dwywaith gymaint o dai â'r cynllun Cymreig, oherwydd ei fod yn boblogaidd ac am ei fod ar gael ar eiddo hŷn. Felly, credaf fod hynny'n rhywbeth y mae angen i ni ei ystyried o ran lle y mae pobl yn dymuno byw. Wrth gwrs, mae gennych gynlluniau fel cymorth prynu—y gwn ei fod wedi bod yn boblogaidd, yn sicr yn y gorffennol—Rhent yn Gyntaf a Homes within Reach. Mewn rhai ffyrdd, maent yn eithaf tebyg; maent yn ddeniadol ac maent yn helpu'r prynwr tro cyntaf. Ond mae angen i ni fod yn fwy creadigol, ac mae gwell cynlluniau i'w cael, rwy'n credu; soniodd Peter am un. Ni ddylid ei ddiystyru. Yn anffodus, mae ei welliant yn galw arnom i'w fabwysiadu, yn hytrach na'i ystyried.

Felly, rwy'n meddwl, ar y cyfan, mae angen i ni gael—. Nid oes neb yn gywir, yn fy marn i, ac nid oes neb yn anghywir. Maent yn gynlluniau da; gellid eu gwella. Ond mae angen i ni sicrhau bod amrywiaeth o gynlluniau ar gael, ac rwy'n credu bod angen cynnwys awdurdodau lleol yn llawer mwy aml yn y broses o wneud y penderfyniadau hyn.

I'm grateful for the opportunity to take part in this debate this afternoon. At the heart of this debate is our fundamental commitment to creating a country where everyone who works hard can own a home of their own if they choose to do so. It's absolutely crucial that first-time buyers get a helping hand onto the property ladder, and I have no doubt that all parties in this Chamber would agree with that.

As Mark Isherwood said, in England, the Help to Buy scheme has helped people access an affordable mortgage with only a 5 per cent deposit. The scheme has already helped over 88,000 families buy their own home, with over 80 per cent of sales going to first-time buyers. It is unfortunate that, here in Wales, only 1,612 families have yet been able to buy their homes through the Help to Buy scheme, with 74 per cent of purchasers being first-time buyers. Therefore, it's clear that more needs to be done to support first-time buyers to achieve their dream of buying a home.

Now, it's long been a problem that the supply of affordable housing in many areas of rural Wales needs to be significantly increased to address the intensity of housing needs, and that's certainly the case in my own constituency. Sadly, the Welsh Government's Help to Buy-Cymru scheme is not available for existing properties in rural areas, which is hindering many prospective homebuyers in places like Pembrokeshire. We know that providing affordable housing in rural areas can be more difficult for a number of reasons. For example, towns and villages are becoming more commuter focused, making it more difficult for first-time buyers to access the local housing market. I believe that our proposals for first-time buyers will make a real difference to people looking to purchase homes in rural areas who've previously been isolated from the local housing market. Surely, helping first-time buyers to achieve their dream of home ownership, and any movement or policies that can help that dream become a reality, should be welcomed.

I believe that our plans will go much further than just supporting people who are planning to buy their first home. The knock-on effect of increasing home ownership in Wales will also provide house builders with new customers, boosting house building across the country and, in turn, create jobs and stimulate growth. Now, while I accept that house building has increased across Wales in the last 12 months, I agree with the Chartered Institute of Housing Cymru, which has recognised the increase, but has said that it's still not enough. The Federation of Master Builders tell us that the construction industry is well placed to lead a home-grown recovery and that, for every £1 spent on a construction project in Wales, the economy benefits overall by £1.70. Therefore, stimulating house building will naturally have a positive effect for the construction industry.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y ddaidl y prynhawn yma. Wrth wraidd y ddaidl hon, mae ein hymrwymiad sylfaenol i greu gwlad lle y gall pawb sy'n gweithio'n galed i fod yn berchen ar eu cartref eu hunain os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'n gwbl hanfodol fod prynwyr tro cyntaf yn cael help i fynd ar yr ysgol dai, ac nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddai pob plaid yn y Siambur hon yn cytuno â hynny.

Fel y dywedodd Mark Isherwood, yn Lloegr, mae'r cynllun Cymorth i Brynu wedi helpu pobl i gael morgais fforddiadwy gyda blaendal o 5 y cant yn unig. Mae'r cynllun eisoes wedi helpu dros 88,000 o deuluoedd i brynu eu cartref eu hunain, gyda thros 80 y cant o'r gwerthiannau yn mynd i brynwyr tro cyntaf. Mae'n anffodus, yma yng Nghymru, nad oes ond 1,612 o deuluoedd wedi gallu prynu eu cartrefi hyd yn hyn drwy gynllun Cymorth i Brynu, gyda 74 y cant o'r prynwyr yn brynwyr tro cyntaf. Felly, mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i gefnogi prynwyr tro cyntaf i wireddu eu breuddwyd o brynu cartref.

Nawr, mae wedi bod yn broblem ers amser fod angen cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy mewn nifer o ardaloedd cefn gwlad Cymru yn sylweddol i fynd i'r afael â'r angen dwys am dai, ac mae hynny'n sicr yn wir yn fy etholaeth i. Yn anffodus, nid yw cynllun Cymorth i Brynu Cymru Llywodraeth Cymru ar gael ar gyfer eiddo sydd eisoes yn bodoli mewn ardaloedd gwledig, ac mae hyn yn rhwystro llawer o ddarpar brynwyr tai mewn llefydd fel Sir Benfro. Rydym yn gwybod y gallai darparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig fod yn anos am nifer o resymau. Er enghraifft, mae mwyfwy o gymudo o drefi a phentrefi, gan ei gwneud yn anos i brynwyr tro cyntaf gael mynediad i'r farchnad dai leol. Credaf y bydd ein cynigion ar gyfer prynwyr tro cyntaf yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl sy'n awyddus i brynu cartrefi mewn ardaloedd gwledig ac a oedd yn methu â mynd i mewn i'r farchnad dai leol yn flaenorol. Yn sicr, dylid croesawu camau i helpu prynwyr tro cyntaf i wireddu eu breuddwyd o fod yn berchen ar eu cartref, ac unrhyw gamau neu bolisiau a all helpu i wireddu'r freuddwyd honno.

Credaf y bydd ein cynlluniau yn mynd yn llawer pellach na dim ond cefnogi pobl sy'n bwriadu prynu eu cartref cyntaf. Bydd y sgil-effaith o gynyddu perchentyaeth yng Nghymru hefyd yn darparu cwsmeriaid newydd i adeiladwyr tai, gan roi hwb i adeiladu tai ar draws y wlad, ac yn ei dro, yn creu swyddi ac yn ysgogi twf. Nawr, er fy mod yn derbyn bod gweithgarwch adeiladu tai wedi cynyddu ar draws Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf, rwy'n cytuno â Sefydliad Tai Siartredig Cymru, sydd wedi cydnabod y cynnydd, ond sydd wedi dweud nad yw hynny'n ddigon o hyd. Mae Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr yn dweud wrthym fod y diwydiant adeiladu mewn sefyllfa dda i arwain adferiad yng Nghymru, ac am bob £1 a werir ar brosiect adeiladu yng Nghymru, fod y manteision i'r economi yn gyffredinol yn £1.70. Felly, bydd ysgogi adeiladu tai yn naturiol yn cael effaith gadarnhaol ar y diwydiant adeiladu.

As has already been mentioned here in this Chamber today—and I think it's certainly worth rehearsing—figures from CIH Cymru have made it absolutely clear that there is a need to build 15,000 homes each year in order to address the Welsh housing crisis. Therefore, any attempt to get the housing market moving and support the construction industry has surely got to be a positive thing. Members will know that, as part of our offer to first-time buyers, we would introduce a six-month council tax holiday, which would save the average buyer £664. In my own constituency, first-time buyers could save just over £500, which is a significant amount of money. This, coupled with our proposals to scrap stamp duty for first-time buyers on properties worth up to £250,000, will make the housing market more accessible to those looking to purchase their own home.

We on this side of the Chamber recognise that the property market can be daunting for first-time buyers, which is why we are developing schemes to make home ownership more obtainable. We will even explore the development of a starter homes Cymru initiative, following the lead set by the UK Government, to deliver below-market-value properties specifically for first-time buyers under the age of 40. We believe that, through building well-designed affordable housing, more people in Wales will be able to access the property ladder in a way that best suits them.

Therefore, in closing, Presiding Officer, we on this side of the Chamber want to send a clear message that Wales is an aspirational nation, where getting a foot on the property ladder is not out of reach and where the Government supports first-time buyers. Our proposals show that Welsh Conservatives are on the side of hard-working families here in Wales, and people who want to get on in life. The knock-on effects of these proposals could also have a very positive effect on the construction industry and, ultimately, create more jobs. Therefore, Presiding Officer, I urge Members to support this motion here this afternoon.

16:06

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to take part in this debate. The problem facing potential first-time buyers is that there's a shortage of houses available: firstly, because not enough are being built, but also, and perhaps more importantly, a very high proportion of houses in areas where first-time buyers have traditionally bought have been bought up as buy-to-let properties by investors. The Help to Buy scheme, whilst generally welcomed, has done nothing to increase supply. All that's happened is that, when the money chasing demand is increased and supply is not, we see the inevitable consequence that there's a price rise.

The reasons that first-time buyers are having difficulty in Wales is different to in London, where prices are being driven up by wealthy foreign buyers. The shortage of social housing is pushing large numbers of people into the private-rented sector. This can be highly lucrative for investors; a house can be bought for £60,000 and rented out at between £5,000 and £6,000 a year. Where else can you get an 8 per cent to 10 per cent rate of return and capital growth?

Fel sydd eisoes wedi cael ei grybwyll yma yn y Siambr heddiw—ac rwy'n meddwl ei fod yn sicr yn werth ei ailadrodd—mae ffigurau gan CIH Cymru wedi ei gwneud yn gwbl glir fod angen adeiladu 15,000 o gartrefi bob blwyddyn er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng tai yng Nghymru. Felly, yn bendant, rhaid bod unrhyw ymgais i gael y farchnad dai i symud a chefnogi'r diwydiant adeiladu yn sicr yn beth cadarnhaol. Bydd yr Aelodau'n gwybod, fel rhan o'n cynnig i brynwyr tro cyntaf, y byddem yn cyflwyno cynllun i eithrio pobl rhag y dreth gyngor am chwe mis, a fyddai'n arbed cyfartaledd £664 i'r prynwr. Yn fy etholaeth fy hun, gallai prynwyr tro cyntaf arbed ychydig dros £500, sy'n swm sylweddol o arian. Bydd hyn, ynghyd â'n hargymhellion i gael gwared ar dreth stamp ar gyfer prynwyr tro cyntaf ar eiddo sy'n werth hyd at £250,000, yn gwneud y farchnad dai yn fwy hygyrch i'r rhai sy'n dymuno prynu eu cartref eu hunain.

Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cydnabod y gall y farchnad eiddo fod yn frawychus i brynwyr tro cyntaf, a dyna pam rydym yn datblygu cynlluniau i wneud perchentyaeth yn fwy hygyrch. Byddwn hyd yn oed yn archwilio datblygiad menter cartrefi cyntaf Cymru, yn dilyn yr arweiniad a roddwyd gan Lywodraeth y DU, er mwyn darparu tai is na'u gwerth ar y farchnad yn benodol ar gyfer prynwyr tro cyntaf o dan 40 oed. Drwy adeiladu tai fforddiadwy wedi eu cynllunio'n dda, rydym yn credu y bydd mwy o bobl yng Nghymru yn gallu mynd ar yr ysgol eiddo yn y ffordd sy'n gweddu orau iddynt.

Felly, wrth gloi, Lywydd, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn awyddus i anfon neges glir fod Cymru yn genedl uchelgeisiol, lle nad yw cael troed ar yr ysgol eiddo allan o gyrraedd a lle mae'r Llywodraeth yn cefnogi prynwyr tro cyntaf. Mae ein cynigion yn dangos bod y Ceidwadwyr Cymreig ar ochr teuluoedd gweithgar yma yng Nghymru, a phobl sydd eisiau gwella eu hamgylchiadau mewn bywyd. Gallai sgil-ffeithiau'r cynigion hyn gael effaith gadarnhaol iawn ar y diwydiant adeiladu hefyd a chreu mwy o swyddi yn y pen draw. Felly, Lywydd, rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig hwn y prynhawn yma.

Croesawaf y cyfle i gymryd rhan yn y ddatl hon. Y problem sy'n wynebu darpar brynwyr tro cyntaf yw prinder o dai ar gael: yn gyntaf, oherwydd nad oes digon yn cael eu hadeiladu, ond hefyd, ac yn bwysicach efallai, mae cyfran uchel iawn o dai mewn ardaloedd lle mae prynwyr tro cyntaf wedi arfer prynu'n draddodiadol wedi cael eu prynu fel eiddo prynu i osod gan fuddsoddwyr. Er ei fod wedi cael croeso yn gyffredinol, nid yw'r cynllun Cymorth i Brynu wedi gwneud dim i gynyddu'r cyflenwad. Y cyfan sydd wedi digwydd yw pan fo'r arian sy'n dilyn y galw'n cynyddu heb fod cynnydd yn y cyflenwad, gwelwn mai'r canlyniad anochel yw bod prisiau'n codi.

Mae'r rhesymau pam y mae prynwyr tro cyntaf yn cael anhawster yng Nghymru yn wahanol i'r hyn ydynt yn Llundain, lle y caiff prisiau eu gwthio i fyny gan brynwyr tramor cyfoethog. Mae prinder tai cymdeithasol yn gwthio nifer fawr o bobl i mewn i'r sector rhentu preifat. Gall hyn fod yn broffidiol iawn i fuddsoddwyr; gellir prynu tai am £60,000 a'i osod ar rent am rhwng £5,000 a £6,000 y flwyddyn. Lle arall y ceir cyfradd adennill a thwf cyfalaf o 8 i 10 y cant?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Paradoxically, the best way of producing affordable housing for first-time buyers is to build council and housing association properties. The availability of social housing for rent will reduce the demand for privately-rented accommodation, which, in turn, will reduce the buy-to-let properties, and thus make property available for first-time buyers at affordable prices.

Many of those areas where in the 1960s, 1970s and 1980s first-time buyers flocked have now been taken over by the buy-to-rent investors. In part of my constituency in Plasmarl, you can walk along the terraces where you can see house after house with 'available to rent' put on it.

Conversely, the worst thing that can happen—

Yn baradocsaid, y ffordd orau o gynhyrchu tai fforddiadwy ar gyfer prynwyr tro cyntaf yw adeiladu tai cyngor a chymdeithasau tai. Bydd argaeledd tai cymdeithasol ar rent yn lleihau'r galw am lety ar osod yn breifat, a fydd yn ei dro yn lleihau'r nifer o eiddo prynu i osod, ac felly'n sicrhau bod eiddo ar gael ar gyfer prynwyr tro cyntaf am brisiau fforddiadwy.

Mae llawer o'r ardaloedd yr heidiai prynwyr tro cyntaf iddynt yn y 1960au, y 1970au a'r 1980au bellach wedi'u meddiannu gan fuddsoddwyr prynu i osod. Yn rhan o fy etholaeth ym Mhlas-marl, gallwch gerdded ar hyd y terasau lle y gallwch weld tŷ ar ôl tŷ gydag arwydd arno'n dynodi ei fod ar gael i'w rentu.

Ar y llaw arall, y peth gwaethaf a allai ddigwydd—

16:07 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:07 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Please.

Os gwelwch yn dda.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:07 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. Do you think, if the help-to-buy scheme were extended to older houses and not just new build properties, that some of the problems that you're talking about might actually be alleviated?

Diolch yn fawr iawn. Pe bai'r cynllun cymorth i brynu yn cael ei ymestyn i gynnwys tai hŷn ac nid eiddo a adeiladwyd o'r newydd yn unig, a ydych yn meddwl y gellid lleddfu rhai o'r problemau rydych yn sôn amdanynt mewn gwirionedd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:07 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I don't, actually.

Nac ydw, mewn gwirionedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Conversely, the worst thing that can happen for first-time buyers is the sale of social housing, because that will increase demand for privately-rented accommodation, and thus force up prices and make many more of these properties unaffordable for first-time buyers. You sell off the council houses and sell off the housing association houses—what happens then? People have to find somewhere to live, privately-rented accommodation becomes available, it forces up prices—it's a very unvirtuous circle.

Ar y llaw arall, y peth gwaethaf a allai ddigwydd i brynwyr tro cyntaf yw gwerthu tai cymdeithasol, gan y byddai hynny'n cynyddu'r galw am lety ar osod yn breifat, ac felly'n gwrthio prisiau i fyny ac yn gwneud llawer mwy o'r eiddo hyn yn anfforddiadwy i brynwyr tro cyntaf. Rydych yn gwerthu'r tai cyngor ac yn gwerthu tai'r cymdeithasau tai—beth sy'n digwydd wedyn? Rhaid i bobl ddod o hyd i rywle i fyw, daw llety ar osod yn breifat ar gael, mae'n gwrthio prisiau i fyny—mae'n gylch anrhweddol iawn.

Next, I want to commend the Welsh Government on the carrot-and-stick approach to empty properties. Many of us in the wards and constituencies where we live see, far too often, empty properties—very good-quality properties, very sought-after properties just left there empty. The carrot of a loan to bring them back into use either for rent or sale is then backed by the stick of the opportunity for councils to levy increased council tax on long-term empty properties.

Yn nesaf, hoffwn ganmol Llywodraeth Cymru am y dull abwyd a ffon o weithredu ar eiddo gwag. Mae llawer ohonom yn y wardiau a'r etholaethau lle'r ydym yn byw, yn llawer rhy aml yn gweld eiddo gwag—eiddo gwag o ansawdd da iawn, eiddo y mae galw mawr amdano, yn cael ei adael yn wag. Caiff abwyd y benthyciad i'w denu yn ôl i ddefnydd naill ai i'w gosod neu eu gwerthu ei gefnogi wedyn gan y ffon, sef y cyfle i gynghorau godi mwy o dreth cyngor ar eiddo sy'n wag yn hirdymor.

Bringing long-term empty properties back into use increases the number of properties available for first-time buyers. Anything that increases the housing stock available improves the opportunity for first-time buyers to enter the housing market.

Mae dod ag eiddo sy'n wag yn hirdymor yn ôl i ddefnydd yn cynyddu nifer y tai sydd ar gael i brynwyr tro cyntaf. Mae unrhyw beth sy'n cynyddu'r stoc dai sydd ar gael yn gwella'r cyfle i brynwyr tro cyntaf fynd i mewn i'r farchnad dai.

Another way of increasing housing supply is by developing co-operative housing. I welcome the Welsh Government's support for co-operative housing. In other parts of the world, where this third form of housing tenure—namely housing co-operatives—exists, there are strong co-operative housing sectors in countries as diverse as Sweden, Canada, Austria, Turkey and the United States of America. In Sweden, for example, two large housing co-operatives provide 750,000 homes. In Canada, which began developing co-operatives in the early 1970s, there are now over 400,000 living in co-operative homes.

There are currently three pilot co-operative housing projects based in Newport, Cardiff and Carmarthenshire that have the potential to deliver around 90 co-operative homes, with a further 17 potential co-operative housing schemes being considered. These schemes are developed in partnership with housing associations and local authorities, with, thankfully, the funding from the Welsh Government.

Local development plans play a key role in releasing land so that housing development can take place—so, I expect to see the Conservatives supporting land being made available for building on. We know the average size of households is growing smaller, so more small properties are needed. Progress is being made. For example, Hygrove are building 200 affordable properties on a brownfield site in my constituency.

Finally, there are a whole range of methods to increase home ownership. One of the problems affecting potential first-time buyers are the new employment practices of short-term contracts, zero-hours contracts and variable-hours contracts. People haven't got the stability that many of us had when we were young. That's one of the causes of problems, and perhaps the Conservatives will apologise for that.

Ffordd arall o gynyddu'r cyflenwad tai yw drwy ddatblygu tai cydweithredol. Rwy'n croesawu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i dai cydweithredol. Mewn rhannau eraill o'r byd, lle y ceir y drydedd ffurf hon ar ddeiliadaeth dai—sef cydweithrediaethau tai—ceir sectorau tai cydweithredol cryf mewn gwledydd mor amrywiol â Sweden, Canada, Awstria, Twrci ac Unol Daleithiau America. Yn Sweden, er enghraifft, mae dwy gydweithrediaeth dai fawr yn darparu 750,000 o gartrefi. Yng Nghanada, a ddechreuodd ddatblygu mentrau cydweithredol yn y 1970au cynnar, mae dros 400,000 o bobl yn byw mewn cartrefi cydweithredol bellach.

Ceir tri phrosiect peilot tai cydweithredol yng Nghasnewydd, Caerdydd a Sir Gaerfyrddin sydd â'r potensial i ddarparu tua 90 o gartrefi cydweithredol, gyda 17 o gynlluniau tai cydweithredol posibl pellach dan ystyriaeth ar hyn o bryd. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â chymdeithasau tai ac awdurdodau lleol, gyda chyllid Llywodraeth Cymru, yn ffodus.

Mae cynlluniau datblygu lleol yn chwarae rhan allweddol yn rhyddhau tir er mwyn i ddatblygiadau tai allu digwydd—felly, rwy'n disgwyl gweld y Ceidwadwyr yn cefnogi camau i ryddhau tir i adeiladu arno. Rydym yn gwybod bod maint cartrefi yn lleihau, ar gyfartaledd, felly mae angen mwy o eiddo bach. Mae cynnydd yn cael ei wneud. Er enghraifft, mae Hygrove yn adeiladu 200 o dai fforddiadwy ar safle tir llwyd yn fy etholaeth.

Yn olaf, ceir ystod eang o ddulliau i gynyddu perchentyaeth. Un o'r problemau sy'n effeithio ar ddarpar brynwyr tro cyntaf yw arferion cyflogaeth newydd yn cynnwys contractau tymor byr, contractau dim oriau a chontractau oriau amrywiol. Nid yw pobl wedi cael y sefydlogrwydd a oedd gan lawer ohonom pan oeddem yn ifanc. Dyna un o achosion y problemau, ac efallai y bydd y Ceidwadwyr yn ymddiheuro am hynny.

16:10

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is the aspiration of most people in Wales to own their own home. Home ownership is about independence and self-reliance. It is about handing down to your children a valuable asset to give them a great start—and, in some cases, a better start—in life. Unlike the party opposite, we on this side of the Chamber strongly believe in extending the opportunity for people to own their home. In contrast, take-up of Welsh Government schemes, such as homebuy, Rent First and Help to Buy, have been disappointing, and now Welsh Labour plan to abolish the right to buy and the right to acquire in Wales. Labour can never be the party of aspiration, because it believes in dependence and state reliance. They talk about tackling poverty whilst kicking away the ladder of opportunity from hard-working families for whom home ownership is a way of improving their circumstances. Welsh Conservatives will not deny those who wish to, the chance of home ownership. That is why we are holding this debate today, which calls for a package of measures to help first-time buyers and presents our fully costed proposals in this regard.

Dyhead y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yw bod yn berchen ar eu cartref eu hunain. Mae perchentyaeth yn ymwneud ag annibyniaeth a hunanddibyniaeth. Mae'n ymwneud â throsglwyddo ased gwerthfawr i'ch plant i roi dechrau da—ac mewn rhai achosion, dechrau gwell—mewn bywyd. Yn wahanol i'r blaid gyferbyn, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn credu'n gryf mewn cynnig cyfle i bobl fod yn berchen ar eu cartref. Ar y llaw arall, mae'r nifer sy'n manteisio ar gynlluniau Llywodraeth Cymru, megis cymorth prynu, Rhent yn Gyntaf a Cymorth i Brynu, wedi bod yn siomedig, ac yn awr mae Llafur Cymru yn bwriadu diddymu'r hawl i brynu a'r hawl i gaffael yng Nghymru. Ni all Llafur byth fod yn blaid uchelgais gan ei bod yn credu mewn dibyniaeth ar y wladwriaeth. Maent yn siarad am drechu tlodi gan fynd ati ar yr un pryd i gicio ysgol cyfle i ffordd o dan draed teuluoedd gweithgar y mae perchentyaeth yn ffordd o wella eu hamgylchiadau. Ni fydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gwrthod y cyfle i'r sawl sy'n dymuno bod yn berchen ar eu cartref allu gwneud hynny. Dyna pam rydym yn cynnal y ddadl hon heddiw, sy'n galw am becyn o fesurau i helpu prynwyr tro cyntaf ac yn cyflwyno ein cynigion wedi eu costio'n llawn yn hyn o beth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Our plans will assist first-time buyers to buy their own home and will relieve their financial burden in the first months of ownership. Stamp duty is one of the additional costs faced by home buyers. Under the present system, stamp duty is not payable on property purchases of less £125,000. We would go further. Under our proposals, stamp duty would be exempt on property purchases worth up to £250,000. This would save the average first-time buyer £140. I'm pleased this proposal has been welcomed by building societies across Wales.

Having bought their home, many people face a period of having to adjust their household budgets accordingly. As an attempt to relieve the financial burden during this period, we would introduce a six-month council tax holiday. Council tax rates have soared in Wales—

Bydd ein cynlluniau yn helpu prynwyr tro cyntaf i brynu eu cartref eu hunain ac yn lleddfu eu baich ariannol dros fisoedd cyntaf eu perchnogaeth. Mae treth stamp yn un o'r costau ychwanegol a wynebir gan brynwyr cartrefi. O dan y system bresennol, nid yw treth stamp yn daladwy ar bryniannau eiddo o dan £125,000. Byddem yn mynd ymhellach. O dan ein cynigion, byddai treth stamp yn cael ei heithrio ar bryniannau eiddo gwerth hyd at £250,000. Byddai hyn yn arbed £140 i'r prynwr tro cyntaf cyfartalog. Rwy'n falch fod y cynnig hwn wedi cael ei groesawu gan gymdeithasau adeiladu ledled Cymru.

Ar ôl prynu eu cartref, mae llawer o bobl yn wynebu cyfnod o orfod addasu cyllidebau'r aelwyd i gyd-fynd â hynny. Fel ymgais i leddfu'r baich ariannol yn ystod y cyfnod hwn, byddem yn cyflwyno cynllun i eithrio rhag talu'r dreth gyngor am chwe mis. Mae cyfraddau'r dreth gyngor wedi cynyddu'n ddirfawr yng Nghymru—

16:13 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:13 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:13 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand what you're arguing there, in terms of the council tax holiday, but do you not think it's actually important to help people get on the housing ladder in the first place? Given the level of deposit required, would it not be better to actually extend other schemes that will do that?

Rwy'n deall yr hyn rydych yn ei ddadlau, o ran eithrio rhag y dreth gyngor, ond onid ydych yn credu ei bod hi'n bwysig helpu pobl i gael troed ar yr ysgol dai yn y lle cyntaf? O ystyried lefel y blaendal sy'n angenrheidiol, oni fyddai'n well ymestyn cynlluniau eraill a fydd yn gwneud hynny?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:13 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The thing is, Peter, the people, when they buy a house, you know the pleasure—once the person buys the house—that they feel. The family is over the moon when they buy their first home, and, when there's less cost, they improve, internally, the house, rather than paying stamp duty and other things. That is a different matter. Perhaps you haven't been through that yet.

Y peth yw, Peter, y bobl, pan fyddant yn prynu tŷ, fe wyddoch am y pleser y bydd person yn ei deimlo ar ôl prynu tŷ. Mae'r teulu wrth eu boddau pan fyddant yn prynu eu cartref cyntaf, a phan fo llai o gostau, maent yn gwella'r tŷ yn fewnol, yn hytrach na thalu treth stamp a phethau eraill. Mae hwnnw'n fater gwahanol. Efallai nad ydych wedi bod drwy hynny eto.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Council tax rates have soared in Wales compared to England, where the UK Government has frozen council tax rates. The average band D council tax demand has more than doubled in Wales since this Assembly was incorporated in 1999. A council tax holiday would save an average first-time buyer £576 in Newport, £674 in Monmouth and £817 in Blaenau Gwent. This represents, Peter, real help and support in the vital first months of home ownership. We would seek to extend and enhance other programmes also. The UK Government has extended the Help to Buy scheme in England until 2020. We would seek to do the same in Wales as well. We would work with the housing sector and seek opportunities for further development of Rent to Buy, shared ownership and mortgage guarantee schemes. We would extend the Right to Buy in Wales and not scrap it, investing all the sale proceeds into the providing of new social housing. Presiding Officer, first-time buyers are finding it increasingly difficult to get on the housing ladder. Our proposals represent a comprehensive package of support that is good for families, good for communities and good for the Welsh economy.

Mae cyfraddau'r dreth gyngor wedi cynyddu'n ddifwr yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr, lle mae Llywodraeth y DU wedi rhewi cyfraddau'r dreth gyngor. Mae treth gyngor gyfartalog band D wedi mwy na dyblu yng Nghymru ers i'r Cynulliad hwn gael ei ymgorffori yn 1999. Byddai cyfnod o eithrio rhag talu'r dreth gyngor yn arbed £576 i'r prynwr tro cyntaf cyfartalog yng Nghasnewydd, £674 yn Nhrefynwy a £817 ym Mlaenau Gwent. Peter, dyma gymorth a chefnogaeth go iawn yn y misoedd cyntaf allweddol o fod yn berchen ar gartref. Byddem yn ceisio ymestyn a gwella rhaglenni eraill hefyd. Mae Llywodraeth y DU wedi ymestyn y cynllun Cymorth i Brynu yn Lloegr tan 2020. Byddem yn ceisio gwneud yr un peth yng Nghymru hefyd. Byddem yn gweithio gyda'r sector tai ac yn chwilio am gyfleoedd ar gyfer datblygu cynlluniau Rhentu i Brynu, cydberchnogaeth a gwarant morgais ymhellach. Byddem yn ymestyn y cynllun Hawl i Brynu yng Nghymru ac nid cael gwared arno, gan fuddsoddi holl elw'r gwerthiant i ddarparu tai cymdeithasol newydd. Lywydd, mae prynwyr tro cyntaf yn ei chael yn fwyfwy anodd cael troed ar yr ysgol dai. Mae ein cynigion yn cynnig pecyn cynhwysfawr o gymorth sy'n dda i deuluoedd, yn dda i gymunedau ac yn dda i economi Cymru.

Another final word, Presiding Officer: it's a good global saying that an Englishman's home is his castle. I can say, in exactly the same way, the Welshman's home is his castle, too.

Un gair olaf, Lywydd: mae'n ddywediad byd-eang da mai cartref Sais yw ei gastell. Gallaf ddweud, yn yr un ffordd yn union, mai cartref Cymro hefyd yw ei gastell.

- 16:15 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you take an intervention? A wnewch chi dderbyn ymyriad?
- 16:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Sorry—too late. Janet Finch-Saunders. Mae'n ddrwg gennyf—rhy hwyr. Janet Finch-Saunders.
- 16:15 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, Presiding Officer—[Interruption.] Diolch i chi, Lywydd—[Torri ar draws.]
- 16:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Order. Order. Trefn. Trefn.
- 16:16 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
It is a pleasure today to support the Welsh Conservative debate and our group proposals to boost support for first-time buyers. We certainly recognise the need to help first-time buyers onto the property ladder by working with the whole market to develop a broad range of initiatives. This motion reaffirms our position back in November 2013 and our vision for Welsh housing to deal with the housing need crisis here in Wales. Of course, it isn't new for us to be the party quite rightly championing the right to make homeownership obtainable and affordable for all. Mae'n bleser gennyf gefnogi dadl y Ceidwadwyr Cymreig heddiw a chynigion ein grŵp i roi hwb i gymorth ar gyfer prynwyr tro cyntaf. Rydym yn bendant yn cydnabod yr angen i helpu prynwyr tro cyntaf ar yr ysgol eiddo drwy weithio gyda'r farchnad gyfan i ddatblygu ystod eang o fentrau. Mae'r cynnig hwn yn ailddatgan ein safbwynt yn ôl ym mis Tachwedd 2013 a'n gweledigaeth ar gyfer tai yng Nghymru i fynd i'r afael ag argyfwng yr angen am dai yma yng Nghymru. Wrth gwrs, nid yw'n beth newydd mai ni yw'r blaid, yn gwbl briodol, sy'n hyrwyddo'r hawl i sicrhau bod perchentyaeth o fewn cyrraedd, ac yn fforddiadwy i bawb.
- 16:16 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you take an intervention? A wnewch chi dderbyn ymyriad?
- 16:16 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
It is a fact that first-time buyers are finding it— Mae'n ffaith fod prynwyr tro cyntaf yn ei chael yn—

16:16	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Will you take an intervention? A wnewch chi dderbyn ymyriad?	
16:16	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	No. Na wnaif.	
16:16	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	No. Not taking an intervention. Na. Nid yw'n derbyn ymyriad.	
16:16	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	[Continues.]—increasingly difficult to get onto the property ladder. They do feel isolated and far removed from homeownership. Now, the measures by the Welsh Government to tackle this have, thus far, failed, in the main because of such poor take-up. Homebuy—okay. But Rent First—the take-up extremely poor. And Help to Buy is still underutilised, and I'm amazed with my colleague, Mike Hedges, across the Chamber there. I have raised in this Chamber about why empty stock cannot be used in this regard. So, it does beg the question whether the Welsh Government has the same aspiration and ambition to see homebuyers into their own houses as they and we have.	
	[Yn parhau.]—yn fwyfwy anodd i gael troed ar yr ysgol eiddo. Maent yn teimlo'n ynysig ac yn bell iawn o berchentaeth. Nawr, mae'r mesurau gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn wedi methu hyd yma, yn bennaf am fod y nifer sydd wedi manteisio arnynt mor isel. Cymorth prynu—iawn. Ond Rhent yn Gyntaf—mae'r nifer sydd wedi manteisio ar y cynllun yn eithriadol o isel. Ac nid oes digon yn defnyddio Cymorth i Brynu o hyd, ac rwy'n synnu at fy nghyd-Aelod, Mike Hedges, ar draws y Siambr. Rwyf wedi gofyn yn y Siambr hon pam na ellir defnyddio stoc wag yn y cyswllt hwn. Felly, rhaid gofyn a oes gan Lywodraeth Cymru yr un dyhead ac uchelgais i weld pobl yn prynu eu tai eu hunain ag sydd gan y bobl hynny a ninnau.	
	<i>Mike Hedges a gododd—</i>	<i>Mike Hedges rose—</i>
16:17	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Are you taking an intervention? A ydych yn derbyn ymyriad?	
16:17	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Whilst the number of first-time buyers is growing, the challenge is presented— Er bod nifer y prynwyr tro cyntaf yn cynyddu, mae'r her i'w gweld—	
16:17	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Are you taking an intervention? A ydych yn derbyn ymyriad?	
16:17	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Go on. Ewch ymlaen.	
16:17	Mike Hedges Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I think that getting these empty properties available is one of the easy ways of increasing the amount of supply. You need to increase supply because, unless you increase supply, all you do is push up prices.	
	Rwy'n meddwl bod cael yr eiddo gwag ar gael yn un o'r ffyrdd hawdd o gynyddu'r cyflenwad. Mae angen i chi gynyddu'r cyflenwad oherwydd, oni bai eich bod yn cynyddu'r cyflenwad, y cyfan a wnewch yw gwthio prisiau i fyny.	

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

To be honest, I don't think that really—is worthy of an answer. [Laughter.] The fact it costs significantly more to build a house in Wales than in England is largely due to red tape and regulatory burden imposed by this Welsh Government. Property developers shying away from building here, preferring to build over the border, is a clear indicator of the failure to grasp what is required. Now, by investing in our potential homeowners, you are contributing to our construction industry, improving employment opportunities, whilst stimulating the economy. The current housing need requirement in Wales as per an earlier review identified a need for 14,000 to be built yearly between 2006 and 2026, yet it was highlighted in 2012 that this hasn't been achieved, and there are now around 43,000 properties still required—the lowest level since the second world war.

Our offer for first-time buyers, on the other hand, is without compromise and seeks to help our homeowners get a leg up on that very first rung of the property ladder. Six-month council tax holiday: this alone is of some significance, especially with the council tax rises that we've seen here in Wales under Labour. Cutting your stamp duty bill: scrapping this duty or tax—whatever you want to call it—for first-time buyers on old properties up to the value of £250,000 is a wonderful initiative.

The UK Government has been keen to make it easier to save, with the newly introduced Help to Buy first-time ISA available over four years. This would help to boost savings by 25 per cent. If you then save £12,000, you receive a bonus of £3,000. On the highest bonus reward, this is an amazing initiative. It is called incentive and innovation, and we want that for our first timers also. Wales is a country of aspiration, with 84 per cent of adults wanting to take their keys to their own home, as opposed to 79 per cent across Great Britain. We will work with the whole housing sector to develop a range of initiatives to help first-time buyers onto the property ladder, providing buyers with the financial flexibility to clear away the barriers to homeownership and help them get their keys to their very first homes.

Conservatives believe that aspiration, ambition and achievement are the keys to making many things possible, but we know, too, that encouragement, enablement and empowerment from a Government can make that lock turn. Thank you.

I fod yn onest, nid wyf yn credu bod hynny mewn gwirionedd—yn deilwng o ateb. [Chwerthin.] Mae'r ffaith ei bod yn costio llawer mwy i adeiladu tŷ yng Nghymru nag yn Lloegr yn deillio'n bennaf o fiwrocratiaeth a baich rheoleiddiol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ffaith fod datblygwyr eiddo yn gochel rhag adeiladu yma, gan ffafrio adeiladu dros y ffin, yn arwydd clir o'r methiant i ddeall yr hyn sy'n ofynnol. Nawr, drwy fuddsoddi yn ein perchnogion tai posibl, rydych yn cyfrannu at ein diwydiant adeiladu, yn gwella cyfleoedd cyflogaeth, gan ysgogi'r economi. Roedd y galw cyfredol am dai yng Nghymru yn ôl adolygiad cynharach yn nodi angen i adeiladu 14,000 bob blwyddyn rhwng 2006 a 2026, ac eto amlygwyd yn 2012 na chyflawnwyd hyn, a bellach mae angen oddeutu 43,000 o dai o hyd—y lefel isaf ers yr ail ryfel byd.

Mae ein cynnig i brynwyr tro cyntaf, ar y llaw arall, yn ddigyfaddawd ac yn ymgais i helpu ein perchnogion tai i gael troed ar ris gyntaf yr ysgol eiddo. Eithrio am chwe mis rhag y dreth gyngor: mae hyn ar ei ben ei hun yn arwyddocaol, yn enwedig gyda'r codiadau yn y dreth gyngor a welsom yma yng Nghymru o dan Lafur. Mae lleihau eich bil treth stamp: neu gael gwarded ar y doll neu'r dreth hon—beth bynnag y dymunwch ei galw—i brynwyr tro cyntaf ar hen eiddo gwerth hyd at £250,000 yn gynllun gwych.

Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn awyddus i'w gwneud yn haws i gynilo, gyda'r ISA Cymorth i Brynu i brynwyr tro cyntaf sydd newydd ei gyflwyno ar gael dros bedair blynedd. Byddai hyn yn helpu i roi hwb o 25 y cant i gynilion. Os byddwch wedyn yn cynilo £12,000, byddwch yn cael bonws o £3,000. Ar y lefel y bonws uchaf, mae'n gynllun anhygoel. Fe'i gelwir yn gymhelliant ac yn arloesedd, ac rydym eisiau hynny ar gyfer ein prynwyr tro cyntaf hefyd. Mae Cymru yn wlad ag uchelgais, gyda 84 y cant o oedolion eisiau cael allwedd i'w cartref eu hunain, yn hytrach na 79 y cant ar draws Prydain. Byddwn yn gweithio gyda'r sector tai cyfan i ddatblygu ystod o fentrau i helpu prynwyr tro cyntaf ar yr ysgol eiddo, gan ddarparu hyblygrwydd ariannol i brynwyr allu goresgyn y rhwystrau i berchentaeth a'u helpu i gael eu hallwedd i'w cartref cyntaf un.

Mae'r Ceidwadwyr yn credu mai dyhead, uchelgais a chyflawniad yw'r allwedd i wneud llawer o bethau'n bosibl, ond gwyddom hefyd y gall Llywodraeth sy'n annog, galluogi a grymuso agor y clo. Diolch yn fawr.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Communities and Tackling Poverty, Lesley Griffiths, to speak on behalf of the Government. Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths, i siarad ar ran y Llywodraeth. Lesley Griffiths.

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Presiding Officer. I welcome the opportunity to respond to the debate today. This Welsh Government is supporting first-time buyers and we will continue to do so. Our task has not been helped by UK Government economic policies, which have increased job insecurity, especially for young people.

Taking out a mortgage is a 25-year commitment, and a six-month council tax holiday is no use to a young couple who don't know if they'll have a job in six months' time. That is why our work to assist first-time buyers has to be part of a wider approach to housing needs in Wales. We're also committed to the development of social housing, and we're taking steps to improve the private rented sector, remembering many of today's private tenants are potential first-time buyers struggling to save a deposit in these hard times.

The introduction of Help to Buy Wales has made a real difference, helping people onto the housing ladder and supporting a sustained increase in house building. During 2014-15, the number of new homes started in Wales rose by 20 per cent to 6,995—the highest annual number recorded since 2007-08—with over 1,600 households being helped to buy their first home. Three quarters of the transactions supported by Help to Buy Wales are for first-time buyers. One in every four new-build properties in Wales is being purchased through Help to Buy Wales. The impact of the scheme is apparent, and this is why I've already announced my intention to extend the Help to Buy Wales shared-equity scheme beyond March 2016. As the opposition know very well, I cannot confirm the full details until the UK Government announces how much money will be available to the Welsh Government in the period to 2020.

We're also providing housing for a range of housing needs. We're making excellent progress against our target of 10,000 affordable homes with nearly 7,000 delivered in the first three years of this Assembly. Our continued commitment to use Government land for housing supports this ambition, and we've already brought forward sites specifically for this purpose.

We're also improving conditions in the private rented sector, on which so many future first-time buyers depend whilst they save for a deposit. We've made excellent progress with regard to the Rent Smart licensing arrangement set out in the housing Act, and our Renting Homes (Wales) Bill proposals are further evidence we are addressing housing issues in the round.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb i'r ddatl heddiw. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi prynwyr tro cyntaf a byddwn yn parhau i wneud hynny. Nid yw ein tasg wedi cael ei helpu gan bolisiau economaidd Llywodraeth y DU, sydd wedi cynyddu ansicrwydd swyddi, yn enwedig i bobl ifanc.

Mae cymryd morgais yn ymrwymiad 25 mlynedd, ac nid yw eithrio rhag y dreth gyngor am chwe mis o unrhyw ddefnydd i gwpl ifanc nad ydynt yn gwybod a fydd swydd ganddynt ymhen chwe mis. Dyna pam y mae'n rhaid i'n gwaith i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf fod yn rhan o ddull ehangach o ateb anghenion tai yng Nghymru. Rydym hefyd yn ymrwymedig i ddatblygu tai cymdeithasol, ac rydym yn rhoi camau ar waith i wella'r sector rhentu preifat, gan gofio bod llawer o denantiaid preifat heddiw yn brynwyr tro cyntaf posibl sy'n cael anhawster i gynilo blaendal ar yr adeg anodd hon.

Mae cyflwyno Cymorth i Brynu Cymru wedi gwneud gwahaniaeth go iawn, gan helpu pobl i brynu eu cartrefi a chefnogi cynnydd parhaus ym maes adeiladu tai. Yn ystod 2014-15, cynyddodd nifer y cartrefi newydd a ddechreuwyd yng Nghymru 20 y cant i 6,995—y nifer blynyddol uchaf a gofnodwyd ers 2007-08—gyda thros 1,600 o aelwydydd yn cael cymorth i brynu eu cartref cyntaf. Mae tri chwarter y trafodion a gefnogwyd gan Cymorth i Brynu Cymru ar gyfer prynwyr tro cyntaf. Mae un o bob pedwar eiddo a adeiladwyd o'r newydd yng Nghymru yn cael ei brynu drwy Cymorth i Brynu Cymru. Mae effaith y cynllun yn amlwg, a dyna pam rwyf eisoes wedi cyhoeddi fy mwriad i ymestyn cynllun rhannu ecwiti Cymorth i Brynu Cymru y tu hwnt i fis Mawrth 2016. Fel y mae'r wrthblaid yn gwybod yn dda iawn, ni allaf gadarnhau'r manylion llawn nes bod Llywodraeth y DU yn cyhoeddi faint o arian a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn y cyfnod hyd at 2020.

Rydym hefyd yn darparu tai ar gyfer ystod o anghenion tai. Rydym yn gwneud cynnydd ardderchog yn erbyn ein targed o 10,000 o gartrefi fforddiadwy gyda bron i 7,000 wedi'u darparu yn ystod tair blynedd gyntaf y Cynulliad hwn. Mae ein hymrwymiad parhaus i ddefnyddio tir y Llywodraeth ar gyfer tai yn cefnogi'r uchelgais hwn, ac rydym eisoes wedi cyflwyno safleoedd yn benodol at y diben hwn.

Rydym hefyd yn gwella amodau yn y sector rhentu preifat y mae cynifer o brynwyr tro cyntaf y dyfodol yn dibynnu arno wrth iddynt gynilo blaendal. Rydym wedi gwneud cynnydd ardderchog o ran y trefniant trwyddedu Rhentu Doeth a nodwyd yn y Ddeddf tai, ac mae ein cynigion ar gyfer y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) yn dystiolaeth bellach ein bod yn mynd i'r afael â phob agwedd ar y maes tai.

So, whilst we are supporting first-time buyers when they are ready to buy, we have not forgotten those with other housing needs, including those who will want to buy in the future. We cannot accept the Conservatives' motion as tabled. We don't accept their proposals for financial incentives for first-time buyers would work. We believe economic uncertainty and job insecurity are much greater barriers to those considering getting on the housing ladder. This view is reflected in the Government's amendment 1.

The council tax system in Wales already takes account of household income and ability to pay. Our council tax reduction schemes provide financial assistance to over 300,000 households in Wales. One in six households in Wales pays no council tax at all. Our local government settlement for 2015-16 includes £244 million funding for council tax reduction schemes, which matches the level of support provided in 2014-15. These measures are all likely to provide assistance to first-time buyers.

Council tax levels are, on average, £156 lower than in England in the current year—a point Mark Isherwood appears to ignore. The Conservatives' proposals are not, unlike previous arrangements, offering reduced council tax for first-time buyers, but the evidence is the simply increased house prices, without increasing the number of homes purchased. The Conservatives' stamp duty proposals may appear attractive, but they're superficial. We estimate the proposals would cost around £5 million and, by the time stamp duty is due to be devolved to Wales, the cost is likely to rise further.

I'm also concerned the Conservatives' proposals would actually create a slab element to the tax system for first-time buyers, with house purchases just below their proposed threshold of £250,000, attracting no stamp duty land tax, while purchases just above would be liable for at least £2,500. This could reintroduce distortionary effects in the housing market, undoing some of the recent reforms to stamp duty by the UK Government themselves. I also understand research by the UK Government on the effect of the previous first-time buyers relief showed that the policy resulted in very few additional house purchases and only served to increase prices for first-time buyers.

Devolving taxes to Wales should enable us to develop a tax system that is simpler, fairer and supports jobs and growth. The Minister for Finance and Government Business has established the tax advisory group for Wales, and the Welsh Government tax forum has been set up to help achieve this.

Felly, er ein bod yn cefnogi prynwyr tro cyntaf pan fyddant yn barod i brynu, nid ydym wedi anghofio am y rhai sydd ag anghenion tai eraill, gan gynnwys pobl a fydd yn awyddus i brynu yn y dyfodol. Ni allwn dderbyn cynnig y Ceidwadwyr fel y'i cyflwynwyd. Nid ydym yn derbyn y byddai eu cynigion ynghylch cymhellion ariannol i brynwyr tro cyntaf yn gweithio. Credwn fod ansicrwydd economaidd ac ansicrwydd ynglŷn â swyddi yn rhwystro llawer mwy i'r rhai sy'n ystyried mynd ar yr ysgol dai. Caiff y farn hon ei hadlewyrchu yng ngwelliant 1 y Llywodraeth.

Mae'r system dreth gyngor yng Nghymru eisoes yn ystyried incwm y cartref a'r gallu i dalu. Mae ein cynlluniau ar gyfer gostwng y dreth gyngor yn rhoi cymorth ariannol i dros 300,000 o gartrefi yng Nghymru. Mae un o bob chwech o gartrefi Cymru yn cael eu heithrio rhag talu unrhyw dreth gyngor o gwbl. Mae ein setliad llywodraeth leol ar gyfer 2015-16 yn cynnwys cyllid o £244 miliwn ar gyfer cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor, sy'n cyfateb i lefel y gefnogaeth a ddarparwyd yn 2014-15. Mae'r mesurau hyn i gyd yn debygol o ddarparu cymorth i brynwyr tro cyntaf.

Mae lefelau'r dreth gyngor, ar gyfartaledd, £156 yn is nag yn Lloegr yn y flwyddyn gyfredol—pwynt y mae Mark Isherwood i'w weld yn ei anwybyddu. Nid yw cynigion y Ceidwadwyr, yn wahanol i drefniadau blaenorol, yn cynnig gostwng y dreth gyngor i brynwyr tro cyntaf, ond y dystiolaeth yn syml yw cynnydd ym mhrisiau tai, heb gynyddu nifer y cartrefi a brynwyd. Gall cynigion y Ceidwadwyr ynghylch y dreth stamp ymddangos yn ddeniadol, ond maent yn arwynebol. Rydym yn amcangyfrif y byddai'r cynigion yn costio tua £5 miliwn ac erbyn y caiff y dreth stamp ei datganoli i Gymru, mae'r gost yn debygol o godi ymhellach.

Rwyf hefyd yn pryderu y byddai cynigion y Ceidwadwyr mewn gwirionedd yn creu elfen slab i'r system dreth ar gyfer prynwyr tro cyntaf, gyda thai'n cael eu prynu ychydig o dan eu trothwy arfaethedig o £250,000 heb unrhyw dreth dir y dreth stamp, a byddai pryniannau ychydig yn uwch na hynny yn agored i dalu o leiaf £2,500. Gallai hyn ailgyflwyno effeithiau a fyddai'n cam-ystumio'r farchnad dai, gan ddadwneud rhai o'r diwygiadau diweddar i'r dreth stamp gan Lywodraeth y DU ei hun. Rwyf hefyd yn deall bod gwaith ymchwil gan Lywodraeth y DU ar effaith y rhyddhad blaenorol i brynwyr tro cyntaf yn dangos nad arweiniodd y polisi at brynu fawr iawn o dai ychwanegol a'r cyfan a wnaeth oedd codi prisiau ar gyfer prynwyr tro cyntaf.

Dylai datganoli trethi i Gymru ein galluogi i ddatblygu system dreth sy'n symlach, yn decach ac yn cefnogi swyddi a thwf. Mae'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi sefydlu grŵp cynghorol trethi Cymru, a sefydlwyd fforwm trethi Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i gyflawni hyn.

Our approach to housing in Wales is centred on both economic growth and supporting a broad range of housing need. So, we support first-time buyers and people who need to rent a home. We support an increase in housing supply and we work closely with house builders in Wales, to discuss and address any barriers to housing development, and I will continue to do so. We will continue to support first-time buyers and develop an approach to housing that is right for the people of Wales. Mike Hedges referred to the success we've had in bringing empty homes back into use. That's just one of many other initiatives.

I regret we can't support the Welsh Liberal Democrats' amendment as it stands. Whilst I would be willing to look at a rent-to-buy model, I would want to see more robust evidence of the demand for, and practical effectiveness of, such a scheme.

We're happy to accept Plaid Cymru's amendment 3. We remain committed to protecting our social housing from further reduction, and we are taking decisive action to protect our social housing stock to make sure it's available for those who need it most. I don't see any contradiction between this and our practical support for first-time buyers. I think a serious approach to housing actually requires both.

So, in closing, I want to be absolutely clear. We recognise and support the desire of many people to buy a home. We are taking practical steps to make this easier for first-time buyers, just as we are working to help those who want to rent, whether in the private or social sector. We do not, however, believe ill-thought-out schemes, such as those proposed by the Welsh Conservatives, will do anything at all for first-time buyers who are already faced with the most difficult economic conditions in recent years. I have to add that today's UK Government Conservatives' budget, sadly, will have done nothing to help people's aspirations to be home owners.

Mae ein dull o weithredu ym maes tai yng Nghymru yn canolbwyntio ar dwf economaidd a chefnogi ystod eang o anghenion tai. Felly rydym yn cefnogi prynwyr tro cyntaf a phobl sydd angen rhentu cartref. Rydym yn cefnogi cynnydd yn y cyflenwad tai ac rydym yn gweithio'n agos gydag adeiladwyr tai yng Nghymru, i drafod a rhoi sylw i unrhyw rwystrau i ddatblygiadau tai, a byddaf yn parhau i wneud hynny. Byddwn yn parhau i gefnogi prynwyr tro cyntaf ac yn datblygu dull o weithredu ym maes tai sy'n iawn i bobl Cymru. Cyfeiriodd Mike Hedges at y llwyddiant a gawsom yn dod â thair gwag yn ôl i ddefnydd. Un yn unig yw honno o nifer o fentrau eraill.

Mae'n resyn gennyf na allwn gefnogi gwelliant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru fel y mae. Er y byddwn yn barod i edrych ar fodel rhentu i brynu, byddwn am weld tystiolaeth fwy cadarn o'r galw am gynllun o'r fath a'i effeithiolrwydd yn ymarferol.

Rydym yn hapus i dderbyn gwelliant 3 Plaid Cymru. Rydym wedi ymrwmo i ddiogelu ein tai cymdeithasol rhag gostyngiad pellach, ac rydym yn cymryd camau pendant i warchod ein stoc tai cymdeithasol i wneud yn siŵr eu bod ar gael i'r rhai sydd fwyaf o'u hangen. Nid wyf yn gweld unrhyw wrthdaro rhwng hyn a'n cymorth ymarferol i brynwyr tro cyntaf. Mae gweithredu o ddifrif ym maes tai yn galw am y ddau yn fy marn i.

Felly, wrth gloi, rwyf am fod yn hollol eglur. Rydym yn cydnabod ac yn cefnogi awydd llawer o bobl i brynu cartref. Rydym yn rhoi camau ymarferol ar waith i wneud hyn yn haws i brynwyr tro cyntaf, yn union fel rydym yn gweithio i helpu'r rhai sydd eisiau rhentu, boed yn y sector preifat neu'r sector cymdeithasol. Nid ydym, fodd bynnag, yn credu y bydd cynlluniau difeddwl, fel y rhai a gynnigir gan y Ceidwadwyr Cymreig, yn gwneud unrhyw beth o gwbl i brynwyr tro cyntaf sydd eisoes yn wynebu'r amodau economaidd mwyaf anodd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n rhaid i mi ychwanegu nad yw cyllideb Llywodraeth Geidwadol y DU heddiw, yn anffodus, wedi gwneud dim i helpu dyheadau pobl i fod yn berchen ar gartref.

16:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Darren Millar to reply to the debate. Darren Millar.

Galwaf ar Darren Millar i ymateb i'r ddadl. Darren Millar.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:27 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. I'm very disappointed to hear the Welsh Government's response to our debate today because it was brought here with every good intention, and that was to try to get a constructive dialogue about a range of options. As Jocelyn Davies quite rightly said, we need a range of options on the table to support first-time buyers to realise their aspiration of home ownership. We are the party that wants to help people fulfil their ambitions and fulfil their dreams of home ownership, not stifle them.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n siomedig iawn o glywed ymateb Llywodraeth Cymru i'n dadl heddiw am ei bod wedi cael ei chyflwyno gyda phob bwriad da, sef ceisio cael deialog adeiladol ynghylch ystod o opsiynau. Fel y dywedodd Jocelyn Davies yn hollol gywir, mae angen ystod o opsiynau ar y bwrdd i gefnogi prynwyr tro cyntaf i wireddu eu dyhead i fod yn berchen ar eu cartref. Ni yw'r blaid sydd eisiau helpu pobl i wireddu eu huchelgeisiau a'u breuddwydion o fod yn berchen ar gartref, nid eu mygu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I do accept that the Welsh Government has made some efforts to support people to own their own home. I fully accept that, but we are saying that there are other things also that can be done, and that is why we've put some proposals on the table today. I have to say that I was a bit disappointed that the Minister didn't talk about extending the commitment for Help to Buy Wales beyond 2016, because we all know that the UK Government has invited bids from across the UK, including Wales, which would allow you to make a commitment to 2020 had you actually submitted a bid. Perhaps the Minister will want to tell us. Has she submitted a bid? Is she prepared to submit a bid? Or is she just sitting, waiting for the outcome of the next election?

Rwy'n derbyn bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhai ymdrechion i gefnogi pobl i fod yn berchen ar eu cartref eu hunain. Rwy'n derbyn hynny'n llwyr, ond rydym yn dweud bod yna bethau eraill hefyd y gellir eu gwneud, a dyna pam ein bod wedi cyflwyno rhai cynigion heddiw. Rhaid i mi ddweud fy mod braidd yn siomedig na siaradodd y Gweinidog am ymestyn yr ymrwymiad i Cymorth i Brynu Cymru y tu hwnt i 2016, gan ein bod i gyd yn gwybod bod Llywodraeth y DU wedi gwahodd ceisiadau o bob rhan o'r DU, gan gynnwys Cymru, a fyddai'n eich galluogi i ymrwymo hyd at 2020 pe baech wedi cyflwyno cais mewn gwirionedd. Efallai y bydd y Gweinidog eisiau dweud wrthym. A yw hi wedi cyflwyno cais? A yw hi'n barod i gyflwyno cais? Neu a yw hi'n eistedd yn ôl gan aros am ganlyniad yr etholiad nesaf?

16:28 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have made my view very clear: I want to extend it beyond 2016. I cannot do that, and you're fully aware of that, until the UK Government tell us what funding we'll have.

Rwyf wedi gwneud fy marn yn glir iawn: rwyf am ymestyn y tu hwnt i 2016. Ni allaf wneud hynny, ac rydych yn gwbl ymwybodol o hynny, hyd nes y bydd Llywodraeth y DU yn dweud wrthym faint o gyllid a gawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:29 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I find it extraordinary you can't give that commitment because, to be fair to the health Minister, he's able to give three-year funding commitments to local health boards in Wales, which have a far bigger budget than the budget for your department. So, I do find it extraordinary that you're not able to make such an important commitment given the success of the scheme. Of course, that scheme itself is not the entirety of the answer. It's a popular scheme, but there are things that can be done to change that scheme, to redesign it, in order for it to better support first-time buyers. We've already heard from a number of contributors, including Mark Isherwood, about the need to include older houses and the renovation of older homes in that scheme in order that others can benefit from it.

Rwy'n ei chael hi'n anhygoel na allwch roi'r ymrwymiad hwnnw oherwydd, a bod yn deg i'r Gweinidog iechyd, mae'n gallu rhoi ymrwymadau cyllido tair blynedd i fyrddau iechyd lleol yng Nghymru, sydd â chyllideb lawer iawn yn fwy na'r gyllideb ar gyfer eich adran chi. Felly, rwy'n rhyfeddu nad ydych yn gallu gwneud ymrwymiad mor bwysig o ystyried llwyddiant y cynllun. Wrth gwrs, nid y cynllun ei hun yw'r ateb yn gyfan. Mae'n gynllun poblogaidd, ond mae yna bethau y gellir eu gwneud i newid y cynllun hwnnw, i'w ailgynllunio er mwyn iddo gefnogi prynwyr tro cyntaf yn well. Rydym eisoes wedi clywed gan nifer o gyfranwyr, gan gynnwys Mark Isherwood, am yr angen i gynnwys tai hŷn ac adnewyddu cartrefi hŷn yn y cynllun er mwyn i bobl eraill allu elwa ohono.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I heard what Peter Black had to say about rent-to-own schemes and, of course, they are something that, again, needs to be fully considered. We won't be able to support your amendment outright today, though, Peter, because you asked for a firm commitment, and I think it important that we take stock of this whole range of options before giving clear commitments to certain things. But of course, as we've heard, 82 per cent of people in Wales aspire to own their own homes. That's the highest proportion across all of the UK nations, and we need to do everything we can to help, because, as you have said, Peter, there will be consequences in the longer term for the welfare state and for taxpayers' pockets if we don't promote home ownership in a greater way than we currently are.

Clywais yr hyn a oedd gan Peter Black i'w ddweud am gynlluniau rhentu i brynu ac wrth gwrs, unwaith eto, mae'r rhain yn bethau sydd angen eu hystyried yn llawn. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gallu cefnogi eich gwelliant yn llwyr heddiw, Peter, am eich bod wedi gofyn am ymrwymiad cadarn, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i ni ystyried yr ystod gyfan o opsiynau cyn ymrwymo'n bendant i rai pethau. Ond wrth gwrs, fel y clywsom, mae 82 y cant o bobl Cymru yn dyheu i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain. Dyna'r gyfran uchaf ar draws holl wledydd y DU, ac mae angen i ni wneud popeth yn ein gallu i helpu, oherwydd fel y dywedoch, Peter, bydd canlyniadau yn y tymor hwy i'r wladwriaeth les ac i bocedi trethdalwyr os nad ydym yn hyrwyddo perchentyaeth yn well nag a wnawn ar hyn o bryd.

We've set out, of course, a number of proposals. The council tax holiday proposal I think is a very important one. As Jocelyn Davies has quite rightly said, any support with costs immediately after purchasing your first home is welcome. It can help you to be able to repay any relatives that you might have borrowed a deposit from, or to make contributions towards the costs associated with purchasing your own home, such as legal valuation and other fees. And of course, we must remember also that affordability comes into play here. Many mortgage providers now don't just look at multiples of income when determining the outcome of someone's application; they also look at the affordability criteria, and if we can make it more affordable, particularly in those first six months, I think that's very important.

I was very surprised to hear people referring to supply and demand. It's just simple economics, isn't it? Of course this is about supply and demand, and that's why I think it is disappointing that, even though we're creeping up in terms of the numbers of new homes being built, they're still at poor levels compared to those historically high levels back in the 80s and 90s under Conservative Governments. I think, Minister, instead of pouring cold water onto these proposals today, what would have been better would have been for you to have an open mind, to work on a cross-party basis to try and come up with a wider suite of measures that can help people own their own homes. I do hope that you will give further consideration to this. I know you're very charitable in other areas in considering proposals that come forward. You have been on the armed forces card scheme and on other things like that, and we appreciate that. But we approach this in the same spirit that we presented those ideas in the past, and I do hope that you will be able to put an olive branch in our direction and perhaps reconsider your position on these matters in the future. We've got clear plans: we want to see help with council tax, scrapping stamp duty for first-time buyers of homes up to £250,000, we want to develop a starter home Cymru scheme for those people who are under 40, and of course we want to see an increase in rent to buy, mortgage guarantee schemes, and shared ownership. I think we can all hopefully unite around this sort of vision for the people of Wales in the future. I urge people to support the motion.

Rydym wedi cyflwyno nifer o gynigion wrth gwrs. Mae'r cynnig ynghylch eithrio am gyfnod rhag y dreth gyngor yn un pwysig iawn yn fy marn i. Fel y dywedodd Jocelyn Davies yn gwbl briodol, mae unrhyw gymorth gyda chostau yn syth ar ôl prynu eich cartref cyntaf i'w groesawu. Gall eich helpu i allu ad-dalu unrhyw berthnasau y gallech fod wedi benthyg blaendal ganddynt, neu wneud cyfraniad tuag at y costau sy'n gysylltiedig â phrynu eich cartref eich hun, megis prisiadau cyfreithiol a ffioedd eraill. Ac wrth gwrs, rhaid i ni gofio hefyd bod fforddiadwyedd yn chwarae rhan yn hyn. Mae llawer o ddarparwyr morgaeisi bellach nid yn unig yn edrych ar luosrifau o incwm wrth benderfynu ar ganlyniad cais; maent hefyd yn edrych ar y meini prawf fforddiadwyedd, ac os gallwn ei wneud yn fwy fforddiadwy, yn enwedig yn y chwe mis cyntaf, rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn.

Roeddwn yn synnu'n fawr o glywed pobl yn cyfeirio at gyflenwad a galw. Mater o economeg syml yw hyn, onid e? Wrth gwrs mae'n ymwneud â chyflenwad a galw, a dyna pam rwy'n credu ei bod yn siomedig, er ein bod yn dringo'n raddol o ran nifer y cartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu, eu bod yn dal i fod ar lefelau gwael o gymharu â'r lefelau uchel yn hanesyddol yn ôl yn y 80au a'r 90au o dan Lywodraethau Ceidwadol. Weinidog, yn hytrach na thafllu dŵr oer ar y cynigion hyn heddiw, rwy'n meddwl y byddai wedi bod yn well i chi gael meddwl agored, i weithio ar sail drawsbleidiol er mwyn ceisio dod o hyd i gyfres ehangach o fesurau sy'n gallu helpu pobl i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain. Rwy'n gobeithio y byddwch yn rhoi ystyriaeth bellach i hyn. Rwy'n gwybod eich bod yn elusengar iawn mewn meysydd eraill yn ystyried cynigion a gyflwynir. Rydych wedi bod felly ynglŷn â'r cynllun cardiau lluoedd arfog ac ar bethau eraill felly, ac rydym yn gwerthfawrogi hynny. Ond rydym yn edrych ar hyn yn yr un ysbryd ag y cyflwynasom y syniadau hynny yn y gorffennol, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn gallu cymodi â ni ac ailystyried eich safbwynt ar y materion hyn yn y dyfodol efallai. Mae gennym gynlluniau clir: rydym am weld cymorth gyda'r dreth gyngor, cael gward ar y dreth stamp i brynwyr tro cyntaf cartrefi hyd at £250,000, rydym eisiau datblygu cynllun cartrefi cyntaf Cymru ar gyfer rhai o dan 40 oed, ac wrth gwrs rydym am weld cynnydd o ran rhentu i brynu, cynlluniau gwarant morgais a chydberchnogaeth. Rwy'n meddwl y gallwn i gyd uno gyda'n gilydd, gobeithio, i rannu gweledigaeth o'r fath ar gyfer pobl Cymru yn y dyfodol. Rwy'n annog pobl i gefnogi'r cynnig.

16:32

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does anybody object? [Objection.] I defer all voting on this item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Now, the Business Committee did agree that voting would be just before the short debate. We are now at that point, so we will move to some votes, unless anyone objects. No objections.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Nawr, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y byddai pleidleisio'n digwydd yn union cyn y ddatl fer. Rydym wedi cyrraedd y pwynt hwnnw yn awr, felly symudwn ymlaen at y pleidleisio, oni bai bod unrhyw un yn gwrthwynebu. Dim gwrthwynebiad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first vote will be on the debate by individual Members under Standing Order 11.21. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Mike Hedges, Jocelyn Davies, Alun Ffred Jones and Peter Black. Open the vote. Close the vote. In favour, 36; 10 abstentions; and none against. Therefore, the motion is carried.

Bydd y bleidlais gyntaf ar y ddadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Mike Hedges, Jocelyn Davies, Alun Ffred Jones a Peter Black. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid, 36; 10 yn ymatal; ac nid oes unrhyw bleidlais yn erbyn. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 36, Yn erbyn 0, Ymatal 10.

Motion agreed: For 36, Against 0, Abstain 10

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NNDM5799](#)

[Result of the vote on motion NNDM5799](#)

We now move to the vote on the Welsh Conservative debate. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Paul Davies. Now, if the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. Against, 10; seven abstentions—no, I'm sorry. In favour, 10; seven abstentions; and 29 against. I'm sorry, my screen cleared. Twenty-nine against? Yes. Therefore, the motion is not agreed.

Rydym bellach yn symud i bleidlais ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Nawr, os nad yw'r cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Yn erbyn, 10; 7 yn ymatal—na, mae'n ddrwg gennyf. O blaid, 10; 7 yn ymatal; a 29 yn erbyn. Mae'n ddrwg gennyf, fe gliriodd fy sgrin. 29 yn erbyn? Ie. Felly, nid yw'r cynnig wedi cael ei dderbyn.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 29, Ymatal 7.

Motion agreed: For 10, Against 29, Abstain 7.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5812](#)

[Result of the vote on motion NDM5812](#)

We will now vote on the amendments and I call for a vote on amendment 1, which is tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. In favour, 36; no abstentions; 10 against. Therefore, the amendment is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau a galwaf am bleidlais ar welliant 1, sy'n cael ei gyflwyno yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid, 36; neb yn ymatal; 10 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant : O blaid 36, Yn erbyn 10, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 36, Against 10, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5812](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5812](#)

I call for a vote on amendment 2, which is tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. In favour, five; 18 abstentions; 23 against. Therefore, the amendment falls.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2 sy'n cael ei gyflwyno yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid, 5; 18 yn ymatal; 23 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn cael ei wrthod.

Gwrthodwyd y gwelliant : O blaid 5, Yn erbyn 23, Ymatal 18.

Amendment agreed: For 5, Against 23, Abstain 18.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5812](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5812](#)

I now call for a vote on amendment 3, which is tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. In favour, 36; 10 abstentions; none against. Therefore, the amendment is carried.

Galwaf yn awr am bleidlais ar welliant 3, sy'n cael ei gyflwyno yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid, 36; 10 yn ymatal; neb yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn cael ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 36, Yn erbyn 0, Ymatal 10.

Amendment agreed: For 36, Against 0, Abstain 10.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5812](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5812](#)

16:35

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnis wedi'i ddiwygio.

Cynnis NDM5812 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5812 as amended:

Cynnis bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r anawsterau sy'n wynebu prynwyr tro cyntaf o dan yr amgylchiadau economaidd cyfredol.

1. Notes the difficulties facing first time buyers in current economic circumstances.

2. Yn cydnabod yr angen i helpu prynwyr tro cyntaf ar yr ysgol dai drwy weithio gyda'r farchnad gyfan i ddatblygu amrywiaeth o fentrau.

2. Recognises the need to help first-time buyers onto the property ladder by working with the whole market to develop a range of initiatives.

3. Yn cydnabod rôl tai cymdeithasol o ran darparu tai fforddiadwy cost isel, ac nad yw'n briodol i weithredu polisiâu prynu cartref a fyddai'n lleihau'r stoc tai cymdeithasol.

. Recognises the role of social housing in providing low cost affordable housing, and that it is inappropriate to enact home-buying policies that would deplete the social housing stock..

16:35

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. In favour, 36; 10 abstentions. Therefore, the amended motion is carried.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid, 36; 10 yn ymatal. Felly, caiff y cynnis diwygiedig ei dderbyn.

Derbyniwyd cynnis NDM5812 fel y'i diwygiwyd: O blaid 36, Yn erbyn 0, Ymatal 10.

Motion NDM5812 as amended agreed: For 36, Against 0, Abstain 10.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5812 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5812 as amended](#)

16:35

6. Dadl Fer: Y Rhwystrau i Gyflogaeth sy'n Wynebu Pobl sydd â Nam ar y Clyw yng Nghymru

6. Short Debate: The Employment Barriers that Face People with Hearing Loss in Wales

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the short debate.

Symudwn yn awr at y ddadl fer.

Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 16:35

Sandy Mewies took the Chair at 16:35.

16:35

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Item 6 is the short debate. I call on Mark Isherwood to speak on the topic he's chosen.

Eitem 6 yw'r ddadl fer. Galwaf ar Mark Isherwood i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis.

I and my family live with hearing loss. My father was fitted with two hearing aids in his mid-20s and long before subtitling and other technological aids, I grew up in a household where everybody shouted and the television and radio were always turned up loud. I was first fitted with hearing aids in my early 30s, as was my only sibling, my sister, but it was only the arrival of NHS digital hearing aids that allowed me to tackle most of the barriers that were disabling me. Having been a national winner for recitation at the Urdd Eisteddfod and a Flintshire member of the four counties choir and orchestra, my oldest daughter started losing her hearing as a teenager and received a cochlear implant a decade later.

A deaf or hard of hearing person is four times more likely to be unemployed than a hearing person. Deafness results in £4 billion in lost earnings and multiple studies have found the average wage for those with hearing loss is 25 per cent less compared with those without. People who are deaf or have severe hearing loss face a number of additional barriers when in employment, including early retirement, limited opportunities for career progression, increased levels of sick leave, loss of employment and difficulties in regaining employment.

Action on Hearing Loss member surveys in the UK repeatedly find that poor employment practice at work is pervasive and that their members face numerous barriers to employment. Seven out of 10 respondents say that their hearing loss at times prevented them from fulfilling their potential at work. A similar proportion state that they feel isolated at work because of their hearing loss. For those not in work, discriminatory attitudes from employers are seen by deaf and hard of hearing people as the main barrier to getting a job.

Rwyf fi a fy nheulu yn byw gyda nam ar y clyw. Cafodd fy nhad ddau gymorth clyw yng nghanol ei 20au ac ymhell cyn dyddiau isdeitlo a chymhorthion technolegol eraill, cefais fy magu mewn cartref lle'r oedd pawb yn gweiddi a'r teledu a'r radio bob amser wedi'u troi'n uchel. Cefais fy nghymhorthion clyw cyntaf yn fy 30au cynnar, fel fy unig chwaer, ond dyfodiad cymhorthion clyw digidol y GIG a'm galluogodd i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r rhwystrau a oedd yn fy anablu. Ar ôl bod yn enillydd cenedlaethol ar adrodd yn Eisteddfod yr Urdd ac un o aelodau Sir y Fflint o Gôr a cherddorfa'r pedair sir, dechreuodd fy merch hynaf golli ei chlyw yn ei harddegau a chafodd fewnblaniad yn y cochlea ddegawd yn ddiweddarach.

Mae person byddar neu drwm ei glyw bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na pherson sy'n clywed. Mae byddardod yn arwain at £4 biliwn o enillion a gollwyd ac mae astudiaethau niferus wedi canfod bod y cyflog cyfartalog i bobl sydd â nam ar y clyw 25 y cant yn is na phobl heb nam ar y clyw. Mae pobl sy'n fyddar neu sydd â nam difrifol ar y clyw yn wynebu nifer o rwystrau ychwanegol yn y gwaith, gan gynnwys ymddeoliad cynnar, cyfleoedd cyfyngedig o ran dilyniant gyrfa, lefelau uwch o absenoldeb salwch, colli gwaith ac anawsterau i gael gwaith arall.

Mae arolygon Action on Hearing Loss o'u haelodau yn y DU wedi gweld dro ar ôl tro fod arferion cyflogaeth gwael yn y gwaith yn hollbresennol a bod eu haelodau'n wynebu rhwystrau niferus i gyflogaeth. Mae saith o bob 10 o'r ymatebwyr yn dweud bod eu byddardod ar adegau wedi eu hatal rhag cyflawni eu potensial yn y gwaith. Roedd cyfran debyg yn honni eu bod yn teimlo'n ynysig yn y gwaith oherwydd eu byddardod. I rai nad ydynt yn gweithio, mae pobl fyddar a phobl â nam ar eu clyw yn ystyried mai agweddau gwahaniaethol cyflogwyr yw'r prif rwystr i gael swydd.

In Wales, the issues of disability and unemployment are significant. Wales has more disabled people per capita and more disabled people in Wales are unemployed compared with other parts of the UK. In Wales, an estimated 4 per cent of the working-age population wear hearing aids, have severe hearing loss or are profoundly deaf. Action on Hearing Loss Cymru recently commissioned Dr Tammy Boyce to look deeper into the issues facing people with hearing loss in Wales. The charity has published their findings in the report 'Able, Ready to Work...and Deaf'. This report found that, although more than a third of the Access to Work budget is spent on people with hearing loss—and I know it's a UK Government budget—poor practice in accessibility means that people with hearing loss are sometimes told they have to phone Access to Work to address problems. The report states that people with hearing loss are often bereft of the support they need and lack access to technology and advice, that Access to work assessors don't have the appropriate knowledge about support available, and that specialist employment agencies and specialist disability employment advisers in job centres are often ill-equipped to help people with hearing loss. People interviewed in the report talked of almost total ignorance of their needs. The report highlights lack of awareness among deaf people of the specialist employment agencies available to them. The report also found that people's attitudes can affect the chances of someone who has hearing loss and how employers can be reluctant to appoint them, mostly due to ignorance about support such as Access to Work.

Action on Hearing Loss Cymru is therefore asking the Welsh Government to ensure that all of its work programmes are accessible to people with hearing loss, that they are marketed as open to people with diverse needs, and that communication support is available to people thinking about joining a Welsh Government work programme. The report gives the example of an internship available in England for people who are disabled and not quite ready yet for mainstream programmes. This type of internship programme in Wales could provide substantial support to people looking for work and also improve employers' deaf awareness. I hope the Minister will respond to that point specifically.

Referring to the Department for Work and Pensions, Jobcentre Plus and other specialist employment agencies, the report states that programmes should include both in-work support to individual employers, to build their capacity to support disabled employees, and out-of-work support to engage with employers and local labour markets to source and secure job opportunities. The same, of course, should apply to the Welsh Government's own programmes including Jobs Growth Wales, Communities for Work and Lift. The people who provide support and services are supposed to be aware of the needs of people who are deaf or have hearing loss. If they're not, this could be labelled as discrimination. However, as the 'Able, Ready to Work...and Deaf' report demonstrates, there's still a long way to go before equal employment opportunities are available to people who are deaf or have hearing loss.

Yng Nghymru, mae materion yn ymwneud ag anabledd a diweithdra yn arwyddocaol. Mae gan Gymru fwy o bobl anabl y pen ac mae mwy o bobl anabl yng Nghymru yn ddi-waith o gymharu â rhannau eraill o'r DU. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 4 y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio yn gwisgo cymhorthion clyw, â nam difrifol ar eu clyw neu'n hollol fyddar. Yn ddiweddar, comisiynodd Action on Hearing Loss Cymru Dr Tammy Boyce i edrych yn fanylach ar y problemau sy'n wynebu pobl â nam ar y clyw yng Nghymru. Cyhoeddodd yr elusen eu canfyddiadau yn yr adroddiad 'Able, Ready to Work... and Deaf'. Canfu'r adroddiad, er bod mwy na thraean o'r gyllideb Mynediad i Waith yn cael ei gwario ar bobl â nam ar y clyw—ac rwy'n gwybod mai cyllideb Llywodraeth y DU yw hi—mae arferion gwael o ran hygyrchedd yn golygu bod pobl â nam ar y clyw weithiau'n cael gwybod bod yn rhaid iddynt ffonio Mynediad i Waith er mwyn mynd i'r afael â phroblemau. Dywed yr adroddiad fod pobl sydd â nam ar y clyw yn aml yn cael eu hamddifadu o'r cymorth sydd ei angen arnynt a heb fynediad at dechnoleg a chynngor, nad yw aseswyr Mynediad i Waith yn meddu ar wybodaeth briodol am y cymorth sydd ar gael, a bod asiantaethau cyflogaeth arbenigol a chynghorwyr arbenigol ar gyflogaeth i'r anabl mewn canolfannau gwaith yn aml heb eu paratoi'n ddigonol i helpu pobl sy'n drwm eu clyw. Siaradau'r bobl a gyfwelwyd yn yr adroddiad am anwybodaeth lwyr bron o'u hanghenion. Mae'r adroddiad yn amlygu diffyg ymwybyddiaeth ymhlith pobl fyddar o'r asiantaethau cyflogaeth arbenigol sydd ar gael iddynt. Canfu'r adroddiad hefyd y gall agweddau pobl effeithio ar obaith rhywun sy'n drwm eu clyw o gael gwaith a sut y gall cyflogwyr fod yn amharod i'w penodi, yn bennaf oherwydd anwybodaeth ynglŷn â chymorth fel Mynediad i Waith.

Mae Action on Hearing Loss Cymru, felly, yn gofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei holl raglenni gwaith yn hygyrch i bobl sydd â nam ar eu clyw, eu bod yn cael eu marchnata'n agored i bobl ag anghenion amrywiol, a bod cymorth cyfathrebu ar gael i bobl sy'n ystyried ymuno ag un o raglenni gwaith Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn rhoi enghraifft o interniaeth sydd ar gael yn Lloegr ar gyfer pobl sy'n anabl a heb fod yn hollol barod eto ar gyfer rhaglenni prif ffrwd. Gallai'r math hwn o raglen interniaeth yng Nghymru roi cymorth sylweddol i bobl sy'n chwilio am waith a gwella ymwybyddiaeth cyflogwyr o fyddardod hefyd. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn ymateb i'r pwynt hwnnw yn benodol.

Gan gyfeirio at yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Ganolfan Byd Gwaith ac asiantaethau cyflogaeth arbenigol eraill, dywed yr adroddiad y dylai rhaglenni gynnwys cefnogaeth yn y gwaith i gyflogwyr unigol, i adeiladu eu gallu i gefnogi gweithwyr anabl, a chymorth y tu allan i'r gwaith i ymgysylltu â chyflogwyr a marchnadoedd llafur lleol i ganfod a sicrhau cyfleoedd gwaith. Dylai'r un fath, wrth gwrs, fod yn berthnasol i raglenni Llywodraeth Cymru ei hun, gan gynnwys Twf Swyddi Cymru, Cymunedau am Waith ac Esgyn. Dylai'r bobl sy'n darparu cymorth a gwasanaethau fod yn ymwybodol o anghenion pobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw. Os nad ydynt, gallai gael ei labelu fel gwahaniaethu. Fodd bynnag, fel y dengys yr adroddiad 'Able, Ready to Work...and Deaf', mae ffordd bell i fynd cyn y bydd cyfleoedd cyflogaeth cyfartal ar gael i bobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw.

If the barriers to entering employment faced by deaf young people are reduced at an early age, more will be able to enter the world of work. Every school pupil must secure work experience at different stages in their school career, but for deaf young people it's very difficult to secure a meaningful placement. National Deaf Children's Society Cymru would like to see a focused campaign to get more employers to offer deaf young people work experience placements, and believes that the Welsh Government also has an opportunity to support deaf young people entering the world of work through the additional learning needs Bill.

The draft additional learning needs Bill proposes that young people in further education will have an individual development plan, but National Deaf Children's Society Cymru believes that ensuring young people undertaking apprenticeships also have an individual development plan will improve the transition between school, college and work, and greatly reduce their barriers to employment.

As my oldest daughter has written:

'Hearing loss and deafness can be extremely isolating and frustrating. However, I firmly believe that with good communication support and better deaf awareness training, it is possible for deaf and hard of hearing persons to achieve their full potential and to have successful careers.'

'I was not born deaf', she said,

'I am deafened and I know I am one of the lucky ones in that for most of my childhood and school education I was not challenged by the barriers of hearing loss...I was 17 when I first noticed a change in my hearing...I am now profoundly deaf. When I am not wearing my processor and hearing aid I cannot hear anything...The support I received at Aberystwyth University enabled me to have a very fulfilling and active university experience...Unfortunately, I have experienced the problems faced when an educational establishment has no provision for a disability officer and is not deaf aware. Following graduation I enrolled at the college of law, Chester to study for a postgraduate diploma in legal practice otherwise known as the LPC...The college of law did very little to remove barriers to my learning and this is appalling considering it is run by lawyers.... When it came to applying for jobs I was met with the dilemma of whether I should disclose my hearing loss. After all, an application can be rejected for any number of reasons so how can one ever really prove that this was because a disability was disclosed? In the past I did make applications disclosing my hearing loss and did not get called to interview, this could just be a coincidence. However, as soon as I started making applications without mentioning my hearing loss I got called to more interviews...Despite having discussed my disability with numerous careers officers in the past nobody had ever advised me of Access to Work. I was fortunate to stumble across it as a consequence of my father's role as a Member of the Welsh Assembly. What I have found is that not only are disabled persons unaware of this support but also employers...I want to see the barriers removed.'

Pe bai'r rhwystrau rhag cael gwaith a wynebir gan bobl ifanc byddar yn cael eu lleihau ar oedran ifanc, byddai mwy ohonynt yn gallu mynd i mewn i'r byd gwaith. Rhaid i bob disgybl ysgol sicrhau profiad gwaith ar wahanol gyfnodau yn eu gyrfa ysgol, ond i bobl ifanc fyddar mae'n anodd iawn sicrhau lleoliad ystyrlon. Byddai'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru yn hoffi gweld ymgyrch benodol i gael mwy o gyflogwyr i gynnig lleoliadau profiad gwaith i bobl ifanc fyddar, ac mae'n credu bod cyfle hefyd i Lywodraeth Cymru gefnogi pobl ifanc fyddar sy'n mynd i mewn i fyd gwaith drwy'r Bil anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r Bil anghenion dysgu ychwanegol drafft yn argymhell y dylai pobl ifanc mewn addysg bellach gael cynllun datblygu unigol, ond mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru yn credu y bydd sicrhau bod pobl ifanc ar brentisiaeth hefyd yn cael cynllun datblygu unigol yn gwella'r broses o bontio rhwng yr ysgol, y coleg a gwaith, ac yn lleihau eu rhwystrau i gyflogaeth yn sylweddol.

Fel yr ysgrifennodd fy merch hynaf:

'Gall colli clyw a byddardod fod yn hynod ynysig ac yn rhwystredig. Fodd bynnag, gyda chymorth cyfathrebu da a gwell hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod, rwy'n credu'n gryf ei bod hi'n bosibl i bobl fyddar a thrwm eu clyw gyflawni eu potensial llawn a chael gyrfa oedd llwyddiannus.'

'Ni chefais fy ngeni'n fyddar', meddai,

'Rwyf wedi colli fy nghlyw ac rwy'n gwybod fy mod yn un o'r rhai llwus gan na chefais fy herio â rhwystrau byddardod am y rhan fwyaf o fy mhentyndod a fy addysg ysgol... roeddwn yn 17 pan sylwais gyntaf ar newid yn fy nghlyw... Rwy'n fyddar iawn bellach. Pan nad wyf yn gwisgo fy mhrosesydd a fy nghymorth clyw, ni allaf glywed unrhyw beth... Mae'r gefnogaeth a gefais ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi fy ngalluogi i gael profiad prifysgol llawn a bywiog iawn... Yn anffodus, rwyf wedi profi'r problemau a wynebir pan nad yw sefydliad addysgol yn darparu swyddog anabledd ac yn brin o ymwybyddiaeth o fyddardod. Ar ôl graddio cofrestrais yng ngholeg y gyfraith, Caer i astudio am ddiploma ôl-raddedig mewn ymarfer cyfreithiol a elwir hefyd yn LPC... Ychydig iawn a wnaeth coleg y gyfraith i ddileu rhwystrau i fy nysgu ac mae hyn yn warthus o ystyried ei fod yn cael ei redeg gan gyfreithwyr... Pan ddaeth yn adeg ymgeisio am swyddi wynebais y cyfng-gyngor ynglŷn ag a ddylwn ddatgelu fy myddardod. Wedi'r cyfan, gellir gwrthod cais am nifer o resymau, felly sut y gall neb brofi mewn gwirionedd mai yn sgil datgelu anabledd y gwneir hynny? Yn y gorffennol roeddwn i wedi ymgeisio gan ddatgelu fy myddardod ac ni chefais fy ngwahodd i gyfweiliad. Gallai hyn fod yn gyd-ddigwyddiad. Fodd bynnag, cyn gynted ag y dechreuais ymgeisio heb sôn am fy myddardod, cefais fy ngwahodd i fwy o gyfweiliadau... Er i mi drafod fy anabledd gyda nifer o swyddogion gyrfa oedd yn y gorffennol, ni soniodd neb wrthyf am Mynediad i Waith. Roeddwn yn ffodus i ddod ar ei draws o ganlyniad i waith fy nhad fel Aelod o'r Cynulliad. Rwyf wedi gweld nid yn unig nad yw pobl anabl yn ymwybodol o'r cymorth hwn, ond nid yw cyflogwyr wedi clywed amdano chwaith... Rwyf am weld y rhwystrau'n cael eu dileu.'

The social model of disability recognises that people are disabled by society, not themselves, that we must work together to tackle the barriers to access and inclusion for all, and that everyone must be allowed independence, choice and control in their own lives. However, the Action on Hearing Loss report shows a group of people who desperately want to work, but find themselves facing barrier after barrier. We need services that help people into work, not that present barriers and disincentives to people with hearing loss.

Programmes and processes that support and service providers need to improve and adequately reflect the needs of people who are deaf or have hearing loss. This means having staff who understand deafness and hearing loss, and who take seriously requests for private rooms and having e-mail contact. Further additional levels of support are required for employers in manual jobs, such as the construction industry. Remploy Cymru partners with local authorities, employers, disability and community organisations and the Welsh and UK Governments to provide sustainable employment opportunities for disabled people. Remploy rightly believes that employment is the most effective route out of poverty and towards social inclusion for many disabled people in Wales.

Too many participants still have too many experiences of employers who believe recruiting a person who is deaf or who has hearing loss is daunting. Efforts should therefore be made to demonstrate and explain to employers that deafness and hearing loss need not be an obstacle to hiring employees, and that health and safety is not an impossible problem. This requires a direct approach, working with work providers, creating case studies online and profiling supportive employers. Let's also promote the deaf mark. Let's have employers across Wales having a mark that they can put up on their wall because they've shown that they are friendly to disabled employment generally, and, specifically in this case, to people who are deaf or with hearing loss.

We must find sustainable employment for disabled people in Wales and help more deaf and hard of hearing people to gain equal employment and career opportunities—supporting individuals towards work, supporting employers to confidently recruit, retaining and sustaining talented individuals, putting ability first. Thank you.

Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn cydnabod mai cymdeithas sy'n anablu pobl, nid hwy eu hunain, fod yn rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad a chynhwysiant i bawb, ac y dylid caniatáu annibyniaeth, dewis a rheolaeth i bawb yn eu bywydau eu hunain. Fodd bynnag, mae adroddiad Action on Hearing Loss yn dangos grŵp o bobl sy'n daer eisiau gweithio, ond yn wynebu rhwystr ar ôl rhwystr. Mae arnom angen gwasanaethau sy'n helpu pobl i gael gwaith, nid rhai sy'n cyflwyno rhwystrau ac anghymhellion i bobl sydd â nam ar y clyw.

Mae angen i raglenni a phrosesau cymorth a darparwyr gwasanaethau wella ac adlewyrchu anghenion pobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw yn ddigonol. Mae hyn yn golygu cael staff sy'n deall byddardod a cholli clyw, ac sy'n rhoi ystyriaeth ddifrifol i ystafelloedd preifat a chyswllt e-bost. Mae angen lefelau ychwanegol pellach o gymorth i gyflogwyr mewn swyddi gwaith llaw, megis y diwydiant adeiladu. Mae Remploy Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cyflogwyr, sefydliadau anabledd a sefydliadau cymunedol, a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy ar gyfer pobl anabl. Mae Remploy yn llygad eu lle yn credu mai cyflogaeth yw'r ffordd wyaif effeithiol allan o dlodi a thuag at gynhwysiant cymdeithasol i lawer o bobl anabl yng Nghymru.

Mae gormod o gyfranogwyr yn dal i gael gormod o brofiadau o gyflogwyr sy'n credu bod recriwtio person sy'n fyddar neu sy'n drwm ei glyw yn anodd. Felly, dylid ymdrechu i ddangos ac egluro i gyflogwyr nad oes raid i fyddardod a cholli clyw fod yn rhwystr i gyflogi gweithwyr, ac nad yw iechyd a diogelwch yn broblem amhosibl. Mae hyn yn galw am agwedd uniongyrchol, a gweithio gyda darparwyr gwaith, gan greu astudiaethau achos ar-lein a phroffilio cyflogwyr cefnogol. Gadewch i ni hefyd hyrwyddo'r nod byddar. Gadewch i ni gael nod ar gyfer cyflogwyr ledled Cymru y gallant ei roi ar eu wal am eu bod wedi dangos eu cefnogaeth i gyflogaeth pobl anabl yn gyffredinol, a phobl fyddar neu drwm eu clyw yn benodol yn yr achos hwn.

Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy ar gyfer pobl anabl yng Nghymru a helpu mwy o bobl fyddar a thrwm eu clyw i gael cyfleoedd cyfartal o ran gwaith a gyrfa—gan gynorthwyo unigolion i ddod o hyd i waith, cynorthwyo cyflogwyr i recriwtio'n hyderus, gan gadw a chynnal unigolion dawnus, a rhoi gallu yn gyntaf. Diolch yn fawr.

16:47

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to reply to the debate—Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ymateb i'r ddadl—Lesley Griffiths.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:47

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Chair. I very much welcome the opportunity to respond to this short debate today on behalf of the Welsh Government, and I think we can all understand why Mark Isherwood chose this subject, having heard of his and his family's difficulties. As a Government, we are committed to doing what we can to ensure the full economic participation of all of our citizens, and we are committed to addressing the barriers that are preventing employment.

Diolch, Gadeirydd. Rwy'n croesawu'n fawr y cyfle i ymateb i'r ddadl fer hon heddiw ar ran Llywodraeth Cymru, ac rwy'n meddwl y gallwn i gyd ddeall pam y dewisodd Mark Isherwood y pwnc hwn, ar ôl clywed am ei anawsterau ef a'i deulu. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i wneud yr hyn a allwn i sicrhau cyfranogiad economaidd llawn pob un o'n dinasyddion, ac rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal cyflogaeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Disability is a significant issue in Wales, with one in five people being disabled and, across the UK, disabled people are more likely to be unemployed. A deaf or a hard of hearing person is four times more likely to be unemployed than a hearing person, and those who are in employment face a number of additional barriers, including limited opportunities for career progression and loss of employment.

Disabled people have told us about the barriers they face to getting and keeping a job, such as relatively low skill and qualification levels, physical barriers, such as access to buildings and transport to work, and negative attitudes of employers or other staff. Welsh Government is committed to ensuring that all disabled people, including those who are deaf or hard of hearing, are equipped with the skills they need to secure satisfying careers. Objective 5 of our strategic equality plan sets out the actions we are taking to tackle the barriers and support disabled people so they can live independently and exercise choice and control in their daily lives. Our framework for action on independent living focuses on delivery and the actions we're taking across Welsh Government departments and also with our external partners. Employment is included as a key priority in our framework for action on independent living. Besides promoting independence, it can help improve confidence, health and wellbeing, and it provides a route out of poverty. The social aspects of employment are also enormously beneficial.

Education and training are essential to employability. To make a sustainable impact on employment rates for disabled people, it is important disabled children and young people are supported so they have access to the same educational and training opportunities as their peers. Different types of employment all have a role in increasing participation by disabled people, including mainstream employment, self-employment, social enterprises and supported employment, which can itself lead to mainstream employment. I was actually very surprised that Mark Isherwood referred to Remploy. It was the UK Conservative Government that got rid of Remploy, but I shall go back to my charitable status, which Darren Millar referred to.

Mae anabledd yn broblem sylweddol yng Nghymru, gydag un o bob pump o bobl yn anabl, ac ar draws y DU, mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith. Mae person byddar neu drwm eu clyw bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na pherson sy'n clywed, ac mae'r rhai sydd mewn gwaith yn wynebu nifer o rwystrau ychwanegol, gan gynnwys cyfleoedd cyfyngedig o ran dilyniant gyrfa a cholli gwaith.

Mae pobl anabl wedi dweud wrthym am y rhwystrau y maent yn eu hwynebu rhag cael swydd a'i chadw, megis lefelau cymharol isel o sgiliau a chymwysterau, rhwystrau corfforol, megis mynediad i adeiladau a thrafnidiaeth i'r gwaith, ac agweddau negyddol cyflogwyr neu aelodau eraill o staff. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod yr holl bobl anabl, gan gynnwys y rhai sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw, yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn sicrhau gyrfaedd boddhaol. Mae amcan 5 o'n cynllun cydraddoldeb strategol yn nodi'r camau rydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhwystrau a chefnogi pobl anabl fel y gallant fyw'n annibynnol ac arfer dewis a rheolaeth yn eu bywydau bob dydd. Mae ein fframwaith gweithredu ar fyw'n annibynnol yn canolbwyntio ar gyflawni a'r camau rydym yn eu rhoi ar waith ar draws adrannau Llywodraeth Cymru a hefyd gyda'n partneriaid allanol. Mae cyflogaeth yn cael ei chynnwys fel blaenoriaeth allweddol yn ein fframwaith gweithredu ar fyw'n annibynnol. Ar wahân i hyrwyddo annibyniaeth, gall helpu i wella hyder, iechyd a lles, ac mae'n darparu llwybr allan o dlodi. Mae agweddau cymdeithasol ar gyflogaeth hefyd yn hynod o fuddiol.

Mae addysg a hyfforddiant yn hanfodol i gyflogadwyedd. I gael effaith gynaliadwy ar gyfraddau cyflogaeth ymhlith pobl anabl, mae'n bwysig cynorthwyo plant a phobl ifanc er mwyn iddynt allu manteisio ar yr un cyfleoedd addysgol a hyfforddiant â'u cyfoedion. Mae rôl gan wahanol fathau o gyflogaeth o ran cynyddu cyfranogiad pobl anabl, gan gynnwys cyflogaeth prif ffrwd, hunangyflogaeth, mentrau cymdeithasol a chyflogaeth gyda chefnogaeth, a all arwain at gyflogaeth prif ffrwd. Roeddwn yn synnu mewn gwirionedd fod Mark Isherwood wedi cyfeirio at Remploy. Llywodraeth Geidwadol y DU a gafodd wared ar Remploy, ond af yn ôl at fy statws elusengar, y cyfeiriodd Darren Millar ati.

16:50

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Remploy Cymru was established as an offshoot. Remploy, of course, has continued operating, with a very successful office in your own local constituency. I was fortunate to host the launch of Remploy Cymru earlier this year and to welcome members of the Welsh Government to equally celebrate that establishment, so I hope you'll join me in recognising the work they do and recognising that the Welsh Government does work with them and acknowledge how that can be developed to the mutual benefit of the people who depend upon the services that you both provide.

Cafodd Remploy Cymru ei sefydlu fel cangen ar wahân. Mae Remploy, wrth gwrs, wedi parhau i weithredu, gyda swyddfa lwyddiannus iawn yn eich etholaeth leol chi. Roeddwn yn ffodus i gynnal lansiad Remploy Cymru yn gynharach eleni ac i groesawu aelodau o Lywodraeth Cymru i ddathlu'r sefydliad hwnnw gyda'i gilydd, felly rwy'n gobeithio y byddwch yn ymuno â mi i gydnabod y gwaith y maent yn ei wneud ac yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda hwy ac yn cydnabod sut y gellir eu datblygu er budd y bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau rydych chi a hwythau yn eu darparu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yes, absolutely I do, and you're quite right—Welsh Government does fund it. But I don't think that I could not point out what the UK Government did to Remploy. I visited a Remploy factory in my own constituency of Wrexham, and it was actually a deaf gentleman who said to me, 'I want to work in this sort of supported employment'. He was signing with a colleague, and he said that, if he went into mainstream employment, he didn't think he would have that opportunity.

The framework I referred to identifies it is not only action on education and employment practices that is necessary to improve employment prospects for disabled people, but, for example, access to buildings and public transport. So, the steps we are taking in this area will also contribute to this agenda.

Our key priority remains to progress young people and adults into employment at the earliest opportunity and all programmes that support unemployed individuals, both through the Welsh Government and the Department for Work and Pensions, are open to everyone, irrespective of their personal circumstances, to ensure equality of opportunity. Welsh Government programmes are flexible, and they've been designed to provide additional learning support to help those who may require a more supported training environment.

The Welsh Government's work-based learning suite of employability programmes, which consists of traineeships for young people aged 16 to 18, Work Ready for adults 18-plus and apprenticeships, aims to support young people and adults to gain sustained employment by improving their skill level through the delivery of NVQs in their chosen occupational area and appropriate to their level of learning. All work-based learning providers may claim additional learning support funding to assist them with the costs of securing the support necessary to make their provision accessible to learners who are disabled or who have learning difficulties and/or disabilities. We are currently developing the replacement programme for Work Ready. During the consultation phase for this programme, we met with a number of representatives of special interest groups, including Action on Hearing Loss, to better understand the issues they raised, and the new programme will certainly aim to address those issues.

Gwnaf, yn bendant, ac rydych yn llygad eich lle—Llywodraeth Cymru sy'n ei ariannu. Ond nid wyf yn meddwl na allwn dynnu sylw at yr hyn a wnaeth Llywodraeth y DU i Remploy. Ymwelais â ffatri Remploy yn fy etholaeth yn Wrecsam, a gŵr byddar mewn gwirionedd a ddywedodd wrthyf, 'Rwyf eisiau gweithio yn y math yma o gyflogaeth gyda chefnogaeth'. Defnyddiai iaith arwyddion gyda chydweithiwr, a dywedodd, pe bai'n mynd i gyflogaeth prif ffrwd, nad oedd yn meddwl y byddai'n cael y cyfle hwnnw.

Mae'r fframwaith y cyfeiriais ato yn nodi nad gweithredu ar arferion addysg a chyflogaeth yn unig sy'n angenrheidiol i wella rhagolygon cyflogaeth ar gyfer pobl anabl, ond mynediad i adeiladau, er enghraifft, a thrafnidiaeth gyhoeddus. Felly, bydd y camau rydym yn eu cymryd yn hyn o beth hefyd yn cyfrannu at yr agenda hon.

Ein prif flaenoriaeth o hyd yw symud pobl ifanc ac oedolion ymlaen i gyflogaeth ar y cyfle cyntaf ac mae'r holl raglenni sy'n cefnogi unigolion di-waith, drwy Lywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn agored i bawb, beth bynnag yw eu hamgylchiadau personol, er mwyn sicrhau cyfle cyfartal. Mae rhaglenni Llywodraeth Cymru yn hyblyg, ac maent wedi eu cynllunio i ddarparu cymorth dysgu ychwanegol i helpu'r rhai a allai fod angen amgylchedd hyfforddi gyda mwy o gefnogaeth.

Nod darpariaeth ddysgu seiliedig ar waith Llywodraeth Cymru o raglenni cyflogadwyedd, sy'n cynnwys hyfforddeiaethau ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed, Barod am Waith ar gyfer oedolion 18 a hŷn a phrentisiaethau, yw cefnogi pobl ifanc ac oedolion i gael gwaith cynaliadwy drwy wella eu lefel sgiliau drwy ddarparu NVQs yn eu maes galwedigaethol dewisol a phriodol i lefel eu dysgu. Gall yr holl ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith hawlio cyllid cymorth dysgu ychwanegol i'w helpu gyda chostau sicrhau'r cymorth sy'n angenrheidiol i wneud eu darpariaeth yn hygyrch i ddysgwyr sy'n anabl neu sydd ag anawsterau a/neu anabledau dysgu. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu rhaglen newydd yn lle Barod am Waith. Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gyfer y rhaglen hon, fe gyfarfuom â nifer o gynrychiolwyr grwpiau diddordeb arbennig, gan gynnwys Action on Hearing Loss, i ddeall y materion a grybwyllwyd ganddynt yn well, a bydd y rhaglen newydd yn sicrhau yn anelu i fynd i'r afael â'r materion hynny.

The youth engagement and progression framework works as part of the Welsh Government's commitment to increase the engagement and progression of young people, and a key feature is the identification of a lead worker who will work with the most at-risk young people to help ensure support is delivered and that their specific needs are met. This ensures particular attention can be paid to the needs of young people with additional needs or who may have additional barriers. I'm pleased to be providing equality and inclusion grant funding for Action on Hearing Loss's sensory inclusion project. That is focused on providing people with sensory loss an opportunity to tell service providers what it's like to be blind, partially sighted, deaf or hard of hearing and the difficulties they face using everyday services.

A recent report by Action on Hearing Loss, 'Able, ready to work...and deaf' also highlighted the barriers facing people who are deaf when in work or looking for work. Of course, the Welsh Government does not hold all the levers to support disabled people into employment. Overall policy relating to actions to support people into work sits with the UK Government through the Department for Work and Pensions, and my officials work very closely with DWP officials through our regular liaison channels and with DWP policy leads to raise issues of concern or emerging issues to improve matters for disabled people in Wales.

Last September, the Welsh Government held an access to work review stakeholder workshop to provide an opportunity for Welsh stakeholders to input into the access to work review, which was being undertaken by DWP. In 2015, DWP have launched their personalisation pilots to trial an enhanced specialist adviser role to support disabled people into work. Again, officials are working very closely with DWP Jobcentre Plus partnership managers for Wales on the progress of the trials.

Officials in Welsh Government also had the opportunity to work with DWP in the development of their disability and health employment strategy. So, we wish to continue to develop stronger links with DWP to help in the delivery of more support for disabled people and people with a health condition to fulfil their employment aspirations, enabling them to find work and supporting them not just to stay in work but also to progress in work.

I think it's really essential we contribute from a Welsh perspective to ensure the maximum benefits for people in Wales. So, even though there is much to do if disabled people are to be able to compete on equal terms in the jobs market, we are taking positive steps in many areas, working to tackle the barriers that may restrict participation in the economy for those with hearing loss. Diolch.

Mae'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid yn gweithio fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu ymgysylltiad a datblygiad pobl ifanc, a nodwedd allweddol ohono yw'r gofyniad i ddynodi gweithiwr arweiniol i weithio gyda'r bobl ifanc sy'n wynebu fwyaf o risg er mwyn helpu i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu a bod eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu. Mae hyn yn sicrhau y gellir rhoi sylw penodol i anghenion pobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol neu a allai wynebu rhwystrau ychwanegol. Rwy'n falch o ddarparu cyllid grant cydraddoldeb a chynhwysiant ar gyfer prosiect cynhwysiant synhwyraidd Action on Hearing Loss. Mae'n canolbwyntio ar roi cyfle i bobl â nam ar y synhwyrau ddweud wrth ddarparwyr gwasanaethau sut beth yw bod yn ddall, yn rhannol ddall, yn fyddar neu'n drwm eu clyw a'r anawsterau y maent yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau pob dydd.

Mae adroddiad diweddar gan Action on Hearing Loss, 'Able, ready to work... and deaf' hefyd yn tynnu sylw at y rhwystrau sy'n wynebu pobl fyddar yn eu gwaith neu wrth chwilio am waith. Wrth gwrs, nid yw'r holl ddulliau o gynorthwyo pobl anabl i gael gwaith ym meddiant Llywodraeth Cymru. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw'r polisi cyffredinol sy'n ymwneud â chamau i gefnogi pobl i gael gwaith, drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau, ac mae fy swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau drwy ein sianelau cyswllt rheolaidd a gydag arweinwyr polisi yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn rhoi sylw i faterion sy'n peri pryder neu faterion sy'n dod i'r amlwg er mwyn gwella pethau i bobl anabl yng Nghymru.

Fis Medi diwethaf, cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdy i randdeiliaid yr adolygiad mynediad i waith er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid yng Nghymru gyfrannu at yr adolygiad mynediad i waith gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yn 2015, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi lansio eu cynlluniau peilot personoli i dreialu swydd cynghorydd arbenigol ychwanegol i gynorthwyo pobl anabl i ddod o hyd i waith. Unwaith eto, mae swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda rheolwyr partneriaethau DWP Canolfan Byd Gwaith Cymru ar gynnydd y treialon.

Hefyd, cafodd swyddogion yn Llywodraeth Cymru gyfle i weithio gyda DWP ar ddatblygu eu strategaeth cyflogaeth anabledd ac iechyd. Felly, rydym yn awyddus i barhau i ddatblygu cysylltiadau cryfach gyda DWP i helpu gyda'r gwaith o ddarparu mwy o gymorth i bobl anabl a phobl â chyflwr iechyd i gyflawni eu dyheadau cyflogaeth, a'u galluogi i ddod o hyd i waith a'u cefnogi, nid yn unig i aros mewn gwaith ond hefyd i gamu ymlaen yn y gwaith.

Rwy'n credu ei bod wirioneddol hanfodol ein bod yn cyfrannu o bersbectif Cymreig i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i bobl Cymru. Felly, er bod llawer i'w wneud os yw pobl anabl am allu cystadlu ar delerau cyfartal yn y farchnad swyddi, rydym yn rhoi camau cadarnhaol ar waith mewn llawer o feysydd, gan weithio i fynd i'r afael â'r rhwystrau a allai gyfyngu ar gyfranogiad pobl â nam ar y clyw yn yr economi. Diolch.

16:55

Sandy Mewies [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you. That brings today's proceedings to a close.

Diolch yn fawr. Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 16:55.

The meeting ended at 16:55.